

8042-03 – 11, 23

City & Guilds Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2)

C00/4169/2

Llawlyfr Cymwysterau

Fersiwn 2 – Ionawr 2022



Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| Diben y cymhwyster | 5 |
| Nodau ac Amcanion y Cymhwyster | 7 |
| Strwythur y Cymhwyster | 8 |
| Darparu'r Cymhwyster | 19 |
| Manylebau Asesu | 26 |
| Allwedd Cynnwys | 28 |
| Cynnwys yr Uned Graidd | 30 |
| Uned 201: Cyflogaeth a chyflogadwyedd yn y sector adeiladu | 31 |
| Uned 202: Arferion sydd wedi newid dros amser | 37 |
| Uned 203: Cynllunio a gwerthuso gwaith yn y sector adeiladu yng Nghymru | 49 |
| Llwybrau Crefft: Cynnwys Llwybr sy'n benodol i grefft | 53 |
| Llwybr A: Gosod Brics | 53 |
| Uned 204: Gwybodaeth Graidd Gosod Brics | 54 |
| Uned 205: Gosod allan i godi Strwythurau Gwaith Maen | 59 |
| Uned 206: Gosod Strwythurau Gwaith maen | 63 |
| Llwybr B: Gwaith Coed Pensaernïol | 69 |
| Uned 207: Gwybodaeth graidd am Waith Coed Pensaernïol | 70 |
| Uned 208: Paratoi manylion gosod ar gyfer cynnyrch arferol | 75 |
| Uned 209: Marcio allan ar sail manylion gosod ar gyfer cynhyrchion arferol | 80 |
| Uned 210: Cynhyrchu cynhyrchion cyffredin | 85 |
| Uned 211: Gosod a defnyddio peiriannau torri a siapio cludadwy | 91 |
| Llwybr C: Gwaith Coed ar y Safle | 96 |
| Uned 212: Gwybodaeth graidd am Waith Coed ar y Safle | 97 |
| Uned 213: Gosod cydrannau'r gosod cyntaf | 102 |
| Uned 214: Gosod cydrannau'r ail osod | 107 |
| Uned 215: Gosod cydrannau strwythurol creiddiol | 112 |

| | |
|---|------------|
| Uned 216: Cynnal a chadw gwaith coed anstrwythurol | 117 |
| Uned 217: Gosod a defnyddio peiriannau torri a siapio cludadwy | 122 |
| Llwybr D: Gosod Fframiau Pren | 127 |
| Uned 218: Gwybodaeth graidd am Godi Fframiau Pren | 128 |
| Uned 219: Codi waliau pren a gosod lloriau pren | 133 |
| Uned 220: Gosod strwythurau to pren | 139 |
| Llwybr E: Peintio ac addurno | 145 |
| Uned 221: Gwybodaeth graidd am beintio ac addurno | 146 |
| Uned 222: Paratoi arwynebau ar gyfer peintio a/neu addurno | 150 |
| Uned 223: Cotio arwynebau drwy ddefnyddio brwshys a rholeri | 157 |
| Uned 224: Papuro waliau (papurau safonol a phapurau sylfaen) | 164 |
| Llwybr F: Plastro Soled | 171 |
| Uned 225: Gwybodaeth graidd am blastro soled | 172 |
| Uned 226: Creu gorffeniadau plastro soled mewnol | 177 |
| Uned 227: Rhoi rendr soled ar arwynebau cefndir a chreu gorffeniadau | 184 |
| Llwybr G: Dreileinio – Gosod | 192 |
| Uned 228: Gwybodaeth graidd am ddreileinio | 193 |
| Uned 229: Gosod systemau dreileinio | 198 |
| Uned 230: Gosod plastrfwrdd yn fecanyddol a thrwy fondio uniongyrchol | 203 |
| Llwybr H: Gwaith tir | 208 |
| Uned 231: Gwybodaeth graidd am waith tir | 209 |
| Uned 232: Sefydlu dulliau rheoli gwaith dimensiynol eilaidd | 214 |
| Uned 233: Gosod draeniau | 223 |
| Uned 234: Paratoi a chymysgu deunyddiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu | 232 |
| Llwybr I: Gosod Llechi To a Theils | 240 |
| Uned 235: Gwybodaeth graidd am doi â llechi a theils | 241 |
| Uned 236: Gosod haen waelodol, estyll a chydrannau toi | 246 |
| Uned 237: Gosod teils to lap sengl o amrywiol drwch | 251 |

| | |
|--|------------|
| Uned 238: Gosod to teils plaen | 255 |
| Uned 239: Gosod gwaith plwm ar doeau | 259 |
| Uned 240: Gosod llechi to naturiol o faint rheolaidd yn unol â manylion safonol y to | 263 |
| Uned 241: Tynnu ac adfer gorchuddion to | 267 |
| Llwybr J: Teilsio Waliau a Lloriau | 271 |
| Uned 242: Gwybodaeth graidd am Deilsio Waliau a Lloriau | 272 |
| Uned 243: Gosod ffyn lefelu tywod a sment | 277 |
| Uned 244: Paratoi cefndiroedd ar gyfer teilsio | 283 |
| Uned 245: Teilsio waliau a lloriau | 290 |

Gwybodaeth am y Fersiwn

| Fersiwn a dyddiad cyhoeddi | Newidiadau |
|----------------------------|---|
| f1 Mehefin 2021 | Y ddogfen wreiddiol |
| f1.1 Medi 2021 | Uned 220 – maen prawf 3.2 wedi tynnu'r cyfeiriad at drin â pheiriant |
| f2 Ionawr 2022 | Rheolau cyfuno wedi'u hegluro (t9) Deunyddiau cefnogi – diweddarwyd cyfeiriad y wefan (t20) Dull asesu – Trafodaeth dan Arweiniad, a'r dyddiadau cyntaf sydd ar gael ar gyfer asesiadau ar y sgrin wedi'u diweddarau (t23) Llwybr J Teilsio Waliau a Lloriau - ychwanegwyd strwythur a chynnwys (t8, t12, Uned 202 t42-46, t271) Gwaith tir - Teitlau deilliannau dysgu – wedi'u cywiro (t209, 215, 224, 233) |

Diben y cymhwyster

Disgrifiad

I bwy mae'r cymhwyster?

Mae'r cymhwyster Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) wedi cael ei ddatblygu fel cymhwyster ôl-16 ar gyfer unigolion sy'n gweithio neu'n bwriadu gweithio yn y sector Adeiladu. Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i fynd ymlaen i astudio cyrsiau adeiladu Lefel 2 neu 3 eraill sy'n berthnasol i grefft adeiladu o'u dewis.

Mae'r cymhwyster wedi'i gynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn rhaglen ddysgu amser llawn am flwyddyn. Mae wedi'i anelu at ddysgwyr sydd wedi cyflawni'r Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) ond sydd heb brentisiaeth eto.

Mae'n addas ar gyfer:

- dysgwyr 16 oed a hŷn sy'n gweithio neu'n bwriadu gweithio yn y diwydiant adeiladu ar hyn o bryd
- dysgwyr sydd wedi ennill y cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu ond sydd heb gyflogwr eto i barhau â phrentisiaeth.

Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Bydd pob dysgwr yn cwblhau tair uned graidd orfodol sy'n ymdrin yn gyfannol â chyflogaeth, sgiliau cyflogadwyedd ac arferion adeiladu cyffredinol yn y sector Adeiladu dros amser. Bydd angen i ddysgwyr hefyd ddangos datblygiad eu sgiliau cynllunio a gwerthuso mewn maes sy'n gysylltiedig ag adeiladu.

Bydd gofyn i ddysgwyr ddewis crefft i arbenigo ynddi yn y sector adeiladu. Bydd dysgwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd yn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol perthnasol ar gyfer y grefft honno, yn ogystal â dyfnhau eu dealltwriaeth o sut mae arferion yn y grefft honno wedi newid, ac yn dal i newid, dros amser.

Beth yw'r cyfleoedd ar gyfer dilyniant?

Ar ôl ei gwblhau, bydd y cymhwyster yn rhoi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i ddysgwyr symud ymlaen i gyflogaeth mewn maes sy'n gysylltiedig ag adeiladu neu i astudio ymhellach. Mae hynny'n cynnwys symud ymlaen i'r cymwysterau canlynol:

- City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gosod Brics C00/4169/3

- City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gwaith Coed Pensaernïol C00/4327/5
- City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gwaith Coed ar y Safle C00/4283/1
- City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gosod Fframiau Pren C00/4327/4
- City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Plastro Soled C00/4327/7
- City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Leinio Sych C00/4327/0
- City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Peintio ac Addurno C00/4327/6
- City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gwaith Toi - Llechi a Theils C00/4327/1
- City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Teilsio Waliau a Lloriau C00/4327/8
- City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gweithrediadau Sifil - Gwaith Tir C00/4327/2
- EAL Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 3) – Gosod Gwres ac Awyru C00/4278/5
- EAL Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 3) – Crefftwr Gwresogi ac Awyru C00/4278/6
- EAL Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 3) – Plymio a Gwresogi C00/4278/7
- EAL Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 3) – Gosod Electrodechnegol C00/4278/8

Gyda phwy wnaethon ni ddatblygu'r cymhwyster?

Mae'r cynnwys wedi cael ei ddatblygu gan y Consortiwm¹ ar y cyd â rhanddeiliaid, tiwtoriaid, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr ar draws y sector.

¹ Mae'r consortiwm yn cynnwys Sefydliad City and Guilds Llundain ac EAL a fu'n gweithio ar y cyd i ddatblygu a darparu'r holl gymwysterau yn y gyfres Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu.

Nodau ac Amcanion y Cymhwyster

Mae'r cymhwyster Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu:

- dealltwriaeth o gynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fel y mae'n berthnasol i adeiladu a'r amgylchedd adeiledig
- dealltwriaeth o agweddau ar gyflogaeth a chyflogadwyedd yn y sector adeiladu
- sgiliau cyflogadwyedd a dealltwriaeth o sut mae'r rhain yn berthnasol i arferion cyfoes mewn crefft adeiladu o'ch dewis
- eu gwybodaeth a'u gallu i ddilyn gofynion iechyd a diogelwch gweithio ar safleoedd, gydag offer a gydag eraill wrth weithio mewn crefft adeiladu o'u dewis
- dealltwriaeth o'r mathau o waith a phrosiectau sy'n cael eu gwneud mewn crefft adeiladu o'ch dewis, a rhyngddibyniaethau'r gwaith hwn â gwaith gan grefftwyr eraill, yn y camau dylunio, adeiladu, defnyddio a chynnal a chadw
- dealltwriaeth o'r offer, y technegau, y deunyddiau a'r technolegau sy'n cael eu defnyddio mewn crefft adeiladu o'ch dewis a sut maen nhw'n newid, ac wedi newid, dros amser
- yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol mewn llwybr crefft o'ch dewis, fel y nodir yn y ddogfen hon, fel yr eglurir yn y safonau cenedlaethol perthnasol
- sgiliau ymarferol i gyflawni amrywiaeth eang o dasgau mewn crefft adeiladu o'u dewis
- gallu cynllunio a gwerthuso eu perfformiad yn effeithiol wrth gyflawni amrywiaeth eang o dasgau mewn crefft adeiladu o'u dewis.

Strwythur y Cymhwyster

| Product Code | C/N | City & Guilds Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) |
|--------------|------------|--|
| 8042-03 | C00/4169/2 | City & Guilds Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) – Gosod Brics |
| 8042-04 | C00/4169/2 | City & Guilds Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) – Gwaith Coed Pensaernïol |
| 8042-05 | C00/4169/2 | City & Guilds Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) – Gwaith Coed ar y Safle |
| 8042-06 | C00/4169/2 | City & Guilds Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) – Codi Fframiau Pren |
| 8042-07 | C00/4169/2 | City & Guilds Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) – Peintio ac addurno |
| 8042-08 | C00/4169/2 | City & Guilds Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) – Plastro Soled |
| 8042-09 | C00/4169/2 | City & Guilds Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) – Dreileinio - gosod |
| 8042-10 | C00/4169/2 | City & Guilds Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) – Gwaith tir |
| 8042-11 | C00/4169/2 | City & Guilds Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) – Gwaith toi - llechi a theils |
| 8042-23* | C00/4169/2 | City & Guilds Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) – Teilsio Waliau a Lloriau |

*Bydd y llwybr Teilsio Waliau a Lloriau ar agor i dderbyn cofrestrïadau o 1 Medi 2022 ymlaen.

Rheolau Cyfuno

Er mwyn cyflawni'r cymhwyster **Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2)**, rhaid i ddysgwyr ymgymryd:

- 3 uned graidd/orfodol (201, 202, 203) a
- Pob uned o un o'r llwybrau crefft dewisol penodol a restrir isod

ennill gradd Pasio neu uwch yn y tri dull asesu, sef cyfanswm o 540 o oriau dysgu dan arweiniad.

| City & Guilds Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) | | |
|---|---|---------------------------|
| Rhif yr uned | Teitl yr uned | Oriau Dysgu dan Arweiniad |
| 201 | Cyflogaeth a chyflogadwyedd yn y sector adeiladu | 30 |
| 202 | Newid arferion dros amser | 45 |
| 203 | Cynllunio a gwerthuso gwaith yn y sector adeiladu yng Nghymru | 25 |
| Asesiad | | |
| | Pob Math o Asesiad | 62 |
| Llwybr A: 8042 -03 Gosod Brics | | |
| 204 | Gwybodaeth graidd am osod Brics | 50 |
| 205 | Dechrau ffurfio strwythurau wedi'u gwneud o frics a blociau | 135 |
| 206 | Codi strwythurau wedi'u gwneud o frics a blociau | 193 |

| Llwybr B: 8042-04 Gwaith Coed Pensaernïol | | |
|---|--|-----|
| 207 | Gwybodaeth graidd am Waith Coed Pensaernïol | 50 |
| 208 | Paratoi manylion gosod ar gyfer cynnyrch arferol | 50 |
| 209 | Marcio allan ar sail manylion gosod ar gyfer cynhyrchion arferol | 50 |
| 210 | Cynhyrchu cynhyrchion cyffredin | 165 |
| 211 | Gosod a defnyddio peiriannau torri a siapio cludadwy | 63 |
| Llwybr C: 8042-05 Gwaith Coed ar y Safle | | |
| 212 | Gwybodaeth graidd am Waith Coed ar y Safle | 50 |
| 213 | Gosod cydrannau'r gosodiad cyntaf | 80 |
| 214 | Gosod cydrannau'r ail osodiad | 80 |
| 215 | Gosod cydrannau strwythurol creiddiol | 70 |
| 216 | Cynnal a chadw gwaith coed anstrwythurol | 48 |
| 217 | Gosod a defnyddio peiriannau torri a siapio cludadwy | 50 |
| Llwybr D: 8042 - 06 Codi Fframiau Pren | | |
| 218 | Gwybodaeth graidd am Godi Fframiau Pren | 50 |
| 219 | Codi waliau pren a gosod lloriau pren | 182 |
| 220 | Gosod strwythurau to pren | 146 |

Llwybr E: 8042-07 Peintio ac addurno

| | | |
|-----|--|-----|
| 221 | Gwybodaeth graidd am beintio ac addurno | 50 |
| 222 | Paratoi arwynebau ar gyfer peintio / addurno | 100 |
| 223 | Defnyddio brwsh a rholer i roi cot ar arwyneb | 113 |
| 224 | Gosod gorchuddion waliau (safonol a sylfaenol) | 115 |

Llwybr F: 8042-08 Plastro Soled

| | | |
|-----|--|-----|
| 225 | Gwybodaeth graidd am blastro | 50 |
| 226 | Creu gorffeniadau plastro soled y tu mewn i adeilad | 178 |
| 227 | Rhoi rendr soled ar arwynebau cefndirol a chreu gorffeniadau | 150 |

Llwybr G: 8042-09 Dreileinio - gosod

| | | |
|-----|---|-----|
| 228 | Gwybodaeth graidd am ddreileinio | 50 |
| 229 | Gosod systemau dreileinio | 178 |
| 230 | Gosod plastrfwrdd yn fecanyddol a thrwy fondio uniongyrchol | 150 |

| Llwybr H: 8042-10 Gwaith tir | | |
|---|--|-----|
| 231 | Gwybodaeth graidd am waith tir | 50 |
| 232 | Sefydlu dulliau rheoli gwaith dimensiynol eilaidd | 115 |
| 233 | Gosod draeniau | 120 |
| 234 | Paratoi a chymysgu deunyddiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu | 93 |
| Llwybr I: 8042-11 Gwaith toi - llechi a theils | | |
| 235 | Gwybodaeth graidd am waith toi gyda llechi a theils | 50 |
| 236 | Gosod is-haenau, estyll a chydrannau toi | 40 |
| 237 | Gosod teils to un lap o amrywiol drwch | 48 |
| 238 | Gosod to teils plaen | 62 |
| 239 | Gosod gwaith plwm ar doeau | 45 |
| 240 | Gosod llechi to naturiol o faint rheolaidd yn unol â manylion safonol y to | 83 |
| 241 | Tynnu ac adfer gorchuddion to | 50 |
| Llwybr J: 8042-23 Teilsio Waliau a Lloriau (ar gael o 1 Medi 2022 ymlaen) | | |
| 242 | Gwybodaeth graidd am Deilsio Waliau a Lloriau | 50 |
| 243 | Gosod ffyn lefelu tywod a sment | 55 |
| 244 | Paratoi cefndiroedd ar gyfer teilsio | 123 |
| 245 | Teilsio waliau a lloriau | 150 |

Oriau Dysgu Dan Arweiniad a'r Cyfanswm Oriau Cymhwyso

Mae'r Oriau Dysgu Dan Arweiniad yn rhoi syniad i ganolfannau o faint o ddysgu ac asesu dan oruchwyliaeth y mae'n rhaid ei wneud i ddarparu'r uned, a gellir eu defnyddio at ddibenion cynllunio.

Cyfanswm Oriau Cymhwyso yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y mae disgwyl i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (sy'n cael eu nodi ar wahân) a'r oriau sy'n cael eu treulio'n paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Caiff credydau eu cyfrifo gan ddefnyddio fformiwla sy'n hafal i werth y cyfanswm oriau cymhwyso wedi'i rannu â 10.

Mae manylion y cyfanswm oriau cymhwyso ar gyfer y cymhwyster hwn wedi'u nodi isod.

| Cymhwyster | Cyfanswm Oriau Cymhwyso | Credydau |
|---|-------------------------|----------|
| Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) (pob llwybr crefft) | 600 | 60 |

Gofynion ar gyfer Canolfannau

Bydd angen cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster ar gyfer y cymhwyster hwn. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau wrth ddesg ac wyneb yn wyneb.

Cymeradwyir canolfan yn seiliedig ar allu'r ganolfan i fodloni'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo canolfan. Mae'r gofynion cymeradwyo ar gyfer y cymhwyster hwn ar gael yn y dogfennau canlynol:

- [Llawlyfr Canolfannau City & Guilds](#)
- [Gofynion Sicrhau Ansawdd City & Guilds](#)

Rhaid i ddarpar ganolfannau geisio cymeradwyaeth ar gyfer y ganolfan a'r cymhwyster, fel sy'n briodol, cyn dechrau darparu'r cymhwyster.

Nod City & Guilds yw rhoi penderfyniad ynglŷn â chymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster o fewn 30 diwrnod gwaith i gyflwyno'r cais wedi'i gwblhau, gyda phedwar canlyniad posibl:

- Rhoi cymeradwyaeth i'r ganolfan ac i gymwysterau
- Rhoi cymeradwyaeth i'r ganolfan ac i gymwysterau yn amodol ar gynllun gweithredu
- Atal cymeradwyaeth i'r ganolfan ac i gymwysterau yn amodol ar gynllun gweithredu
- Gwrthod cymeradwyaeth i'r ganolfan ac i gymwysterau.

Ystyrir bod y ganolfan a'r cymwysterau wedi cael eu cymeradwyo pan fydd City & Guilds yn ysgrifennu at y ganolfan yn cadarnhau'r statws, a dim cyn hynny.

Bydd gofyn i ganolfannau wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer y cymhwyster hwn, a bodloni gofynion penodol canolfannau fel sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon, o ran cymhwysedd staff darparu ac asesu. Bydd y gofynion hyn yn cael eu gwirio a'u monitro fel rhan o'r broses o gymeradwyo cymwysterau a'r gwaith parhaus o fonitro'r cymhwyster hwn.

Cofrestru, Cyflwyno Canlyniadau ac Ardystio

Edrychwch ar wefan y City & Guilds i gael manylion am brosesau cofrestru ac ardystio cymwysterau, amserlenni a gweithdrefnau.

Sicrhau Ansawdd

Sicrhau Ansawdd Mewnol

Mae'r gwaith sicrhau ansawdd mewnol ar gyfer y cymhwyster hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- sicrhau ansawdd gweithdrefnau asesu, gan gynnwys safoni arferion asesu ar draws gwahanol aseswyr yn y ganolfan yn unol â [Chanllawiau City & Guilds ar Sicrhau Ansawdd Cymwysterau yn Fewnol](#)
- safoni marciau dysgwyr a ddyfarnwyd ar gyfer y Prosiect Ymarferol a'r Drafodaeth dan Arweiniad yn fewnol.

Mae'n rhaid i bob canolfan sydd wedi'i chymeradwyo i ddarparu'r cymhwyster hwn gael prosesau sicrhau ansawdd mewnol cadarn ar waith. Bydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod gweithdrefnau Sicrhau Ansawdd Mewnol:

- yn darparu cywirdeb a chysondeb rhwng Aseswyr wrth ddefnyddio a dehongli'r canllawiau yn nogfennau'r cymhwyster a/neu'r dogfennau asesu
- cynnal dilysrwydd a dibynadwyedd penderfyniadau asesu a pharhau i fodloni meini prawf cymeradwyo.

Bydd tystiolaeth sicrhau ansawdd mewnol yn cael ei harchwilio fel rhan o weithgareddau sicrhau ansawdd allanol City & Guilds. Bydd disgwyl i ganolfannau gadw tystiolaeth yn unol â gofynion [llawlyfr canolfannau City & Guilds](#) a dylid ei chadw am o leiaf dair blynedd.

Sicrhau Ansawdd yn Fewnol

Rhaid i'r ganolfan roi manylion i City & Guilds am staff y maent yn bwriadu iddynt ymgymryd â Sicrhau Ansawdd Mewnol, fel y gellir eu cymeradwyo cyn iddynt gyflawni'r rôl hon. Hefyd, cyn i'r asesiadau cyntaf gael eu cynnal, mae'n rhaid i Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol

gwblhau hyfforddiant City & Guilds. Gwneir hyn i sicrhau bod asesiadau mewn canolfannau yn ddibynadwy dros amser.

Rhaid i Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol wneud y canlynol:

- paratoi ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau perthnasol City & Guilds, a chymryd rhan ynddynt, megis cynefino, Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)/hyfforddiant a digwyddiadau safoni
 - sicrhau bod unrhyw gynlluniau gwella/gweithredu personol yn cael eu cyflawni, o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt ac yn unol â'r safonau gofynnol
 - bod â lefel sylfaenol o brofiad galwedigaethol sy'n seiliedig ar gymhwyster sy'n ymwneud ag adeiladu neu brofiad/cymhwysedd sector cydnabyddedig sy'n gyfwerth â lefel y cymhwyster o leiaf, er mwyn eu galluogi i gyflawni eu rôl fel Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol. Caiff ansawdd y dystiolaeth hon ei sicrhau gan City & Guilds
 - yn gweithio tuag at (wedi cofrestru erbyn mis Ionawr 2022 fan bellaf), neu wedi cyflawni'r unedau canlynol:
 - Deall egwyddorion ac arferion sicrhau ansawdd asesu yn fewnol*
 - Sicrhau ansawdd asesu yn fewnol*
- * Bydd Cymwysterau Etifeddiaeth (D32/D32/D34, A1 a V1) yn cael eu derbyn
- gallu dangos tystiolaeth o fod yn gyfarwydd â'r grefft/diwydiant perthnasol. Gellir dangos tystiolaeth o hyn, er enghraifft drwy ddarllen cyhoeddiadau ynglŷn â'r grefft, dilyn cyrsiau dysgu, mynychu digwyddiadau rhwydweithio sy'n berthnasol i'r cymhwyster hwn a/neu fynd i ddiwyddiadau a drefnir gan y diwydiant.

Mae gan y swyddog sicrhau ansawdd mewnol rôl ganolog i sicrhau bod asesiadau sydd wedi'u marcio gan ganolfannau yn cael eu safoni. Dylent weithio gydag aseswyr i sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn bob amser a sicrhau bod penderfyniadau asesu a wneir gan wahanol aseswyr yn gyson, yn deg ac yn ddibynadwy. Bydd y gweithgareddau allweddol yn cynnwys:

- cwrdd ag aseswyr (yn unigol ac ar y cyd) drwy gydol y cymhwyster i drafod materion safoni a sicrhau ansawdd a darparu cymorth ac arweiniad lle bo angen
- arsylwi aseswyr a rhoi adborth iddynt i'w helpu i wella eu technegau asesu
- samplu tystiolaeth ar draws gwahanol grwpiau i sicrhau bod y safonau priodol wedi cael eu bodloni
- trefnu bod asesiadau'n cael eu marcio gan fwy nag un er mwyn cymharu canlyniadau a chytuno ar feincnodau yn unol â hyfforddiant City & Guilds.

Bydd City & Guilds yn rhoi canllawiau i Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol canolfannau drwy gydol y broses o reoli newid.

Sicrhau Ansawdd Allanol

Mae'r Prosiect Ymarferol a'r Drafodaeth dan Arweiniad yn cael eu hasesu'n fewnol a'u dilysu'n allanol. Bydd ein tîm o Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol sy'n dechnegol gymwys yn dilysu penderfyniadau asesu canolfannau a phrosesau sicrhau ansawdd mewnol yn allanol er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n ddilys ac yn ddibynadwy. Mae ein Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol yn dilyn prosesau dilysu cadarn. Maent yn monitro systemau asesu, ymarfer a chanlyniadau canolfannau yn unol â gofynion rheoleiddio. Mae eu strategaethau samplu yn seiliedig ar 'CAMERA' (gan sicrhau sampl gynrychioliadol o Ymgeiswyr/Dysgwyr, Aseswyr, Dulliau asesu, Tystiolaeth, Cofnodion, Safleoedd Asesu).

Bydd City & Guilds yn:

- cynnal prosesau sicrhau ansawdd angenrheidiol ar gyfer yr asesiad hwn, sy'n gallu cynnwys arsylwi uniongyrchol, samplu asesiadau, ac adborth gan ddysgwyr
- sicrhau bod ganddo weithdrefn apelio gadarn yn ei lle i ddysgwyr.

Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol

Mae swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol yn cael eu cynefino, eu hyfforddi a'u safoni i sicrhau dull gweithredu cyson. Maent yn cael eu diweddarau'n rheolaidd ar newidiadau i gymwysterau ac yn cael eu monitro a'u samplo'n barhaus. Mae fetio trylwyr yn sicrhau'r wybodaeth angenrheidiol, gan gynnwys ennill cymwysterau Sicrhau Ansawdd EQA ac Asesu Hyfforddiant (TAQA neu gyfwerth). Bydd yr holl Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu yn cael eu briffio ar yr Adolygiad Sector, gan gynnwys y gyfres o gymwysterau newydd.

Rhaid i Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol:

- fod yn atebol i City & Guilds
- fod wedi ennill neu'n gweithio tuag at ennill dyfarniad TAQA neu wedi ennill V2 neu D35 ac yn meddu ar dystiolaeth DPP o ymarfer yn unol â Safonau TAQA
- rhaid iddynt deall y broses asesu a defnyddio'r broses farcio yn gyson
- ni all fod unrhyw wrthdaro rhwng eu buddiannau â'r ganolfan asesu, er mwyn iddynt fod yn wrthrychol
- meddu ar y ddealltwriaeth dechnegol/ alwedigaethol berthnasol ofynnol yn y cymhwyster/cymwysterau/uned(au) sy'n destun sicrhau ansawdd allanol,
- yn gallu rhoi cyngor ac arweiniad i ganolfannau ar weithdrefnau asesu a sicrhau ansawdd mewnol.

Bydd City & Guilds yn:

- cynnal y prosesau sicrhau ansawdd angenrheidiol ar gyfer y broses asesu, sy'n gallu cynnwys arsylwi uniongyrchol, samplu asesiadau, ac adborth gan ddysgwyr
- sicrhau bod ganddo weithdrefn apelio gadarn yn ei lle i ddysgwyr.

Rolau, Cyfrifoldebau a Sicrhau Ansawdd

Proffil yr Asesydd Mewnol

Rhaid i'r ganolfan roi manylion y gweithwyr y mae'n bwriadu iddynt asesu i City & Guilds, er mwyn gallu eu cymeradwyo cyn iddynt ddechrau ymgymryd â'r gwaith. Hefyd, cyn i'r asesiadau cyntaf gael eu cynnal, mae'n rhaid i aseswyr gwblhau hyfforddiant City & Guilds. Gwneir hyn i sicrhau bod asesiadau mewn canolfannau yn ddibynadwy dros amser.

Rhaid i aseswyr fod yn gweithio tuag at (wedi cofrestru erbyn Ionawr 2022 fan bellaf) neu fod wedi cyflawni'r unedau canlynol:

- Deall egwyddorion a gofynion asesu*
- Asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau galwedigaethol*

a rhaid iddynt ddal i ymarfer i'r safon honno.

* Bydd Cymwysterau Etifeddiaeth (D32/D32/D34, A1 a V1) yn cael eu derbyn

Rhaid i aseswyr fod yn alwedigaethol gymwys. Mae tystiolaeth sy'n ategu hyn yn cael ei chyflwyno gan yr asesydd sydd â chymhwyster NVQ perthnasol neu gyfwerth* ar gyfer trothwy cymhwysedd galwedigaethol llawn y grefft a/neu sydd wedi cofrestru â sefydliad crefft perthnasol neu sydd â chydabyddiaeth briodol sy'n dangos yn glir bod yr asesydd yn gymwys yn y grefft.

*Dylai aseswyr a gymhwysodd cyn i NVQs gael eu datblygu ddarparu tystiolaeth o sut maent yn gymwys yn alwedigaethol (er enghraifft, drwy CV neu gofnod DPP ynghyd ag unrhyw eiridon perthnasol).

Gofynion ar gyfer Aseswyr Mewnol

Rhaid i Aseswyr Mewnol wneud y canlynol:

- cynnal a chofnodi asesiadau yn unol â threfniadau rheoleiddiol a City & Guilds, gan gynnwys:
 - o ymddwyn yn broffesiynol ac yn gwrtais bob amser wrth gynnal yr asesiad
 - o marcio'r asesiadau, yn unol â'r meini prawf graddio
- cynnal gwybodaeth gyfredol am bolisiau a gweithdrefnau asesu
- cynnal a chofnodi DPP (i'w gyflwyno ar gais)
- deall y sector, y cymhwyster a'r gofynion asesu
- bod yn alwedigaethol gymwys
- cynhyrchu dogfennau a chofnodion perthnasol clir, cywir a chryno (ysgrifenedig ac electronig), a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli a'u gweinyddu yn unol â gweithdrefnau'r corff dyfarnu
- gwneud penderfyniadau asesu cadarn

- trin gwybodaeth berthnasol yn unol â gofynion GDPR
- paratoi ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau perthnasol City & Guilds a chymryd rhan ynddynt – fel cynefino, DPP/hyfforddiant, a digwyddiadau safoni, a sicrhau bod unrhyw gynlluniau gwella/gweithredu personol yn cael eu cyflawni, o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt ac yn unol â'r safonau gofynnol
- rhoi gwybod i'r Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol am unrhyw amheuaeth o gamymarfer neu gamweinyddu, gan gynnwys camymddwyn academiaidd
- datgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau (er enghraifft, rhwng yr asesydd a'r dysgwr)
- darparu mynediad at wybodaeth a chofnodion pan wneir cais amdanynt
- cwblhau a chyflwyno pob adroddiad o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

Swyddogion cyswllt/penodedig Allanol

Swyddogion cyswllt/penodedig yw'r termau a fabwysiadwyd gan City & Guilds i gyfeirio at unigolion sydd wedi'u penodi gan City & Guilds i ymgymryd â rolau penodol ar eu rhan, er enghraifft, Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol.

Mae City & Guilds yn gosod meini prawf i sicrhau bod yr holl swyddogion cyswllt/penodedig yn meddu ar yr wybodaeth, y profiad a'r sgiliau galwedigaethol priodol i gyflawni'r rôl benodol.

Bydd City & Guilds yn sicrhau bod yr holl Swyddogion Cyswllt/Penodedig sy'n ymgymryd â rôl sicrhau ansawdd o ran cymeradwyo canolfannau, cymeradwyo cymwysterau a phenderfyniadau asesu yn cael eu hyfforddi, eu cymhwyso'n briodol a'u bod yn alwedigaethol gymwys. Mae hyfforddiant a phresenoldeb mewn digwyddiadau safoni yn orfodol.

Rheolir perfformiad yr holl Swyddogion Cyswllt/Penodedig gan staff o fewn City & Guilds. Os bydd pryderon yn cael eu nodi gyda golwg ar unigolyn, bydd City & Guilds yn cymryd camau cywiro a all gynnwys camau gwella a monitro agos neu, mewn rhai achosion, gallai materion ansawdd mewn perfformiad arwain at derfynu contract y Swyddogion Cyswllt/Penodedig gyda'r Corff Dyfarnu.

Bydd City & Guilds yn sicrhau bod digon o Staff/Penodeion dwyieithog yn cael eu recriwtio i ddiwallu anghenion canolfannau a dysgwyr cyfrwng Cymraeg. Bydd lefel y gweithgarwch sicrhau ansawdd yn gyson ar draws y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd darpariaethau yn cael eu gwneud ar gyfer monitro a safoni yn y ddwy iaith.

Y Cyd-destun Cymreig

Ar gyfer unigolion nad ydynt wedi cynnal gweithgareddau asesu yng Nghymru o'r blaen, awgrymir y byddai bod ag ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a dealltwriaeth o ddiwylliant, polisi a chyd-destun Cymru yn fuddiol i gefnogi eu rolau.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Disgwylir i ganolfannau gefnogi eu staff i sicrhau bod eu gwybodaeth a'u cymhwysedd yn y maes galwedigaethol yn gyfredol ac yn unol â'r arferion gorau o ran darparu, mentora, hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd a'u bod yn ystyried unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol neu ddeddfwriaethol.

Darparu'r Cymhwyster

Gofynion Mynediad i Ddysgwyr

Nid oes gofynion mynediad penodol ar gyfer y cymhwyster Dilyniant, fodd bynnag mae City & Guilds yn argymhell y dylai dysgwr fod wedi cyflawni'r cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu (lefel 2) cyn symud ymlaen i'r cam Dilyniant.

Gellir cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy Walled Garden, ewch i wefan City & Guilds i gael rhagor o fanylion.

Cyfyngiadau oedran

Nid oes modd i City & Guilds dderbyn unrhyw gofrestriadau ar gyfer dysgwyr o dan 16 oed, gan nad yw'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer unigolion o dan 16.

Asesiad Cychwynnol a Chynefino

Dylid cynnal asesiad cychwynnol ar gyfer pob dysgwr cyn i'w raglen ddechrau er mwyn nodi'r canlynol:

- a oes gan y dysgwr unrhyw anghenion hyfforddi penodol,
- cefnogaeth ac arweiniad y gall fod eu hangen arno wrth weithio tuag at y cymhwyster,
- unrhyw ddysgu neu asesu y mae eisoes wedi'u cwblhau sy'n berthnasol i'r cymhwyster (e.e. Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2),
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Rydym yn argymhell bod canolfannau'n darparu rhaglen gynefino, fel bod y dysgwr yn deall gofynion y cymhwyster yn llawn, ei gyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan. Gellir cofnodi'r wybodaeth hon ar gontract dysgu.

Deunydd Ategol

Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn:

Disgrifiad

Pecyn asesu

Sut mae cael gafael arno

<https://www.skillsforwales.wales/cy/cymwysterau>

Sicrhau Ansawdd yn Fewnol

Rhaid i ganolfannau gael strategaeth ysgrifenedig ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Fewnol.

Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gweithdrefnau Sicrhau Ansawdd Mewnol yn gwneud y canlynol:

- darparu cywirdeb a chysondeb rhwng Aseswyr wrth ddefnyddio a dehongli'r canllawiau yn nogfennau'r cymhwyster a/neu'r dogfennau asesu,
- sicrhau eu bod yn effeithlon ac yn gost-effeithiol.

Cymedroli Trefniadau Asesu Mewnol

Mae prosesau Sicrhau Ansawdd Allanol ar waith ar gyfer gwirio dilysrwydd a dibynadwyedd penderfyniadau asesu a wneir gan staff canolfannau, fel sy'n briodol i'r cymhwyster hwn.

Bydd yr asesiad yn cael ei asesu'n fewnol ac yn cael ei fonitro a'i samplo ar sail risg gan swyddogion sicrhau ansawdd allanol er mwyn sicrhau cysondeb a dilysrwydd penderfyniadau asesu canolfannau. Swyddogion cyswllt asesu sy'n meddu ar y cymwysterau a'r hyfforddiant priodol fydd yn cynnal y gwaith sicrhau ansawdd. Bydd City & Guilds yn darparu adborth ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer pob achos o samplo at ddibenion sicrhau ansawdd.

Bydd City & Guilds yn ymchwilio i achosion o ddiffyg cydymffurfio sylweddol, neu feysydd pryder a nodir yn ystod gwaith monitro allanol. Mae'n bosib y bydd camau gwella priodol a/neu gosbau yn cael eu rhoi ar waith o ganlyniad i'r gwaith yma. Mewn rhai achosion, gall ymchwiliadau arwain at ddileu cymeradwyaeth y ganolfan/canolfannau dan sylw.

Apêl Fewnol

Rhaid i ganolfannau weithredu proses fewnol fel y gall dysgwyr apelio yn erbyn marcio asesiadau sydd wedi'u marcio'n fewnol. Rhaid i'r broses fewnol gynnwys rhoi gwybod i ddysgwyr am y canlyniadau y mae'r ganolfan wedi'u rhoi ar gyfer elfennau sy'n cael eu

hasesu'n fewnol, gan y bydd angen y rhain arnynt er mwyn penderfynu a ydynt am apelio ai peidio.

Camymarfer

Cyfeirier at nodiadau cyfarwyddyd City & Guilds [Rheoli achosion o amheuaeth o gamymarfer mewn arholiadau ac asesiadau](#). Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth adnabod a rhoi gwybod am gamymarfer gan ddysgwyr a/neu staff canolfannau, a'r camau y gallai City & Guilds eu cymryd wedyn. Mae'r ddogfen yn cynnwys enghreifftiau o gamymarfer gan ddysgwyr a chanolfannau ac mae'n egluro cyfrifoldebau staff y ganolfan i roi gwybod am gamymarfer go iawn neu amheuaeth o gamymarfer. Mae'r ddogfen hon ar gael i'r canolfannau ar wefan City & Guilds.

Mae enghreifftiau o gamymarfer gan ddysgwyr wedi'u nodi isod (sylwch nad yw hon yn rhestr gyflawn):

- ffugio tystiolaeth asesu neu ddogfennau canlyniadau
- llên-ladrad o unrhyw fath
- cydgynllwynio ag eraill
- copïo gwaith dysgwr arall (gan gynnwys defnyddio TGCh i'w helpu i gopïo), neu ganiatáu i rywun gopïo ei waith
- dinistrio gwaith rhywun arall yn fwriadol
- datganiad dilysrwydd ffug mewn perthynas ag asesiadau
- esgus bod yn rhywun arall.

Mae'r camau uchod yn gyfystyr â chamymddwyn, ac fe'u cosbir (er enghraifft, anghymhwysu rhag asesu).

Trefniadau Mynediad

Mae trefniadau mynediad yn addasiadau sy'n caniatáu i unigolion sydd ag anghenion ychwanegol ac anafiadau dros dro gael mynediad at yr asesiad a dangos eu sgiliau a'u gwybodaeth heb newid gofynion yr asesiad. Rhaid gwneud y trefniadau hyn cyn cynnal yr asesiad.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau y bydd dysgwyr yn gallu cael mynediad at holl ofynion y cymhwyster, a hynny ar ddechrau'r rhaglen.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y dogfennau: *Trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol JCQ a Trefniadau mynediad - pryd a sut mae angen cyflwyno ceisiadau i City & Guilds*. Mae'r ddwy ddogfen ar gael ar wefan JCQ: <https://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/regulations-and-guidance/>

Ystyriaeth Arbennig

Gallwn roi ystyriaeth arbennig i ddysgwyr sydd wedi cael salwch dros dro, anaf neu anhwylder ar adeg yr asesiad.

Dylai Swyddog Arholiadau'r ganolfan gyflwyno ceisiadau am drefniadau mynediad neu ystyriaeth arbennig i City & Guilds. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch fersiwn gyfredol y ddogfen JCQ, *Arweiniad i'r broses ar gyfer ystyriaeth arbennig*. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan JCQ: <https://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/regulations-and-guidance/>

Crynodeb o'r Asesiad

Asesir **Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2)** gan ddefnyddio tri dull asesu:

| Math o asesiad | Dull asesu | Pwysoliad (Cyfraniad at radd gyffredinol y cymhwyster) |
|--------------------------|---|--|
| Asesu ar y sgrin | Wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n allanol | 20% |
| Prosiect Ymarferol | Wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n fewnol | 60% |
| Trafodaeth dan Arweiniad | Wedi'i osod yn fewnol a'i farcio'n fewnol | 20% |

Gellir llwytho pecyn asesu sy'n rhoi manylion am ofynion yr asesiad i lawr oddi ar [wefan y Sgiliau i Gymru](#).

Mae manylion am bob asesiad ar gael yn yr adran manylion yr asesiadau yn y pecyn asesu.

Bydd asesiadau ar y sgrin ar gael o 1 Mawrth 2022 ymlaen.

Bydd asesiadau ar y sgrin ar gael ar gyfer y llwybr crefft Teilsio Waliau a Lloriau o 3 Ionawr 2023 ymlaen.

Amseru a Chamau'r Asesiadau

Rhaid ystyried y canlynol wrth asesu'r cymhwyster hwn:

- rhaid ymgymryd â'r holl unedau gofynnol, a rhaid i'r gofynion cysylltiedig gael eu cwblhau a'u hasesu o fewn cyfnod cofrestru'r dysgwr.

Gellir cynnal asesiadau ar-alw, rhaid i ganolfannau sicrhau bod dysgwyr wedi ymgymryd â'r holl addysgu a dysgu gofynnol a'u bod wedi'u paratoi'n ddigonol i gynnal pob asesiad.

Mae'n rhaid i ddysgwyr fod wedi cwblhau asesiad y Prosiect Ymarferol cyn ymgymryd ag asesiad y Drafodaeth dan Arweiniad.

Rhyddhau Canlyniadau

Asesu ar y sgrin

Mae asesiadau ar y sgrin yn cael eu marcio'n awtomatig a bydd y ganolfan yn cael y canlyniadau ar yr un diwrnod ag y bydd yr asesiad yn cael ei gwblhau. Bydd City & Guilds yn dilyn proses ar gyfer rhyddhau canlyniadau pan fydd fersiynau newydd o'r asesiadau'n cael eu rhyddhau.

Prosiect Ymarferol

Caiff Prosiectau Ymarferol eu marcio'n fewnol a'u dilysu'n allanol. Mae marciau dros dro a roddir yn dilyn asesiad mewnol yn cael eu trosi'n raddau gan ddefnyddio'r tablau marcio a graddio a ddarperir yn y pecyn asesu. Yna bydd graddau dros dro yn cael eu cyflwyno i City & Guilds drwy QW Pro.

Bydd yr asesydd yn defnyddio tabl graddio'r Prosiect Ymarferol yn y Pecyn Asesu i gyfrifo gradd dros dro ar gyfer y dysgwr. Rhoddir gwybod i'r dysgwr am y radd dros dro hon o fewn wythnos i gwblhau'r asesiad, gyda chyfarwyddyd yn cael ei roi ar natur dros dro y radd. Bydd y canlyniadau dros dro yn amodol ar sicrhau ansawdd mewnol ac allanol.

Trafodaeth dan Arweiniad

Mae trafodaethau dan arweiniad yn cael eu marcio'n fewnol a'u dilysu'n allanol. Mae marciau dros dro a roddir yn dilyn asesiad mewnol yn cael eu trosi'n raddau gan ddefnyddio'r tablau marcio a graddio a ddarperir yn y pecyn asesu. Yna, bydd graddau'n cael eu cyflwyno i City & Guilds drwy QW Pro. Mae'r graddau dros dro hyn wedyn yn cael eu cyfuno ar sail pwysoliad yr asesiad, yn unol â'r canllawiau ar gyfuno graddau sydd yn y pecyn asesu, er mwyn darparu gradd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster a fydd yn cael ei chyhoeddi gan City & Guilds.

Canlyniadau cyffredinol cymwysterau

Rhaid rhoi graddau dros dro ar gyfer y Prosiect Ymarferol a'r Drafodaeth dan Arweiniad i ddysgwyr o fewn wythnos i gwblhau pob asesiad. Dylid rhoi arweiniad ynghylch natur dros dro y canlyniadau hyn, gan gydnabod y byddant yn destun gweithgareddau Sicrhau Ansawdd Mewnol ac Sicrhau Ansawdd Allanol, a graddio'r cymhwyster yn derfynol gan City & Guilds.

Rhoddir gwybod i ganolfannau am y graddau cymhwyster terfynol ar ôl cwblhau gweithgareddau Sicrhau Ansawdd Allanol. Bydd yr hysbysiad hwn o fewn wyth wythnos i'r ganolfan gyflwyno canlyniadau dysgwyr ar gyfer y prosiect ymarferol a'r Drafodaeth dan Arweiniad (ac ar ôl cwblhau'r asesiad ar y sgrin yn llwyddiannus). Mae rhagor o wybodaeth am y broses hon a'r amseroedd yn y Cyflwyniad i Weithio gyda City & Guilds / EAL – canllaw gweinyddu'r ganolfan ar gyfer adeiladau a pheirianeg gwasanaethau adeiladu yng Nghymru.

Ailgyflwyno/Ailsefyll Aseiad

Os na fydd y dysgwr yn llwyddo i gwblhau unrhyw un o'r aseidiadau, mae ganddo hawl i ailsefyll/ailgyflwyno.

Wrth ailsefyll/ailgyflwyno, gall dysgwyr ennill yr ystod lawn o farciau a graddau sydd ar gael.

Os yw'n ofynnol i ddysgwr ailsefyll neu ailgyflwyno unrhyw un o'r aseidiadau, rhaid darparu adborth a chymorth priodol i alluogi'r dysgwr i wneud hynny o fewn amserlen briodol.

Os nad yw dysgwr yn bodloni'r meini prawf marcio gofynnol, mae'n rhaid i'r ganolfan weithio gyda'r dysgwr i fynd i'r afael â'r meini prawf y methwyd â'u cyrraedd a chyfleoedd i wella i'w helpu i baratoi i gyrraedd y safon ofynnol.

Os yw dysgwyr yn anfodlon â chanlyniadau eu hasesiad, dylid rhoi gwybod iddynt am eu hawl i apelio.

Rhaid i ganolfannau gofnodi unrhyw gamau a gymerwyd a/neu unrhyw gymorth ychwanegol a roddir i'r dysgwr. Ni fydd cyfyngiad ar sawl gwaith y gellir ail-sefyll neu ail-gyflwyno.

I gael rhagor o wybodaeth am y dull o ailgyflwyno/ailsefyll unrhyw aseidiadau penodol, edrychwch ar yr wybodaeth yn y pecyn Asesu.

Manylebau Asesu

Asesu ar y Sgrin

Mae manylebau'r asesiad ar y sgrin ar gael yn Atodiad 1 y Pecyn Asesu.

Prosiect Ymarferol

Mae'r Prosiect Ymarferol yn ymdrin â'r holl gynnwys o'r unedau crefft penodol. Cyfeirier at y Pecyn Asesu.

Trafodaeth dan Arweiniad

Mae'r drafodaeth yn ymdrin â **dau** faes cynnwys fel y dangosir isod.

| Gwybodaeth, Sgiliau a Dealltwriaeth o'r canlynol: | |
|---|----------------------------|
| Cynnwys craidd (meini prawf asesu) | Cyfeirnod yr Uned |
| 1 Maes trafod: Cynllunio a gwerthuso | |
| 3.1 Pwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol ac yn briodol gydag eraill 3.2 Pwysigrwydd deallusrwydd emosiynol wrth gyfathrebu'n effeithiol. 3.3 Sut mae cynllunio a rheoli eich amser eich hun. 3.4 Sut i osod targedau a meini prawf llwyddo. 3.5 Pwysigrwydd adfyfrio. 4.1 Adnabod problemau a allai godi mewn prosiectau adeiladu. 4.2 Sut mae dod o hyd i atebion i broblemau. 4.3 Sut mae profi a gwerthuso atebion. | 201 (LO3, LO4) |
| 1.1 Y prif dechnegau a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrif gwaith/prosiectau ym maes adeiladu 1.2 Sut mae gwybod y gofynion o ran adnoddau 1.3 Sut mae amcangyfrif yr amser sydd ei angen 2.1 Nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r dasg 2.2 Cynllunio gweithgareddau a threfn/camau'r gwaith er mwyn cwblhau'r dasg 2.3 Nodi meini prawf llwyddo ar gyfer y dasg 3.1 Gwerthuso'r gwaith sydd wedi'i gwblhau yn unol â briff y dasg a'r meini prawf llwyddo | 203 (LO1, LO2, LO3) |
| 2 Maes trafod: Hunangyflogaeth | |
| 1.1 Y cyrff a'r sefydliadau crefft yn y sector adeiladu | 201 |

| | |
|---|-------------------|
| <p>1.2 Rôl cyrff a sefydliadau crefft yn y sector adeiladu</p> <p>2.1 Nodweddion hunangyflogaeth</p> <p>2.2 Manteision ac anfanteision hunangyflogaeth</p> <p>2.3 Cyfrifoldebau bod yn hunangyflogedig</p> <p>2.4 Patrymau mewn cyflogaeth a thwf a gostyngiad yn y galw</p> <p>2.5 Dyletswydd gofal i sicrhau bod cynnyrch a gwaith yn ddiogel i ddefnyddwyr</p> | <p>(LO1, LO2)</p> |
|---|-------------------|

Graddio Cymwysterau

Graddau'r cymhwyster hwn yw **Pasio, Teilyngdod, Rhagoriaeth**. Os bydd dysgwr yn methu, ni fydd yn cael tystysgrif.

Ceir manylion ynghylch sut y gellir cyflawni'r graddau hyn a'u cyfrifo yn y pecyn Asesu.

Allwedd Cynnwys

Cyfeirir at **weithdrefnau sefydliadol** yn **unedau gwybodaeth** y cymhwyster hwn. Yng nghyd-destun y cymhwyster hwn, dylid ystyried y rhain fel gweithdrefnau nodweddiadol/cyffredin sy'n bodoli mewn sefydliadau, er enghraifft, y rheini a fyddai i'w gweld yn y rhan fwyaf o sefydliadau a/neu ar y rhan fwyaf o safleoedd/gweithleoedd adeiladu. Mae enghreifftiau o'r gweithdrefnau y dylid rhoi sylw iddynt a chanllawiau arnynt i'w gweld yn y canlyniadau cyflawni (dyfnder y cynnwys) yn yr unedau.

Lle cyfeirir at **weithdrefnau sefydliadol** mewn perthynas ag unrhyw gynnwys sy'n **seiliedig ar sgiliau**, dyma bolisiâu a gweithdrefnau'r darparwr dysgu/coleg a'r gweithdy y mae'r asesiad yn cael ei gynnal ynddo, e.e. Iechyd a Diogelwch, storio offer a chyfarpar yn ddiogel, gwaredu gwastraff, ac ati.

Nod yr wybodaeth isod yw rhoi trosolwg o strwythur cynnwys unedau a sut mae'r meysydd cynnwys yn ymwneud â'i gilydd yn ogystal â darparu ac asesu cymwysterau.

Canlyniadau dysgu

Mae canlyniadau dysgu yn grwpio darnau o wybodaeth a/neu sgiliau ymarferol cysylltiedig gyda'i gilydd ac yn cael eu cyflwyno o ganlyniad i'r broses ddysgu h.y. yr hyn y mae'n rhaid i ddysgwyr ei ddeall neu allu ei wneud ar ôl addysgu a dysgu. Mae nifer o feini prawf asesu yn ategu pob deilliant dysgu. Yn yr enghraifft isod, mae'r deilliant dysgu hwn yn ymwneud â'r prosesau gwahanol ar gyfer stacio, storio a pharatoi.

Deilliant dysgu:

2. Deall prosesau stacio, storio a pharatoi deunyddiau ar gyfer adeiladu waliau brics, blociau a cherrig.

Meini Prawf

Mae'r meini prawf yn rhannu'r deilliant dysgu yn feysydd llai i'w trafod. Y meini prawf hyn fydd yn cael eu hasesu mewn cysylltiad â'r canlyniad dysgu. Yn yr enghraifft isod, mae maen prawf 2.1 yn ymwneud â'r rhesymau dros stacio a storio deunyddiau, a ysgrifennwyd ac a asesir yn erbyn y deilliant dysgu.

Meini Prawf

2.1 Rhesymau dros stacio a storio deunyddiau

Ystod

Mae ystod yn cynnwys gwybodaeth am ba mor eang mae'n ofynnol i faen prawf asesu penodol fod. Er enghraifft, y rhesymau gwirioneddol dros bentyrru a storio deunyddiau. Nid yw'r ystod yn rhestr gynhwysfawr. Mae'n bosib y bydd enghreifftiau eraill a allai ddod o dan y maes pwnc, ond, mae'r rhai sydd wedi'u rhestru wrth yr ystod yn allweddol ar gyfer darparu cynnwys yr uned - **mae'n rhaid cynnwys pob elfen sydd wedi'i rhestru o dan yr ystod wrth ddarparu'r uned.**

***Ystod:** gwarchod, effeithlonrwydd, diogelwch*

Manyllder y cynnwys

Mae manylder y cynnwys yn amlinellu pa mor fanwl y mae'n rhaid mynd drwy'r cynnwys. Mae hyn yn golygu bod modd addysgu ar y lefel gywir er mwyn i'r dysgwr fod yn barod i gael ei asesu. Er enghraifft, mae 'dylai dysgwyr gydnabod y rhesymau' yn tynnu sylw at y ffaith y bydd yn rhaid i'r dysgwyr ddeall 'sut' / 'pam' yng nghyswllt yr ystod.

Deilliannau cyflawni (manylder y cynnwys)

2.1 Bydd dysgwyr yn cydnabod y rhesymau dros **storio** deunyddiau cyn eu defnyddio er mwyn eu gwarchod rhag y tywydd, rhag difrod a rhag cael eu dwyn. Bydd dysgwyr hefyd yn cydnabod y rhesymau dros **bentyrru a storio** deunyddiau o ran effeithlonrwydd yng nghyswllt **paratoi** ar gyfer gwaith.

Cynnwys yr Uned Graidd

Uned 201: Cyflogaeth a chyflogadwyedd yn y sector adeiladu

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 30 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn rhoi gwybodaeth i'r dysgwr am rai o'r agweddau ehangach yn y sector adeiladu.

Bydd dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a, lle bo hynny'n berthnasol, eu sgiliau o ran:

- y cyrff a'r sefydliadau crefft perthnasol yn y sector adeiladu
- prif egwyddorion hunangyflogaeth yn y sector adeiladu
- pwysigrwydd sgiliau rhyng-bersonol a rhyngbersonol
- datrys problemau o fewn cwmpas eu cyfrifoldeb.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Beth yw adfyfrio a phryd fydd angen i mi ei ddefnyddio?
- Beth mae Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr yn ei wneud?
- Beth yw cerdyn CSCS a sut mae cael un?
- Beth mae angen i mi ei ystyried am fod yn hunangyflogedig?

Deilliant dysgu:

1. Gwybod am y cyrff a'r sefydliadau crefft yn y sector adeiladu

Meini Prawf

1.1 Y cyrff a'r sefydliadau crefft yn y sector adeiladu

1.2 Rôl cyrff a sefydliadau crefft yn y sector adeiladu

1.3 Y cynlluniau cardiau cymhwysedd yn y sector adeiladu a'r mathau o gardiau sydd ar gael

1.4 Cofrestru'n broffesiynol fel gweithiwr adeiladu proffesiynol

1.5 CITB a'i rôl yn y sector adeiladu

Ystod: hyfforddiant a DPP; cofrestru

2. Gwybod beth yw prif egwyddorion hunangyflogaeth yn y sector adeiladu

Meini Prawf

2.1 Nodweddion hunangyflogaeth

2.2 Manteision ac anfanteision hunangyflogaeth

2.3 Cyfrifoldebau o fod yn hunangyflogedig

2.4 Patrymau mewn cyflogaeth a thwf a gostyngiad yn y galw

Ystod: cyfnodau prysur a chyfnodau tawel mewn gwaith adeiladu, diffyg recriwtio, rhagolygon prinder sgiliau, rhagfynegi tueddiadau, swyddi gwag

2.5 Dyletswydd gofal i sicrhau bod cynnyrch a gwaith yn ddiogel i ddefnyddwyr

3. Gwybod pa mor bwysig yw sgiliau rhyngpersonol

Meini Prawf

3.1 Pwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol ac yn briodol gydag eraill

Ystod: aelodau'r tîm/cydweithwyr, crefftau eraill, rheolwyr, cwsmeriaid/cleientiaid ac aelodau'r cyhoedd

3.2 Pwysigrwydd deallusrwydd emosiynol wrth gyfathrebu'n effeithiol

3.3 Sut mae cynllunio a rheoli eich amser eich hun

3.4 Sut i osod targedau a meini prawf llwyddo

3.5 Pwysigrwydd adfyfrio

4. Gwybod sut i ddatrys problemau o fewn cwmpas ei gyfrifoldeb

Meini Prawf

4.1 Adnabod problemau a allai godi mewn prosiectau adeiladu

Ystod: prinder adnoddau (deunyddiau, pobl, arian, offer, cyfarpar), methiant cyfathrebu, gwybodaeth anghywir, problemau prosesu, problemau'n codi o newidiadau i'r fanyleb, newidiadau i'r amserlen, cynnyrch/offer diffygiol (gan gynnwys cynhyrchion ffug), diffyg cydymffurfio, a diffygion technegol/ffisegol y system sy'n cael ei gosod

4.2 Sut mae dod o hyd i atebion i broblemau

4.3 Sut mae profi a gwerthuso atebion

Deilliannau Cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Canlyniad 4

1.1 Bydd dysgwyr yn ymwybodol o'r ystod lawn o sefydliadau crefft yn y sector adeiladu, gan gynnwys y corff crefft ymbarel – Build UK; y ffederasiynau prif ffrwd mwy fel Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr a Ffederasiwn Cenedlaethol yr Adeiladwyr.

Bydd dysgwyr hefyd yn gwybod am y sefydliadau arbenigol sy'n cwmpasu pob agwedd arbenigol ar y diwydiant adeiladu yn y grefft o'u dewis. Mae ffederasiynau arbenigol yn cynnwys: y Gymdeithas Diogelwch Tân, y Ffederasiwn Toi Cenedlaethol, Grŵp Hyfforddi'r Diwydiant Cerrig Naturiol, Cymdeithas Contractwyr Lloriau Diwydiannol Concrid, ICE (Sefydliad y Peirianwyr Sifil) a Chymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil Cymru (CECAW).

Dylai dysgwyr allu adnabod y ffederasiynau crefft penodol sy'n cefnogi eu crefft, ac amrywiaeth o gymdeithasau ychwanegol sy'n cefnogi elfennau mwy arbenigol yn eu crefft. Dylai dysgwyr wybod am gofrestru'n broffesiynol fel gweithiwr adeiladu proffesiynol ar gyfer y grefft o'u dewis.

1.2 Bydd dysgwyr yn deall rôl sefydliadau crefft yn y sector adeiladu. Dylai hyn gynnwys rôl cryfhau, uno ac eirioli Build UK; y sicrwydd y mae aelodaeth cwmni o FMB neu NFB yn ei gynnig i gwsmeriaid, yn ogystal â'r cymorth busnes a'r rheolaeth ansawdd y maent yn ei gynnig i aelodau; a'r cymorth o ran 'llais', hyfforddiant a chefnogaeth dechnegol y mae cymdeithasau arbenigol yn ei gynnig i gontractwyr arbenigol.

Bydd dysgwyr yn ymwybodol o undebau, a'u gwasanaethau/buddiannau.

1.3 – 1.4 Bydd dysgwyr yn gwybod am y cynlluniau cardiau ar gyfer crefftau adeiladu gan gynnwys y cerdyn CSCS gorfodol. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw rôl darparwyr cardiau, a'r gofynion cofrestru a chymwysterau sy'n cael eu cydnabod gan y diwydiant. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw rôl cynlluniau person cymwys a'r cyfle i ddod yn aelodau o gyrff fel FMB neu NFB.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw rôl darparwyr cardiau, a'r gofynion cofrestru a'r angen am gymwysterau sy'n cael eu cydnabod gan y diwydiant.

Bydd dysgwyr yn cydnabod manteision cofrestru'n broffesiynol gyda'r sefydliad adeiladu proffesiynol perthnasol fel: potensial i ennill cyflog uwch, gwell rhagolygon gyrfa a chyflogadwyedd, statws uwch sy'n arwain at fwy o hunan-barch, cydnabyddiaeth ryngwladol o gymhwysedd ac ymrwymiad, tystiolaeth o arbenigedd, mwy o ddylanwad o fewn ei sefydliad a'i ddiwydiant ei hun, a chydabyddiaeth fel gwrth-lofnodwr.

1.5 Bydd dysgwyr yn cydnabod rôl Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) a'i gymorth a'i gyllid ar gyfer hyfforddiant Adeiladu a DPP parhaus. Bydd dysgwyr yn deall y gofynion ar gyfer cofrestru cwmnïau a rhwydwaith o grwpiau hyfforddi ac ymgynghorwyr CITB ledled y wlad.

Deilliant 2

2.1 – 2.3 Bydd dysgwyr yn sylweddoli eich bod yn cael eich ystyried yn unig fasnachwr os ydych chi'n dechrau gweithio i chi eich hun. Mae hyn yn golygu eich bod yn hunangyflogedig - hyd yn oed os nad ydych wedi dweud wrth Gyllid a Thollau EM eto.

Bydd dysgwyr yn gwybod y bydd angen iddynt fod yn gyfrifol, yn annibynnol ac yn llawn hunangymhelliant er mwyn llwyddo i fod yn hunangyflogedig. Bydd dysgwyr yn adnabod manteision allweddol: bod yn fos arnoch chi eich hun, cael mwy o gyfleoedd i ennill mwy, defnyddio treuliau, bod â mwy o hyblygrwydd mewn trefniadau gwaith, dewis eich cwsmeriaid eich hun ac ati. Bydd dysgwyr yn adnabod y prif gyfrifoldebau o ran: treth, gweinyddu a chynllunio. Anfanteision posibl cyfrifoldeb am y gwaith, diffyg sicrwydd, ynysu cymdeithasol, cyfalaf i brynu offer a chyfarpar, costau yswiriant; dim tîm ehangach i ddibynnu arno, dim o'r buddiannau a gaiff cyflogeion.

2.4 Bydd dysgwyr yn gallu adnabod patrymau hanesyddol yn y diwydiant, gan gynnwys cyfnodau prysur a thawel allweddol. Bydd dysgwyr yn gwybod beth mae prinder sgiliau a diffyg sgiliau yn ei olygu ac yn gwybod sut mae tueddiadau'n cael eu rhagweld. Bydd dysgwyr yn sylweddoli pwysigrwydd gwybodaeth leol am y farchnad lafur a'r cyfleoedd sydd ar gael.

2.5 Bydd dysgwyr yn gwybod bod yn rhaid iddynt feddu ar y sgiliau, yr wybodaeth, y profiad a, lle bo'n berthnasol, y gallu sefydliadol i wneud y gwaith yn ddiogel a heb risg i iechyd. Bydd dysgwyr yn gwybod y byddant yn gyfrifol am sicrhau bod y gwaith yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol (fel CDM ac ati).

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn adnabod dull priodol o gyfathrebu, a gofynion cyfathrebu gwybodaeth dechnegol a gweithredol gan gynnwys: adroddiadau, llythyrau ffurfiol, negeseuon e-bost a negeseuon testun, ac ati. Bydd dysgwyr yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu ar gyfer cysylltiadau gwaith da gydag aelodau'r tîm/cydweithwyr, crefftau eraill, rheolwyr, ymgynghorwyr, cwsmeriaid/cleientiaid, ac aelodau o'r cyhoedd a pharchu anghenion pobl eraill. Bydd dysgwyr yn deall goblygiadau cyfathrebu gwael i'r gwaith sy'n cael ei wneud a'r effaith y mae cyfathrebu gwael yn ei chael ar dîm y safle a'r cydweithwyr. Mae hyn yn cynnwys gweithio hyd eithaf eich gallu a bod yn weithiwr/weithiwr da; cydweithio â'r cyflogwr a/neu'r cwsmer yn ystod gweithgareddau gwaith.

3.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw ystyr deallusrwydd emosiynol a'i bwysigrwydd o ran cyfathrebu'n effeithiol. Bydd dysgwyr yn deall ei fod yn gallu meithrin perthynas dda â'r staff a restrir yn yr ystod yn 3.1. Gall deallusrwydd emosiynol hwyluso cyfathrebu clir, cryno, effeithiol a chadarnhaol. Bydd dysgwyr yn cydnabod yr angen am hunanymwybyddiaeth a hunanreolaeth; ymwybyddiaeth gymdeithasol a rheoli perthynas ag eraill. Bydd dysgwyr yn deall sut mae cymhwyso egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth weithio gydag eraill.

- 3.3 Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd cynllunio a rheoli eu hamser eu hunain, sut gall cynllunio liniaru dryswch (a straen dilynol) a manteision defnyddio meddalwedd fel calendr ffôn, rhannu calendr, ac amserlennu blaenoriaethau – a chadw golwg.
- 3.4 Bydd dysgwyr yn cydnabod pwysigrwydd gosod targedau (a all fod yn dargedau CAMPUS/SMART/C) a sicrhau canlyniadau. Bydd dysgwyr yn deall beth mae meini prawf llwyddiant yn ei olygu fel y 'meini prawf ansoddol neu feintiol a ddefnyddir i farnu'r prosiect llwyddiannus'. Bydd dysgwyr hefyd yn gwybod beth yw ffactorau llwyddiant a sut gallent ychwanegu at lwyddiant. Bydd dysgwyr yn gallu cysylltu hyn â phwysigrwydd sgiliau rhyngbersonol.
- 3.5 Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd adfyfrio wrth gyflawni prosiect (cyflawni'r gwaith) ac o ran cysylltiadau personol. Bydd dysgwyr yn cydnabod dysgu o ymarfer/dysgu drwy brofiad – sy'n sgil hanfodol er mwyn gwella sgiliau a galluoedd. Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio modelau dysgu sylfaenol o ymarfer.

Deilliant 4

- 4.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau (a materion) sy'n gallu codi mewn prosiectau adeiladu. Gall problemau godi o amrywiaeth eang o achosion, a gallent amlygu problemau technegol, problemau cyfathrebu, offer diffygiol neu fethiannus (a allai olygu goblygiadau i iechyd a diogelwch); a diffyg cydymffurfio a namau/problemau neu faterion eraill.
- 4.2 Bydd dysgwyr yn ymwybodol o ddwy strategaeth a dull datrys problemau ac yn gallu eu defnyddio, fel treialu a methu, dadansoddi achosion gwaelodol, ymchwil, meddwl ochrol, rhannu a gorchfygu, taflu syniadau neu ddulliau priodol eraill.
- 4.3 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae profi a gwerthuso atebion yn ddiogel o fewn cwmpas eu cyfrifoldeb er mwyn cywiro problemau nodweddiadol mewn gwaith adeiladu.

Uned 202: Arferion sydd wedi newid dros amser

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 45 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Pwrpas yr uned hon yw helpu dysgwyr i gael gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae deunyddiau, offer a thechnegau wedi newid ac addasu o arferion cyn 1919 i'r arferion presennol, yn ogystal ag edrych i'r dyfodol.

Bydd dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a, lle bo hynny'n berthnasol, eu sgiliau o ran:

- y sector adeiladu ac amgylchedd adeiledig sy'n newid
- y newidiadau mewn deunyddiau, offer a thechnegau adeiladu dros amser
- y berthynas rhwng crefftau a'r amgylchedd
- arferion cysylltiedig ym maes adeiladu a pheirianeg gwasanaethau adeiladu.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Beth newidiodd ym maes Adeiladu yn 1919?
- Beth yw graean?
- Sut mae DPM yn gweithio?
- Beth yw BIM a sut mae'n dylanwadu ar y broses adeiladu?
- Beth yw Passivhaus?

Deilliant dysgu:

1. Gwybod am y newidiadau mewn pwysau a deunyddiau adeiladu dros amser

Meini Prawf

1.1 Adeiladu cyn 1919

Ystod: pwysau (dylanwadau daearyddol, angen lleol), deunyddiau (ar gael yn rhanbarthol)

1.2 Adeiladu ar ôl 1919 i'r cyfnod modern

Ystod: pwysau (cadwyn gyflenwi, galw gan y diwydiant, poblogaeth); deunyddiau (safoni, arloesi)

1.3 Adeiladu yn yr 21^{ain} ganrif

Ystod: pwysau (newid yn yr hinsawdd, ôl troed carbon, argaeledd adnoddau); deunyddiau (calch, deunyddiau adeiladu naturiol, deunyddiau wedi'u cynhyrchu drwy ddulliau peirianyddol)

2. Gwybod am y newidiadau mewn dulliau adeiladu dros amser

Meini Prawf

2.1 Dulliau adeiladu cyn 1919

Ystod: deunyddiau, offer a thechnegau a ddefnyddid cyn 1919

2.2 Technegau adeiladu ar ôl 1919 ac yn y cyfnod modern

Ystod: esblygiad dulliau a thechnegau adeiladu modern wedi'u siapio gan newidiadau mewn deunyddiau, offer a thechnegau.

2.3 Technegau a thechnolegau adeiladu yn yr 21^{ain} ganrif ar gyfer crefft benodol

Ystod: gweithgynhyrchu oddi ar y safle; cydrannau adeiladu parod; argraffu cydrannau adeiladu 3-D; economi gylchol, dylunio cynaliadwy ac ôl-osod; inswleiddio; awyru; technolegau newydd a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg

3. Deall y berthynas rhwng crefftau a'r amgylchedd

Meini Prawf

3.1 Cynaliadwyedd a rheoleiddio'r diwydiant

3.2 Ystyriaethau ac egwyddorion ecolegol

3.3 Dulliau cynaliadwy

Ystod: cadw gwres ac awyru, casglu dŵr glaw, celloedd tanwydd, paneli solar, pypmiau gwresogi ac oeri, adeiladau di-garbon.

3.4 Gwaredu gwastraff wrth adeiladu

Ystod: lleihau gwastraff, gwaredu gwastraff, egwyddorion ailgylchu ym maes crefft y dysgwr.

4. Deall arferion cysylltiedig yn y diwydiant adeiladu

Meini Prawf

4.1 Rhyngddibyniaethau rhwng crefftau

Ystod: y berthynas rhwng crefftau unigol a chrefftau eraill mewn gwahanol sefyllfaoedd, o adeiladu o'r newydd i atgyweirio strwythurau traddodiadol.

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 4

1.1 Pwysau: Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r angen lleol (math o strwythurau a'r defnydd ohonynt, anghenion diwydiant, anghenion diwylliannol). Dylanwadau daearyddol: argaeledd adnoddau'n lleol, yr hinsawdd leol (ystyriaethau'r tywydd) dulliau ac arddulliau a dylanwad lleol arnynt; natur unigryw'r ardal leol.

Deunyddiau: Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw priodweddau a defnyddiau sylfaenol morterau, agregau, rhwymwyr, gorffeniadau swyddogaethol ac addurniadol mewnol ac allanol, cerrig, llechi, pren a phridd. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw natur athraidd morterau calch a phridd.

Yn benodol i'r cyfnod hwn, bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o gludo deunyddiau a'r gadwyn gyflenwi; manteision defnyddio deunyddiau sydd ar gael yn y rhanbarth yn lleol i safleoedd gwaith, a'r rhwystrau/problemau sy'n gysylltiedig â defnyddio deunyddiau nad ydynt yn lleol i safleoedd gwaith.

1.2 Pwysau: Bydd dysgwyr yn gwybod am y datblygiadau ym maes trafndiaeth a ddylanwadodd ar y gadwyn gyflenwi ers y chwyldro diwydiannol.

Ymwybyddiaeth o ffynonellau deunyddiau adeiladu, gan gymharu deunyddiau a geir yn lleol a'r rheini a fewnforir i ranbarth.

Bydd y dysgwr yn gwybod bod y dewis o ddeunyddiau hefyd yn adlewyrchu statws yr adeilad ar gyfer adeiladau traddodiadol. Er enghraifft, roedd deunyddiau gwerth uwch yn aml yn cael eu defnyddio ar gyfer eglwysi, yn enwedig ar gyfer y ffenestri a nodweddion dylunio addurniadol eraill.

Deunyddiau: Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion sylfaenol slabiau congrid, brics a blociau, dur, gwydr, plastigau, deunyddiau cyfansawdd, safoni deunyddiau, a philenni atal lleithder.

Y rôl y mae deunyddiau fel sment, gwydr a dur wedi'i chwarae yn y diwydiant a'r effaith y mae datblygiadau newydd o ran deunyddiau wedi'i chael ar raddfa a chyflymder y gwaith

adeiladu, gan gynnwys cost-effeithiolrwydd a gwydnwch. Bydd dysgwyr yn deall pam mae pilenni atal lleithder (DPC, DPM) yn cael eu cynnwys mewn adeiladau ar ôl 1919.

1.3 Pwysau: Bydd dysgwyr yn gwybod am bwysau cynyddol newid yn yr hinsawdd ac ôl troed carbon y diwydiant adeiladu. Mae angen dealltwriaeth o bwysigrwydd effeithlonrwydd ynni ac ynni corfforedig o ran cyrraedd y targed dim-carbon. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r diwydiant Adeiladu.

Deunyddiau: Bydd angen i ddysgwyr wybod beth yw priodweddau a defnydd calch (calchfaen, rendrau calch a morterau a phlastrau); deunyddiau adeiladu naturiol a deunyddiau wedi'u cynhyrchu drwy ddulliau peirianyddol (pren, pren wedi'i asetylu, brics a blociau wedi'u peiriannu, agregau concrid a gwydr wedi'u malu, brics a blociau â mân dyllau ynddynt).

Bydd dysgwyr yn cydnabod yr angen am gynaliadwyedd adeiladau traddodiadol a brodorol; deunyddiau adeiladu cynaliadwy; ynni corfforedig, dewis deunyddiau ac ansawdd, effeithlonrwydd ynni, rheoli gwastraff a deunyddiau wedi'u hailgylchu. Mae cynaliadwyedd hefyd yn cynnwys ailddefnyddio adeiladau, yn hytrach na'u dymchwel ac adeiladu rhai newydd, yn ogystal â gwella perfformiad thermol adeiladau modern a thraddodiadol.

Bydd dysgwyr yn gwerthfawrogi gweithgynhyrchu oddi ar y safle; adeiladau modiwlaid, cydrannau adeiladu parod; technolegau adeiladu digidol.

Bydd dysgwyr yn ymwybodol o ddulliau traddodiadol o arolygu a dylunio adeiladau, yn ogystal â rhaglenni adeiladu modern gan gynnwys meddalwedd dylunio digidol, offer, technolegau ac apiau, dronau, roboteg, BIM, CAD, modelu 3D, ac efelychiadau.

Bydd gan ddysgwyr wybodaeth am feddalwedd sy'n gysylltiedig â 2D a 3D. Bydd dysgwyr yn gallu adnabod offer clyfar a manteision eu defnyddio mewn adeiladu o'u cymharu â dulliau traddodiadol/presennol.

Bydd dysgwyr yn gallu gweld ble a sut y gellir defnyddio technolegau, apiau, dronau a roboteg ym maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, a manteision a rhwystrau eu defnyddio.

Bydd gan ddysgwyr wybodaeth sylfaenol am gysyniadau argraffu 3D gan gynnwys y defnydd ohono, ei fanteision a'i gyfyngiadau o ran cynllunio, dylunio, modelu, ac adeiladu.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r dulliau adeiladu nodweddiadol ar gyfer adeiladau cyn 1919. Dylai hyn gynnwys y deunyddiau, yr offer a'r technegau sy'n berthnasol i'r grefft o'u dewis.

Gwaith Brics:

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau adeiladu waliau solet a fframiau pren traddodiadol, a phwysigrwydd sicrhau bod adeiladwaith yr adeilad yn gallu anadlu gan ddefnyddio

awyru naturiol (llefydd tân a simneiau), defnyddio offer llaw a deunyddiau lleol yn bennaf fel cerrig a llechi.

Gwaith Coed Pensaernïol:

Bydd dysgwyr yn gwybod am y dulliau traddodiadol o lunio ffenestri codi a ffenestri casment a gwahanol fathau o lud fel glud anifeiliaid a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchion saernïaeth fewnol a phaent preimydd ar gyfer cynhyrchion saernïaeth allanol. Bydd dysgwyr yn gwybod mai ystod gyfyngedig o beiriannau oedd ar gael a bod dibyniaeth ar systemau belt.

Gwaith Coed ar y Safle:

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau adeiladu ar gyfer

- lloriau gwaelod traddodiadol (lloriau pren)
- linteli pren, *bressummers*
- parwydydd cyplog
- toeau traddodiadol gyda brenhinbyst a banonbyst.

Bydd dysgwyr yn gwybod am dechnegau uniadu strwythurol traddodiadol fel tyno danheddog a ddefnyddir yn y gwaith adeiladu uchod.

Bydd dysgwyr yn gwybod bod pren a gwaith haearn lleol yn cael eu defnyddio'n bennaf, ac mai dim ond offer llaw oedd ar gael.

Codi Fframiau Pren:

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau adeiladu ar gyfer

- lloriau gwaelod traddodiadol (lloriau pren)
- linteli pren, *bressummers*
- parwydydd cyplog
- toeau traddodiadol gyda brenhinbyst a banonbyst.

Bydd dysgwyr yn gwybod am dechnegau uniadu strwythurol traddodiadol fel tyno danheddog a ddefnyddir yn y gwaith adeiladu uchod.

Bydd dysgwyr yn gwybod bod pren a gwaith haearn lleol yn cael eu defnyddio'n bennaf, ac mai dim ond offer llaw oedd ar gael.

Plastro Soled a Dreileinio:

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau o ddefnyddio gorffeniadau wyneb swyddogaethol mewnol ac allanol gan gynnwys gwaith plastr addurniadol mewnol ac allanol (render a phlastr) gan ddefnyddio dellt, calch hydroilig ac offer llaw fel morthwyl dellt, lefel dŵr a thrywel ddur meddal.

Paentio ac Addurno:

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau o ddefnyddio gorffeniadau gwarchodol ac addurniadol mewnol ac allanol (gwneud paent, offer paratoi, defnyddio brws i baentio a phapuro), defnyddio blew anifeiliaid, plwm gwyn a gwyngalchu.

Gwaith Toi gyda Llechi a Theils:

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau o adeiladu strwythurau toi traddodiadol (nenffyrch, cyplau) a gorchuddion to (llechi, teils, cerrig, to gwellt) gan ddefnyddio mortar calch a blew ceffyl, morthwylion, cyllyll a llifiau.

Gwaith tir:

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau gwaith tir a gweithrediadau sifil (trin cerrig heb beiriannau, gosod ffyrdd a llwybrau troed heb beiriannau, systemau draenio cyfun) ac adnoddau perthnasol (cerrig naturiol a cherrig mân ar gyfer palmentydd a waliau, morthwylion, cynion, lefelau dŵr).

Teilsio Waliau a Lloriau:

Bydd dysgwyr yn gwybod bod teils yn dod yn bennaf o ffatrioedd a leolwyd yn Stoke-on-Trent, y mathau a'r meintiau o deils waliau a lloriau a gynhyrchwyd, ac mai ystod gyfyngedig o offer llaw a ddefnyddiwyd.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r dull o osod teils â mortar calch, a'r angen i socian y rhan fwyaf o deils cyn eu gosod oherwydd eu priodweddau mân-dyllog. Bydd dysgwyr yn gwybod bod yr holl deils yn cael eu growtio gan ddefnyddio'r un math o forter a bod uniadau teils yn fwy oherwydd maint goddefiant gweithgynhyrchu'r cyfnod.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r dulliau adeiladu nodweddiadol ar gyfer adeiladau ar ôl 1919. Dylai hyn gynnwys yr offer, y deunyddiau a'r technegau sy'n berthnasol i'r grefft o'u dewis.

Bydd dysgwyr yn deall datblygiad arferion adeiladu yn y grefft o'u dewis, er enghraifft:

- dulliau ceudod brics ar gyfer adeiladu ac amrywiadau diweddarach o ddyluniad wal geudod
- lloriau, waliau, toeau a gwaith coed parod

Gwaith Brics:

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau adeiladu strwythurau waliau solet a waliau ceudod (dulliau adeiladu treiddiol, cyrsiau atal lleithder, cynnydd mewn deunydd inswleiddio) a defnyddio peiriannau ac adnoddau (deunyddiau torri, defnyddio parod, unedau concrid).

Gwaith Coed Pensaernïol:

Bydd dysgwyr yn gwybod am effaith y gofyniad ar ôl yr Ail Ryfel Byd ar gyfer defnydd darbodus o bren a dylunio o ansawdd ac ar gyflwyno safonau gweithgynhyrchu cynhyrchion gwaith coed fel Cymdeithas Gwneuthurwyr Cynhyrchion Gwaith Coed Lloegr EJMA (EJMA).

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddatblygu technegau uniadu terfynol fel uniadau crib a chyflwyno pren wedi'i baratoi drwy ddulliau peirianyddol, deunyddiau dalen, adlynyon gwell, dulliau cadw a gwaith haearn.

Bydd dysgwyr yn gwybod am yr ystod gynyddol o beiriannau statig sydd ar gael ar gyfer uniadu, sandio, a siapio cydrannau gwaith coed a chyflwyno offer pŵer cludadwy a datblygu technegau uniadu o ganlyniad i'w cyflwyno.

Gwaith Coed ar y Safle:

Bydd dysgwyr yn gwybod bod pren wedi'i fewnforio a phren wedi'i safoni'n rheolaidd (CLS - Safon Coed Canada) wedi dod ar gael yn rhwyddach a bydd yn gwybod am gyflwyno cadwolion seiliedig ar hydoddion a deunyddiau dalen pren.

Bydd dysgwyr yn gwybod am yr angen i ddefnyddio pren yn ddarbodus a'r safonau ansawdd drwy gyflwyno cyplau to o'r math a argymhellir gan y Gymdeithas Ymchwil a Datblygu Pren (TRADA) a thablau maint distiau strwythurol.

Bydd dysgwyr yn gwybod am gyflwyno offer pŵer cludadwy a systemau gosod a gwaith haearn adeiladu masnachol.

Codi Fframiau Pren:

Bydd dysgwyr yn gwybod bod pren wedi'i fewnforio a phren wedi'i safoni'n rheolaidd (CLS - Safon Coed Canada) wedi dod ar gael yn rhwyddach a bydd yn gwybod am gyflwyno cadwolion seiliedig ar hydoddion a deunyddiau dalen pren.

Bydd dysgwyr yn gwybod am yr angen i ddefnyddio pren yn ddarbodus a'r safonau ansawdd drwy gyflwyno cyplau to o'r math a argymhellir gan y Gymdeithas Ymchwil a Datblygu Pren (TRADA) a thablau maint distiau strwythurol.

Bydd dysgwyr yn gwybod am gyflwyno offer pŵer cludadwy a systemau gosod a gwaith haearn adeiladu masnachol.

Plastro Soled a Dreileinio:

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau o ddefnyddio gorffeniadau swyddogaethol ac arwynebau mewnol ac allanol (render, plastr a phlastrfwrdd) yn cynnwys cyflwyno dreileinio gyda hoelion wedi'u galfaneiddio (c1950s), dulliau mecanyddol a thrwy fond uniongyrchol (tua 1980s) (plastrfwrdd safonol a phlastrfwrdd arbennig).

Paentio ac Addurno:

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau o ddefnyddio gorffeniadau gwarchodol ac addurniadol mewnol ac allanol (cynhyrchu paent, offer paratoi, gorchuddion waliau) gan ddefnyddio adnoddau perthnasol (brwsys synthetig/naturiol, gorchuddion finyl, paent plwm/di-blwm, paent dyfrsail a phaent olew).

Gwaith Toi gyda Llechi a Theils:

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau o adeiladu strwythurau toi (lap sengl, lap dwbl, haenau ffelt, gwaith plwm) a gorchuddion to (llechi, teils, cerrig, concrit) gan ddefnyddio offer pŵer 110v fel llifiau a driliau.

Gwaith tir:

Bydd dysgwyr yn gwybod am fathau o waith tir a gweithrediadau sifil (safonau cenedlaethol a ddefnyddir ar gyfer dulliau adeiladu, peiriannau palmantu ar gyfer ffyrdd concrit, peiriannau a chyfarpar trwm ar gyfer gwaith cloddio, llifiau mecanyddol, peiriannau torri niwmatig) ac adnoddau perthnasol (cyrbau parod, palmentydd ac unedau draenio wedi'u gwneud i fesur, brics peirianeg clai parod, cynhyconcrit parod, lefelau laser, driliau trydanol).

Teilsio Waliau a Lloriau:

Bydd dysgwyr yn gwybod bod teils wedi dechrau cael eu cynhyrchu'n fwy eang, yn bennaf gyda theils chwarel o Gymru a'r teils a gynhyrchwyd drwy'r dull cywasgu llwch ym Manceinion a Dorset.

Bydd dysgwyr yn ymwybodol o'r safonau a gyflwynwyd i'r diwydiant ac, yn benodol, CP202.

Bydd dysgwyr yn gwybod bod mwy o ddefnydd wedi cael ei wneud o deils llai mân-dyllog yn hanner olaf y ganrif a bod adlynyion sment a growtiau wedi cael eu defnyddio, oedd yn wyn ac yn llwyd fel arfer. Bydd dysgwyr yn gwybod bod pob teil llawr sydd wedi'u gosod ar is-haen bren yn cynnwys tywod a sment ag atgyfnerthiad rhwylllog ar bapur adeiladu bitwmen a drwy gyflwyno offer torri trydanol.

2.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau adeiladu sy'n dod i'r amlwg ar gyfer adeiladau'r 21^{ain} ganrif, a dylai hyn gynnwys y deunyddiau, yr offer a'r technegau sy'n berthnasol i'r grefft o'u dewis. Bydd dysgwyr yn gwybod am y technolegau newydd/sy'n dod i'r amlwg yn eu crefft. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cael gafael ar wybodaeth am ddatblygiadau newydd yn eu crefft – er enghraifft drwy sefydliadau proffesiynol, cyrff diwydiant a chymdeithasau crefft, erthyglau, cyhoeddiadau sy'n trafod y grefft, DPP ffurfiol, gwybodaeth gan weithgynhyrchwyr ac ati.

Bydd dysgwyr yn ymwybodol o raglenni adeiladu, arolygu a dylunio modern gan gynnwys BIM, CAD, modelu 3D, efelychu a dronau, yn ogystal â dulliau traddodiadol o arolygu a dylunio adeiladau fel sy'n berthnasol i'w crefft benodol.

Bydd gan y dysgwr ddealltwriaeth o ddylunio a dulliau adeiladu adeiladau modiwlaid ar gyfer eu crefft benodol.

Bydd dysgwyr yn deall ystyr y termau canlynol a beth maen nhw'n ei olygu o ran eu crefft: economi gylchol, dylunio cynaliadwy ac ôl-osod; inswleiddio; rheoli lleithder; awyru.

Gwaith Brics:

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau modern o adeiladu strwythurau waliau solet a waliau ceudod (wal allanol wedi'i selio, cyrsiau atal lleithder plastig, deunydd inswleiddio)

a defnyddio adnoddau perthnasol (adeiladu modylau, ffocws ar gynaliadwyedd, concrit). Bydd dysgwyr yn gwybod bod angen aerglosrwydd mewn adeiladau er mwyn gwella'r gwerth inswleiddio.

Gwaith Coed Pensaernïol:

Bydd dysgwyr yn gwybod am effaith systemau AutoCAD a'u perthynas â dulliau cynhyrchu peirianyddol CNC, a'r defnydd cynyddol o beiriannau a thechnegau cydosod modern fel torwyr laser/plasma a phren wedi'i drin yn beirianyddol h.y. pren wedi'i asio, proffiliau deunydd cyfansawdd plastig, a llinellau cydosod ar gyfer cydrannau asio a gynhyrchwyd ar raddfa fawr.

Gwaith Coed ar y Safle:

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddatblygiad paneli strwythurol parod.

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddeunyddiau cyfansawdd a phren wedi'i addasu a'u heffaith ar berfformiad, estheteg a dylunio.

Bydd dysgwyr yn gwybod am yr amrediad cynyddol o offer pŵer di-wifr a'r defnydd ohono.

Codi Fframiau Pren:

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw effaith datblygu gwaith adeiladu modiwlaid a pecynnau adeiladu parod.

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddeunyddiau cyfansawdd a phren wedi'i addasu a'u heffaith ar berfformiad, estheteg a dylunio.

Bydd dysgwyr yn gwybod am yr amrediad cynyddol o offer pŵer di-wifr a'r defnydd ohono.

Plastro Soled:

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau o ddefnyddio gorffeniadau swyddogaethol mewnol ac allanol i waliau (plaen a gwedog, deunyddiau rhydd traddodiadol, deunyddiau safonol ac arbenigol wedi eu cymysgu ymlaen llaw), rhimyn safonol, arbenigol, a rhimyn ar gyfer coten denau plastr a byrddau plastr arbenigol i fodloni rheoliadau gan ddefnyddio deunyddiau modern perthnasol (peiriannau spreio, cymysgu/gosod mecanyddol, tâp sgrim hunanludog, dulliau gosod mecanyddol unigol a rhai wedi eu coladu).

Dreileinio:

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau modern o ddefnyddio gorffeniadau mewnol swyddogaethol a gorffen arwynebau (plastrfwrdd arbenigol, systemau mewnol metel arbenigol, systemau gwrth-dân a rheolaeth acwstig) gan ddefnyddio adnoddau modern perthnasol (tapio ac uniadu heb beiriant/mecanyddol, uniadu cemegol cyflym, gan gynnwys preimarau a selwyr).

Paentio ac Addurno:

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau modern o ddefnyddio gorffeniadau swyddogaethol ac addurnol mewnol ac allanol (gorchuddio waliau digidol, spreio di-aer, spreio HVLP,

prosesau cemegol ar gyfer cymysgu paent) gan ddefnyddio adnoddau perthnasol (brwsys synthetig/naturiol, stripio paent eco-gyfeillgar, resinau synthetig, pigmentau).

Gwaith Toi gyda Llechi a Theils:

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau modern o adeiladu strwythurau toi (cynnyrch to GRP, ffenestri to, mortar wedi'i addasu â polymerau) a gorchuddion to (teils, cerrig, ffitiadau UPVC) gan ddefnyddio offer pŵer sy'n defnyddio batri fel driliau a llifiau.

Gwaith tir:

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau modern gwaith tir a gweithrediadau sifil (Dulliau Adeiladu Modern (MMC), Adeiladu 3D, modiwlau pconcrit parod, techneg adeiladu concrit hybrid, adeiladu modylol) ac adnoddau perthnasol (offer gosod GPS robotig, offer peirianyddol arbennig).

Teilsio Waliau a Lloriau:

Bydd dysgwyr yn gwybod ei bod wedi dod yn norm i ddefnyddio teils a bod teils panel wedi cael eu cyflwyno (h.y. teils gydag arwynebedd o $>1\text{m}^2$, a bod ymyl unrhyw deils yn $>1200\text{mm}$), a bod angen defnyddio gwahanol dechnegau gosod.

Bydd dysgwyr yn ymwybodol bod dyfeisiau lefelu wedi cael eu cyflwyno i leihau amrywiad rhwng lefelau teils, ac yn gwybod am systemau modern (pilenni rhyddhau, systemau gwresogi dan y teils ac o dan y llawr, teils wedi'u gosod ar bedestalau, teils wedi'u gosod ar systemau acwstig).

Bydd dysgwyr yn gwybod pa offer a chyfarpar sydd eu hangen i symud, trin a gosod teils mwy.

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am nodweddion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf Diogelu'r Amgylchedd, PAS 2030 a PAS 2035, Rheoliadau Gwastraff Peryglus, Deddf Atal a Rheoli Llygredd, Deddf Rheoli Llygredd. Bydd dysgwyr yn gwybod gwerth delweddu thermol mewn arferion adeiladu sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac yn deall codau arferion da BREEAM a Passivhaus.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw hanfodion ôl-osod yr ystod lawn o stoc adeiladu mewn modd cyfrifol, gan gynnwys rhai traddodiadol a modern.

Bydd dysgwyr yn gwybod am Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 a'r cosbau am dorri'r gyfraith (e.e. tarfu ar glwyd ystlumod neu nythfa madfallod dŵr).

Bydd dysgwyr yn gwybod sut gall dylunio'r prosiectau adeiladu helpu gydag effeithlonrwydd ynni a'r cysylltiad â chartrefi clyfar a thechnolegau clyfar, fel synwryddion a rheolyddion.

3.2 Bydd dysgwyr yn ymwybodol o egwyddorion ac ystyriaethau ecolegol ac yn gallu cysylltu hyn ag adeiladu a'r amgylchedd adeiledig. Bydd gan ddysgwyr

werthfawrogiad sylfaenol o gynefinoedd mewn perygl, gorlifdiroedd, gwrthbwysio bioamrywiaeth a phrif rywogaethau a warchodir, a deddfwriaeth gyfredol sy'n ymwneud â bywyd gwyllt a chynefinoedd.

3.3 Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r ystyriaethau cynaliadwy a ddefnyddir mewn adeiladu a'r amgylchedd adeiledig a chydabod cwmpas eu defnydd i gynnal adeilad iach. Bydd dysgwyr hefyd yn gallu nodi ym mha ffyrdd y gall adeiladau wrthbwysu eu hôl-troed carbon.

3.4 Bydd dysgwyr yn gwybod sut gall defnyddio gwahanol ddeunyddiau lleihau'r effaith ar yr amgylchedd yn eu maes crefft, ac egwyddorion '3 R' rheoli gwastraff (lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu).

Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor bwysig yw archebu deunyddiau'n gywir er mwyn lleihau gwastraff safle ac arbed arian ar orarchebu a chostau gwaredu gwastraff. Storio deunyddiau mewn modd priodol a rheoli'r rhestr stoc a didoli gwastraff yn briodol ar y safle.

Bydd dysgwyr yn ymwybodol o ganllawiau arferion da fel WRAP ar gyfer rheoli gwastraff yn y diwydiant. Bydd dysgwyr yn deall natur deunyddiau ailgylchadwy a bioddiraddadwy a'r effaith ar dirlenwi a'r gost i'r amgylchedd a'r math o ddeunyddiau sy'n cael eu hailgylchu'n aml ar y safle.

Bydd dysgwyr yn cydnabod sut y gall deunyddiau sgrap ddal gwerth (megis copr) gan ddeall ei fod yn adnodd a fydd yn dod i ben ac yn ymwybodol o'r gofrestr gyhoeddus o werthwyr metel sgrap yng Nghymru.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gwaredu gwastraff peryglus gan gynnwys casglu gwastraff asbestos ffibrog a sment. Defnyddio cludwyr gwastraff trwyddedig, broceriaid a delwyr. Y canlyniadau i'r gweithiwr, pobl eraill, a'r amgylchedd o beidio â dilyn yr arferion gorau, a gofynion statudol cysylltiedig mewn perthynas â gwaredu gwastraff.

Bydd dysgwyr yn gwybod am nodweddion allweddol rheoliadau gan gynnwys y Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd, y Rheoliadau Gwastraff Peryglus, y Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd, y Ddeddf Rheoli Llygredd, Rheoliadau Gwaredu Cyfarpar Trydanol ac Electronig.

Deilliant 4

4.1 Bydd dysgwyr yn gwerthfawrogi'r berthynas rhwng y grefft o'u dewis a chrefftau eraill mewn gwahanol gyd-destunau, o adeiladu o'r newydd i atgyweirio strwythurau traddodiadol.

Bydd dysgwyr yn gallu deall sut mae crefftau unigol yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhyngweithio. Bydd dysgwyr yn deall, er enghraifft, y gosod cyntaf a'r ail osod, a'r mathau o broblemau sy'n gallu codi a sut mae eu lliniaru.

Gellir cysylltu rhyngddibyniaethau ag arferion gweithio diogel, cynllunio, math o adeilad/cyd-destun, a chysylltiadau gweithio a chyfathrebu da. Bydd dysgwyr yn deall sut mae gwahanol grefftau'n rhyngweithio ar draws gwahanol sefyllfaoedd a sut mae'r rhyngweithio a'r rolau hyn wedi newid dros amser.

Uned 203: Cynllunio a gwerthuso gwaith yn y sector adeiladu yng Nghymru

Oriau Dysgu dan Arweiniad: 25

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn rhoi gwybodaeth i'r dysgwr am sut mae cynllunio a gwerthuso gwaith. Bydd dysgwyr yn gallu darllen a dehongli cynlluniau a dogfennau sy'n angenrheidiol i gyflawni amrywiaeth eang o dasgau yn y grefft. Bydd dysgwyr yn gallu cynllunio ar gyfer cwblhau amrywiaeth eang o dasgau yn y grefft, gan ddefnyddio'r sgiliau llythrennedd a rhifedd gofynnol a gosod eu meini prawf perfformiad eu hunain ar gyfer tasgau penodol.

Bydd dysgwyr yn gwerthuso eu perfformiad eu hunain wrth gyflawni amrywiaeth eang o dasgau yn y grefft hon mewn perthynas â'r gofynion penodol a'u Meini Prawf llwyddo eu hunain.

Bydd dysgwyr yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'n ymwneud â:

- sut mae cyfrifo costau a phennu'r gofynion o ran adnoddau
- gwaith cynllunio
- pwysigrwydd gwerthuso'r gwaith

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng amcangyfrif a dyfynbris?
- Sut mae prisio swydd fach?
- Sut mae prisio contract mawr?
- Beth yw RAMS?

Canllawiau: Lle bo'n berthnasol, gellir cyflwyno'r uned hon ar y cyd â'r unedau crefft sy'n cael eu darparu a deilliannau dysgu 3 a 4 y rhaglen Cyflogaeth a Chyflogadwyedd yn y Sector Adeiladu. Bydd y sgiliau yn y deiliant hwn yn bwysig er mwyn galluogi'r dysgwr i gynllunio, perfformio a gwerthuso ei waith yn yr asesiad Prosiect Ymarferol.

Deilliant dysgu:

1. Gwybod sut mae cyfrifo costau a phennu gofynion o ran adnoddau

Meini Prawf

1.1 Y prif dechnegau a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrif gwaith/prosiectau ym maes adeiladu

1.2 Sut i wybod y gofynion o ran adnoddau

1.3 Sut i amcangyfrif gofynion amser

2. Cynllunio'r gwaith sydd ei angen i gyflawni'r dasg/tasgau

Meini Prawf

2.1 Nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r dasg

Ystod: offer, peiriannau, cyfarpar, cynhyrchion, deunyddiau

2.2 Cynllunio'r gweithgareddau a threfnu'r gwaith er mwyn cwblhau'r dasg

2.3 Nodi meini prawf llwyddo ar gyfer y dasg

Ystod: prif elfennau'r gwaith, adnabod meysydd a all fod yn heriol

3. Gwerthuso gwaith a gwblhawyd

Meini Prawf

3.1 Gwerthuso'r gwaith sydd wedi'i gwblhau yn unol â briff y dasg a'r meini prawf llwyddo

Ystod: allbwn sy'n addas i'r pwrpas, yn ddiogel ac yn unol â

pharmedrau/goddefiannau'r dasg, ansawdd y gwaith, dewis offer, meini prawf

llwyddiant wedi'u gosod yn briodol, y deunydd a ddefnyddir a'r gwastraff a gynhyrchir, dull o gyflwyno/cynllunio gwaith fesul cam

Deilliannau Cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn magu ymwybyddiaeth o dechnegau amcangyfrif a ddefnyddir i gyfrifo cost, maint yr elw a dulliau o bennu pris.

1.2 Bydd dysgwyr yn adnabod y mathau o adnoddau fel:

- adnoddau traul (amherthnasol), fel deunyddiau ac arian
- adnoddau y gellir eu haildefnyddio, fel peiriannau, offer a phobl.

Bydd dysgwyr yn gwerthfawrogi'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer prosiectau adeiladu a phryd mae eu hangen a sut mae osgoi gwastraff. Bydd dysgwyr yn gwerthfawrogi amserlennu a'r angen i osgoi gorlwytho adnoddau.

- 1.3** Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth sylfaenol am sut i amcangyfrif y gofynion amser ar gyfer prosiectau adeiladu syml. Bydd hyn yn cynnwys dylunio, cynllunio, paratoi, gosod, comisiynu a gweinyddu'r prosiectau.

Deilliant 2

- 2.1 – 2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut i gynllunio ar gyfer cwblhau tasgau cyffredin sydd wedi'u diffinio'n dda ac sy'n mynd i'r afael â phroblemau syml. Bydd dysgwyr yn gallu dewis (a defnyddio) sgiliau a gweithdrefnau perthnasol i gyflawni'r grefft o'u dewis. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gwneud y gwaith cynllunio angenrheidiol er mwyn cwblhau'r gwaith, gan gynnwys datganiadau dull a risg (RAMS), cost a phrisio (e.e. amcangyfrifon cwsmeriaid), a defnyddio/creu diagramau neu luniadau gyda gwybodaeth gywir o ffynonellau gwybodaeth priodol.

Bydd dysgwyr yn nodi, yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth berthnasol i lywio camau gweithredu. Bydd dysgwyr yn gallu adnabod a chyflwyno dogfennau perthnasol ar gyfer offer a deunyddiau sydd eu hangen i gyflawni tasgau (e.e. rhestr adnoddau); a chynllunio trefn y gwaith (e.e. amserlen waith), fel bod gwaith yn cael ei gwblhau'n ddiogel, yn effeithlon ac yn effeithiol (gan greu cynlluniau gyda gweithgareddau, cerrig milltir a dibyniaethau).


- 2.3** Bydd dysgwyr yn gallu adnabod meini prawf llwyddiant ar gyfer y dasg, fel cerrig milltir, gweithgareddau allweddol, y deunyddiau a ddefnyddir, ac ansawdd gorffenedig ac ati. Bydd dysgwyr yn adnabod meysydd a fydd yn heriol iddynt gan eu galluogi i fynd i'r afael â hyn cymaint ag y bo modd yng nghamau cynllunio a pharatoi'r gwaith.

Deilliant 3

- 3.1** Bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso eu perfformiad wrth gyflawni'r tasgau, mewn perthynas â'r gofynion penodol a'u meini prawf llwyddo eu hunain.

Bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso eu perfformiad eu hunain yn erbyn y cynllun mewn perthynas ag agweddau allweddol fel:

- a ellid bod wedi mynd ati mewn ffordd wahanol?
- nodi pa mor effeithiol fu eu gweithredoedd
- cryfderau/gwendidau
- gwersi a ddysgwyd.



Llwybrau Crefft: Cynnwys Llwybr sy'n benodol i grefft

Llwybr A: Gosod Brics

Uned 204: Gwybodaeth Graidd Gosod Brics

**Oriau Dysgu dan
Arweiniad:** 50

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth gyffredinol sydd ei hangen ar gyfer y llwybr hwn.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth
- deall arferion gweithio diogel
- deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod
- deall gweithio i derfynau amser

Mae cynnwys yr uned hon wedi cael ei gyflwyno mewn ffordd generig gan ei fod yn gyson drwy lawer o'r unedau sgiliau yn y cymhwyster hwn. Dylid addysgu'r cynnwys, a bydd yn cael ei asesu'n gyffredinol ac yng nghyd-destun yr unedau sgiliau canlynol (lle bo hynny'n briodol);

- Gosod allan i godi Strwythurau Gwaith Maen
- Codi Strwythurau Gwaith Coed.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Pam mae cynefino â safleoedd yn bwysig?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cerdyn swydd a thaflen amser?
- Pwy yw Cadw a beth maen nhw'n ei wneud?

Deilliant dysgu

1. Deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth

Meini Prawf

- 1.1 Gweithdrefnau'r sefydliad a ddatblygwyd i roi gwybod am wybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas a'u cywiro, a sut y cânt eu rhoi ar waith
- 1.2 Y mathau o wybodaeth, eu ffynhonnell a sut maen nhw'n cael eu dehongli
- 1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad i ddatrys problemau gyda'r wybodaeth a pham ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu dilyn
- 1.4 Pwysigrwydd cadw dogfennau

2. Deall arferion gwaith diogel

Meini Prawf

- 2.1 Lefel y ddealltwriaeth y mae'n rhaid i weithwyr ei chael o wybodaeth am ddeddfwriaeth berthnasol, gyfredol a chanllawiau swyddogol a sut mae'n cael ei chymhwyso
- 2.2 Sut y dylid ymateb i argyfyngau a phwy ddylai ymateb
- 2.3 Gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol
- 2.4 Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny
- 2.5 Pam, pryd a sut y dylid defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch
- 2.6 Sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol

3. Deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod

Meini Prawf

- 3.1 Sut mae diogelu gwaith rhag difrod a phwrpas diogelu
- 3.2 Pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel a sut y gwneir hynny

4. Deall gweithio i derfynau amser

Meini Prawf

4.1 Sut mae gwaith yn cael ei wneud i fodloni'r rhaglen yn yr amser a drefnwyd a phwysigrwydd terfynau amser

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o weithdrefnau sefydliadol a'u nodweddion a'r ffyrdd o'u defnyddio, gan gynnwys cyfleu problemau ar lafar, cadwyn awdurdod, sgysiau anffurfiol, cynefino â'r safle.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion a ffyrdd o ddefnyddio lluniadau a chynlluniau, gofynion, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg, hysbysiadau safle ac arwyddion diogelwch, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, cyfarwyddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig, a rheoliadau adeiladu, ac yn gwybod sut maent yn cael eu rhoi ar waith.

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n codi o wybodaeth amhriodol – gan gynnwys camglywed cyfarwyddiadau, gwybodaeth anghywir, camddehongli datganiad dull, rhoi gwybodaeth anghywir. Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau a pheryglon posibl sy'n deillio o adnoddau gan gynnwys deunyddiau anaddas, tywydd garw ac amgylchiadau sy'n newid.

1.4 Bydd dysgwyr yn gwybod sut i gadw dogfennau, gan gynnwys: cardiau gwaith, taflenni gwaith, rhestrau deunyddiau/adnoddau a thafenni amser.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am egwyddorion y darnau canlynol o ddeddfwriaeth; rheoliadau adeiladu; rheoliadau Gweithio ar Uchder (WAH); Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (HASAWA); PUWER; ACOPs; RIDDOR; CDM; COSHH; PPE; LOLER; rheoliadau Codi a Chario â Llaw; rheoliadau Sŵn yn y Gwaith.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw diben pob deddfwriaeth, sut mae'n cael ei defnyddio mewn diwydiant a chanlyniadau peidio â chydymffurfio. Bydd dysgwyr yn deall swyddogaethau awdurdodau lleol o ran cynllunio a Rheoli Adeiladu a chyda strwythurau treftadaeth gan gynnwys ymgynghori â Cadw.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae ymateb i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol wrth ddelio â thanau, gollyngiadau, anafiadau ac argyfyngau.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o ddiffoddwyr tân a sut a phryd y cânt eu defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o dân. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu rôl a'u cyfrifoldeb o ran gwagio, atal (dŵr, CO₂, ewyn, powdr), y triongl tân a phwyntiau ymgynnull.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o hylifau sy'n gallu colli, sut mae eu hatal a sut mae eu nadu rhag gollwng. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer pecynnau gollwng, arwyddion a sut mae cau'r ardal.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o anafiadau a chyfrifoldebau cyffredin gan gynnwys swyddog cymorth cyntaf, adrodd am gymorth cyntaf a damweiniau ar gyfer argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol, gan gynnwys atal, gweithdrefnau brys, gwasanaethau brys, gweithdrefnau adrodd, mynediad ac allanfeydd ar gyfer cerbydau argyfwng.

2.3 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, gan gynnwys:

- safle – gan gynnwys ffensys dros dro, swyddogion diogelwch, gwyliadwriaeth
- gweithle - gan gynnwys agor a chloi
- cwmni - gan gynnwys llofnodi i mewn, gweithdrefnau awdurdodi ID
- y gweithiwr - gan gynnwys diogelwch offer, deunyddiau, cyfarpar a cherbydau, eiddo personol.

Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau diogelwch mewn annedd ddomestig o'u cymharu ag ar y safle.

2.4 Bydd dysgwyr yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni damweiniau ac yn gallu adnabod swyddog cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr hefyd yn deall y gyfraith sy'n ymwneud â nifer y bobl y mae angen eu hyfforddi'n briodol ar gyfer cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr yn deall y rolau a'r cyfrifoldebau mewn gwahanol safleoedd, gan gynnwys mewn cartref domestig, a sut mae cymryd cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles. Bydd dysgwyr yn deall sut mae adrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gweithio a RIDDOR ar gyfer digwyddiadau perthnasol. Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ddefnyddio'r llyfr cofnodi ar gyfer mân ddamweiniau a sut i gofnodi damweiniau fu bron â digwydd, gan gynnwys y gweithdrefnau adolygu ac ail-werthuso sydd ar waith.

2.5 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis, defnyddio a chynnal a chadw cyfarpar diogelu personol yn gywir, RPE, LEV, gan gynnwys gwybodaeth am y canlynol; sbectol ddiogelwch, gogls, het galed, siaced lachar, amddiffynwyr clustiau, esgidiau diogelwch, masgiau llwch (gan gynnwys profion ffitio wyneb), harneisiau diogelwch, menyg diogelwch, sachau atal cwmpo, matiau atal cwmpo, rheilen sgaffaldiau a rhwydi, lloriau ffug, hyfforddiant gwn hoelion gosod cyntaf, a hyfforddiant gwn hoelion ail osod.

2.6 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol, gan gynnwys Cynllun Rheoli Gwastraff Safle, ailgylchu, ailddefnyddio a gwastraff ar wahân.

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae diogelu gwaith rhag difrod o weithgareddau gwaith cyffredinol ac o alwedigaethau eraill a rhag tywydd (domestig yn ogystal â rhai ar y safle). Bydd dysgwyr yn deall y defnydd o orchudd dros dro, gan newid trefn y gwaith

er mwyn diogelu'r gwaith yn well, gofalu am y gwaith a rhoi sylw i fanylion wrth osod, defnyddio cynfasau llwch a diogelu deunyddiau.

3.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae storio deunyddiau'n gywir cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith.

3.3 Bydd dysgwyr yn gwybod pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel ac yn gyfrifol, gan ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol yn unol â chyfrifoldebau amgylcheddol. Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol ddulliau gwaredu, gan gynnwys sgiopiau dynodedig, ailgylchu, didoli gwastraff, man casglu gwastraff lleol, biodanwydd.

Deilliant 4

4.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gweithgareddau gwaith, deunyddiau a llafur yn cael eu dyrannu i fodloni'r amserlen sy'n ofynnol o fewn y rhaglen a phwysigrwydd cadw at derfynau amser.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o dargedau cynhyrchiant ac amserlenni, sut mae amseroedd yn cael eu hamcangyfrif a'r amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith, gan gynnwys y tywydd, faint o lafur sydd ar gael, effaith ddilynol trin a storio gwael gan achosi difrod i ddeunyddiau, cymal cosb, ffioedd cadw, enw da, a'r goblygiadau i grefftau eraill.

Uned 205: Gosod allan i godi Strwythurau Gwaith Maen

| | |
|-----------------------------------|-----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 135 |
|-----------------------------------|-----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â gosod strwythurau gwaith maen ar gyfer gwaith brics, gwaith blociau a deunyddiau lleol.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Beth yw'r amrywiaeth o ddeunyddiau a chyfarpar a ddefnyddir wrth osod strwythurau wedi'u gwneud o frics a blociau allan?
- Pa fathau o wybodaeth y byddaf yn eu defnyddio?

Deilliant dysgu:

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn deall yr amrywiaeth o adnoddau sy'n cael eu defnyddio yn y broses o osod adeiladau yn unol â gofynion lluniadau, ac amserlenni.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae defnyddio tâp mesur ar gyfer mesur llinol yn y broses gosod allan. Bydd dysgwyr yn deall y defnydd o lein i sefydlu safle waliau ar lefel y ddaear ac o dan y ddaear i sefydlu cywirdeb dimensiynol, gan gynnwys defnyddio;

- ffyn mesur
- sgwâr
- lein
- proffiliau
- pegiau

Bydd dysgwyr yn deall nodweddion y deunyddiau a ddefnyddir i osod strwythurau gwaith maen mewn brics, blociau a cherrig ac yn gwybod sut mae penderfynu ar ddeunyddiau addas ar gyfer y dasg dan sylw. Byddant hefyd yn gwybod sut dylid dewis, symud a storio'r adnoddau hynny.

1.2 Bydd dysgwyr yn deall y dulliau sy'n cael eu defnyddio i bennu lefelau drwy drosglwyddo uchder o bwyntiau penodol neu datwmau gan ddefnyddio lefel optegol briodol. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod gwallau mewn mesuriadau ac mewn sgwâr a sut mae cywiro'r sefyllfa neu i bwy y dylid rhoi gwybod am y problemau. Bydd dysgwyr yn gallu nodi problemau a deall y weithdrefn adrodd wrth osod allan i ffurfio strwythurau wedi'u gwneud o frics a blociau.

1.3 Bydd dysgwyr yn deall y gweithdrefnau gweithio sy'n cael eu defnyddio i ddewis y dulliau mwyaf priodol i osod lleoliad dimensiynol, i sefydlu corneli sgwâr ac ar onglau yn unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig, lluniadau, gofynion, amserlenni a chyfarwyddiadau llafar i fodloni maint/anghenion y contract.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall y peryglon sy'n bresennol wrth osod allan ac yn deall sut mae dilyn asesiadau risg a datganiadau dull i gyflawni'r gwaith mewn ffordd ddiogel, gan gynnwys;

- ffosydd
- disgyn o uchder
- codi a chario

Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r peryglon.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn deall y dulliau cywir a ddefnyddir i sefydlu dimensiynau'n gywir ac i sefydlu manylion y gosodiad o luniadau, manylebau a chyfarwyddiadau llafar.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae adnabod pwyntiau lefel sefydlog a datwm a sut mae trosglwyddo gwerthoedd o un pwynt sefydledig i sefydlu Meincnod Dros Dro.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal a chadw cyfarpar i sicrhau ei fod yn gywir pan y'i defnyddir yn y dyfodol a sut dylid glanhau a chynnal a chadw cyfarpar ar ôl ei ddefnyddio.

Dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar, gan gynnwys:

- gwirio cywirdeb
- oelio tapiau
- cyfarpar glanhau

Deilliant dysgu

3 Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau mesur, marcio allan, lefelu, plymio, lleoli, trosglwyddo, gosod a sicrhau

3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw a gosod cyfarpar allan i bennu dimensiynau a safleoedd gan ddefnyddio lein, lefel, dyfnder, arwynebedd, uchder, ac ongl yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir i sefydlu o leiaf ddwy o'r llinellau dilynol;

- syth (180 gradd)
- onglau sgwâr (90 gradd)
- agoriadau

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gallu dod o hyd i wybodaeth addas o ddogfennau contract i'w galluogi i osod proffiliau'n gywir i'w gosod allan ar gyfer lleoliad dimensiynol adeilad. Bydd dysgwyr yn gallu mesur a marcio safleoedd waliau ar broffiliau sefydlog a byddant yn gallu trosglwyddo safleoedd waliau o lein ymlaen i sylfaen goncrid. Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio technegau codi a chario cywir a dangos cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles.

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu pennu safle waliau, hyd, sgwâr a llinell drwy fesur i sefydlu lleoliad y waliau a lleoliad yr agoriadau, gan gynnwys ffenestri a drysau. Bydd dysgwyr yn gallu trosglwyddo lefelau o bellter ac o ddatwmau dros dro.

Bydd dysgwyr yn gallu adnabod a defnyddio offer a chyfarpar i osod allan a gosod lein, proffiliau a phegiau. Bydd dysgwyr yn gallu cynnal a chadw'r cyfarpar mewn cyflwr da ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol.

Offer i gynnwys:

- tâp mesur
- lefelau
- lefelau optegol
- sgwâr
- lefelau laser
- ffyn
- lein

Uned 206: Gosod Strwythurau Gwaith maen

| | |
|---------------------------------------|-----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 193 |
|---------------------------------------|-----|

Gwybodaeth am yr uned

Mae'r uned hon yn ymwneud â gosod gwaith brics a gwaith blociau a/neu strwythurau deunyddiau ac arddulliau lleol.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Beth yw bond chwarter?
- Sut mae gosod cornel ongl sgwâr?
- Sut ydw i'n cael gwybod beth yw trwch y mortar y byddaf yn ei ddefnyddio?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn deall y mathau o adnoddau sy'n cael eu defnyddio mewn adeiladu, fel:

- brics
- blociau
- blociau inswleiddio
- cerrig lleol
- cerrig artiffisial
- sment
- tywod
- ychwanegion
- cydrannau mur
- teis waliau
- DPC
- DPM

- deunydd inswleiddio
- llenwi rhannol
- llenwi llawn
- fentiau
- caeadau

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod a dewis y deunyddiau addas cywir ar gyfer y tasgau dan sylw. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae asesu ansawdd a chyflwr deunyddiau fel rhai sy'n addas i'w defnyddio a heb namau.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae sicrhau bod deunyddiau'n cael eu storio yn unol â gwybodaeth y gwneuthurwr ac sylwi ar ddeunyddiau diffygiol, gan gynnwys ategolion pan fyddant o ansawdd gwael neu wedi eu halogi, a sicrhau eu bod yn cael eu tynnu a'u rhoi o'r naill du.

Ansawdd a diffygion i gynnwys:

- pren a thro ynddo
- pydredd
- rhwd
- deunyddiau wedi'u difrodi
- dŵr glân
- tywod glân.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut a phryd i ddewis y mathau addas o ddeunyddiau, cydrannau, ategolion, ar gyfer gwahanol ddefnyddiau fel cymysgu mortar, waliau solet, waliau ceudod. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod a rhoi gwybod am unrhyw ddiffygion yn y deunyddiau a rhoi mesurau cywiro ar waith.

1.3 Bydd dysgwyr yn deall y broses o ddewis deunyddiau gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth technegol fel lluniadu, manylebau, amserlenni, a gwybodaeth y gwneuthurwr i sicrhau ansawdd a maint y deunyddiau cyn i'r gwaith ddechrau i'r safon ofynnol.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall y peryglon sy'n gysylltiedig â'r math o waith a'r gwahanol ddeunyddiau a ddewiswyd, a'r rheini sy'n gysylltiedig â storio, symud a thrin, cymysgu, gosod, gweithio ar uchder. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dilyn datganiadau dull ac asesiadau risg i ganfod cyfarpar diogelu personol addas a gwneud y gwaith yn ddiogel yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros roi gwybod am ddamweiniau, peryglon a damweiniau fu bron â digwydd yn y gweithle i'r lefel briodol o awdurdod wrth wneud y gwaith.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros gwblhau tasgau gwaith penodol yn unol â'r safon ofynnol a'r amserlenni a bennir gan raglenni gwaith sydd wedi'u cynllunio. Bydd dysgwyr yn deall effeithiau peidio â chwrrd â safonau ansawdd a therfynau amser sydd wedi'u cynllunio a'r effeithiau dilynol y mae'n eu cael ar grefftau eraill a rhaglenni gwaith sydd wedi'u cynllunio.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal gwiriadau ymlaen llaw ar offer llaw ac offer pŵer i sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio a'u pwrpas wrth gymysgu a pharatoi morter. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis offer a chyfarpar i wneud y gwaith ar wahanol fathau o waliau, sut mae mesur a chymysgu morter yn unol â manylebau gosod, lleoli a thorri gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys brics, blociau, cerrig naturiol, teis waliau, cydrannau waliau, DPC, DPM, byrddau fertigol, hambyrddau, lintelau, gan ddefnyddio technegau atgyfnerthu cywir.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio offer llaw ac offer pŵer, cyfarpar mynediad a storio a chynnal a chadw yn ystod ac ar ôl cwblhau tasgau gwaith penodol.

Adnoddau i gynnwys:

- trywel
- llinell/pinnau
- blociau cornel
- morthwyl lwmp
- bolster
- cŷn
- crib
- morthwyl
- lefel
- lefel boced
- rhoden fesur

Offer i gynnwys:

- bwcedi
- rhaw
- cymysgwr
- llif betrol
- proffiliau corneli
- lefel optegol

Deilliant dysgu

3 Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau mesur, marcio allan, gosod, lleoli, plymio, lefelu a sicrhau

3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw a phŵer, peiriannau cymysgu a chyfarpar i osod gwaith maen mewn brics a blociau a/neu ddeunyddiau lleol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir ar gyfer y canlynol;

- waliau ceudod
- waliau solet
- llunio a phontio agoriadau
- gorffen uniadau
- siliau
- capio a cherrig copa

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gallu dangos sgiliau mesur, marcio allan, gosod, lleoli a sicrhau brics, blociau, cerrig, morter ac ategolion, gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Bydd dysgwyr yn gwneud y gwaith yn gyson yn unol â ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys:

- lluniadau
- manylebau
- atodlenni
- gwybodaeth y gwneuthurwr i fodloni'r safonau diwydiannol presennol

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu dangos sgiliau gwaith i osod strwythurau wedi'u gwneud o frics, blociau a/neu ddeunyddiau lleol yn unol â gofynion, lluniadau, amserlenni a gwybodaeth gweithgynhyrchwyr.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis deunyddiau ar gyfer cymysgu morterau â llaw a drwy ddefnyddio cymysgydd mecanyddol i gywiro'r cysondeb a'r trwch.

Bydd dysgwyr yn gallu gosod waliau solet hyd at un fricsen o drwch yn y dull Saesnig, Ffleminaidd, Wal Gardd Saesnig, Wal Gardd Ffleminaidd, mewn blociau solet a deunyddiau lleol yn unol â lluniadau, gofynion ac amserlenni gosod yn unol â'r safonau gofynnol.

Bydd dysgwyr yn gallu adeiladu waliau ceudod gan ddefnyddio brics, blociau, blociau inswleiddio a deunyddiau lleol a gosod cydrannau fel DPC, DPM, caeadau, teis waliau,

clipiau, deunydd inswleiddio (llenwad llawn a rhannol), strapiau, atgyfnerthiadau, fframiau, siliau, linteli i bontio agoriadau.

Bydd dysgwyr yn gallu gorffen uniadau yn unol â'r fanyleb, gan gynnwys gorffeniad gwastad, *weather struck*, cilannol, hanner rownd. Bydd dysgwyr yn gallu gosod a thorri cerrig copa a chapiau i waliau solet yn unol â'r wybodaeth a roddir.

Deunyddiau i gynnwys y canlynol:

- bricsen
- bloc solet
- bloc inswleiddio
- bloc wag
- cerrig naturiol
- cerrig artiffisial.

Dylai'r cydrannau gynnwys:

- linteli – dur, concrit
- inswleiddio - llawn a rhannol
- teis waliau
- cyrsiau atal lleithder/pilenni atal lleithder
- cau ceudodau
- fframiau - ffenestri a drysau
- siliau
- diwedd y wal – cerrig copa a chapio.

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio technegau codi a chario cywir a dangos cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles.

Llwybr B: Gwaith Coed Pensaernïol

Uned 207: Gwybodaeth graidd am Waith Coed Pensaernïol

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 50 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth gyffredinol sydd ei hangen ar gyfer y llwybr hwn.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth
- deall arferion gweithio diogel
- deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod
- deall gweithio o fewn terfynau amser.

Mae'r cynnwys sydd wedi'i restru yn y ddogfen hon yn cael ei ystyried yn gyffredinol gan ei fod yn gyson drwy lawer o'r unedau sgiliau yn y cymhwyster hwn. Dylid addysgu'r cynnwys, a bydd yn cael ei asesu'n gyffredinol ac mewn perthynas â'r unedau sgiliau canlynol (lle bo hynny'n briodol):

- Paratoi manylion gosod ar gyfer cynnyrch arferol
- Marcio allan ar sail manylion gosod ar gyfer cynhyrchion arferol
- Cynhyrchu cynhyrchion cyffredin
- Gosod a defnyddio peiriannau torri a siapio cludadwy

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Pam mae ymgynefino â safleoedd yn bwysig?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cerdyn gwaith a thaflen amser?
- Pwy yw Cadw a beth maen nhw'n ei wneud?

Deilliant dysgu

1. Deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth

Meini Prawf

- 1.1 Gweithdrefnau'r sefydliad a ddatblygwyd i roi gwybod am wybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas a'u cywiro, a sut y cânt eu rhoi ar waith
- 1.2 Y mathau o wybodaeth, eu ffynhonnell a sut maen nhw'n cael eu dehongli
- 1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad i ddatrys problemau gyda'r wybodaeth a pham ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu dilyn
- 1.4 Pwysigrwydd cadw dogfennau

2. Deall arferion gwaith diogel

Meini Prawf

- 2.1 Lefel y ddealltwriaeth y mae'n rhaid i weithwyr ei chael o wybodaeth am ddeddfwriaeth berthnasol, gyfredol a chanllawiau swyddogol a sut mae'n cael ei chymhwyso
- 2.2 Sut y dylid ymateb i argyfyngau a phwy ddylai ymateb
- 2.3 Gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol
- 2.4 Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny
- 2.5 Pam, pryd a sut y dylid defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch
- 2.6 Sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol

3. Deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod

Meini Prawf

- 3.1 Sut mae diogelu gwaith rhag difrod a phwrpas diogelu
- 3.2 Pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel a sut y gwneir hynny

4. Deall gweithio i derfynau amser

Meini Prawf

4.1 Sut mae gwaith yn cael ei wneud i fodloni'r rhaglen yn yr amser a drefnwyd a phwysigwydd terfynau amser

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o weithdrefnau sefydliadol a'u nodweddion a'r ffyrdd o'u defnyddio, gan gynnwys cyfleu problemau ar lafar, cadwyn awdurdod, sgysiau anffurfiol, ymgynefino â'r safle.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion a phwrpas lluniadau a chynlluniau (cynllun llawr, lluniadau ystod, ystod a gwedd cydrannau, lluniadau cydosod a manylion), gofynion, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg, hysbysiadau safle ac arwyddion diogelwch, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, cyfarwyddiadau llafar ac ysgrifenedig, rheoliadau adeiladu, a gwybod sut maent yn cael eu rhoi ar waith.

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n codi o wybodaeth amhriodol – gan gynnwys camglywed cyfarwyddiadau, gwybodaeth anghywir, camddehongli datganiad dull, rhoi gwybodaeth anghywir. Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n deillio o adnoddau a pheryglon posibl, gan gynnwys deunyddiau anaddas, tywydd garw ac amgylchiadau sy'n newid.

1.4 Bydd dysgwyr yn gwybod sut i gadw dogfennau, gan gynnwys: cardiau gwaith, taflenni gwaith, rhestrau deunyddiau/adnoddau a thafleuni amser.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am egwyddorion y darnau canlynol o ddeddfwriaeth; rheoliadau adeiladu; rheoliadau Gweithio ar Uchder (WAH); Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (HASAWA); PUWER; ACOPs; RIDDOR; CDM; COSHH; PPE; LOLER; rheoliadau Codi a Chario; rheoliadau Sŵn yn y Gwaith.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw diben pob deddfwriaeth, sut mae'n cael ei defnyddio mewn diwydiant a chanlyniadau peidio â chydymffurfio. Bydd dysgwyr yn deall rolau awdurdodau lleol o ran cynllunio a Rheoli Adeiladu a chyda strwythurau treftadaeth gan gynnwys ymgynghori â Cadw.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae ymateb i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol wrth ddelio â thanau, gollyngiadau, anafiadau ac argyfyngau.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o ddiffoddwyr tân a sut a phryd y cânt eu defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o dân. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu rôl a'u

cyfrifoldeb o ran gwagio safle, atal (dŵr, CO2, ewyn, powdr), y triogl tân a phwyntiau ymgynnull.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o hylifau sy'n gallu colli, sut mae eu hatal a sut mae eu nadu rhag gollwng. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer pecynnau gollwng, arwyddion a sut mae cau yr ardal.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o anafiadau a chyfrifoldebau cyffredin gan gynnwys swyddog cymorth cyntaf, offer cymorth cyntaf ac adrodd am ddamweiniau ar gyfer argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol, gan gynnwys atal, gweithdrefnau brys, gwasanaethau brys, gweithdrefnau adrodd, mynediad ac allanfeydd ar gyfer cerbydau argyfwng.

2.3 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, gan gynnwys:

- safle – gan gynnwys ffensys dros dro, swyddogion diogelwch, gwyliadwriaeth
- gweithle - gan gynnwys agor a chloi
- cwmni - gan gynnwys llofnodi i mewn, gweithdrefnau awdurdodi ID
- y gweithiwr - gan gynnwys diogelwch offer, deunyddiau, cyfarpar a cherbydau, eiddo personol.

2.4 Bydd dysgwyr yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni damweiniau ac yn gallu adnabod swyddog cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr hefyd yn deall y gyfraith sy'n ymwneud â nifer y bobl y mae angen eu hyfforddi'n briodol ar gyfer cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr yn deall y rolau a'r cyfrifoldebau mewn gwahanol safleoedd, gan gynnwys mewn cartref domestig, gan gynnwys sut mae cymryd cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles. Bydd dysgwyr yn deall sut mae adrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gweithio a RIDDOR ar gyfer digwyddiadau perthnasol. Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ddefnyddio'r llyfr cofnodi ar gyfer mân ddamweiniau a sut i gofnodi damweiniau fu bron â digwydd, gan gynnwys y gweithdrefnau adolygu ac ail-werthuso sydd ar waith.

2.5 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r ffordd gywir o ddewis, defnyddio a chynnal a chadw cyfarpar diogelu personol, RPE, LEV, gan gynnwys gwybodaeth am sbectol ddiogelwch, goggles, het galed, siaced lachar, amddiffynwyr clustiau, esgidiau diogelwch, masgiau llwch (gan gynnwys profion ffitio wyneb), menig priodol, resbiradur.

2.6 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol, gan gynnwys: cynllun rheoli gwastraff safle (SWMP); ailgylchu; ailddefnyddio; gwastraff ar wahân, cofnod defnyddiwr peiriant awdurdodedig.

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae diogelu gwaith rhag difrod, cynfasau llwch, amddiffynwyr deunyddiau (*bubble wrap*, cardfwrdd rhychiog).

Bydd dysgwyr yn gwybod bod deunyddiau'n cael eu storio'n gywir cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith.

3.2 Bydd dysgwyr yn gwybod pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel ac yn gyfrifol, gan ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol yn unol â chyfrifoldebau amgylcheddol.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol ddulliau gwaredu gan gynnwys sgiplau dynodedig, ailgylchu, didoli gwastraff, man casglu gwastraff lleol, biodanwydd.

Deilliant 4

4.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gweithgareddau gwaith, deunyddiau a llafur yn cael eu dyrannu i fodloni'r amserlen ofynnol o fewn y rhaglen, a pham y dylid cadw at derfynau amser.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o dargedau cynhyrchiant ac amserlenni, sut mae amseroedd yn cael eu hamcangyfrif a'r amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith, gan gynnwys argaeledd llafur ac adnoddau, effaith ganlyniadol trin a storio gwael gan achosi difrod i ddeunyddiau, cymal cosb, ffioedd cadw, enw da a'r goblygiadau ar grefftau eraill.

Uned 208: Paratoi manylion gosod ar gyfer cynnyrch arferol

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 50 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned

Mae'r uned hon yn ymwneud â gosod manylion cyn marcio cydrannau ar gyfer cynhyrchu cynhyrchion gwaith coed arferol.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Beth sydd angen i mi ei wybod am yr adnoddau sydd eu hangen i gynhyrchu cynnyrch gwaith coed?
- Pa offer a chyfarpar sydd eu hangen i osod cynhyrchion gwaith coed?
- Sut ydw i'n gosod grisiau syth?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion ac addasrwydd adnoddau wrth eu dewis ar gyfer gosod manylion ar gyfer cynhyrchion arferol. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae asesu ansawdd yr adnoddau gan gynnwys graddio pren at ddefnydd penodol pan fydd gwedd, cryfder a gwytnwch yn bwysig.

Byrddau pren a byrddau a weithgynhyrchwyd:

- Coed coch a choed gwynion Ewropeaidd
- ffynidwydden Douglas
- derwen Ewropeaidd
- onnen
- sapele
- idigbo
- Iroko

- masarnen
- pren meddal wedi'i asetyleiddio/wedi'i drin â gwres
- plei
- bwrdd ffibr

Gwaith haearn:

- colfachau (plaen, pin rhydd, codi, cuddiedig, gwrthsefyll storm, ffrithiant, T, fflapiau ffrithiant)
- cloeon (ymyl, mortais, mortais sash, cliciedau Suffolk, clo droriau a chypyrddau)
- caewyr ac arosiadau casegen, canolfannau pifod

Gwydr: sengl, dwbl, trebl ac eilaidd

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i adnabod diffygion a phryd i'w tynnu yn ystod y broses ddethol ar gyfer cynhyrchu gwaith wedi'i siapio, gan gynnwys:

- ceinciau
- tro
- plyg
- cwpanu
- graen ar oleddf
- calon, cwpan, seren, a hollt daran
- caledu
- gwirio pen
- ymyl ddi-lif.

1.2 Bydd dysgwyr yn deall sut a phryd i ddewis y math addas o bren a chynhyrchion wedi'u gweithgynhyrchu yn y broses gosod allan, gan gynnwys ystyried y defnydd mewnol ac allanol, yr amgylchedd, tymheredd a lleithder amgylchol.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut a phryd i roi gwybod am broblemau gydag adnoddau wrth osod manylion ar gyfer cynhyrchion arferol.

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y broses ar gyfer dewis deunyddiau gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth technegol gan gynnwys lluniadau, gofynion, amserlenni a gwybodaeth y gwneuthurwr wrth osod manylion ar gyfer cynhyrchion arferol.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall y peryglon a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio yn y broses gosod mewn amgylchedd gweithdy. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd rheoli llwch a'r defnydd cywir o echdynnu llwch:

- defnyddio bwrdd gronynnau a materion iechyd cysylltiedig i gynnwys problemau resbiradol (bronchitis, asthma, ac emffysema)
- defnyddio rhai coed caled a materion iechyd cysylltiedig i gynnwys cancer.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd gwarchod clyw ac yn gwybod beth yw effeithiau sŵn, gan gynnwys byddardod a thinitws.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut i wneud y canlynol:

- paratoi ar gyfer cynhyrchion gwaith coed
- cynhyrchu templedi
- llunio rhestr deunyddiau a llunio taflenni archebu ymlaen llaw
- cyfrifo faint o ddeunyddiau sydd eu hangen.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion a manteision offer a chyfarpar ac yn deall

pa mor addas ydynt i'w defnyddio:

- mesur: i gynnwys rheolau graddfa, rheolau dur, tâp mesur, caliperau Vernier
- gosod allan a marcio: gan gynnwys sgwariau, pren mesur syth, sgwâr cyfun, rhedwr lein (mesurydd panel), cwpawd, tramel.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i drosglwyddo mesuriadau a thynnu llun yr uwcholygon angenrheidiol, y drychiadau blaen ac ychwanegol, lle bo angen ar gyfer rhodenni gweithdy, gan gynnwys mowldinau, a manylion.

Deiliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau mesur, marcio allan a lluniadu

3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw a phŵer i gynhyrchu manylion gosod allan a rhestrau torri ar gyfer cynhyrchion arferol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir ar gyfer o leiaf ddau o'r canlynol:

- drysau
- ffenestri gyda ffenestri
- unedau a/neu ddodrefn (paneli neu gladin)
- grisiau (syth)

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deiliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gallu gosod:

- drysau bord, panelog a gwydrog
- ffenestri casment traddodiadol, ffenestri gwydr sengl a ffenestri gwydr dwbl
- dado, ffris, a phaneli uchder llawn yn cynnwys paneli wedi eu suddo, paneli gyda rhimyn a phaneli wedi'u codi
- ar gyfer adeiladu dodrefnyn sefydlog yn cynnwys droriau
- manylion a meintiau uniadu mewnol ac allanol ar gyfer cladin
- ar gyfer rhes syth o risiau caeedig a grisiau agored.

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu dewis, gosod, defnyddio a chynnal a chadw'r offer a'r cyfarpar priodol yn ddiogel, gan gynnwys:

- offer mesur: pren mesur graddfa, pren mesur dur, tâp mesur, caliperau Vernier
- offer gosod allan a marcio: Sgwariau, pren mesur syth, sgwâr cyfun, rhedwr lein (mesurydd panel), cwmpawd, tramel.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, trin, stacio a storio adnoddau'n ddiogel gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Uned 209: Marcio allan ar sail manylion gosod ar gyfer cynhyrchion arferol

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 50 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â gosod manylion cyn marcio cydrannau ar gyfer cynhyrchu cynhyrchion gwaith coed arferol.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Sut ydw i'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn fwyaf effeithlon?
- Pa ddulliau a ddefnyddir i farcio ochrau grisiau?
- Sut ydw i'n sicrhau bod estyll drysau'n cael eu marcio fel pâr?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion ac addasrwydd adnoddau wrth eu dewis i farcio manylion ar gyfer cynhyrchion arferol. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae asesu ansawdd yr adnoddau gan gynnwys graddio pren at ddefnydd penodol pan fydd gwedd, cryfder a gwynwch yn bwysig.

Byrddau pren a byrddau a weithgynhyrchwyd:

- Coed coch a choed gwynion Ewropeaidd
- ffynidwydden Douglas
- derwen Ewropeaidd
- onnen
- salpele
- idigo
- Iroko

- masarnen
- pren meddal wedi'i asio/wedi'i drin â gwres
- pren haenog
- bwrdd ffibr

Gwaith haearn:

- colfachau (plaen, pin rhydd, codi, cuddiedig, gwrthsefyll storm, ffrithiant, T, fflapiau ffrithiant)
- cloeon (ymyl, mortais, mortais sash, cliciedau Suffolk, a chloeon cypyrddau a droriau)
- gwaith haearn ar gyfer ffenestri casment

Gwydr: sengl, dwbl, trebl ac eilaidd

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i adnabod diffygion a phryd i'w tynnu yn ystod y broses ddethol ar gyfer cynhyrchu gwaith wedi'i siapio, gan gynnwys:

- ceinciau
- pren a thro ynddo
- pren a phlyg ynddo
- cwpanu
- graen ar oleddf
- calon, cwpan, seren, a hollt daran
- caledu
- gwirio pen coedyn
- ymyl ddi-lif.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut a phryd i roi gwybod am broblemau sy'n gysylltiedig â deunyddiau nad ydynt yn addas ar gyfer eu defnyddio a sut i benderfynu ar addasrwydd y dull adeiladu neu'r defnydd o'r uniadu cywir.

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y broses ar gyfer dewis deunyddiau gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth dechnegol gan gynnwys lluniadau, gofynion, amserlenni a gwybodaeth y gwneuthurwr wrth osod manylion ar gyfer cynhyrchion arferol.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall y peryglon a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio wrth farcio mewn amgylchedd gweithdy. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd:

- codi a chario (cario, gwthio, asesu pwysau, cymorth llaw lle bo angen, straen, anhwylderau cyhyrsgerberbydol)
- teclynnau diogelu'r llygaid (sbectolau diogelwch, amddiffynwyr wyneb, dallineb)
- amddiffyn y clustiau (plygiau clust, amddiffynwyr clustiau, byddardod, tinitws).

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio cyfeirnodau marcio (wyneb ac ymyl) gan ystyried diffygion sy'n bresennol yn y pren.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae marcio cynhyrchion gwaith coed fel eitemau 'un-tro' neu swp.

2.3 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae addasu, gosod a chynnal a chadw offer marcio a phrofi ac yn gwybod sut mae cynhyrchu rhodenni gosod allan a thempledi (grisiau).

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae marcio allan o osod rhodenni gyda'r defnydd o offer marcio a mesur, gan gynnwys:

- pren mesur dur
- tâp mesur
- sgwâr
- sgwâr cyfun
- sgwâr blwch
- Caliperau Vernier
- befel
- mesurydd marcio
- mesurydd mortais
- tramel.

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau mesur a marcio cydrannau gwaith coed gan ddefnyddio manylion gosod allan

3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer marcio a phrofi (gosod rhodenni neu dempledi), i farcio cynhyrchion arferol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir ar gyfer o leiaf ddwy eitem o'r canlynol:

- drysau
- ffenestri sy'n agor
- unedau a/neu ddodrefn (paneli neu gladin)
- grisiau (syth)

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 a 3.2

Bydd dysgwyr yn gallu marcio:

- drysau bord, panelog a gwydrog
- ffenestri casment traddodiadol, ffenestri gwydr sengl a ffenestri gwydr dwbl
- paneli bach, dado, a phaneli uchder llawn yn cynnwys paneli sydd wedi eu suddo, paneli gyda rhimyn a phaneli sydd wedi eu codi
- ar gyfer adeiladu dodrefn sefydlog yn cynnwys droriau
- manylion uniadu mewnol ac allanol ar gyfer cladin
- ar gyfer rhes syth o risiau caeedig a grisiau agored.

Bydd dysgwyr yn gallu addasu, gosod a chynnal offer marcio a phrofi yn ddiogel a gallu cynhyrchu rhodenni gosod allan a thempledi (grisiau).

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, trin, stacio a storio adnoddau'n ddiogel gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Uned 210: Cynhyrchu cynhyrchion cyffredin

| | |
|-----------------------------------|-----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 165 |
|-----------------------------------|-----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â chynhyrchu cynhyrchion gwaith coed arferol gan gynnwys drysau, ffenestri a grisiau syth.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Pa brosesau sydd eu hangen i gynhyrchu cynhyrchion gwaith coed?
- Sut ydw i'n hogi ac yn gosod plaen?
Sut ydw i'n gwirio bod ffrâm ffenestr wedi cael ei gosod yn sgwâr?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion ac addasrwydd adnoddau wrth eu dewis ar gyfer gweithgynhyrchu cynnyrch arferol. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae asesu ansawdd yr adnoddau gan gynnwys graddio pren at ddefnydd penodol pan fydd gwedd, cryfder a gwytnwch yn bwysig.

Byrddau pren a byrddau a weithgynhyrchwyd:

- Coed coch a choed gwynion Ewropeaidd
- ffynidwydden Douglas
- derwen Ewropeaidd
- onnen
- sapele
- idigbo
- Iroko

- masarnen
- pren meddal wedi'i asetyleiddio/wedi'i drin â gwres
- plei
- bwrdd ffibr

Gwaith haearn:

- colfachau (plaen, pin rhydd, codi, cuddiedig, gwrthsefyll storm, ffrithiant, T, fflapiau ffrithiant)
- cloeon (ymyl, mortais, mortais sash, cliciedau Suffolk, clo droriau a chypyrddau)
- gwaith haearn ar gyfer ffenestri casment

Gwydr: sengl, dwbl, trebl ac eilaidd

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor addas yw adnoddau i fodloni manyleb y gwaith coed gorffenedig. Bydd dysgwyr yn gwybod sut a phryd i roi gwybod am broblemau gydag adnoddau wrth gynhyrchu cynhyrchion arferol.

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y broses o ddewis deunyddiau gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth dechnegol gan gynnwys lluniadau, gofynion, amserlenni a gwybodaeth gweithgynhyrchwyr wrth gynhyrchu cynhyrchion arferol.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall y peryglon a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu cynnyrch arferol gan gynnwys LEV yn ystod y broses gweithgynhyrchu gydag offer pŵer a pheiriannau.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae lleihau peryglon llwch o solidau pren a chynhyrchion wedi'u gweithgynhyrchu a'r problemau anadlol cysylltiedig (asthma, emffysema).

Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor bwysig yw defnyddio technegau codi a chario priodol (cario, gwthio, asesu pwysau, cymorth â llaw lle bo angen, straen) a sut i atal anhwylderau cyhyrsgerbydol.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd defnyddio cyfarpar diogelu'r llygaid (sbectrau diogelwch, amddiffynwyr wyneb) a theclynnau diogelu'r clustiau (plygiau clust, amddiffynwyr clustiau).

Bydd dysgwyr yn deall y ffordd gywir o ddefnyddio a gosod gardiau ar gyfer offer pŵer a pheiriannau sefydlog a'r risgiau cysylltiedig (torri, cleisio, rhwygiadau, darnau'n cael eu taflu allan o beiriant, cyffwrdd y llafn, sŵn, llwch, dirgryniad, sioc drydanol, llithro, baglu, cwmpo mynd yn sownd, darnau yn mynd i mewn i dyllau yn y corff neu'r croen (cyflenwad niwmatig)).

Bydd dysgwyr yn deall sut mae cael gafael ar wybodaeth i'w defnyddio'n ddiogel, gan gynnwys cyfarwyddiadau gweithgynhyrchwyr, Codau Ymarfer Cymeradwy, deddfwriaeth briodol h.y. PUWER, olwynion sgraffiniol.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae torri a gwneud uniadau yn dilyn y broses farcio:

- mortais a thyno (syml, ysgwydd fer hir, llai o ysgwydd, cwta)
- uniadau eraill (rhigol, asio)
- mowldinau ac rabadau.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i adnabod gogwydd y deunydd ar gyfer y broses beiriannu, gan gynnwys wyneb ac ymyl y pren.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio offer llaw, pŵer a pheiriannau yn ddiogel ar gyfer uniadu, proffilio, a siapio cyn cydosod.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i osod a chydosod cydrannau i wneud y cynnyrch gorffenedig, dewis y glud cywir (PVA, PU, resin synthetig, toddydd rwber) a dulliau crampio (defnyddio blociau diogelu a darnau o goed i atal cleisio, dulliau masgio i atal staen glud).

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cael uniad llyfn a pharatoi cynhyrchion gwaith coed ar gyfer gorffen arwyneb. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r deunyddiau sgrafello (graddau bras) priodol ar gyfer y gorffeniadau penodol (peintio, gorffeniad clir).

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i gywiro problemau (ceinciau, ysgwyd a difrod ar yr wyneb) a sut i ddefnyddio llenwad, gosod darnau a sut i stemio cleisiau.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae diogelu a storio cynhyrchion gorffenedig cyn eu danfon.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gosod a defnyddio offer llaw, offer pŵer a pheiriannau sefydlog cysylltiedig, gan gynnwys y gosodiad cywir o warchod diogelwch, ffensio a stopio gosodiadau, newid a gosod llafnau, newid torrwr a gosod, ynghyd â llwyth sgraffinio.

Bydd peiriannau sefydlog yn cynnwys:

- llif groes
- llif rwygo
- plaen
- peiriant cysoni trwch
- morteisiwr
- llif band
- mowldiwr
- sandiwr gorffen
- sandiwr drym/belt

Offer pŵer i gynnwys:

- rowtar
- jig-so
- dril di-wifr

- uniadwr bisgedi
- sandiwr orbital
- sandiwr belt
- trimiwr lamineiddio
- gwn hoelion

Offer i gynnwys:

- offer cynnal ar y fainc
- crampiau sash
- crampiau G/F
- crampiau togl
- rhodenni sgwario

Offer llaw i gynnwys:

- llif tyno
- mallet
- cŷn
- llif fwa fach
- plaen ysgwydd
- plaen llyfnu
- plaen bloc
- plaen gwadn amgrwn
- rhasglau ceugrwm ac amgrwm
- rwber corcyn
- crafwr cabinet
- pinnau tynnu
- sgwâr
- templed meitr
- mesurydd torri
- morthwyl
- pwnsh hoelion
- gefail

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau mesur, marcio, ffitio, gorffen, lleoli a sicrhau

3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw a phŵer i ffitio a chydodod cynhyrchion gweithgynhyrchu arferol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir, o leiaf ddwy eitem o'r canlynol:

- drysau
- ffenestri sy'n agor
- unedau a/neu ddodrefn
- paneli a chladin
- grisiau (syth)

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 a 3.2

Bydd dysgwyr yn gallu cynhyrchu:

- drysau bord, panelog a gwydrog
- ffenestri casment traddodiadol, ffenestri gwydr sengl a ffenestri gwydr dwbl
- paneli bach, dado, a phaneli uchder llawn yn cynnwys paneli sydd wedi eu suddo, paneli gyda rhimyn a phaneli sydd wedi eu codi
- ar gyfer adeiladu dodrefn sefydlog yn cynnwys droriau
- manylion uniadu mewnol ac allanol ar gyfer cladin
- rhes syth o risiau, caeedig ac agored.

Bydd dysgwyr yn gallu paratoi arwynebau ar gyfer gorffeniad y cynhyrchion a ddewiswyd.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, gosod, defnyddio a chynnal a chadw'r gwahanol fathau o offer llaw, offer pŵer a chyfarpar cysylltiedig.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, trin, stacio a storio adnoddau'n ddiogel gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Uned 211: Gosod a defnyddio peiriannau torri a siapio cludadwy

| | |
|----------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 63 |
|----------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â gosod a defnyddio offer pŵer cludadwy a ddefnyddir yn y diwydiant adeiladu yn ddiogel.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Sut ydw i'n gosod ac yn defnyddio peiriant plaenio yn ddiogel?
- Ydw i'n gallu dewis offer priodol ar gyfer rowtio ochr grisiau wrth ddefnyddio jig?
- Sut mae gwneud jig cyfrwy i gynhyrchu lletemau grisiau?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod ac yn gallu nodi prif rannau amrywiaeth o beiriannau torri a siapio mae modd eu cludo. Bydd dysgwyr yn deall pwrpas a chyfyngiadau pob offer yn pŵer a'r offer cysylltiedig ac yn gwybod sut mae cywiro diffygion o fewn terfynau eu cyfrifoldeb.

Dylai hyn gynnwys:

- llifiau: llif gron, llif gron ar stand (gan gynnwys meitrau cyfansawdd), jig bwrdd, aligator, *multi-tool*
offer: bachyn negyddol, bach positif, bach niwtral, TCT, llafn plât, TPI
- dril (troi, troi a churo, dril dreifar); HSS, TCT, SDS
- plaen
- cyllyll
- uniadwr bisgedi

- torwyr - llafn llif
- llif betrol: torri, llifanu, metel, carreg a disgiau diemwnt
- mortesiwr
- ebellion a chynion
- plaen a pheiriant cysoni trwch cludadwy
- sandiwr (orbitol, belt, disg), papurau sgraffinio graddedig
- rowtar (wedi'i ddal â llaw ac mewn bwrdd rowtar)
- mathau o dorwyr – fflwt, pin sefydlog, pêl, proffil, mowldio, HSS, TCT, PCD
- trimiwr lamineiddio
- torwyr - fflwt, pêl

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o gyflenwad pŵer a ddefnyddir ar gyfer y peiriannau uchod, gan gynnwys 110 V, 230 V a niwmatig.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio'r peiriannau torri a siapio cludadwy sydd wedi'u rhestru yn 1.1.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut a phryd i roi gwybod am broblemau neu ddiffygion gyda pheiriannau torri a siapio cludadwy.

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod sut i gael mynediad at beiriannau neu eu harchebu ac yn deall pa mor addas ydynt ar gyfer y dasg.

1.4 Bydd dysgwyr yn gwybod am beryglon a risgiau cyffredin sy'n gysylltiedig â defnyddio peiriannau torri (darnau rhydd yn cael eu taflu o'r peiriant, cyffwrdd y llafn, sŵn, llwch, dirgryniadau, sioc drydanol, llithro, baglu, cwmpo a mynd yn sownd, darnau yn mynd i mewn i dyllau yn y corff neu'n treiddio i'r croen (cyflenwad niwmatig)) a sut y gellir lleihau neu oresgyn y rhain. Bydd dysgwyr yn deall sut i gael gafael ar wybodaeth i'w defnyddio'n ddiogel gan gynnwys cyfarwyddiadau gweithgynhyrchwyr, Codau Ymarfer Cymradwy, deddfwriaeth briodol h.y. PUWER, olwynion sgraffiniol.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis a defnyddio offer cludadwy i siapio cynhyrchion pren a phanel, gan ystyried y canlynol:

- marciau cyfeirio, diffygion sy'n cynnwys plyg, tro, cwpanu, graen ar oleddf, gwaith wedi'i siapio, a maint/pwysau'r gydran.
- offer cefnogi darnau gwaith h.y. byrddau rholeri, trestlau, gweithiwr
- defnyddio jigiau a chymhorthion i weithio'n ddiogel ac i gynhyrchu sawl cydran yn gywir (jig â lletem, jig â blociau glud, byrddau cyfrwy, jig i ddiogelu cydrannau crwm sy'n cael eu peiriannu ar fowldiwr, blociau gwthio, ffyn gwthio, *feather board*)
- gweithio'n daclus a gweithio'n unol â chanllawiau diogelwch
- darparu storfa dros dro o gydrannau wedi'u stacio yn ystod gwaith peiriannu
- sut i storio cydrannau gorffenedig er mwyn atal difrod.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae pob peiriant yn cael ei ddefnyddio i dorri, proffilio a siapio cydrannau ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion gwaith coed.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut i

- dewis offer pŵer, offer a chyfarpar priodol ar gyfer y dasg dan sylw
- gosod offer pŵer a chyfarpar, a newid offer ar gyfer y dasg dan sylw
- cynnal archwiliadau diogelwch cyn cychwyn
- cynnal a chadw a storio offer pŵer, offer a chyfarpar
- gosod a chynnal a chadw systemau awyru'r ecsôt (LEV) lleol.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis y torwyr a'r coleri priodol ar gyfer jigiau rowtio masnachol, gan gynnwys rowtio ochrau grisiau, jig colfachau a jigiau rhigolau.

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau mesur, marcio a sicrhau deunyddiau ar gyfer gweithrediadau offer pŵer

3.2 Gosod, defnyddio a chynnal a chadw offer pŵer, gan gynnwys defnyddio o leiaf dri o'r peiriannau torri dilynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir:

- llif (tair o leiaf o'r canlynol: llif gron, llif gron ar stand, llif feitr, llif fwrdd, jig-so, llif *alligator*, *multi tool*)
- dril
- plaen
- uniadwr bisgedi (*biscuit jointer*)
- morteisiwr

a gosod a defnyddio o leiaf ddau o'r peiriannau siapio pŵer canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir:

- peiriant cysoni trwch
- sandiwr (orbitol, belt, disg)
- rowtar
- trimiwr lamineiddio

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 a 3.2

Bydd dysgwyr yn gallu mesur, marcio allan, lleoli, bwydo a chynnal deunyddiau ar gyfer gweithrediadau gyda pheiriannau.

Bydd dysgwyr yn gallu gosod, defnyddio a chynnal gwahanol fathau o offer pŵer y gellir eu cludo'n ddiogel wrth weithgynhyrchu cynhyrchion gwaith coed: llif (llif gron [fach, gyda rheilen], lli gron ar stand, llif feitr [llif feitr gyfansawdd], llif fwrdd, jig-so, *alligator*, *multi-tool*, dril, plaen (plaen trydan bach a pheiriant cysoni trwch symudol), uniadwr bisgedi, morteisiwr, peiriant cysoni trwch, sandiwr, rowter, torrwr lamineiddio.

Bydd dysgwyr yn gallu gosod a defnyddio jigiau rowter masnachol yn ddiogel, gan gynnwys jig grisiau, jig colfachau a jigiau rhigolau.

Llwybr C: Gwaith Coed ar y Safle

Uned 212: Gwybodaeth graidd am Waith Coed ar y Safle

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 50 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth gyffredinol sydd ei hangen ar gyfer y llwybr hwn.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth
- deall arferion gweithio diogel
- deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod
- deall gweithio o fewn terfynau amser.

Mae cynnwys yr uned hon wedi cael ei gyflwyno mewn ffordd generig gan ei fod yn gyson drwy lawer o'r unedau sgiliau yn y cymhwyster hwn. Dylid addysgu'r cynnwys, a bydd yn cael ei asesu'n gyffredinol ac yng nghyd-destun yr unedau sgiliau canlynol (lle bo hynny'n briodol):

- Gosod cydrannau'r gosod cyntaf
- Gosod cydrannau'r ail osod
- Gosod cydrannau strwythurol creiddiol
- Cynnal a chadw gwaith coed anstrwythurol
- Gosod a defnyddio peiriannau torri a siapio cludadwy

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Pam mae ymgynefino â safleoedd yn bwysig?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cerdyn gwaith a thaflen amser?
- Pwy yw Cadw a beth maen nhw'n ei wneud?

Deilliant dysgu

1. Deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth

Meini Prawf

- 1.1 Gweithdrefnau'r sefydliad a ddatblygwyd i roi gwybod am wybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas a'u cywiro, a sut y cânt eu rhoi ar waith
- 1.2 Y mathau o wybodaeth, eu ffynhonnell a sut maen nhw'n cael eu dehongli
- 1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad i ddatrys problemau gyda'r wybodaeth a pham ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu dilyn
- 1.4 Pwysigrwydd cadw dogfennau

2. Deall arferion gwaith diogel

Meini Prawf

- 2.1 Lefel y ddealltwriaeth y mae'n rhaid i weithwyr ei chael o wybodaeth am ddeddfwriaeth berthnasol, gyfredol a chanllawiau swyddogol a sut mae'n cael ei chymhwyso
- 2.2 Sut y dylid ymateb i argyfyngau a phwy ddylai ymateb
- 2.3 Gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol
- 2.4 Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny
- 2.5 Pam, pryd a sut y dylid defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch
- 2.6 Sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol

3. Deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod

Meini Prawf

- 3.1 Sut mae diogelu gwaith rhag difrod a phwrpas diogelu
- 3.2 Pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel a sut y gwneir hynny

4. Deall gweithio i derfynau amser

Meini Prawf

4.1 Sut mae gwaith yn cael ei wneud i fodloni'r rhaglen yn yr amser a drefnwyd a phwysigrwydd terfynau amser

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

- 1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o weithdrefnau sefydliadol a'u nodweddion a'r ffyrdd o'u defnyddio, gan gynnwys cyfleu problemau ar lafar, cadwyn awdurdod, sgysiau anffurfiol, ymgynefino â'r safle.
- 1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion a defnydd lluniadau a chynlluniau (cynllun toi, cynllun distiau, cynllun llawr, lluniadau ystod, ystod cydrannau a gweddluniau), manylebau, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg, hysbysiadau safle ac arwyddion diogelwch, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, cyfarwyddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig, a rheoliadau adeiladu, ac yn gwybod sut maent yn cael eu rhoi ar waith.
- 1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n codi o wybodaeth amhriodol – gan gynnwys camglywed cyfarwyddiadau, gwybodaeth anghywir, camddehongli datganiad dull, rhoi gwybodaeth anghywir. Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau a pheryglon posibl sy'n deillio o adnoddau gan gynnwys deunyddiau anaddas, tywydd garw ac amgylchiadau sy'n newid.
- 1.4 Bydd dysgwyr yn gwybod sut i gadw dogfennau, gan gynnwys: cardiau gwaith, taflenni gwaith, rhestrau deunyddiau/adnoddau a thafllenni amser.

Deilliant 2

- 2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am egwyddorion y darnau canlynol o ddeddfwriaeth, beth yw diben pob deddfwriaeth, sut mae'n cael ei defnyddio mewn diwydiant a chanlyniadau diffyg cydymffurfio: Rheoliadau adeiladu; rheoliadau Gweithio ar Uchder (WAH); Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (HASAWA); PUWER; ACOPs; RIDDOR; CDM; COSHH; PPE; LOLER; MEWP; rheoliadau Codi a Chario; rheoliadau Sŵn yn y Gwaith.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw diben pob deddfwriaeth, sut mae'n cael ei defnyddio mewn diwydiant a chanlyniadau peidio â chydymffurfio. Bydd dysgwyr yn deall rolau awdurdodau lleol o ran cynllunio a Rheoli Adeiladu a chyda strwythurau treftadaeth, gan gynnwys ymgynghori â Cadw.

- 2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae ymateb i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol wrth ddelio â thanau, gollyngiadau, anafiadau ac argyfyngau.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o ddiffoddwyr tân a sut a phryd y cânt eu defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o dân. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu rôl a'u cyfrifoldeb o ran gwagio, atal (dŵr, CO2, ewyn, powdr), y triongl tân a phwyntiau ymgynnull.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o hylifau sy'n gallu colli, sut mae eu hatal a sut mae eu nadu rhag gollwng. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer pecynnau gollwng, arwyddion a sut mae cau'r ardal.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o anafiadau a chyfrifoldebau cyffredin gan gynnwys swyddog cymorth cyntaf, pecyn cymorth cyntaf, adrodd am ddamweiniau yn achos argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol, gan gynnwys atal, gweithdrefnau brys, gwasanaethau brys, gweithdrefnau adrodd, mynediad ac allanfeydd ar gyfer cerbydau argyfwng.

2.3 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, gan gynnwys:

- safle – gan gynnwys ffensys dros dro, swyddogion diogelwch, gwyliadwriaeth
- gweithle - gan gynnwys agor a chloi
- cwmni - gan gynnwys llofnodi i mewn, gweithdrefnau awdurdodi ID
- y gweithiwr - gan gynnwys diogelwch offer, deunyddiau, cyfarpar a cherbydau, eiddo personol.

Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau diogelwch mewn annedd ddomestig o'u cymharu ag ar y safle.

2.4 Bydd dysgwyr yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni damweiniau ac yn gallu adnabod swyddog cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr hefyd yn deall y gyfraith sy'n ymwneud â nifer y bobl y mae angen eu hyfforddi'n briodol ar gyfer cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr yn deall y rolau a'r cyfrifoldebau mewn gwahanol safleoedd, gan gynnwys mewn cartref domestig, gan gynnwys sut mae cymryd cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles. Bydd dysgwyr yn deall sut mae adrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gweithio a RIDDOR yn achos digwyddiadau perthnasol. Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ddefnyddio'r llyfr cofnodi ar gyfer mân ddamweiniau a sut i gofnodi damweiniau fu bron â digwydd, gan gynnwys y gweithdrefnau adolygu ac ail-werthuso sydd ar waith.

2.5 Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ddewis, defnyddio a chynnal a chadw cyfarpar diogelu personol, RPE, LEV, gan gynnwys gwybodaeth am sbectol diogelwch, gogls, hetiau caled, siaced lachar, teclynnau amddiffyn y clustiau, esgidiau diogelwch, masgiau llwch (gan gynnwys profion ffitio'r wyneb), harneisiau diogelwch, menyg diogelwch, sachau stopio cwmp, matiau cwmpo, rheilen sgaffaldiau a rhwyd, lloriau ffug, hyfforddiant gwn hoelion ar gyfer y gosod cyntaf a'r ail osod.

2.6 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol, gan gynnwys: cynllun rheoli gwastraff safle (SWMP); ailgylchu; aildefnyddio; gwastraff ar wahân.

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae diogelu gwaith rhag difrod, rhag gweithgareddau gwaith cyffredinol, galwedigaethau eraill, amodau tywydd (gwaith domestig yn ogystal â gwaith ar y safle), gorchudd dros dro, newid trefn gwaith i ddiogelu gwaith yn well, gofal a sylw i fanylion wrth osod, cynfasau llwch, amddiffyn deunyddiau.

Bydd dysgwyr yn gwybod bod deunyddiau'n cael eu storio'n gywir cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i waredu gwastraff (yn ddiogel ac yn gyfrifol gan ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol yn unol â chyfrifoldebau amgylcheddol).

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol ddulliau gwaredu gan gynnwys sgiplau dynodedig, ailgylchu, didoli gwastraff, man casglu gwastraff lleol, biodanwydd.

Deilliant 4

4.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gweithgareddau gwaith, deunyddiau a llafur yn cael eu dyrannu i fodloni'r amserlen ofynnol o fewn y rhaglen, a pham y dylid cadw at derfynau amser.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o dargedau cynhyrchiant ac amserlenni, sut mae amseroedd yn cael eu hamcangyfrif, yr amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith gan gynnwys y tywydd, faint o lafur sydd ar gael, effeithiau canlyniadol trin a storio gwael gan achosi difrod i ddeunyddiau, cymal cosb, ffioedd cadw, rhaglen waith (ffurfiol ac anffurfiol), enw da a'r goblygiadau ar grefftiau eraill.

Uned 213: Gosod cydrannau'r gosod cyntaf

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 80 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â gosod cydrannau gwaith coed cyntaf y safle, gan gynnwys partisynau, gorchuddion llawr, fframiau a leinin drysau.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Beth yw'r gosod cyntaf?
- Pa dasgau fydda i'n eu gwneud wrth osod y gwaith coed cyntaf?
- Sut ydw i'n cynllunio ac yn gosod rhes o risiau?
- Pam fyddwn i'n defnyddio pren neu fetel i adeiladu pared?
- Sut ydw i'n mesur ac yn gosod gorchuddion llawr?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn deall nodweddion ac addasrwydd deunyddiau wrth ddewis adnoddau ar gyfer gosod cydrannau'r gosod cyntaf. Bydd dysgwyr yn gwybod y rhesymau dros ddewis

- coedyn gwyn, T&G neu ddeunydd dalen pren ar gyfer gorchuddion lloriau
- coedyn gwyn, CLS neu stydiau metel ar gyfer adeiladu partisiynau a'r gorchuddion sy'n cael eu hargymell i gyd-fynd â'r lleoliad h.y. gwrthiant lleithder, acwstig, tân, ardaloedd sy'n debygol o ddioddef ergydion
- coedyn coch Ewropeaidd neu MDF ar gyfer leinin drws a hatsh mewnol
- UPVC, coedyn coch neu ddeunyddiau dalennau pren ar gyfer gorffeniadau toeau ac ymylon.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod diffygion sy'n gallu effeithio ar gyfanrwydd y strwythur h.y. cainc, hollt, ysgwyd, cyfeiriad y graen a'r rheini sy'n effeithio ar yr estheteg yn unig.

Bydd dysgwyr yn deall cyfyngiadau adnoddau, sut y'u defnyddir a dewisiadau amgen cynaliadwy, gan gynnwys gwaith styds metel ar gyfer partisïynau a deunyddiau cyfansawdd.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod pa ddeunyddiau a gosodiadau i'w defnyddio mewn lleoliadau penodol, a pha mor addas ydynt i'w gosod, eu huno a'u diogelu:

- partisïynau a gorchuddion (metel a phren)
- grisïau at waliau a llorïau
- fframïau a leinin drysau i waith maen (metel a phren)
- gorchuddion llawr neu do gwastad
- deunyddiau ar gyfer bondoeau a soffitiau.

Gosodion i gynnwys sgrïwiau pen wafer, sgrïwiau wal sych, sïanel, stydiau C, plastrfyrddau, sgrïwiau, hoelion, gosodiadau masnachol, lletemau, darnau gwahanu, hoelion troi, hoelion cylch, hoelion llawr, hoelion *cut clasp*, glud, pinïau UPVC, hoelion a chapïau.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau gydag adnoddau penodol, gan gynnwys deunyddiau diffygiol a ganfuwyd yn y man darparu ac yn ystod y broses adeiladu.

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y broses ar gyfer dewis deunyddiau gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth dechnegol gan gynnwys lluniadau, gofynion, amserlenni a gwybodaeth y gwneuthurwr.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i archebu adnoddau i gyflawni tasg benodol gan ddefnyddio gweithdrefnau sefydliadol i gynnwys:

- llenwi ffurflen archebu
- llunio rhestr o ddeunyddiau ar gyfer amrywiaeth o dasgau gwaith coed ar gyfer y gosod cyntaf.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall y peryglon a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gosod cydrannau'r gosod cyntaf. Peryglon a risgiau i gynnwys anafiadau cyhyrol/sgerbydol o ganlyniad i godi, cario ac osgo gweithio gwael, niwed wrth ddefnyddio offer a'r perygl o fynd yn sownd, straen ailadroddus, anafiadau, cleisiau, rhwygiadau, effaith dirgrynu VWF (syndrom Rayaud) o ddefnyddio peiriannau llaw sy'n dirgrynu, sylweddau sy'n effeithio ar y llygaid, y trwyn a'r gwddf, llwch carsinogenig, nam ar y clyw a achosir gan sŵn peiriannau.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae ysgrifennu datganiad dull ar gyfer gosod cydrannau gwaith coed y gosod cyntaf a'r weithdrefn i'w dilyn i roi gwybod am broblem a ganfuwyd gan sicrhau bod yr holl bartïon perthnasol yn cael gwybod.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae hogi, cynnal a chadw a storio offer llaw a phŵer yn ddiogel, gwirio, storio a chynnal a chadw cyfarpar sydd ei angen i osod cydrannau gwaith coed y gosod cyntaf a chofnodi unrhyw ddiffygion.

Cydrannau:

- fframiau (tu mewn a/neu ffenestr gan gynnwys sil ffenestr)
- leinin (drysau a/neu hatsh)
- gorchuddion distiau llawr (neu ddecin to gwastad)
- partisiynau gyda gorchuddion (coed a metel)
- grisiau syth
- gorffeniadau ymyl to a bondo (pren, cyfansawdd llawn, a chladin PVC) ar agor, wedi'u cau, danheddog

Offer a chyfarpar i gynnwys:

- cyfarpar mesur
- lefelau
- estyll syth
- sgwariau
- llifiau a llifiau pŵer cludadwy
- dril a bitiau
- bitiau sgriw Dreifer
- hoelion
- plaeniau a sgriwiau
- dril morthwyl
- gwn hoelion
- siswrn
- crimpiwr
- cyllell drimio
- syrfform
- befel mae modd ei addasu
- llinell linyr
- cyfarpar mynediad

Deiliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau mesur, marcio allan, torri, ffitio, gorffen, lleoli a sicrhau deunyddiau

3.2 Dewis, defnyddio a chynnal a chadw offer llaw a phŵer i osod o leiaf dri o'r canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir:

- fframiau (drysau a/neu ffenestri)
- leinin (drysau a/neu hatsh)
- gorchuddion distiau llawr (neu ddecin to gwastad)
- pared
- grisiau
- gorffeniadau ymylon a bondoeau ar y to

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deiliant 3

3.1 a 3.2

Bydd dysgwyr yn gallu:

- gosod fframiau drws a ffenestr gan gynnwys siliau ffenestri
- saernïo a gosod leinin drysau a hatsh
- torri a ffitio gorchuddion distiau llawr
- gosod allan, saernïo a gosod partisiynau gyda gorchuddion (pren a metel)
- gosod grisiau syth
- torri a ffitio amrywiaeth o orffeniadau bargod ac ymylon (pren, cyfansawdd llawn, a chladin PVC), ar agor, ar gau, danheddog.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, gosod, defnyddio a chynnal a chadw'r gwahanol fathau o offer llaw, offer pŵer a chyfarpar cysylltiedig.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, trin, stacio a storio adnoddau'n ddiogel gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Uned 214: Gosod cydrannau'r ail osod

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 80 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â gosod cydrannau gwaith coed yr ail osod ar y safle, gan gynnwys drysau, unedau wedi'u ffitio, gorchuddion gwasanaethau.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Beth yw'r ail osod?
- Pa dasgau fydda i'n eu gwneud wrth osod gwaith coed yr ail osod?
- Sut byddaf i'n gwybod pa waith haearn i'w ddefnyddio wrth osod drws allanol?
- Sut ydw i'n mesur ar gyfer mowldinau addurniadol?
- Pa reoliadau adeiladu sy'n berthnasol i risiau?
- Sut ydw i'n gosod ceginau?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn deall nodweddion ac addasrwydd deunyddiau wrth ddewis adnoddau ar gyfer gosod cydrannau'r ail osod.

Cydrannau a deunyddiau i gynnwys:

- drysau: fflysio, panel, FLB, LB, tân, hanner gwydr neu lawn, dwbl, gyda rabad
- mowldinau addurniadol: architraf, sgerpins, rheilen dado, rheilen ffris, cornel, a blociau plinth; meintiau a phroffiliau, pren meddal, pren caled, MDF
- gwaith haearn: meintiau a mathau o golfachau, cloeon, cliciedau, liferi a chiwb, plât gwthio/cic, bolltau colfach diogelwch, bolltau tyrrau, bolltau cudd, bolltau cam, twll gweld er diogelwch
- amgaeadau gwasanaeth: ffrâm draddodiadol, adeiladu slabiau, UPVC wedi'i baratoi ymlaen llaw a deunydd cyfansawdd
- unedau a dodrefn parod: arwynebau gwaith - pren solet, wedi'i lamineiddio, pyst ac ymyl sgwâr, naturiol, a deunydd cyfansawdd, dull uniadu
- cladin neu baneli: cedrwydd, llarwydd, byrddau cyfansawdd, UPVC, deunyddiau dalen pren, derw
- cydrannau grisiau: canllawiau, ffyn, pyst newydd (llawn, hanner, crogaddurn, canolradd), capiau pyst grisiau, capiau i ochr y grisiau, bylchwyr.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod diffygion sy'n gallu effeithio ar gyfanrwydd y strwythur h.y. Ceinciau wedi hollti, ysgwyd, cyfeiriad y graen a'r rheini sy'n effeithio ar yr estheteg yn unig, h.y. staen glas.

Bydd dysgwyr yn deall cyfyngiadau adnoddau, sut y'u defnyddir a dewisiadau amgen cynaliadwy, gan gynnwys defnyddio pren ardystiedig FSC.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod pa ddeunyddiau i'w dewis, eu defnyddio neu eu gosod mewn lleoliadau penodol, gan gynnwys:

- y drws cywir o fanyleb
- y mowldinau addurniadol i'w defnyddio o fanyleb
- y gwaith haearn cywir o fanyleb
- deunyddiau sydd eu hangen i adeiladu amgaeadau gwasanaeth mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ardaloedd lle mae llawer o leithder, ynysiad acwstig ar gyfer gwasanaethau plymio, paneli mynediad
- deunyddiau cladin ar gyfer defnydd mewnol neu allanol, gorffeniadau addurniadol a strwythurol
- y deunyddiau cywir ar gyfer gosod balwstrad llawn gan gynnwys glud, gosodiadau mecanyddol a doweli.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau gydag adnoddau penodol, gan gynnwys deunyddiau diffygiol a ganfuwyd yn y man darparu ac yn ystod y broses adeiladu.

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y broses ar gyfer dewis deunyddiau gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth dechnegol gan gynnwys lluniadau, gofynion, amserlenni a gwybodaeth y gwneuthurwr.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i archebu adnoddau i gyflawni tasg benodol gan ddefnyddio gweithdrefnau sefydliadol i gynnwys:

- llenwi ffurflen archebu
- llunio rhestr o ddeunyddiau ar gyfer amrywiaeth o dasgau gwaith coed yr ail osod.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall y peryglon a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gosod cydrannau gwaith coed yr ail osod a'r dull cywir o weithio sydd ei angen i gyflawni tasgau'n ddiogel. Peryglon a risgiau i gynnwys anafiadau cyhyrol/sgerbydol o ganlyniad i godi, cario ac osgo gweithio gwael, niwed wrth ddefnyddio offer a'r perygl o fynd yn sownd, straen ailadroddus, anafiadau, cleisiau, rhwygiadau, effaith dirgrynu VWF (syndrom Rayaud) o ddefnyddio peiriannau llaw sy'n dirgrynu, sylweddau sy'n effeithio ar y llygaid, y trwyn a'r gwddf, llwch carsinogenig, nam ar y clyw a achosir gan sŵn peiriannau.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae ysgrifennu datganiad dull ar gyfer gosod cydrannau gwaith coed yr ail osod a'r weithdrefn i'w dilyn i roi gwybod am broblem a ganfuwyd gan sicrhau bod yr holl bartïon perthnasol yn cael gwybod.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae hogi, cynnal a chadw a storio offer llaw a phŵer yn ddiogel, gwirio, storio a chynnal a chadw cyfarpar sydd ei angen i osod cydrannau gwaith coed yr ail osod a chofnodi unrhyw ddiffygion.

Cydrannau:

- drysau sy'n hongian ar eu hochr
- mowldinau addurniadol
- gwaith haearn
- amgaeadau gwasanaeth
- unedau neu ddodrefn parod gan gynnwys byrddau gwaith â chilfachau a thyllau
- cladin neu baneli
- cydrannau grisiau (balwstradau, canllawiau, ffyn)

Offer a chyfarpar: cyfarpar mesur, plaen (llaw a thrydan), llifiau (llaw a llif gron ar stand), llif gron, jig-so, cynion, ebillion, cyllyll marcio neu dorri, morthwylion/malet, myniawyd, sgruidreifers, dril di-wifr gyda bitiau, sgwâr, befel, bloc sgreibio, hoelion, pwnsh, gwn hoelion, lefel, rowter, torwyr, jisiau, bolltiau arwyneb gweithio, gosodiadau.

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau mesur, marcio allan, torri, ffitio, gorffen, lleoli a sicrhau deunyddiau

3.2 Dewis, defnyddio a chynnal a chadw offer llaw a phŵer i osod o leiaf bump o'r canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir:

- drysau sy'n hongian ar eu hochr
- mowldinau (architrafau, sgertins)
- gwaith haearn
- amgaeadau gwasanaeth
- unedau neu ddodrefn parod
- cladin neu baneli
- cydrannau grisiau (balwstradau, canllawiau, ffyn)

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 a 3.2

Bydd dysgwyr yn gallu:

- gosod a hongian drws sy'n hongian ar ei ochr
- torri a ffitio amrywiaeth o fowldion addurniadol gydag onglau mewnol ac allanol a thyllau
- gosod amrywiaeth o waith haearn ar ddrysau a ffenestri sydd ar gael yn fasnachol
- saernïo a gosod amgaeadau gwasanaeth fertigol a llorweddol gyda phaneli mynediad
- gosod unedau neu ddodrefn parod gan gynnwys unedau walïau a sylfaen, byrddau gwaith a phaneli addurniadol a mowldinau wedi'u proffilio
- ffitio a gosod amrywiaeth o gladin neu baneli
- gosod, torri a gosod balwstradau llawn yn unol â'r rheoliadau adeiladu.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, gosod, defnyddio a chynnal a chadw'r gwahanol fathau o offer llaw, offer pŵer a chyfarpar cysylltiedig.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, trin, stacio a storio adnoddau'n ddiogel gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Uned 215: Gosod cydrannau strwythurol creiddiol

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 70 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â gosod cydrannau strwythurol ar gyfer toeau a lloriau.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Beth yw corff strwythurol?
- Beth mae graddio straen yn ei olygu?
- Beth yw llwyth deinamig?
- Pam mae wal crwybr yn llawn tyllau?
- Pa gyfarpar diogelu personol sydd ei angen arna i wrth weithio ar uchder?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn deall nodweddion ac addasrwydd deunyddiau wrth ddewis adnoddau ar gyfer gosod cydrannau carcasu strwythurol, gan gynnwys:

- toeau ar oleddf gyda straen ar y talcen: pren wedi'i raddio, meintiau pren, llwythi wedi'u gosod (marw, byw, deinamig)
- partisiynau sy'n cynnal llwythi: pren wedi'i raddio i gymryd straen, meintiau pren, llwythi a osodir
- distiau (llawr, llawr cyntaf neu do gwastad), gan gynnwys gorchuddion (toeon gwastad, deciau, neu loriau); pren wedi'i raddio i gymryd straen, meintiau pren, llwythi a osodwyd, gwydnwch deunyddiau decin.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod diffygion sy'n gallu effeithio ar gyfanrwydd y strwythur h.y. ceinciau wedi hollti, ysgwyd, cyfeiriad y graen a'r rheini sy'n effeithio ar yr estheteg yn unig h.y. staen glas, Canu U.

Bydd dysgwyr yn deall defnyddiau a chyfyngiadau adnoddau a dewisiadau amgen cynaliadwy gan gynnwys systemau fframio Metsec.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod pa ddeunyddiau i'w defnyddio mewn lleoliadau penodol, gan gynnwys:

- cydrannau sy'n ffurfio toeau traddodiadol: distiau cyffredin, ymyl fain, cafn, Jac, crupul, coron, walblat, strapiau dal, bord crib, tulath, coed cynnal distiau, ategion
- cyplau parod: ffinc, ffan, atig, howe, brenhinbost, brenhinesbost, lleihau, rhediad mono a deuol, clipiau distiau, strapiau atal, cryfhad
- cydrannau sy'n ffurfio pared sy'n cynnal pwysau: pen, plât sylfaen, stydiau, nogins, stydiau crupul/ysbwrlath, stydiau Jac, linteli
- cydrannau sy'n gwneud lloriau gwaelod ac uchaf a thoeon gwastad, pontio, trimiwr, trimio, distiau wedi'u trimio, ategion, cryfhad, strapiau, waliau bychain, ffyrings a ffiledi.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau gydag adnoddau penodol, gan gynnwys deunyddiau diffygiol a ganfuwyd yn y man darparu ac yn ystod y broses adeiladu.

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y broses ar gyfer dewis deunyddiau gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth dechnegol gan gynnwys lluniadau, gofynion, amserlenni a gwybodaeth y gwneuthurwr.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i archebu adnoddau i gyflawni tasg benodol gan ddefnyddio gweithdrefnau sefydliadol i gynnwys:

- llenwi ffurflen archebu
- llunio rhestr o ddeunyddiau ar gyfer amrywiaeth o dasgau carcasu strwythurol.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall y peryglon a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gosod cydrannau carcasu strwythurol a'r dull cywir o weithio sydd ei angen i gyflawni tasgau'n ddiogel. Peryglon a risgiau i gynnwys syrthio o uchder, anafiadau cyhyrol/sgerbydol o ganlyniad i godi, cario ac osgo gweithio gwael, ergydion gan offer a mynd yn sownd, straen ailadroddus, toriadau, cleisiau, anafiadau, bys gwyn o ddefnyddio peiriannau llaw sy'n dirgrynu (VWF - syndrom Ray), sylweddau sy'n effeithio ar y llygaid, y trwyn a'r gwddf, nam ar y clyw o ganlyniad i sŵn peiriant.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae ysgrifennu datganiad dull ar gyfer gosod cydrannau gwaith coed strwythurol a'r weithdrefn i'w dilyn i roi gwybod am broblem, gan sicrhau bod yr holl bartion perthnasol yn cael gwybod.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae hogi, cynnal a chadw a storio offer llaw a phŵer yn ddiogel, gwirio, storio a chynnal a chadw cyfarpar sydd ei angen i osod cydrannau gwaith coed strwythurol, gan gynnwys sgaffaldiau a systemau atal cwmpo, a chofnodi unrhyw ddiffygion.

Offer a chyfarpar i gynnwys:

- cyfarpar mesur
- lefelau
- llifiau (llaw a PPT)
- cŷn
- plaeniau
- sgwariau
- befelau
- morthwylion
- gwn hoelion
- lein

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau mesur, marcio allan, torri, ffitio, gorffen, lleoli a sicrhau deunyddiau

3.2 Dewis, defnyddio a chynnal a chadw offer llaw a phŵer i godi o leiaf un o'r canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir

- toeau ar oleddf gyda thalcennau
- partisiynau sy'n cynnal llwythi
- distiau (gwaelod, uchaf neu do fflat), gan gynnwys gorchuddion (to fflat, deciau, neu loriau)

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 a 3.2

Bydd dysgwyr yn gallu:

- gosod allan, torri a gosod to ar oleddf gyda thalcen
- gosod, torri a gosod partisiynau sy'n cynnal llwythi
- torri a ffitio distiau llawr gan gynnwys lloriau gwaelod crog pren, lloriau uchaf gydag agoriadau wedi'u trimio a thoeau gwastad gyda ffiwiau a ffiledi.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, gosod, defnyddio a chynnal a chadw'r gwahanol fathau o offer llaw, offer pŵer a chyfarpar cysylltiedig.

Offer a chyfarpar i gynnwys:

- cyfarpar mesur
- lefelau
- llifiau (llaw a PPT)
- sgwariau
- befelau
- morthwylion
- gwn hoelion
- lein

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, trin, stacio a storio adnoddau'n ddiogel gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Uned 216: Cynnal a chadw gwaith coed anstrwythurol

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 48 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â chynnal a chadw cydrannau gwaith coed anstrwythurol mewn eiddo domestig.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng gwaith coed anstrwythurol a gwaith coed strwythurol?
- Pa faterion iechyd a diogelwch y mae angen i mi eu hystyried wrth wneud gwaith atgyweirio?
- Pryd ddylwn i gyfnewid rhywbeth yn hytrach na sbleisio?
- Sut ydw i'n newid cortynnau ffenestr?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall gweithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn deall nodweddion ac addasrwydd deunyddiau wrth ddewis adnoddau ar gyfer cynnal a chadw a newid cydrannau gwaith coed a saernïaeth anstrwythurol, gan gynnwys:

- sut i adnabod y proffiliau a ddefnyddir wrth adeiladu ffenestri a fframiau drysau a sicrhau bod y deunyddiau yn cyd-fynd
- sut mae adnabod deunyddiau sy'n cael eu defnyddio i sbleisio, atgyweirio neu newid cydrannau pren
- dewis o waith haearn a ddefnyddir i gynnal a chadw ac atgyweirio eitemau gwaith coed, ffenestri: ategwaith, ategion ffenestri, colfachau (rhag storm), ymyl, pwlïau ffenestri, cliceddi, cloeon
- dodrefn drws: cloeon (ymyl, sash, silindr, mortais, cliciedau ewro, mortais, pêl), colfachau, bolltau colfach, bolltau tŵr, platiau llythyrau, dyrnau drysau, tyllau diogelwch

- sut mae nodi a dewis deunyddiau haearn sy'n cyfateb, gan gynnwys dur, pres, nicel, crôm, jap du.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod diffygion sy'n gallu effeithio ar gadernid strwythurol, pan fydd angen newid cydrannau a'r diffygion hynny sy'n effeithio ar yr estheteg yn unig. Bydd dysgwyr yn deall dewisiadau amgen cynaliadwy h.y. newid llwyr, uwchraddio.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod pa ddeunyddiau i'w defnyddio mewn lleoliadau penodol:

- sbleisio siliau ffenestr, ystlysbyst, rheiliau ac estyll
- gwneud atgyweiriadau i fframiau drysau a leiniau
- newid cortyn ffenestr
- y gwaith haearn newydd sydd ei angen yn lle cydrannau diffygiol
- yr offer sydd ei angen i weithio ar uchder i atgyweirio bondoeau a gorffeniadau ymylon
- y proffil i sicrhau bod y gwaith atgyweirio ar fowldion yn cyd-fynd
- deunyddiau cotio diogelu addas sy'n cael eu defnyddio i selio graen pen a diogelu arwynebau.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau gydag adnoddau penodol, gan gynnwys deunyddiau diffygiol a ganfuwyd yn y man darparu ac yn ystod y broses adeiladu.

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y broses ar gyfer dewis deunyddiau gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth dechnegol gan gynnwys lluniadau, gofynion, amserlenni a gwybodaeth y gwneuthurwr.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae archebu adnoddau i gyflawni tasg benodol gan ddefnyddio gweithdrefnau sefydliadol, gan gynnwys:

- llenwi ffurflen archebu
- llunio rhestr o ddeunyddiau ar gyfer amrywiaeth o dasgau cynnal a chadw anstrwythurol.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall y peryglon sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw ac adnewyddu cydrannau gwaith coed anstrwythurol a'r dull cywir o weithio sydd ei angen i gyflawni tasgau'n ddiogel.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae ysgrifennu datganiad dull ar gyfer cynnal a chadw a newid cydrannau gwaith coed a saerniaeth anstrwythurol, a'r weithdrefn i'w dilyn i roi gwybod am broblem, gan sicrhau bod yr holl bartïon perthnasol yn cael gwybod.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae hogi, cynnal a chadw a storio offer llaw a phŵer yn ddiogel, gwirio, storio a chynnal a chadw cyfarpar sydd ei angen i gynnal a newid cydrannau gwaith coed a saerniaeth anstrwythurol a chofnodi unrhyw ddiffygion a ganfyddir.

- Offer i gynnwys llif, llif fwa fach, offer mesur (tapiau a phreniau mesur), sgriwdreifars pen fflat a pozidriv, myniawyd, morthwylion (morthwyl saer, morthwyl lwmp a morthwyl wyneb crwn), sgwariau, befel, cynion, calen hogi, pwnshis, gefeiliau, plaen llyfnu, plaen bloc, lefelau, lein, lein sialc, crafwyr, cylllyll llenwi, brwshys paent, cylllell drimio, wimbled a bitiau llydan a HSS, clampiau, papur sandio a blociau sandio, medrydd marcio.
- Offer pŵer i gynnwys llif gron ar stand, llif gron, jig-so, *multi-cutter*, gwn hoelion, sandiwr (orbital a belt), dril, rowter a thorwyr, plaen.
- Offer mynediad i gynnwys hop-yp, sgaffald tŵr symudol/sefydlog, ysgolion, ysgolion bach, stolion llifio.

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

- 3.1** Dangos sgiliau mesur, marcio allan, torri, sbleisio, ffitio, gorffen, lleoli a sicrhau deunyddiau
- 3.2** Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw a phŵer naill ai i drwsio neu newid o leiaf dau o'r canlynol:
- fframiau
 - mowldinau
 - drysau
 - ffenestri
 - gwaith haearn ar ddrysau a/neu ffenestri
 - lleiniau ymyl ffordd a neu bondo
 - cortyn ffenestr
 - preimio'r gwaith atgyweirio

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gallu:

- gwneud gwaith atgyweirio ar ddrysau a/neu fframiau ffenestri, gan gynnwys gosod cydrannau diffygiol newydd yn lle'r rhai diffygiol
- atgyweirio neu sbleisio mowldinau addurniadol wedi pydru neu eu difrodi
- gosod drysau newydd
- gwneud atgyweiriadau i'r sashis
- sbleisio a newid bondoeau ac ymylon diffygiol
- newid cortynnau ffenestr sengl a dwbl

- defnyddio paent preimar a deunyddiau cotio cadw clir yn ystod y broses trwsio ac amnewid.

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu dewis, gosod, defnyddio a chynnal y gwahanol fathau o offer llaw, offer pŵer a chyfarpar cysylltiedig.

Offer i gynnwys llif, llif fwa fach, offer mesur (tapiau a phreniau mesur), sgrwdreifars pen fflat a pozidriv, myniawyd, morthwylion (morthwyl saer, morthwyl lwmp a morthwyl wyneb crwn), sgwariau, befel, cynion, calen hogi, pwnshis, gefeiliau, plaen llyfnu, plaen bloc, lefelau, lein, lein sialc, crafwyr, cyllyll llenwi, brwshys paent, cyllell drimio, wimbled a bitiau llydan a HSS, clampiau, papur sandio a blociau sandio, medrydd marcio.

Offer pŵer: llif gron ar stand, llif gron, jig-so, *multi-cutter*, gwn hoelion, sandiwr (orbitol a belt), dril, rowter a thorwyr, plaen.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, trin, stacio a storio adnoddau'n ddiogel gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Uned 217: Gosod a defnyddio peiriannau torri a siapio cludadwy

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 50 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â gosod a defnyddio offer pŵer cludadwy a ddefnyddir yn y diwydiant adeiladu yn ddiogel.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Sut ydw i'n gwybod pa lif i'w defnyddio?
- Pa reoliadau sy'n berthnasol i ddefnyddio offer pŵer?
- Beth yw ystyr HSS, TCT a SDS?
- Sut ydw i'n gwybod beth yw foltedd offer pŵer?
- Sut ydw i'n gwirio bod offeryn pŵer yn ddiogel i'w ddefnyddio?
- Pryd fyddwn i'n defnyddio jig rowter?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod ac yn gallu nodi prif rannau amrywiaeth o beiriannau torri a siapio mae modd eu cludo. Bydd dysgwyr yn deall pwrpas a chyfyngiadau pob offeryn pŵer ac offer cysylltiedig a gwybod sut mae cywiro diffygion o fewn terfynau eu cyfrifoldebau. Dylai hyn gynnwys:

- llifiau: llif gron, llif gron ar stand (gan gynnwys meitrau cyfansawdd), jig bwrdd, aligator, *multi-tool*
offer: bachyn negyddol, bach positif, bachyn niwtral, TCT, llafn plât, TPI
- dril (troi, troi a churo, dril dreifar); HSS, TCT, SDS
- plaen
- chyllyll
- uniadwr bisgedi
- torwyr - llafn llif
- llif betrol: torri, llifanu, metel, carreg a disgiau diemwnt

- morteisiwr
- ebellion a chynion
- plaen a pheiriant cysoni trwch cludadwy
- sandiwr (orbitol, belt, disg), papurau sgraffinio graddedig
- rowter (wedi'i ddal â llaw ac mewn bwrdd rowter)
- mathau o dorwyr – fflwt, pin sefydlog, pêl, proffil, mowldio, HSS, TCT, PCD
- trimiwr lamineiddio
- torwyr – fflwt, ras bêl.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o gyflenwad pŵer a ddefnyddir ar gyfer y peiriannau uchod, gan gynnwys 110 V, 230 V a niwmatig.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio'r peiriannau torri a siapio cludadwy sydd wedi'u rhestru yn 1.1. Bydd dysgwyr yn gwybod sut a phryd i roi gwybod am broblemau neu ddiffygion gyda pheiriannau torri a siapio cludadwy.

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod sut i gael mynediad at beiriannau neu eu harchebu ac yn deall pa mor addas ydynt ar gyfer y dasg.

1.4 Bydd dysgwyr yn gwybod am beryglon a risgiau cyffredin (ergydion, cyffwrdd y llafn, sŵn, llwch, dirgryniadau, sioc drydanol, llithro, baglu, cwmpo a mynd yn sownd, darnau'n mynd i mewn i dyllau yn y corff neu'n treiddio i'r croen (aer/cyflenwad niwmatig)) y deuir ar eu traws wrth ddefnyddio peiriannau torri a sut y gellir lleihau neu ochel rhag y rhain. Bydd dysgwyr yn deall sut mae cael gafael ar wybodaeth i'w defnyddio'n ddiogel, gan gynnwys cyfarwyddiadau gweithgynhyrchwyr, Codau Ymarfer Cymeradwy, deddfwriaeth briodol h.y. PUWER, olwynion sgraffiniol.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis a defnyddio offer mae modd eu cludo i siapio cynhyrchion pren a phanel, gan ystyried y canlynol:

- marciau cyfeirio, diffygion fel tro, plyg, cwpanu, graen ar oleddf, gwaith wedi'i siapio, a maint/pwysau'r gydran
- offer cefnogi darnau gwaith h.y. byrddau rholeri, trestlau
- defnyddio jigiau a chymhorthion i weithio'n ddiogel ac i gynhyrchu sawl cydran yn gywir (jigiau lletem, jigiau blociau glud, byrddau cyfrwy, jigiau, blociau gwthio, ffyn gwthio)
- gweithio'n daclus a gweithio'n unol â chanllawiau diogelwch
- darparu storfa dros dro o gydrannau wedi'u stacio yn ystod gwaith peiriannu
- sut i storio cydrannau gorffenedig er mwyn atal difrod.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae pob peiriant yn cael ei ddefnyddio i dorri, proffilio a siapio cydrannau ar gyfer cynhyrchu cydrannau gwaith coed ar y safle.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut i

- ddewis offer pŵer, offer a chyfarpar priodol ar gyfer y dasg dan sylw
- gosod offer pŵer a chyfarpar, a newid offer ar gyfer y dasg dan sylw

- cynnal archwiliadau diogelwch cyn cychwyn
- cynnal a chadw a storio offer pŵer, offer a chyfarpar
- gosod a chynnal a chadw systemau awyru ecsôt (LEV) lleol.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis y torwyr a'r coleri priodol ar gyfer jigiau rowtio masnachol, gan gynnwys rowtio ochrau grisiau, jig colfachau a jigiau rhigolau.

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau mesur, marcio a sicrhau deunyddiau ar gyfer gweithrediadau offer pŵer

3.2 Gosod, defnyddio a chynnal a chadw offer pŵer, gan gynnwys defnyddio o leiaf dri o'r peiriannau torri pŵer canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir:

- llif (o leiaf dair o'r canlynol: llif gron, llif gron ar stand, llif feitr, llif fwrdd, jig-so, aligator, *multi-tool*)
- dril
- plaen
- uniadwr bisgedi

a gosod a defnyddio o leiaf un o'r peiriannau siapio pŵer canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir:

- sandiwr (orbitol, belt, disg)
- rowter

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 2017 A 3.2

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio gwahanol fathau o offer pŵer cludadwy wrth gynhyrchu cydrannau gwaith coed safle: llif (gron [llaw, gan gynnwys llif a thrac], llif gron ar stand, llif feitr, [llif feitr gyfansawdd], llif fwrdd, jig-so, aligator, *multi-tool*), driliau, plaen, uniadwr bisged, sandiwr, rowter.

Bydd dysgwyr yn gallu gosod a defnyddio jigiau rowter masnachol sy'n cynnwys jig ar gyfer clo, colfachau a jigiau arwynebau gwaith.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, gosod, defnyddio a chynnal a chadw'r gwahanol fathau o offer pŵer cludadwy a chyfarpar cysylltiedig.

Llwybr D: Gosod Fframiau Pren

Uned 218: Gwybodaeth graidd am Godi Fframiau Pren

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 50 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth gyffredinol sydd ei hangen ar gyfer y llwybr hwn.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth
- deall arferion gweithio diogel
- deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod
- deall gweithio o fewn terfynau amser.

Mae'r cynnwys sydd wedi'i restru yn y ddogfen hon yn cael ei ystyried yn gyffredinol gan ei fod yn gyson drwy lawer o'r unedau sgiliau yn y cymhwyster hwn. Dylid addysgu'r cynnwys, a bydd yn cael ei asesu'n gyffredinol ac mewn perthynas â'r unedau sgiliau canlynol (lle bo hynny'n briodol):

- Codi waliau pren a gosod lloriau pren
- Gosod strwythurau to pren

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Pam mae ymgynefino â safleoedd yn bwysig?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cerdyn gwaith a thaflen amser?
- Pwy yw Cadw a beth maen nhw'n ei wneud?

Deilliant dysgu

1. Deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth

Meini Prawf

- 1.1 Gweithdrefnau'r sefydliad a ddatblygwyd i roi gwybod am wybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas a'u cywiro, a sut y cânt eu rhoi ar waith
- 1.2 Y mathau o wybodaeth, eu ffynhonnell a sut maen nhw'n cael eu dehongli
- 1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad i ddatrys problemau gyda'r wybodaeth a pham ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu dilyn
- 1.4 Pwysigrwydd cadw dogfennau

2. Deall arferion gwaith diogel

Meini Prawf

- 2.1 Lefel y ddealltwriaeth y mae'n rhaid i weithwyr ei chael o wybodaeth am ddeddfwriaeth berthnasol, gyfredol a chanllawiau swyddogol a sut mae'n cael ei chymhwyso
- 2.2 Sut y dylid ymateb i argyfyngau a phwy ddylai ymateb
- 2.3 Gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol
- 2.4 Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny
- 2.5 Pam, pryd a sut y dylid defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch
- 2.6 Sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol

3. Deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod

Meini Prawf

- 3.1 Sut mae diogelu gwaith rhag difrod a phwrpas diogelu
- 3.2 Pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel a sut y gwneir hynny

4. Deall gweithio i derfynau amser

Meini Prawf

4.1 Sut mae gwaith yn cael ei wneud i fodloni'r rhaglen yn yr amser a drefnwyd a phwysigrwydd terfynau amser

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

- 1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o weithdrefnau sefydliadol a'u nodweddion a'u defnydd, gan gynnwys cyfleu problemau ar lafar, cadwyn gorchymyn, sgysiau blwch offer, cynefino â'r safle.
- 1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion a defnydd lluniadau a chynlluniau (cynllun cofnodi, cynllun distiau, cynllun llawr, lluniadau ystod, ystod cydrannau a gweddlluniau), manylebau, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg, hysbysiadau safle ac arwyddion diogelwch, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, cyfarwyddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig, rheoliadau adeiladu, ac yn gwybod sut maent yn cael eu rhoi ar waith.
- 1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n codi o wybodaeth amhriodol – gan gynnwys camglywed cyfarwyddiadau, gwybodaeth anghywir, camddehongli datganiad dull, rhoi gwybodaeth anghywir. Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n deillio o adnoddau a pheryglon posibl, gan gynnwys deunyddiau anaddas, tywydd garw ac amgylchiadau sy'n newid.
- 1.4 Bydd dysgwyr yn gwybod sut i gadw dogfennau, gan gynnwys: cardiau gwaith, taflenni gwaith, rhestrau deunyddiau/adnoddau a thafleuni amser.

Deilliant 2

- 2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am egwyddorion y darnau canlynol o ddeddfwriaeth, beth yw diben pob deddfwriaeth, sut mae'n cael ei defnyddio mewn diwydiant a chanlyniadau diffyg cydymffurfio: Rheoliadau adeiladu; rheoliadau Gweithio ar Uchder (WAH); Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (HASAWA); PUWER; ACOPs; RIDDOR; CDM; COSHH; PPE; LOLER; MEWP; rheoliadau Codi a Chario; rheoliadau Sŵn yn y Gwaith.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw diben pob deddfwriaeth, sut mae'n cael ei defnyddio mewn diwydiant a chanlyniadau peidio â chydymffurfio. Bydd dysgwyr yn deall rolau awdurdodau lleol o ran cynllunio a Rheoli Adeiladu a chyda strwythurau treftadaeth gan gynnwys ymgynghori â Cadw.

- 2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae ymateb i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol wrth ddelio â thanau, gollyngiadau, anafiadau ac

argyfyngau.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o ddiffoddwyr tân a sut a phryd y cânt eu defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o dân. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu rôl a'u cyfrifoldeb o ran gwagio safle, atal (dŵr, CO2, ewyn, powdr), y triogl tân a phwyntiau ymgynnull.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o hylifau sy'n gallu colli, sut mae eu hatal a sut mae eu nadu rhag gollwng. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer pecynnau gollwng, arwyddion a sut mae cau yr ardal.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o anafiadau a chyfrifoldebau cyffredin gan gynnwys swyddog cymorth cyntaf, offer cymorth cyntaf ac adrodd am ddamweiniau ar gyfer argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol, gan gynnwys atal, gweithdrefnau brys, gwasanaethau brys, gweithdrefnau adrodd, mynediad ac allanfeydd ar gyfer cerbydau argyfwng.

2.3 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, gan gynnwys:

- safle – gan gynnwys ffensys dros dro, swyddogion diogelwch, gwyliadwriaeth
- gweithle - gan gynnwys agor a chloi
- cwmni - gan gynnwys llofnodi i mewn, gweithdrefnau awdurdodi ID
- y gweithiwr - gan gynnwys diogelwch offer, deunyddiau, cyfarpar a cherbydau, eiddo personol.

Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau diogelwch mewn annedd ddomestig o'u cymharu ag ar y safle.

2.4 Bydd dysgwyr yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni damweiniau ac yn gallu adnabod swyddog cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr hefyd yn deall y gyfraith sy'n ymwneud â nifer y bobl y mae angen eu hyfforddi'n briodol ar gyfer cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr yn deall y rolau a'r cyfrifoldebau mewn gwahanol safleoedd, gan gynnwys mewn cartref domestig, gan gynnwys sut mae cymryd cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles. Bydd dysgwyr yn deall sut mae adrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gweithio a RIDDOR yn achos digwyddiadau perthnasol. Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ddefnyddio'r llyfr cofnodi ar gyfer mân ddamweiniau a sut i gofnodi damweiniau fu bron â digwydd, gan gynnwys y gweithdrefnau adolygu ac ail-werthuso sydd ar waith.

2.5 Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ddewis, defnyddio a chynnal a chadw cyfarpar diogelu personol yn gywir, RPE, LEV, gan gynnwys gwybodaeth am sbectol diogelwch, goggles, het galed, siaced lachar, amddiffynwyr clustiau, esgidiau diogelwch, masgiau llwch (gan gynnwys profi masg i ffitio'r wyneb), harneisiau diogelwch, menyg diogelwch, sachau atal cwmpo, matiau cwmpo, rheilen sgaffaldiau a rhwydi, lloriau ffug, hyfforddiant ar gyfer gwn hoelion y gosod cyntaf; hyfforddiant gwn hoelion yr ail osod.

2.6 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol, gan

gynnwys: cynllun rheoli gwastraff safle (SWMP); ailgylchu; aildddefnyddio; gwastraff ar wahân.

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae diogelu gwaith rhag difrod, o weithgareddau gwaith cyffredinol, galwedigaethau eraill, amodau tywydd, gorchudd dros dro, newid trefn gwaith i ddiogelu gwaith yn well, gofal a sylw i fanylion wrth osod, amddiffynwyr deunyddiau.

Bydd dysgwyr yn gwybod bod deunyddiau'n cael eu storio'n gywir cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith, gan gynnwys stacio, racio, llwytho a thrin.

3.2 Bydd dysgwyr yn gwybod pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel ac yn gyfrifol, gan ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol yn unol â chyfrifoldebau amgylcheddol.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol ddulliau gwaredu gan gynnwys sgiplau dynodedig, ailgylchu, didoli gwastraff, man casglu gwastraff lleol, biodanwydd.

Deilliant 4

4.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gweithgareddau gwaith, deunyddiau a llafur yn cael eu dyrannu i fodloni'r amserlen ofynnol o fewn y rhaglen, a pham y dylid cadw at derfynau amser.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o dargedau cynhyrchiant ac amserlenni, sut mae amseroedd yn cael eu hamcangyfrif a'r amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith, gan gynnwys y tywydd, faint o lafur sydd ar gael, effaith ganlyniadol trin a storio gwael gan achosi difrod i ddeunyddiau, cymal cosb, ffioedd cadw, rhaglen waith (ffurfiol ac anffurfiol), enw da a'r goblygiadau ar grefftiau eraill.

Uned 219: Codi waliau pren a gosod lloriau pren

| | |
|-----------------------------------|-----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 182 |
|-----------------------------------|-----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â gosod waliau a lloriau pren.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng pared sy'n cynnal llwythi a phared stydiau arferol?
- Beth mae aerdyn yn ei olygu?
- Pa ddeunyddiau ydyn ni'n eu defnyddio mewn adeiladu ffrâm bren?
- Beth yw gwerth-U?
- Sut ydw i'n cynllunio dilyniant o weithrediadau i godi waliau a lloriau pren?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn deall yr amrywiaeth o adnoddau sy'n cael eu defnyddio i osod walïau a llorïau pren, gan gynnwys cydrannau strwythurol ac anstrwythurol, cydrannau sy'n cynnal pwysau a chydannau nad ydynt yn cynnal pwysau a mathau o bren.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw pwrpas a'r gwahaniaeth rhwng deunyddiau (gan gynnwys pren solet, byrddau, pilenni), cydrannau (gan gynnwys styd C, trawst I, distïau gwe) a chydodiadau (gan gynnwys panel caeedig, panel strwythurol wedi'i inswleiddio (SIP), panel agored, cyplau Larsen).

Bydd dysgwyr yn deall nodweddion a chyfyngiadau gwahanol ddeunyddiau, gan gynnwys: deunyddiau pren, mathau o ddeunyddiau dalennog (plei, OSB), byrddau, paneli walïau, sbandrel a llorïau, colofnau pren a metel a thrawstïau, cyrsïau atal lleithder, pilenni atal lleithder, pilenni anadladwy, ffitiadau papur adeiladu, atalfeydd tân, rhwystrau ceudod,

rhwystrau lleithder ac anwedd (athraidd ac anathraidd), cadwolion, glud (gan gynnwys PVA a D4 sy'n ehangu/PU), deunydd llenwi, hoelion a gosodion, a sgriwiau, deunydd insiwleiddio acwstig a gwres ac eitemau cysylltiedig.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o ddiffygion a geir mewn cynhyrchion pren, gan gynnwys diffygion naturiol, cadw a sychu, a'u heffaith ar bren strwythurol.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae modd defnyddio cynaliadwyedd mewn gwaith adeiladu ffrâm bren a manteision defnyddio deunyddiau cynaliadwy. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw manteision defnyddio deunyddiau lleol, nodweddion deunyddiau gwell (arbed ynni), ôl troed carbon is (i gynnwys carbon corfforedig), a sut maen nhw'n ymwneud â gwarchod yr amgylchedd naturiol, rheoli gwastraff, atal colli ynni ac gwerth U.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd dylunio ar gyfer gweithgynhyrchu gan gynnwys dylunio goddefol oddi ar y safle, a dulliau modern o adeiladu â phren; y cysyniad o egwyddorion cyntaf ffabrig a pherfformiad adeiladu o ran perfformiad thermol (gan gynnwys aerglosrwydd, gwerthoedd U, a phontio oer), yn ogystal â modelu o gymharu â chynlluniau *as-built*.

Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor bwysig yw rheoli ansawdd, sicrhau ansawdd, ardystio a gwarantau o ran lleihau'r bwlch perfformiad; rôl gwahanol ddeunyddiau, cydrannau, a gwasanaethau; diogelwch tân mewn adeiladu ar y safle ac oddi ar y safle; pwysigrwydd rheoli lleithder a lleihau gwastraff.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw pwrpas yr amrywiaeth o adnoddau yn 1.1, eu swyddogaeth, eu defnydd a'r dulliau o'u gosod mewn amgylchiadau gwahanol.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau sy'n ymwneud ag adnoddau (siartiau hierarchaeth, strwythur y cwmni, rôl y pensaer, telerau'r contract, newidiadau i'r fanyleb, gorchmynion amrywio a chyfarwyddiadau'r pensaer).

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y broses o ddewis deunyddiau gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth dechnegol ac yn deall pwysigrwydd gweithio i luniadau, manylebau, amserlenni, gwybodaeth ddigidol a modelu 3D a'r rhyngweithio rhwng dogfennau.

Bydd dysgwyr yn deall manteision cynllunio dilyniant deunyddiau a gofynion llafur, defnyddio biliau meintiau, rhaglenni gwaith, systemau stoc, amseroedd arwain rheoli stoc, amserlenni, siartiau Gantt a siartiau bar.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall y peryglon sy'n bresennol mewn gwaith adeiladu ffrâm bren gan gynnwys dulliau atal ac yn gwybod beth yw pwrpas a sut mae dilyn asesiadau risg a datganiadau dull i gyflawni'r gwaith mewn ffordd ddiogel.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y prif fathau o beryglon a risgiau sy'n gysylltiedig â gosod fframiau pren, gan gynnwys teithiau, disgyn o uchder, dod i gysylltiad â sylweddau peryglus a'r rheini sy'n gysylltiedig ag offer a cherbydau, codi, mecanyddol a chodi a chario.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae modd creu peryglon drwy newid amgylchiadau yn ystod y broses adeiladu, gan gynnwys datblygiadau safle adeiladu a gwaith parhaus, peiriannau a cherbydau, a chyfnodau o dywydd eithafol.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd defnyddio'r sgiliau priodol (marcio, mesur, gosod allan) mewn dulliau adeiladu wedi'u fframio.

Bydd dysgwyr yn deall y broses o godi i gynnwys platiau sylfaen, cyrsiau atal lleithder, pilenni atal lleithder, waliau a phaneli llawr (strwythurol ac anstrwythurol, gan gynnwys SIPs), colofnau strwythurol a thrawstiau distiau rhydd, rhwystrau ceudod, pilenni anadladwy a haenau rheoli anwedd, deunydd inswleiddio lloriau ar gyfer gwneud paneli caeedig ac agored ar y safle ac oddi ar y safle (adeiladu darn wrth ddarn, balwn) (wedi'i wneud ymlaen llaw).

Bydd dysgwyr yn deall y gwahaniaeth rhwng adeiladu darn wrth ddarn a dulliau adeiladu parod.

Platiau sylfaen

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis a gosod platiau sylfaen gan gynnwys maint yr adran a'r math o ddeunydd, cyrsiau DPC, gosodiadau amgen (gan gynnwys hoelion balistig/gwaith cerrig, sgriwiau, gosodiadau morthwyl a bracedi) y maint a'r safle cywir. Gosod gyda'r lein, lefelu a chywiro unrhyw wyriad yn unol â'r gofynion gwaith a'r goddefiannau.

Bydd dysgwyr yn deall y mathau a'r cyfyngiadau o gyda golwg ar ffitio ar y ar slab, ail blât sylfaen, pacio heb fod yn gywasgu, a lapio.

Waliau a lloriau ffrâm bren (strwythurol ac anstrwythurol)

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis, defnyddio a gosod amrywiaeth o baneli waliau pren gan gynnwys paneli allanol a mewnol, paneli parod a phaneli parod o baneli caeedig ac agored. Bydd dysgwyr yn gwybod am y drefn o ran gosod fframiau pren h.y. safle cychwyn, ategion dros dro, lefelu, plymio, manyleb gosod, rhwymyddion pen a lapio.

Distiau llawr a gorchuddion

Bydd dysgwyr yn gwybod am amrywiaeth o ddistiau llawr sy'n cynnwys pren rhydd, gwe fetel, trawstiau I, trawstiau wedi'u lamineiddio, thrawstiau glulam.

Bydd dysgwyr yn gwybod am amrywiaeth o orchuddion distiau a lloriau crog, gan gynnwys: OSB, rhwystrau lleithder ac anwedd (hydraidd ac anhydraidd), T&G, *chipboard*, plei.

Bydd dysgwyr yn deall y dulliau priodol o osod gorchuddion distiau yn unol â'r fanyleb a roddir, gan gynnwys defnyddio ategolion, tapiau a deunyddiau selio priodol.

Codi paneli ffrâm agored a chaeedig ar y safle

Bydd dysgwyr yn deall lleoliad a chyfeiriad cywir paneli: cryfhad dros dro, lefelu, cysylltu paneli, codi/hoelio, rhwymo, gosod a sicrhau, defnyddio bandiau, gosod pilenni anadlol a phroses atgyweirio, dilyn codau rhifo, lluniadau ac amserlenni.

Cynhyrchu paneli wal a lloriau caset oddi ar y safle

Bydd dysgwyr yn gwybod am y prosesau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu paneli wal caeedig ac agored, systemau casetiau llawr gan ddefnyddio jigiau, dilyn cynlluniau a lluniadau, gan gynnwys:

- pren solet, cyplau Larsen, trawst I, gwe metel
- byrddau gorchuddio mewnol ac allanol
- deunydd inswleiddio (gan gynnwys gwlan mwynol, cynhyrchion sy'n seiliedig ar ewyn, cellwlos wedi'i chwistrellu ag aer, ffibr pren wedi'i chwistrellu ag aer, ffibr pren hyblyg, a ffibr pren anhyblyg)
- pilenni a phapurau anadlol
- mynediad at wasanaethau.

Cynnwys colofnau a thrawstiau strwythurol

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gosod amrywiaeth o golofnau a thrawstiau strwythurol, gan gynnwys dur, concriid, trawstiau glulam pren a phren wedi'i beiriannu ar gyfer dal pwysau.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y dulliau priodol o osod gwasanaethau mewn adeilad ffrâm bren, gan gynnwys pibelli nwy, dŵr a gwastraff, ceblau trydan, telegyfathrebu.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cyweirio, cynnal a chadw a storio offer llaw a phŵer yn ddiogel, gwirio, cynnal a chadw, storio cyfarpar sydd ei angen i osod waliau a lloriau, a chofnodi unrhyw ddiffygion.

Offer a chyfarpar i gynnwys morthwylion llifiau, cŷn, sgriwddreiers, driliau trydanol, driliau di-wifr, bitiau dril, gwn hoelion, offer pŵer batri, sgwâr.

Offer mesur, lefelu a recordio: tâp mesur, lefel laser, lefel, lein blwm, lein, lefelau dŵr, *dumpy level*, theiodolit a *total station*.

Deiliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau mesur, marcio, ffitio, alinio, lleoli a sicrhau

3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw a phŵer a chyfarpar ategol i godi a/neu osod y canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir:

- platiau sylfaen
- waliau a lloriau ffrâm bren (strwythurol ac anstrwythurol)
- colofnau a thrawstiau strwythurol corfforedig

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deiliant 3

3.1 a 3.2

Bydd dysgwyr yn gallu dewis a gosod amrywiaeth o ddistiau, gan gynnwys pren rhydd, gwe metel, trawst.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis a gosod amrywiaeth o orchuddion distiau bwrdd a lloriau crog wedi'u gweithgynhyrchu, gan gynnwys byrddau gorchuddio OSB, rhwystrau lleithder ac anwedd (hydraidd ac anhydraidd), T&G, *chipboard*, plei, ac agoriadau i wasanaethau o dan y lloriau.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis a gosod platiau sylfaen yn cynnwys maint yr adran a'r math o ddeunydd, cyrsiau DPC, gosod at y lein, lefelu a newid unrhyw wyriadau yn eu lleoliad.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, defnyddio a gosod amrywiaeth o baneli waliau pren, gan gynnwys paneli sbandrel, allanol a mewnol, ar waliau glynu ar y safle, paneli parod gan gynnwys SIPs, paneli caeedig ac agored.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis a defnyddio'r dulliau priodol o osod gwasanaethau mewn waliau pared.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, gosod, defnyddio a chynnal a chadw'r gwahanol fathau o offer llaw, offer pŵer a chyfarpar cysylltiedig

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, trin, stacio a storio adnoddau'n ddiogel gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Uned 220: Gosod strwythurau to pren

| | |
|-----------------------------------|-----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 146 |
|-----------------------------------|-----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â gosod strwythurau to pren.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Beth mae graddio straen yn ei olygu?
- Beth yw llwyth byw?
- Sut ydw i'n gwybod pa fath o gyplau i'w ddefnyddio?
- Sut alla i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio mewn llefydd uchel?
- Pam mae'n rhaid cynnwys coed i gryfhau toeau?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Canlyniad 4

1.1 Bydd dysgwyr yn deall nodweddion a chyfyngiadau'r deunyddiau a ddefnyddir mewn cydrannau to strwythurol ac anstrwythurol, llwythi a chydannau nad ydynt yn cario llwyth, UPVC, mathau o bren (coed caled, pren meddal), graddio, cynaliadwyedd, a diffygion pren.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae modd defnyddio cynaliadwyedd wrth adeiladu to a manteision defnyddio deunyddiau cynaliadwy. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw manteision defnyddio deunyddiau lleol, nodweddion deunyddiau gwell (arbed ynni), ôl troed carbon is (i gynnwys carbon corfforedig), a sut maen nhw'n ymwneud â gwarchod yr amgylchedd naturiol, rheoli gwastraff, atal colli ynni a gwerth U.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y ddeddfwriaeth gyfredol sy'n berthnasol i ddefnyddio strwythurau to pren.

Bydd dysgwyr yn deall y mathau o lwyth, marw, byw a deinamig h.y. gwynt.

Bydd dysgwyr yn deall y gwahaniaeth sylfaenol rhwng cyplau parod a thoeau traddodiadol.

To cyplau

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o doeon cyplau, gan gynnwys ffinc, ffan, brenhinbost, brenhinesbost, attig, girder, a mono.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gwahanol gydrannau sydd eu hangen i godi to cyplau (ceibr cypledig ymyl fain, cafnau, cyplau sy'n mynd yn llai, talcen, ysgol, walblat, bondo, ymyl, strapiau, walblat ac atalyddion, cryfder, ochrol, croes a chevron, clip cwpl, cryfder dros dro).

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o fondo (agored, caeedig, llac a danheddog) a'r deunyddiau a defnyddir (coed caled, pren meddal ac UPVC).

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o ymylon (systemau caeedig, lachar, plastig a sych).

To fflat a thoeau talcen traddodiadol

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o adeiladau to sydd wedi'u torri'n draddodiadol (sengl, dwbl, talcen, gwyro, cwpl, cwpl agos, colerog a fflat).

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol gydrannau sy'n cael eu defnyddio i adeiladu toeau fflat a thalcendo traddodiadol:

- talcendo: walblat, bord crib, ceibrau cyffredin, trawstiau, pennau danheddog, ceibrennau nenfwd, coleri, rhwymau, ysgol dalcen, bondoeau, ymylon, ffasgiâu, estyll tywydd, soffitiau, bracedi soffitiau, strapiau, cryfhad ochrol a chroeslinol.
- toeau gwastad: walblat, ceibrennau nenfwd, ategion, rhimynnau a stribedi, ffasgiâu, soffitiau, decin oer a chynnes, deunyddiau decin.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd dylunio ar gyfer gweithgynhyrchu, adeiladu oddi ar y safle, a dulliau modern o adeiladu pren; y cysyniad o egwyddorion cyntaf ffabrig a pherfformiad adeiladu o ran perfformiad acwstig a thermol (gan gynnwys trosglwyddo sain, aerglosrwydd, awyru, llif aer, gwerth U, a phontio oer).

Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor bwysig yw rheoli ansawdd, sicrhau ansawdd, ardystio a gwarantau o ran lleihau'r bwlch perfformiad; rôl gwahanol ddeunyddiau, cydrannau a gwasanaethau; diogelwch tân mewn adeiladu ar y safle ac oddi ar y safle; pwysigrwydd rheoli lleithder; a lleihau gwastraff.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r drefn ar gyfer gosod cyplau a thoeau traddodiadol:

To cyplau

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gosod cyplau ac yn deall pwysigrwydd cryfder ochrol, cryfder croeslinol, cryfder onglog, atalfeydd ochrol, walblat ysgolion talcen, strapiau (walblat ac ochrol) a chlipiau cyplau.

To traddodiadol

Bydd dysgwyr yn deall y dulliau ar gyfer pennu hyd a thoriadau mewn ceibrennau cyffredin, gan gynnwys torri'n blwm, torri sedd a'r drydedd linell/goleddf, a phwysigrwydd walblat, bord crib, tulathau, ysgolion talcen, cryfhad, a strapiau (walblat ac ochrol).

Bondoeau a gorffeniadau ymylon

Bydd dysgwyr yn gwybod am y dulliau o ffurfio bondoeau caeedig, agored, danheddog a fflysh, gan gynnwys bracedi soffiti, soffitiau, ffilded ar ogwydd, ffasgiâu, estyll, systemau awyru masnachol, gorffeniadau ymylon sych, plastig a systemau sment.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gofynion o ran cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gyfer gosod strwythurau to, gan gynnwys harneisiau.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mesurau diogelu ar y cyd, y cyfarpar diogelu personol a'r cyfarpar diogelu anadlol.

Bydd dysgwyr yn gwybod pa offer mynediad sydd ei angen ar gyfer y gwaith a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau sy'n ymwneud ag adnoddau (siartiau hierarchaeth, strwythurau cwmni, rôl pensaer, telerau contractau, a newidiadau i fanylebau, gorchmynion amrywio a chyfarwyddiadau pensaer).

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y broses o ddewis deunyddiau gan ddefnyddio ffnonellau gwybodaeth dechnegol ac yn deall pwysigrwydd gweithio i luniadau, manylebau, amserlenni, gwybodaeth ddigidol a modelu 3D a'r rhyngweithio rhwng dogfennau.

Bydd dysgwyr yn deall manteision cynllunio dilyniant deunyddiau a gofynion llafur, defnyddio Biliau meintiau, rhaglenni gwaith, systemau stoc, amseroedd arwain rheoli stoc, amserlenni, manylebau, siartiau Gantt, siartiau bar a dadansoddiadau llwybr critigol.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall y peryglon a'r risgiau sy'n bresennol wrth osod a chodi toeau ac yn gwybod beth yw pwrpas a sut mae dilyn asesiadau risg a datganiadau dull i gyflawni'r gwaith mewn ffordd ddiogel. Peryglon a risgiau i gynnwys syrthio o uchder, dod i gysylltiad â sylweddau peryglus, peiriannau a cherbydau, codi, mecanyddol a chodi a chario, anafiadau cyhyrol / sgerbwdd o arferion gweithio gwael.

Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r peryglon.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis yr offer diogelu personol cywir i gynnwys harneisiau, llinynnau, helmedau, esgidiau a siaced lachar a gofynion mesurau diogelu ar y cyd.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae modd creu peryglon drwy newid amgylchiadau yn y gweithle i gynnwys datblygiadau safle adeiladu a gwaith parhaus, peiriannau a cherbydau a chyfnodau o dywydd eithafol.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae deunyddiau'n cael eu defnyddio wrth adeiladu toeau pren ac yn deall pwysigrwydd defnyddio'r sgiliau a'r deunyddiau priodol. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis deunyddiau addas ar gyfer tasgau a'u defnydd ac yn deall y broses o adeiladu toeau pren.

Cyplau

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae mesur, marcio, ffitio, alinio, gorffen, gosod a sicrhau ceibrennau wrth doi.

Bydd dysgwyr yn deall goblygiadau, manteision ac anfanteision adeiladu strwythurau to ceibrennog ar lefel y ddaear.

To Traddodiadol

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae mesur, marcio, ffitio, alinio, gorffen, lleoli a sicrhau toeau traddodiadol, gan gynnwys sengl, dwbl, talcenni, to *lean to*, cwpl agos, colerog a fflat.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd gweithio ar luniadau, gofynion ac amserlenni a sut mae'r dogfennau'n rhyngweithio. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cael gwybodaeth o luniadau gwaith, amserlenni a manylebau ar gyfer lleoliad, maint a gosodiad.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cyweirio, cynnal a chadw a storio offer llaw a phŵer yn ddiogel, gan wirio, cynnal a chadw, storio a chofnodi unrhyw namau sydd wedi'u canfod gyda'r cyfarpar sydd ei angen i osod strwythurau to.

Offer a chyfarpar i gynnwys: llifiau, morthwylion, cŷn, sgrïwdreifau, driliau trydanol, driliau di-wifr, bitiau dril, offer pŵer batri, offer pŵer batri, tâp mesur, sgwâr, lefel, lein blwm a lein.

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau mesur, marcio, ffitio, alinio, gorffen, lleoli a sicrhau.

3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol i adeiladu, codi a/neu osod y strwythurau to canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir:

- toeon yn y fan a'r lle (trin â llaw)

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gallu marcio, ffitio, alinio, gorffen, lleoli a sicrhau to ceibr cycledig.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis a thrwsio'r gwahanol gydrannau sydd eu hangen i godi to cycledig, gan gynnwys ceibrennau, talcen, ysgol, walblat, ymylon, strap, walblat ac chryfder, ochrol, croeslinol, clip cwpwl a chryfhad dros dro.

Bydd dysgwyr yn gallu marcio, ffitio, alinio, gorffen, lleoli a sicrhau toeau traddodiadol, gan gynnwys to sengl, talcendo a tho fflat.

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu dewis, gosod, defnyddio a chynnal:

- cyfarpar mesur (pren mesur, tâp mesur, cyfarpar mesur digidol)
- llifiau (llif gyffredin a PPT i gynnwys llif gron ar stand, llif gron)
- sgwariau (gan gynnwys sgwâr toi, befel, a sgwâr 90 gradd)
- morthwyl saer, gwn hoelion
- lein, lein sialc, ystyllen syth
- lefelau (lefel optegol, laser, 600mm, 1000mm a 1800mm).

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, trin, stacio a storio adnoddau'n ddiogel gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Llwybr E: Peintio ac addurno

Uned 221: Gwybodaeth graidd am beintio ac addurno

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 50 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth gyffredinol sydd ei hangen ar gyfer y llwybr hwn.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth
- deall arferion gweithio diogel
- deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod
- deall gweithio i derfynau amser

Mae cynnwys yr uned hon wedi cael ei gyflwyno mewn ffordd generig gan ei fod yn gyson drwy lawer o'r unedau sgiliau yn y cymhwyster hwn. Dylid addysgu'r cynnwys, a bydd yn cael ei asesu'n gyffredinol ac yng nghyd-destun yr unedau sgiliau canlynol (lle bo hynny'n briodol);

- Paratoi arwynebau ar gyfer paentio/addurno
- Defnyddio brwsh a rholer i roi coten ar arwyneb
- Papuro waliau (safonol a sylfaenol)

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Pam mae ymgynefino â safleoedd yn bwysig?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cerdyn gwaith a thaflen amser?
- Pwy yw Cadw a beth maen nhw'n ei wneud?

Deilliant dysgu

1. Deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth

Meini Prawf

- 1.1 Gweithdrefnau'r sefydliad a ddatblygwyd i roi gwybod am wybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas a'u cywiro, a sut y cânt eu rhoi ar waith
- 1.2 Y mathau o wybodaeth, eu ffynhonnell a sut maen nhw'n cael eu dehongli
- 1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad i ddatrys problemau gyda'r wybodaeth a pham ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu dilyn
- 1.4 Pwysigrwydd cadw dogfennau

2. Deall arferion gwaith diogel

Meini Prawf

- 2.1 Lefel y ddealltwriaeth y mae'n rhaid i weithwyr ei chael o **wybodaeth** ar gyfer **deddfwriaeth berthnasol**, gyfredol a **chanllawiau swyddogol** a sut mae'n cael ei chymhwyso
- 2.2 Sut y dylid ymateb i **argyfyngau** a phwy ddylai ymateb
- 2.3 Gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar, deunyddiau ac eiddo personol
- 2.4 Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny
- 2.5 Pam, pryd a sut y dylid defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch
- 2.6 Sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol

3. Deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod

Meini Prawf

- 3.1 Sut mae diogelu gwaith rhag difrod a phwrrpas diogelu
- 3.2 Pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel a sut y gwneir hynny

4. Deall gweithio i derfynau amser

Meini Prawf

4.1 Sut mae gwaith yn cael ei wneud i fodloni'r rhaglen yn yr amser a drefnwyd a phwysigrwydd terfynau amser

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

- 1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o weithdrefnau sefydliadol a'u nodweddion a'r ffyrdd o'u defnyddio, gan gynnwys cyfleu problemau ar lafar, cadwyn awdurdod, sgysiau anffurfiol, ymgynefino â'r safle.
- 1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion lluniadau, gofynion, deddfwriaeth gyfredol, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, cyfarwyddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig, brasluniau, canllawiau swyddogol a rheoliadau cyfredol, gan gynnwys hysbysiadau safle ac arwyddion diogelwch, ac yn gwybod sut maent yn cael eu rhoi ar waith.
- 1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n codi o wybodaeth amhriodol – gan gynnwys camglywed cyfarwyddiadau, gwybodaeth anghywir, camddehongli datganiad dull, rhoi gwybodaeth anghywir. Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n codi gydag adnoddau gan gynnwys deunyddiau anaddas a thywydd garw
- 1.4** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cadw dogfennau, gan gynnwys: cardiau gwaith, taflenni gwaith, rhestrau deunyddiau/adnoddau a thafenni amser.

Deilliant 2

- 2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau o ran arferion gweithio diogel, peryglon i iechyd a'r amgylchedd wrth weithio; yn y gweithle, o dan lefel y tir, mewn lleoedd cyfyng, mewn llefydd uchel, gydag offer a chyfarpar, ynghyd â deunyddiau a sylweddau. Bydd dysgwyr yn deall sut mae'r rhain yn cael eu defnyddio mewn diwydiant.
- 2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae ymateb i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol wrth ddelio â thanau, gollyngiadau, anafiadau ac argyfyngau.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o ddiffoddwyr tân a sut a phryd y cânt eu defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o dân. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu rôl a'u cyfrifoldeb o ran gwagio ac atal.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o ollyngiadau a sut i'w hatal. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer pecynnau gollwng, arwyddion a sut i gau'r ardal.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o anafiadau a chyfrifoldebau cyffredin gan gynnwys swyddog cymorth cyntaf, pecyn cymorth cyntaf ac adrodd am ddamweiniau.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran delio ag argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol, gan gynnwys atal, gweithdrefnau brys, gwasanaethau brys, gweithdrefnau adrodd a gwagio'r adeilad.

2.3 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, gan gynnwys:

- safle – gan gynnwys ffensys dros dro, gwyliadwriaeth ar gyfer mynediad i'r safle
- gweithle - gan gynnwys agor a chloi
- gweithiwr - gan gynnwys diogelwch offer, deunyddiau, cyfarpar a cherbydau, eiddo personol

2.4 Bydd dysgwyr yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni damweiniau ac yn gallu adnabod swyddog cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr hefyd yn deall y gyfraith sy'n ymwneud â nifer y bobl y mae angen eu hyfforddi'n briodol ar gyfer cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr yn deall y rolau a'r cyfrifoldebau mewn gwahanol safleoedd, gan gynnwys mewn cartref domestig. Bydd dysgwyr yn deall sut mae adrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gweithio a RIDDOR yn achos digwyddiadau perthnasol. Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ddefnyddio'r llyfr cofnodi ar gyfer mân ddamweiniau a sut i gofnodi damweiniau fu bron â digwydd, gan gynnwys y gweithdrefnau adolygu ac ail-werthuso sydd ar waith.

2.5 Bydd y dysgwr yn gwybod pryd i ddewis a sut i ddefnyddio'r cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch cywir, gan gynnwys PPE, RPE a LEV. Bydd dysgwyr yn deall pam ei bod yn bwysig defnyddio offer rheoli iechyd a diogelwch.

2.6 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni deddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol, gan gynnwys; cynllun rheoli gwastraff safle (SWMP), ailgylchu, aildefnyddio, gwastraff ar wahân.

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae diogelu gwaith rhag difrod o weithgareddau gwaith cyffredinol ac o grefftau eraill a thywydd cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith. Bydd dysgwyr yn deall sut i ddiogelu arwynebau a manau o amgylch.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae storio deunyddiau'n gywir cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith.

3.2 Bydd dysgwyr yn gwybod pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel ac yn gyfrifol, gan ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol yn unol â chyfrifoldebau amgylcheddol.

Deilliant 4

4.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gweithgareddau gwaith, deunyddiau a llafur yn cael eu dyrannu i fodloni'r amserlen ofynnol o fewn y rhaglen a phwysigrwydd cadw at derfynau amser.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o dargedau cynhyrchiant ac amserlenni, sut mae amcangyfrif amseroedd, amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith e.e. y tywydd, argaeledd llafur a deunyddiau, effeithiau trin a storio gwael sy'n achosi difrod i ddeunyddiau.

Uned 222: Paratoi arwynebau ar gyfer peintio a/neu addurno

| | |
|-----------------------------------|-----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 100 |
|-----------------------------------|-----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â pharatoi arwynebau yn barod i dderbyn gorffeniadau amddiffynnol ac addurniadol mewn sefyllfaoedd diwydiannol a/neu anniwydiannol. Mae'n ymwneud â diogelu'r man gweithio, dehongli gwybodaeth, a mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol. Mae hefyd yn cynnwys dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Sut fyddwn i'n paratoi arwyneb ar gyfer peintio ac addurno?
- Gaf i dynnu coten heb achosi difrod i'r arwyneb?
- A oes gwahaniaeth o ran paratoi arwyneb i'w beintio ac arwyneb i'w bapuro?
- Beth yw'r gwahanol fathau o ddeunyddiau adeiladu/arwynebau?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn deall nodweddion ac addasrwydd adnoddau wrth eu dewis ar gyfer paratoi arwynebau ac is-haenau ar gyfer peintio, gan gynnwys:

Mathau o ddeunyddiau diogelu

- cynfasau cotwm
- dalennau plastig
- tarpolin
- bordiau diogelu
- papur masgio
- tâp masgio: tac isel, allanol a 7 diwrnod

mathau o ddeunyddiau glanhau ac offer glanhau sailm

- glanedydd
- *white spirit*
- meths

- sebon siwgr
- hylif glanhau saim masnachol

Mathau o ddeunyddiau a chyfarpar stripio paent a phapur wal

- deunyddiau i'w cynnwys: hylif stripio paent (toddyddion a dyfrsail)
- offer i gynnwys: gynnau aer poeth trydanol, gynnau LPG, stripio gyda stêm, is-goch

Mathau o breimar

- acrylig
- etch
- coed
- alwminiwm
- ffosffad sinc
- cyffredinol
- emylsiwn tenau

Mathau o selwyr

- PVA
- hylif sefydlogi
- *shellac knotting (white knotting)*
- maint

Mathau o atebion cyn trin

- bloc staenio
- toddiant mordant
- Ffyngleiddiad

Mathau o ddeunyddiau llenwi

- powdr
- wedi'i gymysgu'n barod
- calc addurnwyr
- ysgafn
- arwyneb mân
- pac o ddau

Mathau o ddeunydd sgrafello

- alwminiwm ocsid
- silicon carbid
- papur gwydr
- gwllân weiren
- padiau sandio

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae asesu ansawdd adnoddau a nodi diffygion cyffredin, gan gynnwys:

- deunyddiau amddiffynnol wedi rhwygo
- halogi cynhyrchion
- oes silff cynnyrch
- effeithiau amodau atmosfferig amhriodol
- camgymryd wrth wanio hylifau

Bydd dysgwyr yn deall sut mae cywiro deunyddiau diffygiol gan sicrhau eu bod yn cael eu tynnu, a'u rhoi i'r naill ochr a'u newid.

1.2 Bydd dysgwyr yn deall sut a phryd i ddewis y math priodol o adnoddau ar gyfer paratoi is-haenau gwahanol a chywiro diffygion cysylltiedig:

- pren: pren meddal a phren caled, deunyddiau dalen pren, gan gynnwys ceinciau, graen terfynol, uniadau agored, a dadlamineiddio
- metel: fferrus ac anfferrus gan gynnwys rhwd a chrydu
- plastr a phlastr mewnol gan gynnwys tyllau pin, craciau, tolciau, tyllau hoelion, tâp heb weithio, breuo
- rendro allanol gan gynnwys llwydni ac algâu
- gwaith brics a blociau gan gynnwys ewlychiad, morter brau
- arwynebau smentaidd gan gynnwys cyfryngau gollwng
- halogiad gan gynnwys saim/olew, silicôn, nicotin, tar, mwg, llygredd
- diffygion gorchuddio arwyneb gan gynnwys gollwng gafael, ôl pytiog, gwaedu, pothelli, plicio

Bydd dysgwyr yn gwybod sut a phryd i roi gwybod am unrhyw broblemau sy'n achosi problemau gydag is-haenau a deunyddiau paratoi.

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y broses o ddewis deunyddiau gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth technegol gan gynnwys lluniadu, gofynion, amserlenni a gwybodaeth y gwneuthurwr i sicrhau ansawdd cyn ac wrth baratoi arwynebau ar gyfer peintio a/neu addurno.

1.4 Bydd dysgwyr yn gwybod am beryglon sy'n gysylltiedig â dulliau gweithio. Byddant yn dilyn asesiadau risg a datganiadau dull i nodi cyfarpar diogelu personol cywir ac yn gwneud y gwaith yn ddiogel ac yn fedrus yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y peryglon sy'n gysylltiedig ag adnoddau, gan gynnwys

- llwch wedi'i gynhyrchu drwy sgrafellu a glanhau
- rhyddhau plwm wrth sgrafellu
- sborau llwydni
- baw adar
- llosgiadau o gemegion, toddyddion, gwres, a stêm

Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros roi gwybod i'r lefel briodol o awdurdod am ddamweiniau, peryglon a damweiniau fu bron â digwydd yn y gweithle.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu cyfrifoldeb dros ddilyn manylebau a datganiadau dull yn gywir ar gyfer cwblhau tasgau gwaith penodol i'r safon ofynnol ac o fewn amserlenni a bennir gan raglenni gwaith sydd wedi'u cynllunio. Byddant yn deall effeithiau peidio â chwrdd â therfynau amser sydd wedi'u cynllunio a'r effeithiau dilynol y mae'n eu cael ar grefftai eraill a rhaglenni gwaith sydd wedi'u cynllunio.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw pwrpas y prosesau canlynol ac yn deall canlyniadau peidio â dilyn y rhain yn y drefn gywir ac i'r safon ofynnol:

- golchi
- stripio
- crafu
- sgraffinio
- garwhau
- cymysgu
- llenwi
- lefelu a gwastatáu
- tynnu llwch / brwsio i lawr

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am broblem.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio gwahanol fathau o offer llaw, offer pŵer a chyfarpar cysylltiedig yn gywir, gan gynnwys:

- offer llaw: sgrafell, cyllell bwti, cyllell llenwi, bachyn naddu, pwnsh hoelion, morthwyl, brwsys gwifrau (dur ac efydd), brwsh llenwi ceinciau, brwsh llwch, brwshys paent naturiol/synthetig, rholer ffabrig wedi'i wehyddu gyda blew byr
- offer pŵer: gwn aer poeth, stripio gyda stêm, peiriannau sandio
- cyfarpar cysylltiedig: bwrdd llenwi, bwced, sbwng, bloc rhwbio, pot paent/tun paent, hambwrdd rholio, masgiau llwch, gogls, menyg, cyfarpar mynediad

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal gwiriadau cyn dechrau ar offer llaw ac offer pŵer i sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio a'u pwrpas, gan gynnwys:

- offer trydanol: Prawf PAT, ceblau, plwg a thrawsnewidydd, swits ymlaen/diffodd, casin a lefel y dŵr
- Offer LPG: pibellau, clipiau, falfiau, sbardun, rheolydd
- min offer llaw: addasrwydd i'w defnyddio, yn rhydd o ddiffygion a difrod

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae glanhau, cynnal a chadw a storio offer a chyfarpar yn ystod ac ar ôl eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys:

- gweithdrefnau ar gyfer storio yn y tymor byr a'r tymor hir
- amodau ar gyfer storio cyfarpar i atal llwydni a dirywiad
- dulliau storio ar gyfer offer i sicrhau awyru a chadw siâp
- dulliau storio ar gyfer offer pŵer a chyfarpar i sicrhau diogelwch, atal tân/ffrwydro

Deilliant dysgu

3 Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau golchi, stripio a/neu grafu, sgrafellu a garwhau, cymysgu, llenwi, lefelu a/neu wastatáu a brwsio i lawr

3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw a phŵer a chyfarpar cysylltiedig i baratoi, preimio a selio arwynebau allanol a/neu fewnol ar gyfer sefyllfaoedd diwydiannol a/neu anniwydiannol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir ar gyfer y canlynol:

- swbstradau moel ac arwynebau sydd wedi'u peintio a/neu eu haddurno'n flaenorol mewn cyflwr da ac sy'n cynnwys diffygion ar yr arwyneb
- tynnu coten a/neu ddeunydd presennol lle bo angen

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gallu dangos sut mae golchi arwynebau nes cael gorffeniad. Bydd dysgwyr yn gallu dangos:

- tynnu'n cotiau a phapur wal diffygiol gan ddefnyddio prosesau stripio a chrafu.
- sgrafellu a garwhau arwynebau i'r radd ofynnol.
- cymysgu cyfansoddion llenwi i'r cysondeb cywir cyn eu rhoi ar arwynebau i gyrraedd gorffeniad lefel a/neu wastad.
- tynnu llwch wyneb yn llwyr drwy ei frwsio i lawr cyn paentio.
- mesur arwynebedd arwynebau a chyfrifo meintiau priodol o breimars, selwyr, atebion cyn-trin a deunyddiau llenwi, gan gynnwys caniatáu ar gyfer gwastraff.

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu nodi a dewis y math cywir o offer a chyfarpar i baratoi arwynebau ar gyfer peintio a/neu addurno yn unol â manylebau a datganiadau dull. Byddant yn gallu defnyddio a chynnal y gwahanol fathau o offer llaw, offer pŵer a chyfarpar cysylltiedig yn gywir, gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir, gan gynnwys:

- offer llaw: crafwr, cyllell bwti, cyllell llenwi, bachyn naddu, pwnsh hoelion, morthwyl, brwsys gwifrau (dur ac efydd), brwsh llenwi ceinciau, brwsh llwch, brwshys paent naturiol/synthetig, rholer ffabrig wedi'i wehyddu gyda blew byr
- offer pŵer: gwn aer poeth, stripio gyda stêm, peiriannau sandio
- cyfarpar cysylltiedig: bwrdd llenwi, bwced, sbwng, bloc rhwbio, pot paent / tun, hambwrdd rholeri, masgiau llwch, gogls, menyg, cyfarpar mynediad.

Bydd dysgwyr yn gallu asesu'r arwynebau sydd i'w trin a nodi diffygion a halogiad a fydd yn tynnu oddi wrth y gorffeniad terfynol ac yn dewis deunyddiau a phrosesau paratoi priodol.

Prosesau paratoi

- sgrafellu gwlyb a sgrafellu sych

- tynnu saim a golchi
- llenwi ceinciau
- preimio
- stopio a llenwi
- tynnu rhwd
- crafu
- gwlychu
- tynnu systemau paent a phapur wal

Deunyddiau

- amrywiaeth o ddeunydd sgrafello, hylifau sterileiddio/ffyngeiddiol, toddyddion (*white spirit*, meths), bloc staenio, preimar/seledyddion (gwrth-alcasai, alwminiwm, pren, acrylig, hylif sefydlogi), *shellac/white knotting*, llenwadau, sylwedd stopio

Bydd dysgwyr yn gallu paratoi, preimio a selio is-haenau newydd/noeth yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir, gan gynnwys:

- pren (pren meddal a deunydd dalennog)
- metel
- plastr/plastrfwrdd
- gwaith brics/ blociau.

Bydd dysgwyr yn gallu paratoi arwynebau sydd wedi'u peintio a'u haddurno'n flaenorol sydd mewn cyflwr da ac sy'n cynnwys diffygion ar yr arwyneb yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir. Diffygion i gynnwys:

- colli gafael
- gorffeniad darniog
- ôl rhedeg
- pantio
- past gweddillol
- olion brwsh
- tolcio.

Bydd dysgwyr yn gallu tynnu paent a phapur diffygiol presennol oddi ar arwynebau sydd wedi'u peintio a'u haddurno'n flaenorol ac yna ddefnyddio paent preimio, sylweddau cyntrin a deunyddiau llenwi yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir.

Uned 223: Cotio arwynebau drwy ddefnyddio brwshys a rholeri

| | |
|-----------------------------------|-----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 113 |
|-----------------------------------|-----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â defnyddio deunyddiau cotio dyfrsail a/neu olew drwy ddefnyddio brwsh a/neu roler mewn sefyllfaoedd diwydiannol a/neu anniwydiannol, diogelu'r man gweithio, dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Sut fyddwn i'n paratoi'r ardal waith?
- Sut fyddwn i'n dewis paent neu bapur ar gyfer arwyneb penodol?
- A fyddaf yn dysgu sut i ddefnyddio amrywiaeth o offer a thechnegau i ddefnyddio gwahanol fathau o gotiau?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng coten a phaent?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn deall priodweddau a nodweddion gwahanol fathau o gotiau, gan gynnwys:

- cyfansoddiad: teneuwr, rhwymwr/ffilm, pigment, ymestynwyr
- dulliau sychu: anweddu, ocsideiddio, polimeru, cyfuno

Bydd dysgwyr yn deall pa mor addas yw deunyddiau cotio wrth eu dewis i ddefnyddio deunyddiau cotio arwynebau gwahanol gyda brwshys a rholeri:

- dyfrsail yn cynnwys preimar/coten gyntaf, plisgyn wy, satin, emylsiwn glos (mat, meddal / canolig, sidan), farneisiau (mat, plisgyn wy, glos), paent gwaith maen
- paent olew: preimarau (aml-bwrpas, pren, metel, plastr), coten gyntaf plisgyn wy, satin, glos, farneisiau (mat, plisgyn wy, glos), thicsotropig

Bydd dysgwyr yn deall y gwahaniaeth rhwng cynnyrch ar gyfer y grefft a chynnyrch DIY.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae asesu ansawdd y cotiau a nodi diffygion cyffredin, gan gynnwys:

- cynhyrchion wedi eu halogi
- oes silff cynnyrch
- effeithiau amodau atmosfferig amhriodol
- camgymryd wrth wanio hylifau
- y cynnyrch anghywir wedi'i gyflenwi.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae cywiro deunyddiau diffygiol gan sicrhau bod deunyddiau halogedig yn cael eu tynnu o'r gweithle a bod cyflenwyr yn cael gwybod.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw pwrpas gwahanol fathau o baent:

- addurno
- er mwyn gallu adnabod rhywbeth
- gwarchod
- glanweithdra

Bydd dysgwyr yn deall swyddogaeth pob coten ar gyfer pob system baent:

- preimar
- ar unwaith
- gorffeniad

Bydd dysgwyr yn gwybod sut a phryd i roi gwybod am unrhyw broblemau wrth ddefnyddio deunyddiau cotio. Bydd dysgwyr yn gallu cael gwared â chynnyrch a chynwysyddion wedi'u defnyddio'n gywir heb ddifrodi'r amgylchedd a chan ystyried pwysigrwydd ailgylchu.

1.3 Bydd dysgwyr yn deall y broses ar gyfer dewis deunyddiau dehongli ffynonellau gwybodaeth dechnegol gan gynnwys lluniadu, gofynion, amserlenni a gwybodaeth gweithgynhyrchwyr i sicrhau ansawdd cyn ac yn ystod y gwaith paratoi, cymysgu a defnyddio er mwyn bodloni'r safon ofynnol yn y diwydiant.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall y peryglon sy'n gysylltiedig â'r amserlen waith a'r deunyddiau a'r rheini sy'n gysylltiedig â'r broses. Byddant yn deall sut mae dilyn asesiadau risg a datganiadau dull i nodi cyfarpar diogelu personol cywir a chyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn fedrus yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Bydd dysgwyr yn gwybod am beryglon sy'n gysylltiedig â chotiau, gan gynnwys:

- toddyddion: anadlu mygdarth, dermatitis
- gollyngiadau a sblasiau: llithro, cyffwrdd â'r croen
- manau cyfyng: awyru gwael, gweithio ar eich pen eich hun
- gweithio mewn llefydd uchel
- anafiadau cyhyrsgerbydol; codi ac anafiadau straen ailadroddus.

Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros roi gwybod am ddamweiniau, peryglon a damweiniau fu bron â digwydd yn y gweithle i'r lefel gywir o awdurdod wrth roi deunyddiau cotio ar arwynebau

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros gwblhau tasgau gwaith penodol yn unol â'r safon ofynnol a'r amserlenni a bennir gan raglenni gwaith sydd wedi'u cynllunio.

Byddant yn deall yr angen i wahanol grefftau gweithio gyda'i gilydd, gan ystyried:

- cyfyngiadau mynediad
- effeithiau mygdarth o baent
- effeithiau llygredd sŵn a gronynnau a gynhyrchir gan waith crefftau eraill.

Byddant yn deall effeithiau peidio â chwrdd â therfynau amser sydd wedi'u cynllunio a'r effeithiau dilynol y mae'n eu cael ar grefftau eraill a rhaglenni gwaith sydd wedi'u cynllunio.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am broblem.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw pwrpas y prosesau canlynol ac yn deall canlyniadau peidio â dilyn y rhain yn y drefn gywir a'r safon ofynnol:

- cymysgu
- tywallt
- gwanio
- llwytho
- gosod
- tynnu
- paentio conglau ac ymylon

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio'r offer a'r cyfarpar canlynol

Offer:

- rholeri gyda llewys synthetig, defnydd wedi ei wehyddu, mohair, gwlan, blew byr/canolig/hir,
- brwsys: blew naturiol, ffilament synthetig

Offer ar gyfer

- rholeri: pwced rholio, hambyrddau, polion ymestyn
- brwsys: tuniau/potiau

Byddant yn gwybod sut i lanhau, cynnal a chadw a storio offer a chyfarpar yn ystod ac ar ôl eu defnyddio, gan gynnwys:

- defnyddio deunyddiau glanhau: dŵr, *white spirit*, meths

- gweithdrefnau ar gyfer storio yn y tymor byr: bagio, mewn dŵr, cadw brwsh
- amodau ar gyfer storio yn y tymor hir er mwyn atal llwydni, dirywiad a sicrhau cadw siâp

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau gwaith cymharu, cymysgu, tywallt, gwanhau, llwytho, rhoi, tynnu, dechrau paentio conglau ac ymylon

3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw a phŵer a chyfarpar cysylltiedig i ddefnyddio deunyddiau cotio dyfrsail ac olew ar arwynebau mewnol a/neu allanol ar gyfer sefyllfaoedd diwydiannol a/neu anniwydiannol, yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir ar gyfer trimiau, waliau llydan, a gwaith strwythurol a phensaernïol drwy ddefnyddio brwsh a/neu roler

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gallu dangos y sgiliau canlynol wrth roi paent ar arwynebau gwahanol:

- cyfatebu â'r fanyleb neu gynhyrchu samplau lliw
- cymysgu i sicrhau bod y cynhwysion yn cael eu dosbarthu'n gyfartal a'u bod yn cynhyrchu lliw
- hidlo/chwiliad i gael gwared ar halogiad
- tywallt i'r cynhwysydd priodol (tun, hambwrdd pot)
- gwanhau i gywiro cysondeb a gludiogrwydd
- llwytho rholer a brwshys yn gywir
- rhoi a thaenu paent
- tynnu paent er mwyn cael gwared â diffygion posibl
- dechrau paentio yn gywir i arwynebau cyfagos neu linellau wedi'u taro / marcio.

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu adnabod, dewis, defnyddio a chynnal a chadw'r cyfarpar canlynol yn ddiogel, gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir:

Offer:

- rholeri gyda llewys synthetig gyda defnydd wedi ei wehyddu, blew byr/canolig/hir
- brwsys: blew naturiol, ffilament synthetig

Offer:

- rholeri: bwced rholio, hambyrddau, polion ymestyn
- brwsys: tuniau/potiau
- manion eraill: brwsh llwch, peth agor tuniau paent, ffon gymysgu, cylllell daenu, hidlydd

Bydd dysgwyr yn gallu cyfrifo faint sydd eu hangen, gan gynnwys faint o ddeunyddiau sy'n cael eu gwastraffu sy'n gysylltiedig â'r dulliau a'r gweithdrefnau.

Bydd dysgwyr yn gallu:

- nodi a dilyn cyfarwyddiadau gweithio o ran gofynion, amserlenni, datganiadau dull, cyfarwyddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- sefydlu gofynion mynediad
- gwirio addasrwydd arwynebau i dderbyn cotiau wyneb.

Byddant yn gallu defnyddio paent dyfrsail a phaent olew i baentio'r canlynol:

- nenfydau, waliau a lloriau
- sgertins, architrafau
- ffenestri, drysau panelog a drysau sy'n llyfn.

Byddant yn gallu gosod deunyddiau cotio drwy ddefnyddio brwsh a rholiwr gan ddilyn y drefn gywir er mwyn osgoi'r diffygion canlynol yn y rhaglen:

- rhedeg
- pantiau
- colli gafael
- rhwygiadau
- ôl croen oren
- rhannau wedi eu methu
- ymylon tew
- gormod o ôl brwsh
- gormod o fân ddarnau
- marciau sgidio, marciau ymyl rholer
- paent ar arwynebau cyfagos.

Uned 224: Papuro waliau (papurau safonol a phapurau sylfaen)

| | |
|-----------------------------------|-----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 115 |
|-----------------------------------|-----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â gosod papurau sylfaen (croes), papurau gorffen wedi'u gwadu a phapurau gorffen patrymog mewn lleoliadau nad ydynt yn gymhleth gan ddiogelu'r man gweithio, dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis, a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar mewn sefyllfaoedd diwydiannol a/neu anniwydiannol.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Sut fyddwn i'n dewis glud ar gyfer arwyneb a phapur penodol?
- A fyddaf yn dysgu'r ardaloedd priodol i osod gwahanol fathau a phatrymau o bapur wal?
- Beth yw'r offer a'r technegau priodol ar gyfer papuro nenfydau a waliau?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn deall nodweddion ac addasrwydd adnoddau wrth eu dewis ar gyfer gosod gorchuddion waliau:

Mathau o bast a glud:

- selwlos
- startsh
- wedi'i gymysgu'n barod (pwysau ysgafn, canolig, trwm)
- border a gorgyffwrdd

Mathau o bapur sylfaen:

- leinio papur (graddau amrywiol)
- â chefn ffoil
- gyda chefn bitwmen
- Polystyren ehangedig (EPS)
- heb ei wehyddu

Mathau a dulliau gweithgynhyrchu gorchuddion waliau:

- simplecs gan gynnwys mâl a mathredig
- boglynnu/ dwplecs gan gynnwys anaglypta, supaglypta
- cerfwedd gan gynnwys finyl wedi'i chwythu a graen pren
- deunyddiau y gellir eu golchi gan gynnwys finyl, wedi'u pastio'n barod
- lled ansafonol
- heb ei wehyddu, gan gynnwys gludo'r wal

Mathau o batrymau:

- cydweddiad/ar hap
- cyfatebiad set
- gwrthbwysu
- cildroadwy

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae asesu ansawdd adnoddau a nodi diffygion cyffredin, gan gynnwys:

- difrod dŵr / llwydni
- difrodwyd wrth eu cludo, yn enwedig yr ymylon
- bylchu
- cynnyrch anghywir wedi'i gyflenwi, rhif patrwm, rhif swp
- halogi ac oes silff glud.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae cywiro deunyddiau diffygiol gan sicrhau eu bod yn cael eu symud o'r gweithle a bod cyflenwyr yn cael gwybod.

Bydd dysgwyr yn gallu cael gwared ar gynnyrch yn gywir heb ddifrodi'r amgylchedd a chan roi pwyslais ar ailgylchu.

1.2 Bydd dysgwyr yn deall sut a phryd i ddewis mathau addas o orchudd waliau ar gyfer gwahanol leoliadau ac amodau.

Lleoliad:

- ardaloedd lle ceir llawer draul
- mannau llaith (ceginau ac ystafelloedd ymolchi)
- ardaloedd lle mae mwy o berygl o dân
- ardaloedd y mae angen llawer o lanweithdra

Amod:

- waliau wedi'u difrodi
- lleithder cyddwyso
- deunydd inswleiddio
- estheteg h.y. Cynyddu/cuddio maint

1.3 Bydd dysgwyr yn deall y broses ar gyfer dewis deunyddiau sy'n dehongli ac yn echdynnu ffynonellau gwybodaeth dechnegol gan gynnwys lluniadu, gofynion, amserlenni a gweithgynhyrchu gwybodaeth i sicrhau ansawdd cyn ac yn ystod y gwaith paratoi, cymysgu adlynyon a gosod gorchuddion waliau i fodloni'r safon ofynnol yn y diwydiant.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall y peryglon sy'n gysylltiedig â'r amserlen waith a'r deunyddiau a'r rheini sy'n gysylltiedig â'r broses. Byddant yn deall sut mae dilyn asesiadau risg a datganiadau dull i nodi cyfarpar diogelu personol cywir a chyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn fedrus yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Byddant yn gwybod am beryglon sy'n gysylltiedig â gosod gorchuddion waliau, gan gynnwys:

- adlynyon: cyswllt ffwngladdwyr i'r croen a llyncu
- llithro
- rhwygo'r croen drwy gyswllt ag offer miniog a gorchuddion waliau
- gweithio mewn llefydd uchel
- cyhyrysgerbydol: anafiadau ac anafiadau straen ailadroddus

Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros roi gwybod i'r lefel briodol o awdurdod am ddamweiniau, peryglon a damweiniau fu bron â digwydd yn y gweithle.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros gwblhau tasgau gwaith penodol yn unol â'r safon ofynnol a'r amserlenni a bennir gan raglenni gwaith sydd wedi'u cynllunio. Byddant yn deall effeithiau peidio â chwrdd â therfynau amser sydd wedi'u cynllunio a'r effeithiau dilynol y mae'n eu cael ar grefftai eraill a rhaglenni gwaith sydd wedi'u cynllunio.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am broblem.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw pwrpas y prosesau canlynol ac yn deall canlyniadau peidio â dilyn y rhain yn y drefn gywir a'r safon ofynnol:

- cysgodi
- mesur a marcio
- cyfateb
- torri hyd
- cymysgu
- defnyddio adlynion
- plygu
- newid safle ar y ffordd
- ffitio
- trimio
- glanhau

Byddant yn deall y technegau a ddefnyddir i drafod cymhlethdodau arwyneb, gan gynnwys:

- ochrau ffenestri
- onglau mewnol ac allanol
- o gwmpas ffitiadau trydanol (goleuadau, socedi a switshis)
- o gwmpas, rheiddiaduron a phibellau cysylltiedig.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio offer a chyfarpar wrth osod gorchuddion waliau:

- mesur a marcio: tâp mesur, pren mesur sy'n plygu, pensel, lein sialc, lefel, lein blwm, lefel laser
- gludo: brwsh, peiriant rholeri, bwrdd, sbwng, bwcedi/tun
- gosod: siswrn, brwsh papur, ystyllen syth, cylllell drimio, blwch llafnau, rholiwr ymyl
- cyfarpar mynediad: *hop-up*, byrddau sgaffaldiau, ysgol risiau, trestlau, llwyfan, system ddiogelu grisiau

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae glanhau, cynnal a chadw a storio offer a chyfarpar yn ystod ac ar ôl eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys:

- defnyddio deunyddiau glanhau: glanedydd a dŵr
- gweithdrefnau ar gyfer storio dan amodau addas i atal llwydni a chrydu

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

- 3.1 Dangos sgiliau cysgodi, mesur, cydweddu, torri, cymysgu, defnyddio, plygu, gosod, trimio a glanhau
- 3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw a phŵer a chyfarpar cysylltiedig i sefydlu man cychwyn a gorffen a gosod papurau safonol o hyd sylweddol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir yn y manau canlynol; nenfydau ag unrhyw fath o bapur, waliau gydag onglau mewnol ac allanol gan ddefnyddio papurau sylfaen (croes), deunyddiau gwriadog a/neu batrymog a phapurau gorffen â phatrwm

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gallu dangos y sgiliau canlynol wrth osod papur wal:

- graddliwio papur wal, gwirio rhifau swp a phatrymau priodol a chynnal gwiriadau gweledol
- mesur arwynebedd yr arwyneb yn gywir
- cyfateb a thorri'n gywir gan osgoi gormod o wastraff
- stacio gorchuddion waliau yn y drefn gywir
- cymysgu a defnyddio'r glud cywir
- gorchudd wal wedi'i blygu: concertina ac phen wrth ben
- gosod gorchuddion waliau ar linell wedi'i marcio (llorweddol/fertigol)
- tocio'n gywir ac yn ddiogel gyda chyllell a siswrn
- tynnu bob past o'r arwyneb gorffenedig er mwyn osgoi staenio a marcio.

Byddant yn gallu mesur arwynebedd arwynebau a chyfrifo meintiau cywir o adlynyon a gorchuddion waliau, gan gynnwys caniatáu ar gyfer gwastraff.

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu nodi a dewis y math cywir o offer a chyfarpar i osod gorchuddion waliau yn unol â manylebau, datganiadau dull a gwybodaeth gweithgynhyrchwyr.

Byddant yn gallu defnyddio a chynnal y gwahanol fathau o offer a chyfarpar yn ddiogel, gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir, gan gynnwys:

- mesur a marcio allan: tâp mesur, pren mesur sy'n plygu, pensel, lein sialc, lefel, lein blwm, lefel laser
- gludo: brwsh, peiriant rholeri, bwrdd, sbyngau, bwcedi/tun
- gosod: siswrn, brwsh papur, ystyllen syth, cyllell drimio, blwch llafnau, rholer ymyl
- cyfarpar mynediad: *hop-up*, byrddau sgaffaldiau, ysgol risiau, trestlau.

Bydd dysgwyr yn gallu

- nodi a dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- sefydlu gofynion mynediad
- gwirio addasrwydd arwynebau i dderbyn gorchuddion waliau fel eu bod yn lân, yn wastad ac o'r maint cywir
- paratoi a defnyddio pastau ac adlynion
- sefydlu manau cychwyn a gorffen.

Byddant yn gallu paratoi gorchuddion waliau a'u gosod ar nenfydau, waliau a nenfydau, gan gadw'r papur a'r arwynebau cyfagos yn lân, gan gynnwys:

- mathau o bapur: papur sylfaen, gweadog a/neu orffeniad patrymog
- cymhlethodau: posibiliadau ac onglau mewnol ac allanol, yn ymwneud â ffitiadau trydanol, a phibellau.

Bydd yn gallu gosod gorchuddion waliau i osgoi'r diffygion canlynol:

- crychu
- gorgyffwrdd
- pothelli
- rhwygo
- ymylon llathredig
- bylchau
- ymylon rhydd
- torri afreolaidd
- staenio/marcio arwynebau
- y corneli wedi'u papuro yn anghywir
- gwaith heb fod yn blwm.

Llwybr F: Plastro Soled

Uned 225: Gwybodaeth graidd am blastro soled

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 50 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth gyffredinol sydd ei hangen ar gyfer y llwybr hwn.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth
- deall arferion gweithio diogel
- deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod
- gweithio i gwrdd â therfynau amser

Mae cynnwys yr uned hon wedi cael ei gyflwyno mewn ffordd generig gan ei fod yn gyson drwy lawer o'r unedau sgiliau yn y cymhwyster hwn. Dylid addysgu'r cynnwys, a bydd yn cael ei asesu'n gyffredinol ac yng nghyd-destun yr unedau sgiliau canlynol (lle bo hynny'n briodol);

- Creu gorffeniadau plastro soled mewnol
- Rhoi rendr soled ar arwynebau cefndir a chreu gorffeniadau

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Pam mae ymgynefino â safleoedd yn bwysig?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cerdyn gwaith a thaflen amser?
- Pwy yw Cadw a beth maen nhw'n ei wneud?

Deilliant dysgu

1. Deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth

Meini Prawf

- 1.1 Gweithdrefnau'r sefydliad a ddatblygwyd i roi gwybod am wybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas a'u cywiro, a sut y cânt eu rhoi ar waith
- 1.2 Y mathau o wybodaeth, eu ffynhonnell a sut maen nhw'n cael eu dehongli
- 1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad i ddatrys problemau gyda'r wybodaeth a pham ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu dilyn
- 1.4 Pwysigrwydd cadw dogfennau

2. Deall arferion gwaith diogel

Meini Prawf

- 2.1 Lefel y ddealltwriaeth y mae'n rhaid i weithwyr ei chael o wybodaeth am ddeddfwriaeth berthnasol, gyfredol a chanllawiau swyddogol a sut mae'n cael ei chymhwyso
- 2.2 Sut y dylid ymateb i argyfyngau a phwy ddylai ymateb
- 2.3 Gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol
- 2.4 Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny
- 2.5 Pam, pryd a sut y dylid defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch
- 2.6 Sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol

3 Deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod

Meini Prawf

- 3.1 Sut mae diogelu gwaith rhag difrod a phwrpas diogelu
- 3.2 Pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel a sut y gwneir hynny

4 Deall gweithio i derfynau amser

Meini Prawf

4.1 Sut mae gwaith yn cael ei wneud i fodloni'r rhaglen yn yr amser a drefnwyd a phwysigrwydd terfynau amser

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

- 1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o weithdrefnau sefydliadol a'u nodweddion a'r ffyrdd o'u defnyddio, gan gynnwys cyfleu problemau ar lafar, cadwyn awdurdod, sgysiau anffurfiol, ymgynefino â'r safle.
- 1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion a ffyrdd o ddefnyddio lluniadau a chynlluniau, gofynion, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, cyfarwyddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig, a rheoliadau adeiladu, ac yn gwybod sut maent yn cael eu rhoi ar waith.
- 1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n codi o wybodaeth amhriodol – gan gynnwys camglywed cyfarwyddiadau, gwybodaeth anghywir, camddehongli datganiad dull, rhoi gwybodaeth anghywir. Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n codi o adnoddau gan gynnwys deunyddiau anaddas a thywydd garw.
- 1.4 Bydd dysgwyr yn gwybod sut i gadw dogfennau, gan gynnwys: cardiau gwaith, taflenni gwaith, rhestrau deunyddiau/adnoddau a thafilenni amser.

Deilliant 2

- 2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am egwyddorion y darnau canlynol o ddeddfwriaeth; rheoliadau adeiladu; rheoliadau Gweithio ar Uchder (WAH); Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (HASAWA); PUWER; ACOPs; RIDDOR; CDM; COSHH; PPE; LOLER, rheoliadau Codi a Chario; rheoliadau Sŵn yn y Gwaith.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw diben pob deddfwriaeth, sut mae'n cael ei defnyddio mewn diwydiant a chanlyniadau peidio â chydymffurfio. Bydd dysgwyr yn deall rolau awdurdodau lleol o ran cynllunio a Rheoli Adeiladu a chyda strwythurau treftadaeth gan gynnwys ymgynghori â Cadw.

- 2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae ymateb i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol wrth ddelio â thanau, gollyngiadau, anafiadau ac argyfyngau.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o ddiffoddwyr tân a sut a phryd y cânt eu defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o dân. Byddant yn gwybod beth yw eu rôl a'u

cyfrifoldeb o ran gwagio, atal (dŵr, CO2, ewyn, powdr), y triongl tân a phwyntiau ymgynnull.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o hylifau sy'n gallu colli, sut mae eu hatal a sut mae eu nadu rhag gollwng. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer pecynnau gollwng, arwyddion a sut i gau'r ardal.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o anafiadau a chyfrifoldebau cyffredin gan gynnwys swyddog cymorth cyntaf, pecyn cymorth cyntaf, adrodd am ddamweiniau yn achos argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol, gan gynnwys atal, gweithdrefnau brys, gwasanaethau brys, gweithdrefnau adrodd, mynediad ac allanfeydd ar gyfer cerbydau argyfwng.

2.3 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, gan gynnwys;

- safle – gan gynnwys ffensys dros dro, swyddogion diogelwch, gwyliadwriaeth
- gweithle - gan gynnwys agor a chloi
- cwmni - gan gynnwys llofnodi i mewn, gweithdrefnau awdurdodi ID
- gweithiwr - gan gynnwys diogelwch offer, deunyddiau, cyfarpar a cherbydau, eiddo personol

Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau diogelwch mewn annedd ddomestig o'u cymharu ag ar y safle.

2.4 Bydd dysgwyr yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni damweiniau ac yn gallu adnabod swyddog cymorth cyntaf. Byddant hefyd yn deall y gyfraith sy'n ymwneud â nifer y bobl y mae angen eu hyfforddi'n briodol ar gyfer cymorth cyntaf. Byddant yn deall y rolau a'r cyfrifoldebau mewn gwahanol safleoedd, gan gynnwys mewn cartref domestig. Bydd dysgwyr yn deall sut mae adrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gweithio a RIDDOR yn achos digwyddiadau perthnasol. Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ddefnyddio'r llyfr cofnodi ar gyfer mân ddamweiniau a sut i gofnodi damweiniau fu bron â digwydd, gan gynnwys y gweithdrefnau adolygu ac ail-werthuso sydd ar waith.

2.5 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis, defnyddio a chynnal a chadw cyfarpar diogelu personol yn gywir, RPE, LEV gan gynnwys gwybodaeth am y canlynol; sbectol ddiogelwch, goggles, het galed, siaced lachar, amddiffynwyr clustiau, esgidiau diogelwch, masgiau llwch (gan gynnwys eu profi i sicrhau eu bod yn ffitio'r wyneb), harneisiau diogelwch, menyg diogelwch, menyg addas, matiau atal cwmpo, canllawiau ar gyfer sgaffaldiau, rhwydi, lloriau ffug, hyfforddiant gwn hoelion y gosod cyntaf, a hyfforddiant gwn hoelion yr ail osod.

2.6 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni deddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol, gan gynnwys; cynllun rheoli gwastraff safle (SWMP), ailgylchu, aildefnyddio, gwastraff ar wahân.

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae diogelu gwaith rhag difrod o weithgareddau gwaith cyffredinol a galwedigaethau eraill ac amodau'r tywydd (domestig yn ogystal â rhai ar y safle). Bydd dysgwyr yn deall y defnydd o orchudd dros dro, gan newid trefn y gwaith er mwyn diogelu gwaith yn well, gofalu am y gwaith a rhoi sylw i fanylion wrth osod, defnyddio cynfasau llwch ac offer diogelu deunyddiau.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae storio deunyddiau'n gywir cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith.

3.2 Bydd dysgwyr yn gwybod pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel ac yn gyfrifol, gan ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol yn unol â chyfrifoldebau amgylcheddol. Byddant yn gwybod am y gwahanol ddulliau gwaredu, gan gynnwys sgiplau dynodedig, ailgylchu, didoli gwastraff, man casglu gwastraff lleol, biodanwydd.

Deilliant 4

4.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gweithgareddau gwaith, deunyddiau a llafur yn cael eu dyrannu i fodloni'r amserlen ofynnol o fewn y rhaglen a phwysigrwydd cadw at derfynau amser.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o dargedau cynhyrchiant ac amserlenni, sut mae amseroedd yn cael eu hamcangyfrif a'r amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith, gan gynnwys y tywydd, faint o lafur sydd ar gael, effaith ddilynol trin a storio gwael gan achosi difrod i ddeunyddiau, cymal cosb, ffioedd cadw, enw da, a'r goblygiadau i grefftiau eraill.

Uned 226: Creu gorffeniadau plastro soled mewnol

| | |
|-----------------------------------|-----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 178 |
|-----------------------------------|-----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gweithio diogel ac iach, a dewis deunyddiau ac offer. Mae'n cynnwys paratoi a gosod plastr un haen a dwy haen ar gefndir mewnol.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Pam mae plastro soled mewnol yn dal i gael ei ddefnyddio'n aml heddiw?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng plastrau sy'n seiliedig ar galch a phlastrau caled sy'n seiliedig ar sment?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng rhwymwr ac agreg?
- Beth yw manteision defnyddio plastrau ysgafn Gypsum?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Canlyniad 4

1.1 Bydd dysgwyr yn deall manteision defnyddio plastrau calch a sment traddodiadol, plastrau gypswm modern wedi eu cymysgu'n barod ar gyfer gorffeniad ar blastrfwrdd, gwaith maen solet sy'n isel, canolig ac uchel eu hathreiddedd, arwynebau gweadog, arwynebau a blastrwyd eisoes, lath metel estynedig a dellt pren traddodiadol.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod a dewis y math cywir o:

- blastr i gael gorffeniad
- atgyfnerthiad
- selwyr
- preimwyr
- glud
- rhimynnau a gosodiadau

ar gyfer paratoi, rhoi coten ddilynol, cydgyfnerthu, sicrhau gafael, a gorffeniad ar gyfer un goten neu ddwy.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i asesu ansawdd a chyflwr:

- calch
- sment
- tywod
- plastrau
- atgyfnerthiad
- selwyr
- preimwyr
- glud
- rhimynnau
- arwynebau plastrfwrdd
- dellt pren
- dellt metel estynedig
- gosodiadau

i sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio a heb namau.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae sicrhau bod deunyddiau'n cael eu storio yn unol â gwybodaeth y gwneuthurwr ac yn nodi deunyddiau diffygiol, gan gynnwys ategolion ar gyfer ansawdd gwael a halogiad, a sicrhau eu bod yn cael eu tynnu a'u rhai i'r naill ochr.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut a phryd i ddewis y math addas o blaster, cydrannau, ategolion, rhimynnau ac atgyfnerthiadau ar gyfer gwahanol gefndiroedd fel plastrfwrdd, cotiau cefn ac arwynebau gwaith maen solet, gan gynnwys arwynebau sydd wedi'u plastro ymlaen llaw, wedi'u paratoi â glud graean. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod a rhoi gwybod am unrhyw broblemau sy'n achosi problemau gydag arwynebau cefndir a pharatoi a defnyddio plastrau a chydrannau.

1.3 Bydd dysgwyr yn deall y broses ar gyfer dewis deunyddiau a dehongli ffynonellau gwybodaeth dechnegol fel lluniadu, gofynion, amserlenni a gwybodaeth y gwneuthurwr i sicrhau ansawdd cyn ac yn ystod y gwaith paratoi, cymysgu a defnyddio er mwyn bodloni'r safon ofynnol yn y diwydiant.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall y peryglon sy'n gysylltiedig â'r amserlen waith a'r deunyddiau a'r rheini sy'n gysylltiedig â'r broses gosod. Bydd dysgwyr yn deall sut mae dilyn datganiadau dull ac asesiadau risg i nodi cyfarpar diogelu personol cywir a chyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn fedrus yn unol â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch. Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros roi gwybod i'r lefel briodol o awdurdod am ddamweiniau, peryglon a damweiniau fu bron â digwydd yn y gweithle.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros gwblhau tasgau gwaith penodol yn unol â'r safon ofynnol a'r amserlenni a bennir gan raglenni gwaith sydd wedi'u cynllunio. Bydd dysgwyr yn deall effeithiau peidio â chwrrd â therfynau amser sydd wedi'u cynllunio a'r effeithiau dilynol y mae'n eu cael ar grefftau eraill a rhaglenni gwaith sydd wedi'u

cynllunio. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gwirio arwynebau plastrfwrdd i osod sgriwiau'n gywir, cynllun cywir y plastrfwrdd, a lleoliad cywir y rhimynnau a'r trimiau a'r tapiâu atgyfnerthu sy'n barod i'w gosod gyda phlastr gorffen er mwyn gorffeniad fflat dilychwin ar gyfer yr addurno.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae archwilio unrhyw arwynebau sydd wedi'u plastro a'u difrodi a sut mae paratoi'r arwynebau yn barod i wneud y gwaith atgyweirio angenrheidiol er mwyn cael gorffeniad fflat di-febl ar gyfer eu haddurno.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gwirio arwynebau concriid gorffenedig yn barod i roi gorffeniad plastr er mwyn cael gorffeniad gwastad dilychwin ar gyfer addurno.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal gwiriadau ymlaen llaw ar offer llaw ac offer pŵer i sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio i'w pwrpas.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis offer a chyfarpar i wneud gwaith paratoi ar wahanol fathau o gefndiroedd, mesur, mesur a chymysgu plastrau traddodiadol a modern, gosod ategolion fel rhimynnau ar gyfer cywirdeb, lefelu, plymio a chywiro ymylon, lleoli a gosod cydrannau, atgyfnerthu a defnyddio plastrau cefndir a gorffen gan ddefnyddio technegau gwahanol ar gyfer gwastatau, cyfnerthu, sicrhau gafael a gorffen.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio offer llaw ac offer pŵer, a chyfarpar mynediad yn fedrus yn unol â'r dull gweithio a storio a chynnal a chadw yn ystod ac ar ôl cwblhau tasgau gwaith gosodedig.

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Paratoi arwynebau cefndir i gael un neu ddwy haen o systemau plastro mewnol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir mewn perthynas â'r canlynol:

- waliau plaen
- waliau gydag agoriadau - ochrau ffenestri, siliau a soffitiau (drysau a/neu ffenestri)
- waliau â chilfachau
- nenfydau plaen
- trawstiau a cholofnau

3.2 Mesur, torri a gosod cydrannau allan

3.3 Dangos sgiliau paratoi, mesur, cymysgu, defnyddio a gorffen gwaith plastro soled un, dwy a thair côt (gan gynnwys cywiro diffygion)

3.4 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ac adnoddau mecanyddol i baratoi deunyddiau parod, gosod a gorffen gwaith plastr un, dwy a thair côt mewnol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir;

- waliau plaen
- waliau gydag agoriadau - ochrau ffenestri, siliau a soffitiau (e.e. drysau a/neu ffenestri) waliau gyda chilfachau
- nenfydau plaen
- trawstiau a cholofnau

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gallu adnabod a dewis y math cywir o system blaster, ategolion, ychwanegion, cyfryngau bondio, cydrannau, atgyfnerthiadau, rhimynnau i baratoi arwynebau i'w gosod.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis deunyddiau ac adnoddau cywir ar gyfer mesur a chymysgu plastrau traddodiadol a modern i'r cysondeb a'r cryfder cywir.

Bydd dysgwyr yn gallu paratoi cefndiroedd fertigol a llorweddol sylfaenol drwy osod plastrfwrdd safonol, yn fecanyddol neu drwy eu cysylltu'n uniongyrchol â gwaith maen soled.

Bydd dysgwyr yn gallu gosod plastrau ar blastfwrdd, gwaith maen solet gyda isel, canolig ac uchel o ran hydreddedd, arwynebau gweadog a rhai wedi'u plastrio ymlaen llaw i ffurfio

waliau plaen a nenfydau, waliau a nenfydau gydag agoriadau, waliau grisiau, waliau â chilfachau a cholofnau, trawstiau a cholofnau annibynnol.

Bydd dysgwyr yn cyflawni proses o roi un a dwy gôt yn unol â lluniadau, gofynion, amserlenni a gwybodaeth am weithgynhyrchu yn unol â safon y diwydiant.

Bydd dysgwyr yn asesu ac yn cynnal gwiriadau ymlaen llaw i gefndiroedd solet ar gyfer rheoli sugno, gafael, cydnawsedd, ac addasrwydd i bennu'r math o system blastro.

Bydd dysgwyr yn gallu gwirio wynebau bwrdd plastr sydd wedi'u gosod a'r cyswllt rhyngddynt, gan gynnwys dyfnder sgriwiau, gosod rhimynnau, atgyfnerthu.

Bydd dysgwyr yn gallu gwirio arwynebau cotiau wedi eu crafu ar gyfer cael coten arall wedyn, a'u cyflwr a'u hansawdd cyffredinol yn ddigonol.

Bydd dysgwyr yn gallu gwirio bod cotiau cefndir wedi'u fflotio yn blwm, cilfachau wedi eu ffurfio'n sgwâr, soffitiau a siliau wedi'u ffurfio yn lefel, y torri yn gywir wrth onglau a rhimynnau, digon o afael, gwastadedd, onglau glân, a rheoli sugnedd.

Bydd dysgwyr yn gallu archwilio arwynebau plastr gweadog a chaled wedi'u gwneud o frics a blociau i'w selio, eu preimio, a rhoi glud graean i sicrhau adlyniad.

Bydd dysgwyr yn gallu gwirio'r holl arwynebau am adlyniad digonol, addasrwydd plastr a chydawnsedd i sicrhau ansawdd wrth osod a thueddu arwynebau plastr a'u gorffen ar gyfer gwaith plastro un haen a dwy.

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu mesur arwynebedd arwynebau a chyfrifo meintiau cywir o agregau rhydd traddodiadol, rhwymwyr ac ychwanegion, plastrau wedi'u bagio ymlaen llaw, preimars a glud bondio, gan gynnwys caniatáu am wastraff.

Bydd dysgwyr yn gallu mesur hyd a chyfrifo meintiau cywir o rimynnau safonol a sgim, ongl, a symud, gan gynnwys caniatáu ar gyfer gwastraff.

3.3 Bydd dysgwyr yn gallu dehongli ffynonellau gwybodaeth a defnyddio'r sgiliau a'r technegau cywir i baratoi arwynebau gwaith maen isel, canolig ac uchel o ran eu hathreiddedd, rheoli sugno â dŵr, hacio a stripio cefndiroedd, a defnyddio cyfryngau bondio a slyri.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis plastrau wedi'u bagio ymlaen llaw, mesur a chymysgu â llaw a dulliau mecanyddol gan ddefnyddio dril a chwisg i sicrhau'r cysondeb a'r swm cywir.

Bydd dysgwyr yn gallu mesur, torri, lleoli, a gosod plastrfwrdd safonol ar arwynebau fertigol a llorweddol, lleoli, a gosod sribedi sgim i ffurfio terfyn, cilfachau ac uniadau sy'n destun symudiad.

Bydd dysgwyr yn gallu gosod plastrau fel is-haen a gorffeniad, rhoi plastr un a dwy gôt gan ddefnyddio sgrîd a dulliau llawrydd.

Bydd y dysgwyr yn gallu rhoi atgyfnerthiadau fel sgrim a thâp ar gyfer un haen o blastr.

Bydd dysgwyr yn gallu sicrhau bod arwynebau'n wastad, yn llyfn, yn lân a heb namau, gan gynnwys onglau waliau a nenfydau, fframiau, gwasanaethau a socedi ac arwynebau ac ardaloedd gwaith cyfagos.

3.4 Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio dulliau addas a chywir ar gyfer gwirio ymlaen llaw, paratoi'r cefndir ar gyfer gosod plastrfwrdd, gosod arwyneb plastrfwrdd, arwynebau wedi'u plastro a rhai gweadog, cefndiroedd gwaith maen solet (brics, bloc, cerrig, concrit), gwirio am ddiffygion ar yr wyneb, rheoli sugnedd, defnyddio asiantau bondio i wneud yn siŵr bod offer bondio'n ddiogel, yn safonol ac wedi eu gorchuddio â sgim cyn cael gwaith plastro dilynol a'u gorffen.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, mesur a chymysgu plastrau ysgafn parod i'r cysondeb, y cryfder a'r swm cywir yn unol â manylebau a gwybodaeth y gwneuthurwr.

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r sgiliau, y technegau a'r dulliau defnyddio cywir i osod, rheoli, atgyfnerthu a chynnal a chadw côt, gan gynnwys defnyddio cyfryngau bondio (*spatterdash*).

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r sgiliau, y technegau a'r dulliau cywir i blastro a gorffen waliau gan ddefnyddio dwy goten o blastro gorffen i waliau, nenfydau ac arwynebau yn unol â lluniadau, gofynion, amserlenni a gweithgynhyrchu ffynonellau gwybodaeth i sicrhau bod arwynebau'n gyson, gwastad, llyfn a heb ddiffygion yn baratoad ar gyfer addurno ac yn bodloni safon y diwydiant.

Bydd dysgwyr yn gallu gwneud unrhyw waith atgyweirio/gweithredoedd angenrheidiol fel ail-leoli byrddau plastr anghywir a gwirio gosodiadau bond mecanyddol ac uniongyrchol.

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r gwahanol fathau o offer llaw ac offer pŵer i wneud y canlynol:

- paratoi arwynebau cefndir ar gyfer plastro
- Gosod plastrfwrdd safonol yn fecanyddol ac yn uniongyrchol
- mesur a chymysgu plastrau modern yn ôl y cysondeb a'r cryfder gofynnol
- defnyddio plastr i ffurfio waliau plaen a nenfydau, waliau a nenfydau gydag agoriadau, waliau grisiau, waliau â chilfachau a phileri, trawstiau a phileri annibynnol yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Uned 227: Rhoi rendr soled ar arwynebau cefndir a chreu gorffeniadau

| | |
|-----------------------------------|-----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 150 |
|-----------------------------------|-----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth a mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol. Mae'n ymwneud â dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, paratoi deunyddiau, rhoi rendrau soled ar gefndiroedd allanol, a chreu gorffeniadau.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Beth yw pwrpas rendro adeiladau?
- Ar ba fathau o arwynebau y gallwch chi osod rendr allanol?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng rendradau traddodiadol a modern?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn deall manteision defnyddio rendradau calchaid a sment traddodiadol, rendrau lliw parod modern, rendrau ysgafn acrylig wedi'u cymysgu ymlaen llaw ar gyfer gwahanol ddulliau ar arwynebau allanol i ffurfio gorffeniadau plaen a gweadog.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod a dewis y math cywir o rendradau cefn a haen uchaf, atgyfnerthiadau, ychwanegion, selwyr, preimars, gludiau, rhimynnau, deunydd inswleiddio a gosodiadau ar gyfer paratoi, rhoi cotiau dilynol, ar gyfer un a dwy gôt.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae asesu ansawdd a chyflwr calch, sment, tywod, rendrad wedi'i gymysgu ymlaen llaw, atgyfnerthiad, ychwanegion, selwyr, preimars, gludiau, gleiniau pren, dellt metel estynedig, deunydd inswleiddio a gosodiadau, a sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio a'u bod yn rhydd o ddiffygion.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae sicrhau bod deunyddiau'n cael eu storio yn unol â gwybodaeth gweithgynhyrchwyr ac yn nodi deunyddiau ac ategolion diffygiol ar gyfer ansawdd gwael a halogiad, ac yn sicrhau eu bod yn cael eu tynnu a'u rhai i'r naill ochr.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut a phryd i ddewis y math addas o system rendro, cydrannau, ategolion ychwanegion, rhimynnau ac atgyfnerthiadau ar gyfer gwahanol gefndiroedd fel arwynebau gwaith maen solid bricks, blociau, cerrig, deunydd inswleiddio ar gyfer EWI ac atgyfnerthiad metel estynedig.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod a rhoi gwybod am unrhyw broblemau sy'n achosi problemau gydag arwynebau cefndir a pharatoi a defnyddio plastrau a chydrannau

1.3 Bydd dysgwyr yn deall y broses ar gyfer dewis deunyddiau a dehongli ffynonellau gwybodaeth dechnegol fel lluniadu, gofynion, amserlenni a gwybodaeth y gwneuthurwr i sicrhau ansawdd cyn ac yn ystod y gwaith paratoi, cymysgu a defnyddio er mwyn bodloni'r safon ofynnol yn y diwydiant. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am ddiffygion ac anghywirdebau mewn dogfennau.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall y peryglon sy'n gysylltiedig â'r amserlen waith a'r deunyddiau sy'n gysylltiedig â'r broses gosod. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dilyn datganiadau dull ac asesiadau risg i nodi cyfarpar diogelu personol cywir a chyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn fedrus yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros roi gwybod i'r lefel briodol o awdurdod am ddamweiniau, peryglon a damweiniau fu bron â digwydd yn y gweithle.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros gwblhau tasgau gwaith penodol yn unol â'r safon ofynnol a'r amserlenni a bennir gan raglenni gwaith sydd wedi'u cynllunio. Bydd dysgwyr yn deall effeithiau peidio â chwrdd â therfynau amser sydd wedi'u cynllunio a'r effeithiau dilynol y mae'n eu cael ar grefftau eraill a rhaglenni gwaith sydd wedi'u cynllunio.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal gwiriadau ymlaen llaw ar offer llaw ac offer pŵer i sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio a'u pwrpas wrth baratoi cefndiroedd, cymysgu deunyddiau rhydd traddodiadol, agregau, rhwymwyr, ychwanegion, cymysgu rendradau parod a rhai wedi'u cymysgu ymlaen llaw ar gyfer gwneud a gorffen gwaith rendro un a dwy gôt.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis offer a chyfarpar i wneud gwaith paratoi ar wahanol fathau o arwynebau newydd a hen gefndiroedd, mesur, cymysgu rendradau traddodiadol a modern, gosod ategolion fel rhimynnau yn lefel, yn blwm ac yn gywir, lleoli a gosod cydrannau, atgyfnerthiadau a chotiau cefndir a chotiau gorffen gan ddefnyddio technegau priodol ar gyfer y broses blastro.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio offer llaw ac offer pŵer, a chyfarpar mynediad yn fedrus yn unol â'r dull gweithio a storio a chynnal a chadw yn ystod ac ar ôl cwblhau tasgau gwaith gosodedig.

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Paratoi o leiaf un o'r arwynebau cefndir canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir; brics, blociau, concrit, gwaith maen rwbel, gwaith metel estynedig (EML), deunydd inswleiddio allanol

3.2 Mesur, torri a gosod cydrannau allan

3.3 Dodi haenau sylfaenol, rhwyll atgyfnerthu a phatsys straen

3.4 Dangos sgiliau cymysgu, defnyddio a gorffen onglau, waliau, ochrau ffenestri a soffitiau mewnol ac allanol, gan gynnwys nodweddion rendrau

3.5 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy, offer mecanyddol ac adnoddau i gynhyrchu gorffeniad wyneb plaen i waliau allanol ynghyd ag o leiaf un o'r gorffeniadau dilynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir; *dry dash*, cast bras, tyrolaidd, rendradau synthetig neu ansynthetig, gweadau silicon, gweadau wedi'u seilio ar sment, gweadau, wedi'u cymysgu ymlaen llaw (rendrau synthetig neu ansynthetig)

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gallu nodi a dewis y math cywir o system rendro draddodiadol neu fodern, ategolion, ychwanegion, cyfryngau bondio, cydrannau, atgyfnerthiadau, deunydd inswleiddio, rhimynnau i baratoi arwynebau cefndir ar gyfer eu rendro.

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu dewis deunyddiau ac adnoddau cywir ar gyfer mesur a chymysgu cynnyrch rendro traddodiadol a modern er mwyn cael y cysondeb a'r cryfder cywir i gynnwys; paratoi cefndiroedd ar gyfer adlynion, gosod rhimynnau, ffurfio *bellcast* gyda phren, gosod dellt metel estynedig a choil, inswleiddio gan gynnwys atgyfnerthiadau ac estyll pren traddodiadol ar gyfer ffurfio onglau caled gan gynnwys cilfachau onglau caled.

3.3 Bydd dysgwyr yn gallu rhoi rendr ar gefndir ffenolig neu bolystyren gan gynnwys ymgorffori rhwyll atgyfnerthu a rhoi côt sylfaen addas.

Bydd dysgwyr yn gallu rhoi rendr ar gefndir gwan neu gyfansawdd sydd wedi'u paratoi â metel estynedig i ffurfio arwynebau plaen a gweadog ar gyfer drychiadau allanol.

3.4 Bydd dysgwyr yn gallu lleoli a gosod rhimynnau plastig neu stribedi dur gwrthstaen i ffurfio cilfachau, diferiadau, rhannau sy'n destun symudiad a therfynau wedi'u

hymgorffori yn y system rendrau, gan gynnwys nodweddion rendr i gynnwys: bandio ffenestri, conglfeini, plinthau ac ati.

3.5 Bydd dysgwyr yn gallu gosod rendradau ar waliau brics, blociau, cerrig a choncridd solet sy'n isel, canolig ac uchel o ran eu hathreiddedd.

Bydd dysgwyr yn cyflawni proses o roi un a dwy gôt yn unol â lluniadau, gofynion, amserlenni a gwybodaeth am weithgynhyrchu yn unol â safon y diwydiant.

Bydd dysgwyr yn asesu ac yn cynnal gwiriadau ymlaen llaw i gefndiroedd solet ar gyfer rheoli sugno, gafael, cydnawsedd ac addasrwydd i bennu'r math o raglen a system rendro.

Bydd dysgwyr yn gallu gwirio lleoliad rhimynnau wrth ffurfio cilfachau, diferiadau, cymalau sy'n destun symud a therfynau, safle cywir atgyfnerthiadau straen, arwynebau côt gwaelod wedi'u cwblhau ar gyfer derbyn coten arall wedyn, gafael digonol a chyflwr cyffredinol ac ansawdd yr arwyneb.

Bydd dysgwyr yn gallu gwirio bod cilfachau wedi'u ffurfio'n sgwâr, bod sffitiau a siliau yn lefel, gan lanhau onglau a rhimynnau, cyflwr cyffredinol ac ansawdd arwynebau rendr plaen a gwedadog.

Bydd dysgwyr yn gallu gwirio'r holl arwynebau am adlyniad digonol, sicrhau eu bod yn addas ac yn gydnaws er mwyn sicrhau ansawdd wrth osod rendrau sylfaenol a gorffeniad.

Bydd dysgwyr yn gallu mesur arwynebedd arwynebau a chyfrifo meintiau cywir o agregau rhydd traddodiadol, rhwymwyr ac ychwanegion, rendrau wedi'u pacio a'u cymysgu'n barod, preimars a glud bondio gan gynnwys caniatáu am wastraff.

Bydd dysgwyr yn gallu mesur hyd a chyfrifo meintiau cywir o rimynnau ongl, cloch, terfyn a symudiad, gan gynnwys caniatáu ar gyfer gwastraff.

Bydd dysgwyr yn gallu dehongli ffynonellau gwybodaeth a defnyddio'r sgiliau a'r technegau cywir i baratoi arwynebau gwaith maen sy'n isel, canolig ac uchel o ran eu hathreiddedd, rheoli sugnedd â dŵr, cefndiroedd hacio a stripio, gafael mecanyddol gan ddefnyddio dellt metel estynedig a defnyddio cyfryngau bondio a slyri.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis deunyddiau rendro traddodiadol a modern, mesur a chyflawni'r broses gymysgu â llaw a dulliau mecanyddol gan ddefnyddio cymysgydd sment drwm i sicrhau'r cysondeb, y cryfder a'r swm cywir.

Bydd dysgwyr yn gallu mesur, torri, lleoli a gosod rhimynnau plastig neu ddi-staen i ffurfio terfynau, cilfachau, ymylon diferu a chymalau sy'n destun symud.

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio rendrau is a gorffeniad, un a dwy gôt gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau priodol.

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio atgyfnerthiadau fel rhwyll atgyfnerthu ac ategolion metel wedi eu hymgorffori yn y system rendro.

Bydd dysgwyr yn sicrhau bod arwynebau rendr gorffenedig yn gyson, yn wastad, bod y conglau a'r rhimynnau yn siarp, yn lân ac heb unrhyw ddiffygion, gan gynnwys arwynebau ac ardaloedd gwaith sy'n gysylltiedig â'r waliau.

Mae'r diffygion yn cynnwys: gronynnu, creithio, pantio, gleiniau heb fod yn blwm, olion ar yr wyneb, gorffeniad plaen a gweadog anghyson, lliw a chryfder anghyson.

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio dulliau addas a chywir ar gyfer gwirio ymlaen llaw, ar gyfer paratoi cefndiroedd, rheoli sugnedd, defnyddio cyfryngau bondio i sicrhau adlyniad, gan atgyfnerthu drwy afael mecanyddol, rhwyllwaith atgyfnerthu wedi'i osod a'i leoli, a chadachau a rhimynnau cyn rendro.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, mesur a chymysgu agregau rhydd traddodiadol, rhwymwyr ac ychwanegion, rendrau wedi'u pacio a'u cymysgu'n barod â'r cysondeb, y cryfder a'r swm cywir yn unol â manylebau a gwybodaeth sy'n cael ei chynhyrchu.

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r sgiliau, y technegau a'r dulliau cywir i baratoi a gosod rhimynnau, sicrhau bod digon o afael ar y goten isaf i baratoi ar gyfer gorffeniad.

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r sgiliau, y technegau a'r dulliau defnyddio cywir i osod a ffurfio gorffeniadau rendr plaen a gweadog un a dwy gôt ar waliau allanol yn unol â lluniadau, gofynion, amserlenni a gweithgynhyrchu ffynonellau gwybodaeth.

Bydd dysgwyr yn sicrhau bod arwynebau'n gyson, yn llyfn ac yn fflat, a bod conglau'n siarp ac yn lân a heb unrhyw ddiffygion i fodloni safon y diwydiant.

3.6 Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r gwahanol fathau o offer llaw ac offer pŵer i baratoi arwynebau cefndir ar gyfer rendro, mesur a chymysgu deunyddiau a chynnyrch traddodiadol a modern i sicrhau eu bod yn gyson ac yn gryf, gan ddefnyddio gwahanol rendradau i ffurfio arwynebau plaen a gweadog ar waliau allanol yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio dulliau addas a chywir ar gyfer gwirio ymlaen llaw, ar gyfer paratoi cefndiroedd, rheoli sugnedd, defnyddio cyfryngau bondio i sicrhau adlyniad, gan atgyfnerthu drwy afael mecanyddol, rhwyllwaith atgyfnerthu wedi'i osod a'i leoli, a chadachau a rhimynnau cyn rendro.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, mesur a chymysgu agregau rhydd traddodiadol, rhwymwyr ac ychwanegion, rendrau wedi'u pacio a'u cymysgu'n barod â'r cysondeb, y cryfder a'r swm cywir yn unol â manylebau a gwybodaeth sy'n cael ei chynhyrchu.

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r sgiliau, y technegau a'r dulliau cywir i baratoi a gosod rhimynnau, sicrhau bod digon o afael ar y goten isaf i baratoi ar gyfer gorffeniad.

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r sgiliau, y technegau a'r dulliau cywir i roi a ffurfio gorffeniadau rendr plaen a gweadog un a dwy gôt ar waliau allanol yn unol â lluniadau, gofynion, amserlenni a gweithgynhyrchu ffynonellau gwybodaeth.

Bydd dysgwyr yn sicrhau bod arwynebau'n gyson, yn llyfn ac yn fflat, a bod conglau'n siarp ac yn lân a heb unrhyw ddiffygion i fodloni safon y diwydiant.

Llwybr G: Dreileinio – Gosod

Uned 228: Gwybodaeth graidd am ddreileinio

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 50 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth gyffredinol sydd ei hangen ar gyfer y llwybr hwn.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth
- deall arferion gweithio diogel
- deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod
- deall gweithio i derfynau amser

Mae cynnwys yr uned hon wedi cael ei gyflwyno mewn ffordd generig gan ei fod yn gyson drwy lawer o'r unedau sgiliau yn y cymhwyster hwn. Dylid addysgu'r cynnwys, a bydd yn cael ei asesu'n gyffredinol ac yng nghyd-destun yr unedau sgiliau canlynol (lle bo hynny'n briodol);

- Gosod systemau dreileinio
- Gosod plastrfwrdd yn fecanyddol a thrwy fondio uniongyrchol

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Pam mae ymgynefino â safleoedd yn bwysig?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cerdyn gwaith a thaflen amser?
- Pwy yw Cadw a beth maen nhw'n ei wneud?

Deilliant dysgu

1. Deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth

Meini Prawf

- 1.1 Gweithdrefnau'r sefydliad a ddatblygwyd i roi gwybod am wybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas a'u cywiro, a sut y cânt eu rhoi ar waith
- 1.2 Y mathau o wybodaeth, eu ffynhonnell a sut maen nhw'n cael eu dehongli
- 1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad i ddatrys problemau gyda'r wybodaeth a pham ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu dilyn
- 1.4 Pwysigrwydd cadw dogfennau

2. Deall arferion gwaith diogel

Meini Prawf

- 2.1 Lefel y ddealltwriaeth y mae'n rhaid i weithwyr ei chael o wybodaeth ar gyfer deddfwriaeth berthnasol, gyfredol a chanllawiau swyddogol a sut mae'n cael ei chymhwyso
- 2.2 Sut y dylid ymateb i argyfyngau a phwy ddylai ymateb
- 2.3 Gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol
- 2.4 Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny
- 2.5 Pam, pryd a sut y dylid defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch
- 2.6 Sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol

3. Deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod

Meini Prawf

- 3.1 Sut mae diogelu gwaith rhag difrod a phwrpas diogelu
- 3.2 Pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel a sut y gwneir hynny

4. Deall gweithio i derfynau amser

Meini Prawf

4.1 Sut mae gwaith yn cael ei wneud i fodloni'r rhaglen yn yr amser a drefnwyd a phwysigrwydd terfynau amser

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o weithdrefnau sefydliadol a'u nodweddion a'r ffyrdd o'u defnyddio, gan gynnwys cyfleu problemau ar lafar, cadwyn awdurdod, sgyrsiau anffurfiol, ymgynefino â'r safle.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion a'r ffyrdd o ddefnyddio lluniadau a chynlluniau, gofynion, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, cyfarwyddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig, a rheoliadau adeiladu, ac yn gwybod sut maent yn cael eu rhoi ar waith.

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n codi o wybodaeth amhriodol – gan gynnwys camglywed cyfarwyddiadau, gwybodaeth anghywir, camddehongli datganiad dull, rhoi gwybodaeth anghywir. Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n codi o adnoddau gan gynnwys deunyddiau anaddas a thywydd garw.

1.4 Bydd dysgwyr yn gwybod sut i gadw dogfennau, gan gynnwys: cardiau gwaith, taflenni gwaith, rhestrau deunyddiau/adnoddau a thafleini amser.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw egwyddorion y darnau canlynol o ddeddfwriaeth; rheoliadau adeiladu; rheoliadau Gweithio ar Uchder; Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (HASAWA); PUWER; ACOPs; RIDDOR; CDM; COSHH; PPE; LOLER, Rheoliadau Codi a Chario; Rheoliadau Sŵn yn y Gwaith. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw diben pob deddfwriaeth, sut mae'n cael ei defnyddio mewn diwydiant a chanlyniadau diffyg cydymffurfio. Bydd dysgwyr yn deall rolau awdurdodau lleol o ran cynllunio a Rheoli Adeiladu a chyda strwythurau treftadaeth gan gynnwys ymgynghori â Cadw.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae ymateb i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol wrth ddelio â thanau, gollyngiadau, anafiadau ac argyfyngau.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o ddiffoddwyr tân a sut a phryd y cânt eu defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o dân. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu rôl a'u cyfrifoldeb o ran gwagio, atal (dŵr, CO2, ewyn, powdr), y triogl tân a phwyntiau ymgynnull.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o hylifau sy'n gallu colli, sut mae eu hatal a sut mae eu nadu rhag gollwng. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer pecynnau gollwng, arwyddion a sut i gau'r ardal.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o anafiadau a chyfrifoldebau cyffredin gan gynnwys swyddog cymorth cyntaf, offer cymorth cyntaf ac adrodd am ddamweiniau ar gyfer argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol, gan gynnwys atal, gweithdrefnau brys, gwasanaethau brys, gweithdrefnau adrodd, mynediad ac allanfeydd ar gyfer cerbydau argyfwng.

2.3 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, gan gynnwys:

- safle – gan gynnwys ffensys dros dro, swyddogion diogelwch, gwyliadwriaeth
- gweithle - gan gynnwys agor a chloi
- cwmni - gan gynnwys llofnodi i mewn, gweithdrefnau awdurdodi ID
- gweithiwr - gan gynnwys diogelwch offer, deunyddiau, cyfarpar a cherbydau, eiddo personol

Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau diogelwch mewn annedd ddomestig o'u cymharu ag ar y safle.

2.4 Bydd dysgwyr yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni damweiniau ac yn gallu adnabod swyddog cymorth cyntaf. Byddant hefyd yn deall y gyfraith sy'n ymwneud â nifer y bobl y mae angen eu hyfforddi'n briodol ar gyfer cymorth cyntaf. Byddant yn deall y rolau a'r cyfrifoldebau mewn gwahanol safleoedd, gan gynnwys mewn cartref domestig. Bydd dysgwyr yn deall sut mae adrodd i'r Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch yn gweithio a RIDDOR yn achos digwyddiadau perthnasol. Byddant yn gwybod sut i ddefnyddio'r llyfr cofnodi ar gyfer mân ddamweiniau a sut i gofnodi damweiniau fu bron â digwydd, gan gynnwys y gweithdrefnau adolygu ac ail-werthuso sydd ar waith.

2.5 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis, defnyddio a chynnal a chadw cyfarpar diogelu personol yn gywir, RPE, LEV, gan gynnwys gwybodaeth am y canlynol; sbectolau diogelwch, gogls, het galed, siaced lachar, amddiffynwyr clustiau, esgidiau diogelwch, masgiau llwch (gan gynnwys profi'r masg i sicrhau ei fod yn ffitio'r wyneb), harneisiau diogelwch, menyg diogelwch, sachau atal cwmpo, matiau atal cwmpo, rheiliau sgaffaldiau, lloriau ffug, hyfforddiant gwn hoelion y gosod cyntaf, a hyfforddiant gwn hoelion yr ail osod.

2.6 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni deddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol, gan gynnwys: cynllun rheoli gwastraff safle (SWMP), ailgylchu, ailddefnyddio, gwastraff ar wahân.

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae diogelu gwaith rhag difrod o weithgareddau gwaith cyffredinol a galwedigaethau eraill ac amodau'r tywydd (domestig yn ogystal â rhai ar y safle). Bydd dysgwyr yn deall y defnydd o orchudd dros dro, gan newid trefn y gwaith er mwyn diogelu gwaith yn well, gofalu am y gwaith a rhoi sylw i fanylion wrth osod, defnyddio cynfasau llwch ac offer diogelu deunyddiau.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae storio deunyddiau'n gywir cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith.

3.2 Bydd dysgwyr yn gwybod pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel ac yn gyfrifol, gan ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol yn unol â chyfrifoldebau amgylcheddol. Byddant yn gwybod am y gwahanol ddulliau gwaredu, gan gynnwys sgiplau dynodedig, ailgylchu, didoli gwastraff, man casglu gwastraff lleol, biodanwydd.

Deilliant 4

4.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gweithgareddau gwaith, deunyddiau a llafur yn cael eu dyrannu i fodloni'r amserlen ofynnol o fewn y rhaglen a phwysigrwydd cadw at derfynau amser.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o dargedau cynhyrchiant ac amserlenni, sut mae amseroedd yn cael eu hamcangyfrif a'r amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith, gan gynnwys y tywydd, faint o lafur sydd ar gael, effaith ddilydol trin a storio gwael gan achosi difrod i ddeunyddiau, cymal cosb, ffioedd cadw, enw da, a'r goblygiadau i grefftau eraill.

Uned 229: Gosod systemau dreileinio

| | |
|-----------------------------------|-----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 178 |
|-----------------------------------|-----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol. Mae hefyd yn cynnwys dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar wrth baratoi, gosod ac atgyweirio systemau dreileinio masnachol.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng plastro soled a dreileinio gyda bond uniongyrchol?
- Beth yw plastrfwrdd?
- Pa fath o gefndiroedd fydda i'n dod ar eu traws mewn adeiladau?
- Pam mae rhai cefndiroedd sych yn cael eu gorffen gan ddefnyddio tâp a chompownd uniadu?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Canlyniad 4

1.1 Bydd dysgwyr yn deall manteision gosod systemau mewnol ar gyfer cynhyrchu partisiynau metel wedi'u fframio, leininau waliau a nenfydau, gorchuddion a systemau fframiau nenfwd gan ddefnyddio gwahanol gydrannau metel a gosodiadau ar bob system.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod a dewis y math a'r maint cywir o drac, styd safonol a pherfformiad, leininau, sianeli perimedr ac eilaidd, cysylltwyr, clipiau, bracedi, gosodiadau, angorau ar gyfer y system a ddewiswyd. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae asesu ansawdd a chyflwr deunyddiau a chydannau gan gynnwys ategolion ar gyfer dal tân ac inswleiddio i sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae sicrhau bod deunyddiau'n cael eu storio yn unol â gwybodaeth gweithgynhyrchwyr a sut mae adnabod deunyddiau diffygiol ar gyfer ansawdd gwael a halogiad, sicrhau eu bod yn cael eu tynnu a'u rhoi i'r naill ochr.

- 1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis gwahanol ddeunyddiau a chydannau ar gyfer paratoi a gosod partisiynau ffrâm, leiniau waliau a nenfydau, gorchuddion a systemau fframiau nenfwd. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod a rhoi gwybod am unrhyw broblemau sy'n achosi problemau wrth baratoi ar gyfer y cefndir a gosod y system tu mewn.
- 1.3** Bydd dysgwyr yn deall y broses ar gyfer dewis deunyddiau a chydannau gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth technegol fel lluniadu, manylebau, amserlenni a gwybodaeth gweithgynhyrchwyr.
- 1.4** Bydd dysgwyr yn deall y peryglon sy'n gysylltiedig â'r amserlen waith, y deunyddiau a'r cydrannau sy'n gysylltiedig â'r broses gosod. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dilyn datganiadau dull ac asesiadau risg i nodi cyfarpar diogelu personol cywir a chyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn fedrus yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros roi gwybod i'r lefel briodol o awdurdod am ddamweiniau, peryglon a damweiniau fu bron â digwydd yn y gweithle.

Deilliant 2

- 2.1** Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros gwblhau tasgau gwaith penodol yn unol â'r safon ofynnol a'r amserlenni a bennir gan raglenni gwaith sydd wedi'u cynllunio. Bydd dysgwyr yn deall effeithiau peidio â chwrdd â therfynau amser a gynlluniwyd a'r effeithiau dilynol a gaiff ar raglenni gwaith.
- 2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal gwiriadau ymlaen llaw ar offer llaw, offer pŵer a chyfarpar mynediad i sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio ac yn bwrpasol wrth osod systemau mewnol.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis offer a chyfarpar i gyflawni'r gwaith o osod a throsglwyddo dimensiynau a datwm, paratoi manau gweithio gan gynnwys gwasanaethau a phwyntiau mynediad, mesur deunyddiau a chydannau, torri, lleoli, gosod a gorffen waliau a nenfydau plaen, a waliau a nenfydau gydag agoriadau gan gynnwys trawstiau a cholofnau.

- stydiau metel, sengl, dwbl, crwm, waliau dros 3 metr a phennau gwyr
- leiniau a gorchuddion waliau a nenfydau
- systemau ffrâm fetel ar gyfer nenfydau

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae storio a chynnal a chadw offer llaw ac offer pŵer, gan gynnwys cyfarpar mynediad, yn ystod ac ar ôl cwblhau tasg waith benodol.

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau mesur, gosod allan, ffitio, lleoli a gosod systemau dreileinio

3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol i osod y dilynol, gan gynnwys gosod pennau gwyro, ffurfio agoriadau a chysylltiadau, a gwneud gwaith atgyweirio, yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir:

- partisiynau stydiau metel
- nenfydau stribedi metel
- leinin wal ar ffrâm
- waliau dwbl
- stydiau wedi eu gosod yma ac acw
- cau am drawstiau a cholofnau gyda ffrâm a heb ffrâm

3.3 Gosod o leiaf ddwy o'r systemau canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir, gan gynnwys gosod pennau gwyro, partisiynau ar gyfer siafftau gwasanaeth, waliau crwm, waliau dros ddwy fetr o uchder

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

3.1 Bydd dysgwyr yn gallu nodi a dewis y maint a'r math cywir o gynhyrchion, deunyddiau a chydannau metel ar gyfer gosod partisiynau stydiau metel, leininau waliau a nenfydau a nenfydau gyda stribedi metel yn unol â lluniadau, gofynion, amserlenni a gwybodaeth gweithgynhyrchwyr i safon y diwydiant.

Bydd dysgwyr yn asesu ac yn cynnal gwiriadau ymlaen llaw ar is-haenau cefndir ar gyfer cryfder, cyflwr, llety, cydnawsedd ac addasrwydd y system gosod a ddewiswyd/penodedig.

Bydd dysgwyr yn gallu mesur arwynebedd arwynebau a chyfrifo'r maint cywir o gynhyrchion metel llinol:

- trac
- stydiau
- leininau
- stribedi
- sianel berimedr
- prif sianeli

Cydrannau i gynnwys: cysylltwyr, angorau, clipiau, strapiau, bar cadarn, a gosodiadau ac ati, gan gynnwys caniatáu ar gyfer gwastraff.

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio technegau cywir i ddehongli a throsglwyddo dimensiynau a mesuriadau datwm wrth osod allan, mesur, torri, gosod systemau mewnol ar gyfer cynhyrchu waliau, nenfydau, parwydydd ac amgáu, gan gynnwys gosod gwasanaethau trydanol a mecanyddol ymlaen llaw, a sianeli mynediad a hatshys.

3.2 a 3.3

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r gwahanol fathau o offer llaw ac offer pŵer i baratoi a gosod systemau mewnol, mesur yn gywir, torri, paratoi a gosod cydrannau system fewnol a systemau gan ddefnyddio dulliau a thechnegau priodol, gan gynnwys yr angen i ddiogelu rhag tân ac inswleiddio thermol.

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio gwahanol ddulliau a thechnegau gosod ar gyfer gosod allan, gosod a gorffen waliau a nenfydau a waliau plaen gydag agoriadau gan gynnwys trawstiau a cholofnau:

- stydiau metel, sengl, dwbl, yma ac acw, crwm, waliau dros 2 fetr a phennau gwyro
- leiniau a gorchuddion waliau a nenfydau
- system nenfydau sribedi metel

Bydd dysgwyr yn gallu cynnal gwiriadau cyn gosod, fel diogelu rhag sŵn ar waliau cydrannol, defnyddio selydd sy'n chwyddo i ffurfio llinellau rhag tân a ffurfio seliau perimedr gan ddefnyddio glud cyfansawdd gan gynnwys lleoli deunyddiau inswleiddio.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis a gosod cydrannau, deunyddiau a chynnyrch metel safonol a pherfformiad er mwyn lleihau'r trosglwyddo sain ac acwstig, i helpu i gynyddu nodweddion thermol a chynyddu gwytnwch a'r gallu i wrthsefyll tân.

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio dulliau gosod cywir, gan ddefnyddio pwyntiau gosod a manau canol gosod cywir i osod a systemau mewnol yn gywir gan ddefnyddio angorau, clipiau a gosodiadau mecanyddol priodol gan gynnwys offer gosod sy'n defnyddio cetris.

Bydd dysgwyr yn gallu nodi dimensiynau a lefelau trosglwyddo a mesuriadau datwm i osod partisiynau stydiau metel yn gywir gyda phennau gwyro a chysylltiadau, leiniau waliau a gorchuddion gyda chysylltiadau a chilfachau a systemau nenfwd gan gynnwys amgáu rhannau o nenfwd yn unol â lluniadau, gofynion, amserlenni a ffynonellau gwybodaeth gweithgynhyrchwyr i sicrhau bod arwynebau'n bodloni safonau'r diwydiant.

Bydd dysgwyr yn gallu trwsio systemau mewnol yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Uned 230: Gosod plastrfwrdd yn fecanyddol a thrwy fondio uniongyrchol

| | |
|-----------------------------------|-----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 150 |
|-----------------------------------|-----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth a mabwysiadu arferion gweithio diogel ac iach. Mae'n cynnwys dewis deunyddiau, cydrannau a chyfarpar, yn ogystal â pharatoi a gosod plastrfwrdd ar gyfer fframiau pren a metel a chefnidiroedd mewnol gwaith maen soled.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Beth mae gosod mecanyddol yn ei olygu wrth osod plastrfwrdd?
- Beth yw sêl perimedr?
- Beth yw gosod bondiau uniongyrchol?
- Beth yw côt sylfaenol a beth yw ei phwrpas?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn deall manteision gosod plastrfwrdd safonol a pherfformiad defnyddio gosodiadau mecanyddol a glud cyfansawdd waliau sych bond uniongyrchol at ddibenion gosod penodol. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod a dewis y math a'r maint cywir o fwrdd plastr, hyd y sgriwiau a ddefnyddir i'w osod neu gyfansoddion wal sych ar gyfer y math o gefndir. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae asesu ansawdd a chyflwr deunyddiau dalen, gosodiadau ac adlynonion a sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae sicrhau bod deunyddiau'n cael eu storio yn unol â gwybodaeth gweithgynhyrchwyr ac yn nodi deunyddiau diffygiol ar gyfer ansawdd gwael a halogiad, ac yn sicrhau eu bod yn cael eu tynnu a'u rhoi i'r naill ochr.

- 1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis gwahanol ddeunyddiau ar gyfer gwahanol ddulliau a gweithdrefnau gosod ar gyfer cefndiroedd pren, metel a gwaith maen gan ddefnyddio gosodiadau mecanyddol a gosod bondiau uniongyrchol. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod a rhoi gwybod am unrhyw broblemau gyda pharatoi cefndiroedd a gosod systemau.
- 1.3** Bydd dysgwyr yn deall y broses ar gyfer dewis deunyddiau gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth dechnegol fel lluniadu, gofynion, amserlenni a gwybodaeth gweithgynhyrchwyr.
- 1.4** Bydd dysgwyr yn deall y peryglon sy'n gysylltiedig â'r amserlen waith a'r deunyddiau sy'n gysylltiedig â'r broses gosod. Bydd dysgwyr yn dilyn datganiadau dull ac asesiadau risg i nodi cyfarpar diogelu personol cywir a chyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn fedrus yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros roi gwybod i'r lefel briodol o awdurdod am ddamweiniau, peryglon a damweiniau fu bron â digwydd yn y gweithle.

Deilliant 2

- 2.1** Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros gwblhau tasgau gwaith penodol yn unol â'r safon ofynnol a'r amserlenni a bennir gan raglenni gwaith sydd wedi'u cynllunio. Bydd dysgwyr yn deall effeithiau peidio â chwrdd â therfynau amser a gynlluniwyd a'r effeithiau dilynol a gaiff ar raglenni gwaith. Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros roi gwybod am broblemau neu ddiffygion sy'n ymwneud â'r gwaith.
- 2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal gwiriadau ymlaen llaw ar offer llaw ac offer pŵer i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn addas i'w defnyddio wrth plastrfwrdd gan ddefnyddio dull mecanyddol neu fond uniongyrchol. Dewis offer a chyfarpar i baratoi, mesur, torri, crafu, lleoli, cymysgu, gosod a gorffen bond mecanyddol neu uniongyrchol wrth osod plastrfwrdd. Storio a chynnal a chadw offer llaw ac offer pŵer yn ystod ac ar ôl cwblhau tasgau gwaith penodol.

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau mesur, marcio allan, torri, defnyddio, ffitio, gorffen, lleoli a sicrhau

3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol i osod plastrfwrdd yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir; cladin ar bren a/neu fetel, a ffurfio agoriadau mewn gwaith maen gyda ochrau ffenestri

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gallu nodi a dewis y maint a'r math cywir o ddeunyddiau dalen a'r broses gosod i osod plastrfwrdd yn fecanyddol neu ddefnyddio glud wal sych yn unol â lluniadau, gofynion, amserlenni a gweithgynhyrchu gwybodaeth i safon y diwydiant.

Bydd y dysgwyr yn asesu ac yn cynnal gwiriadau ymlaen llaw i gefndiroedd pren a metel ar gyfer lleoli stydiau a distiau y gywir a chywirdeb yr arwyneb cefndir. Bydd dysgwyr yn gallu gwirio cyflwr cefndiroedd gwaith maen o ran cryfder pha mor syth ydynt ar gyfer canllawiau gosod.

Bydd dysgwyr yn gallu mesur arwynebedd arwynebau a chyfrifo meintiau cywir o ffitiadau/deunyddiau dalen, gan gynnwys caniatáu ar gyfer gwastraff.

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio technegau cywir ar gyfer dehongli a throsglwyddo meintiau wrth fesur, torri, crafu, a gosod plastrfwrdd ar waliau a nenfydau plaen, waliau a nenfydau gydag agoriadau, waliau grisiau, waliau â phileri, trawstiau a phileri annibynnol, gan gynnwys torri tyllau ar gyfer socedi a gwasanaethau trydanol a mecanyddol.

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r gwahanol fathau o offer llaw ac offer pŵer i baratoi cefndiroedd pren, metel a gwaith maen, mesur, torri a chrafu plastrfwrdd a'i roi yn ei le ymlaen llaw cyn ei osod. Gosod deunyddiau dalen safonol neu berfformiad gan ddefnyddio gosodiadau mecanyddol neu fond uniongyrchol gan ddefnyddio glud wal sych wedi'i gymysgu'n fecanyddol.

Bydd dysgwyr yn gwybod am wahanol ddulliau gosod ar gyfer gosod deunyddiau dalen allan:

ffitio'n unigol, gosod yma ac acw, atgyfnerthu, gosod yma ac acw a dyblu, lleoli fertigol a llorweddol gan gynnwys cilfachau, ochrau ffenestri a soffitiau.

Bydd dysgwyr yn gallu gwneud gwaith cyn gosod fel profi sŵn ar waliau cydrannol, defnyddio selydd chwyddedig i ffurfio llinellau tân a ffurfio seliau perimedr gan ddefnyddio glud wal sych.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis a gosod plastrfwrdd safonol a phlastrfwrdd perfformiad penodol i leihau trosglwyddo sain, rheoli lefelau lleithder ac anwedd, cynyddu gwytnwch a chynyddu'r gallu i wrthsefyll tân.

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r lleoliadau gosod cywir i osod plastrfwrdd gyda sgriwiau a glud wal sych.

Bydd dysgwyr yn gallu gosod plastrfwrdd yn unol â lluniadau, gofynion, amserlenni a gweithgynhyrchu ffynonellau gwybodaeth i sicrhau bod arwynebau'n blwm, yn lefel ac yn sgwâr, gydag ymylon yn cyffwrdd ychydig heb unrhyw uniadau anwastad i fodloni safonau'r diwydiant.

Llwybr H: Gwaith tir

Uned 231: Gwybodaeth graidd am waith tir

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 50 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth gyffredinol sydd ei hangen ar gyfer y llwybr hwn.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth
- deall arferion gweithio diogel
- deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod
- deall gweithio i derfynau amser

Mae cynnwys yr uned hon wedi cael ei gyflwyno mewn ffordd generig gan ei fod yn gyson drwy lawer o'r unedau sgiliau yn y cymhwyster hwn. Dylid addysgu'r cynnwys, a bydd yn cael ei asesu'n gyffredinol ac yng nghyd-destun yr unedau sgiliau canlynol (lle bo hynny'n briodol);

- Sefydlu dulliau rheoli gwaith dimensiynol eilaidd
- Paratoi a chymysgu deunyddiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu
- Gosod draeniau

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Pam mae ymgynefino â safleoedd yn bwysig?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cerdyn gwaith a thaflen amser?
- Pwy yw Cadw a beth maen nhw'n ei wneud?

Deilliant dysgu:

1. Deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth

Meini Prawf:

- 1.1 Gweithdrefnau'r sefydliad a ddatblygwyd i roi gwybod am wybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas a'u cywiro, a sut y cânt eu rhoi ar waith
- 1.2 Y mathau o wybodaeth, eu ffynhonnell a sut maen nhw'n cael eu dehongli
- 1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad i ddatrys problemau gyda'r wybodaeth a pham ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu dilyn
- 1.4 Pwysigrwydd cadw dogfennau

2. Deall arferion gwaith diogel

Meini Prawf:

- 2.1 Lefel y ddealltwriaeth y mae'n rhaid i weithwyr ei chael o wybodaeth ar gyfer deddfwriaeth berthnasol, gyfredol a chanllawiau swyddogol a sut mae'n cael ei chymhwyso
- 2.2 Sut y dylid ymateb i argyfyngau a phwy ddylai ymateb
- 2.3 Gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol
- 2.4 Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny
- 2.5 Pam, pryd a sut y dylid defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch
- 2.6 Sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol

3. Deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod

Meini Prawf:

- 3.1 Sut mae diogelu gwaith rhag difrod a phwrpas diogelu
- 3.2 Pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel a sut y gwneir hynny

4. Deall gweithio i derfynau amser

Meini Prawf:

4.1 Sut mae gwaith yn cael ei wneud i fodloni'r rhaglen yn yr amser a drefnwyd a phwysigrwydd terfynau amser

Deilliannau Cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

- 1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o weithdrefnau sefydliadol a'u nodweddion a'r ffyrdd o'u defnyddio, gan gynnwys cyfleu problemau ar lafar, cadwyn awdurdod, sgysiau anffurfiol, ymgynefino â'r safle.
- 1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion a'r ffyrdd o ddefnyddio lluniadau a chynlluniau, gofynion, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, cyfarwyddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig, a rheoliadau adeiladu, ac yn gwybod sut maent yn cael eu rhoi ar waith.
- 1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n codi o wybodaeth amhriodol – gan gynnwys camglywed cyfarwyddiadau, gwybodaeth anghywir, camddehongli datganiad dull, rhoi gwybodaeth anghywir. Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n codi o adnoddau gan gynnwys deunyddiau anaddas a thywydd garw.
- 1.4** Bydd dysgwyr yn gwybod sut i gadw dogfennau, gan gynnwys: cardiau gwaith, taflenni gwaith, rhestrau deunyddiau/adnoddau a thafleuni amser.

Deilliant 2

- 2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am egwyddorion y darnau canlynol o ddeddfwriaeth; rheoliadau adeiladu; rheoliadau Gweithio ar Uchder (WAH); Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (HASAWA); PUWER; ACOPs; RIDDOR; CDM; COSHH; PPE; LOLER,, rheoliadau Codi a Chario; rheoliadau Sŵn yn y Gwaith.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw diben pob deddfwriaeth, sut mae'n cael ei defnyddio mewn diwydiant a chanlyniadau peidio â chydymffurfio. Bydd dysgwyr yn deall rolau awdurdodau lleol o ran cynllunio a Rheoli Adeiladu a chyda strwythurau treftadaeth gan gynnwys ymgynghori â Cadw.

- 2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae ymateb i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol wrth ddelio â thanau, gollyngiadau, anafiadau ac argyfyngau.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o ddiffoddwyr tân a sut a phryd y cânt eu defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o dân. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu rôl a'u cyfrifoldeb o ran gwagio, atal (dŵr, CO2, ewyn, powdr), y triongl tân a phwyntiau ymgynnull.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o hylifau sy'n gallu colli, sut mae eu hatal a sut mae eu nadu rhag gollwng. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer pecynnau gollwng, arwyddion a sut i gau'r ardal.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o anafiadau a chyfrifoldebau cyffredin gan gynnwys swyddog cymorth cyntaf, pecyn cymorth cyntaf, adrodd am ddamweiniau yn achos argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol, gan gynnwys atal, gweithdrefnau brys, gwasanaethau brys, gweithdrefnau adrodd, mynediad ac allanfeydd ar gyfer cerbydau argyfwng.

2.3 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, gan gynnwys:

- safle – gan gynnwys ffensys dros dro, swyddogion diogelwch, gwylidwriaeth
- gweithle - gan gynnwys agor a chloi
- cwmni - gan gynnwys llofnodi i mewn, gweithdrefnau awdurdodi ID
- gweithiwr - gan gynnwys diogelwch offer, deunyddiau, cyfarpar a cherbydau, eiddo personol

Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau diogelwch mewn annedd domestig o'u cymharu ag ar y safle.

2.4 Bydd dysgwyr yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni damweiniau ac yn gallu adnabod swyddog cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr hefyd yn deall y gyfraith sy'n ymwneud â nifer y bobl y mae angen eu hyfforddi'n briodol ar gyfer cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr yn deall y rolau a'r cyfrifoldebau mewn gwahanol safleoedd, gan gynnwys mewn cartref domestig.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae adrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gweithio a RIDDOR yn achos digwyddiadau perthnasol. Byddant yn gwybod sut i ddefnyddio'r llyfr cofnodi ar gyfer mân ddamweiniau a sut i gofnodi damweiniau fu bron â digwydd, gan gynnwys y gweithdrefnau adolygu ac ail-werthuso sydd ar waith.

2.5 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis, defnyddio a chynnal a chadw cyfarpar diogelu personol yn gywir, RPE, LEV gan gynnwys gwybodaeth am y canlynol; sbectol ddiogelwch, goggles, het galed, siaced lachar, amddiffynwyr clustiau, esgidiau diogelwch, masgiau llwch (gan gynnwys eu profi i sicrhau eu bod yn ffitio'r wyneb), harneisiau diogelwch, menyg diogelwch, menyg addas, matiau atal cwmpo, canllawiau ar gyfer sgaffaldiau, rhwydi, lloriau ffug, hyfforddiant gwn hoelion y gosod cyntaf, a hyfforddiant gwn hoelion yr ail osod.

2.6 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni deddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol, gan gynnwys; cynllun rheoli gwastraff safle (SWMP), ailgylchu, aildefnyddio, gwastraff ar wahân.

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae diogelu gwaith rhag difrod o weithgareddau gwaith cyffredinol a niwed gan grefftwyrr arall a thywydd (domestig yn ogystal â rhai ar y safle). Byddant yn deall y defnydd o orchudd dros dro, gan newid trefn y gwaith er

mwyn diogelu gwaith yn well, gofalu am y gwaith a rhoi sylw i fanylion wrth osod, defnyddio cynfasau llwch ac offer diogelu deunyddiau.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae storio deunyddiau'n gywir cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith.

3.2 Bydd dysgwyr yn gwybod pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel ac yn gyfrifol, gan ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol yn unol â chyfrifoldebau amgylcheddol. Byddant yn gwybod am y gwahanol ddulliau gwaredu, gan gynnwys sgiplau dynodedig, ailgylchu, didoli gwastraff, man casglu gwastraff lleol, biodanwydd.

Deilliant 4

4.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gweithgareddau gwaith, deunyddiau a llafur yn cael eu dyrannu i fodloni'r amserlen sy'n ofynnol o fewn y rhaglen a phwysigrwydd cadw at derfynau amser.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o dargedau cynhyrchiant ac amserlenni, sut mae amseroedd yn cael eu hamcangyfrif a'r amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith, gan gynnwys y tywydd, faint o lafur sydd ar gael, effaith ddilynol trin a storio gwael gan achosi difrod i ddeunyddiau, cymal cosb, ffioedd cadw, enw da, a'r goblygiadau i grefftau eraill.

Uned 232: Sefydlu dulliau rheoli gwaith dimensiynol eilaidd

| | |
|-----------------------------------|-----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 115 |
|-----------------------------------|-----|

Gwybodaeth am yr uned?

Nod yr uned hon yw rhoi i ddysgwyr y ddealltwriaeth a'r sgiliau ymarferol perthnasol sy'n ofynnol i sefydlu dulliau rheoli gwaith dimensiynol eilaidd mewn amgylchedd adeiladu a pheirianeg sifil. Mae hefyd yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, a dewis, paratoi a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Beth yw rheolaeth dimensiynol?
- Pam mae gosod allan yn bwysig mewn peirianeg sifil?
- Pa offer sydd ei angen wrth wneud gwaith dimensiynol?
- Beth yw'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir wrth osod allan mewn gwaith peirianeg sifil?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau Cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn deall yr amrywiaeth o adnoddau sy'n cael eu defnyddio yn y broses o sefydlu dulliau rheoli dimensiynol ar gyfer lluniadau, gofynion ac amserlenni. Bydd dysgwyr yn gwybod ac yn gallu deall nodweddion ac addasrwydd deunyddiau wrth ddewis adnoddau ar gyfer pennu dulliau rheoli gwaith dimensiynol eilaidd ar gyfer prosiectau peirianeg sifil mawr neu breswyl. Bydd ganddynt wybodaeth am gydrannau gwaith tir a byddant yn gallu nodi diffygion a all effeithio ar eu cyfanrwydd strwythurol a'r rhai sydd angen eu newid a'r rhai nad ydynt ond yn effeithio ar yr estheteg, y defnydd ohonynt a'u cyfyngiadau, dewisiadau amgen cynaliadwy.

Mae'r deunyddiau'n cynnwys:

- paent sbreio

- powdwr calch
- creons, sialc, a marcwyr
- fflagiau a llinynnau lein
- hoelion lefelu a hoelion cyfeirio
- byrddau proffil ac ymylon
- lein neilon
- estyll syth

Mae'r offer yn cynnwys:

- trybedd
- ffon
- theodolitau
- *total stations*
- tâp mesur
- lefelau
- lefelau digidol
- sgwariau
- canfyddwyr onglau ac estyll syth
- lefelau ac inclinomedrau
- morthwyl
- malet
- driliau

Mae'r dogfennau'n cynnwys:

- manylebau
- lluniadau
- llenyddiaeth gan weithgynhyrchwyr
- asesiadau risg
- datganiadau dull
- manylion cyswllt y cyflenwr
- proses i ofyn am ragor o wybodaeth
- ymholiadau technegol
- gorchmynion newid
- bil meintiau
- ffurflenni cais ymlaen llaw
- archebion prynu
- nodiadau danfon
- stocrestr
- Gweithio mewn llefydd uchel 2005
- Codi a Chario 1992
- MEWPs (Platfformau Gwaith Symudol y gellir eu Codi)
- PUWER 1998 (Rheoliad Darparu ar gyfer Defnyddio Cyfarpar Gweithio 1998)
- HASAWA 1974 (Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974)
- COSHH 2002 (Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd)

- Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig (TSRGD) - Pennod 8

1.2 Bydd dysgwyr yn deall sut y dylid defnyddio'r adnoddau a sut y rhoddir gwybod am unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r adnoddau. Bydd dysgwyr yn gwybod ac yn deall pa ddeunyddiau sydd i'w defnyddio mewn lleoliadau penodol, y gweithdrefnau a'r protocolau adrodd i'w dilyn i roi gwybod am unrhyw broblemau, yn ogystal â diffygion neu bryderon ynghylch adnoddau penodol. Bydd dysgwyr hefyd yn gwybod sut mae dewis a defnyddio offer a chyfarpar i'r diben a fwriedir a sut mae cywiro neu roi gwybod am unrhyw ddiffygion. Bydd y dysgwr yn gwybod beth yw gofynion graddnodi *total stations*, gan sicrhau bod lluniadau penseiri a pheirianwyr hefyd yn cael eu hadolygu a'u diweddarau, y broses o wirio gwallau safle a gwirio pegiau unigol.

1.3 Bydd dysgwyr yn deall y gweithdrefnau gweithio a ddefnyddir i ddewis y dulliau mwyaf priodol i sefydlu dulliau rheoli dimensiynol eilaidd, yn unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig, lluniadau, amserlenni a chyfarwyddiadau llafar i fodloni maint/anghenion y contract. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae codi archebion, archebu adnoddau i gyflawni tasg benodol gan ddefnyddio gweithdrefnau sefydliadol.

1.4 Bydd dysgwyr yn gwybod am y peryglon sy'n gysylltiedig â sefydlu dulliau rheoli gwaith dimensiynol eilaidd, cynnal a chadw ac adnewyddu cydrannau gwaith tir yn ogystal â'r dull gwaith cywir sydd ei angen i gwblhau'r gwaith o osod dulliau rheoli gwaith dimensiynol eilaidd, gan weithio ar brosiectau peirianeg sifil bach neu breswyl.

Mae'r peryglon yn cynnwys:

- pwysigrwydd gweithio yn unol â datganiadau dull ac asesiadau risg
- cloddio agored
- offer a chyfarpar symudol
- llithro, baglu a syrthio
- gweithio mewn llefydd uchel
- anafiadau i'r dwylo a'r llygaid
- cael eich taro gan wrthrychau sy'n disgyn

Deilliant 2

2.1 Mae angen i ddysgwyr wybod a deall sut mae defnyddio gwybodaeth ar gyfer arferion, gweithdrefnau a sgiliau gwaith diogel ac iach sy'n gysylltiedig â dull, proses a maes y gwaith. Mae angen i ddysgwyr gynllunio eu gwaith yn effeithlon ar sail y cyfarwyddiadau a roddir a chwblhau'r gwaith yn unol â'r manylebau y cytunwyd arnynt. Mae angen i ddysgwyr ddeall pwysigrwydd cyfathrebu ymysg aelodau'r tîm yn ystod gweithgareddau yn ogystal ag anghenion galwedigaethau eraill sy'n gweithio ochr yn ochr â nhw. Bydd dysgwyr yn deall y dulliau cywir a ddefnyddir i sefydlu dimensiynau'n gywir ac i sefydlu manylion y gosodiad o luniadau, manylebau a chyfarwyddiadau llafar. Bydd dysgwyr yn deall sut mae adnabod problemau a sut mae rhoi gwybod amdanynt.

2.2 Mae angen i ddysgwyr wybod a deall pwysigrwydd cynnal a chadw offer a chyfarpar a'r gofal angenrheidiol wrth ddefnyddio offer llaw, offer pŵer cludadwy, offer pŵer, peiriannau a chyfarpar ategol. Mae angen i ddysgwyr hefyd ddeall gweithdrefnau fel archwiliadau cychwyn a chau, graddnodi, ac amserlenni cynnal a chadw sydd wedi'u

cynllunio. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal a chadw cyfarpar i sicrhau ei fod yn gywir pan y'i defnyddir yn y dyfodol a sut dylid glanhau a chynnal a chadw cyfarpar ar ôl ei ddefnyddio. Dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar, gan gynnwys:

- gwirio cywirdeb
- glanhau cyfarpar

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, cyfarpar mesur a marcio a chyfarpar ategol i osod dulliau rheoli dimensiynol eilaidd ar gyfer y gwaith yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir ar gyfer unrhyw dri o'r canlynol

Ystod: llinell, lefel, dyfnder, arwynebedd, uchder, ac ongl

3.2 Dangos sgiliau trosglwyddo, trawsosod, lefelu, mesur, marcio, lleoli, gosod a sicrhau

Canlyniad Darparu (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Gall dysgwyr ddangos eu bod yn gallu cynllunio a sefydlu dulliau rheoli gwaith dimensiynol eilaidd drwy ddilyn yr wybodaeth a'r canllawiau a roddir iddynt. Gall dysgwyr gynhyrchu datganiad dull a rhaglen waith i gynllunio'n effeithlon ar gyfer y gwaith sydd i'w wneud o fewn yr amser y cytunwyd arno ar gyfer y gwaith.

Bydd dysgwyr yn gallu nodi a chael gafael ar wybodaeth addas o amrediad o ffynonellau i sefydlu dulliau rheoli gwaith dimensiynol eilaidd

Dogfennau i gynnwys:

- lluniadau
- manylebau
- TBM's (Meincnod Dros Dro)
- atodlenni
- datganiadau dull
- asesiadau risg
- gwybodaeth dechnegol gweithgynhyrchwyr

Bydd dysgwyr yn gallu gosod rheolaeth gwaith eilaidd yn unol â chyfarwyddiadau neu ddulliau gweithio. Sefydlu tri o'r canlynol:

- llinell (pwyntiau trosglwyddo o brif leoliad i sefydlu ail leoliad)
- lefel (lefel gorffenedig y llawr, domestig, priffyrdd, ffyrdd, llwybrau, lefelau gwrthdro ar gyfer draenio)
- dyfnder (tyllu, sylfeini, slabiau a lloriau, gwasanaethau, carthffosydd, draeniau)
- arwynebedd (terfynau ac ôl-troed)
- uchder (strwythurau presennol, strwythurau newydd, topograffeg, sefydlu torri a llenwi, draenio)
- ongl (ongl sgwâr, arc, uchder, sefydlu pwyntiau eilaidd)

Bydd gofyn i ddysgwyr ddilyn rheoliadau'r sector wrth wneud y gwaith hwn.

Dylai'r rheoliadau gynnwys:

- Gweithio mewn llefydd uchel 2005
- Codi a Chario 1992
- MEWPs (Platfformau Gwaith Symudol y gellir eu Codi)
- PUWER 1998 (Rheoliad Darparu ar gyfer Defnyddio Cyfarpar Gweithio 1998)
- HASAWA 1974 (Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974)
- COSHH 2002 (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002)
- Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig (TSRGD) - Pennod 8

Bydd dysgwyr yn gallu nodi cyfarpar diogelu personol addas a'i ddefnyddio wrth sefydlu dulliau rheoli gwaith dimensiynol eilaidd.

PPE i gynnwys:

- esgidiau diogelwch
- het galed
- siacedi llachar
- gogls
- menyg
- masg llwch
- cyfarpar anadlu
- system awyru ecsôst lleol

Bydd dysgwyr yn gallu cael gfael ar yr offer ategol priodol a'u defnyddio.

Offer ategol i gynnwys:

- ysgolion/ysgolion bach
- sgaffaldiau sgaffald/tŵr
- llwyfannau

Bydd y dysgwyr yn gallu nodi a chael gfael ar wybodaeth addas i sicrhau bod offer yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel wrth sefydlu dulliau rheoli gwaith dimensiynol eilaidd. Sicrhau y glynir wrth lenyddiaeth gan gyflenwyr a MEWP. Bydd y dysgwr yn gallu nodi'r arwyddion a'r mathau o rwystrau sydd eu hangen a'u gosod yn y lleoliad cywir wrth osod rheolaeth dimensiynol ar y gwaith, er mwyn cynnal amgylchedd gweithio diogel.

Mae'r mathau o rwystrau yn cynnwys:

- ffens
- waliau o fordiau solet
- dalennau
- netin
- rhwystrau cerddwyr

Mae'r mathau o arwyddion yn cynnwys:

- Gorfodol (rhaid gwisgo menig, masgiau, gogls, siacedi llachar i'w gwisgo, rhaid gwisgo hetiau caled, cerddwyr yn unig, canu corn)
- Rhybudd (arwyneb llithrig, crydol, fforch godi, a pheiriannau ar waith)
- Gwaharddiad (dim dŵr yfed, dim ysmegu, dim mynediad, sgaffaldiau heb eu gorffen, dim cyffwrdd)

- Rhaid i arwyddion traffig (hysbysu am waith, cau lonydd, cyfyngiadau cyflymder, ac arwyddion ar gyfer rheoli hynny gydymffurfio â Rheoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddiadau Cyffredinol (TSRGD) sydd mewn grym adeg y gwaith).

Bydd dysgwyr yn gallu adnabod a defnyddio offer a chyfarpar i sefydlu dulliau rheoli gwaith dimensiynol eilaidd. Bydd dysgwyr yn gallu cynnal a chadw'r cyfarpar mewn cyflwr da ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol.

Offer i gynnwys:

- theodolitau
- trybedd
- ffon
- *total stations*
- tâp mesur
- lefelau
- sgwariau
- estyll syth
- llinyn neilon
- powdwr calch
- paent sbreio
- creons
- sialc a marcwyr
- fflagiau a llinynnau lein
- hoelion lefelu a chyfeirio
- byrddau proffil ac ymylon

Bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn defnyddio offer rheoli iechyd a diogelwch yn ddiogel wrth sefydlu dulliau rheoli gwaith dimensiynol eilaidd. Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio cyfarpar mynediad yn ddiogel, wrth sefydlu dulliau rheoli gwaith dimensiynol eilaidd, a defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, cyfarpar mesur a marcio a chyfarpar ategol.

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu adnabod a defnyddio offer ac offer mesur i drosglwyddo, trawsosod, lefelu, mesur, a lleoli wrth sefydlu dulliau rheoli gwaith dimensiynol eilaidd.

Offer i gynnwys:

- trybedd
- ffon
- theodolitau
- *total stations*
- tâp mesur
- lefelau
- lefelau digidol
- sgwariau
- lefel optegol

- plwm optig
- laserau
- theodolit gyroscopig

Bydd dysgwyr yn gallu nodi a defnyddio deunyddiau a chydannau marcio i farcio, trwsio a sicrhau'r safle wrth osod dulliau rheoli gwaith dimensiynol eilaidd.

Offer marcio i gynnwys:

- paent sbreio
- powdwr calch
- creons
- sialc a marcwyr
- fflagiau a llinynnau lein
- hoelion lefelu a chyfeirio
- byrddau proffil ac ymylon
- llinellau neilon

Bydd dysgwyr yn gallu adnabod a defnyddio offer a chyfarpar wrth sefydlu dulliau rheoli gwaith dimensiynol eilaidd.

Offer i gynnwys:

- canfyddwyr ongl ac estyll syth
- lefelau saer ac inclinomedrau
- morthwyl
- malet
- driliau
- rhaw a brwsh
- berfa

Bydd dysgwyr yn gallu golchi cyfarpar gan ddefnyddio cemegau storio cyfarpar yn ddiogel, gan sicrhau bod yr ardal waith yn cael ei chadw'n lân ac yn daclus. Rhoi'r holl wastraff dynodedig yn y cynwysyddion cywir

Gwastraff i gynnwys:

- pren metel
- cerrig
- cemegion (peryglus a heb fod yn beryglus)

Uned 233: Gosod draeniau

| | |
|-----------------------------------|-----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 120 |
|-----------------------------------|-----|

Gwybodaeth am yr uned?

Nod yr uned hon yw rhoi i ddysgwyr y ddealltwriaeth a'r sgiliau ymarferol perthnasol sy'n angenrheidiol ar gyfer gosod systemau draenio mewn amgylchedd adeiladu a pheirianeg sifil. Mae hefyd yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, a dewis, paratoi a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Pa waith nodweddiadol sy'n cael ei wneud wrth osod draeniau ar safleoedd adeiladu?
- Pam mae iechyd a diogelwch yn bwysig wrth osod draeniau?
- Pam mae angen i ni osod draeniau wrth gyflawni gweithgareddau peirianeg sifil?
- Sawl math gwahanol o systemau draenio sydd ar gael?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau Cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn deall yr amrywiaeth o adnoddau sy'n cael eu defnyddio i osod draeniau yn unol â gofynion lluniadau ac amserlenni. Bydd dysgwyr yn gwybod ac yn gallu deall nodweddion ac addasrwydd deunyddiau wrth ddewis adnoddau ar gyfer amgylchedd adeiladu a pheirianeg sifil. Bydd ganddynt wybodaeth am gydrannau draenio a byddant yn gallu nodi diffygion sy'n gallu effeithio ar gyfanrwydd y strwythur a'r angen i'w newid a'r rheini sy'n effeithio ar yr estheteg yn unig, eu defnydd a'u cyfyngiadau, dewisiadau amgen cynaliadwy.

Mae'r deunyddiau'n cynnwys:

- siambrau archwilio
- siambrau tyllau archwilio dwfn
- ffitiadau
- penelinoedd

- cyplau
- cysylltiadau
- gylïau trapiau P
- gylïau potel
- hoperi gylïau
- tyllau prawf (plastig, gwydr ffeibr, concrit wedi'i rag-gastio)
- caeadau tyllau archwilio
- deunyddiau selio (adlynion, cyfansoddion, toddyddion)
- deunydd llenwi â llaw neu ddeunydd ôl-lenwi
- agregau
- deunyddiau a brics smentaidd
- blociau a bagiau tywod
- iraid
- Pibellau; o dan 150mm o ddiamedr, neu dros 150mm o ddiamedr gan gynnwys:
 - clai
 - metel
 - concrit
 - Pibellau UPVC

Mae'r offer yn cynnwys:

- llygaid rodiau
- ffitiadau mynediad
- ysgolion
- ysgolion bach
- offer harnais
- trybedd
- gantri a winshis
- rhawiau a cheibiau
- berfa
- llifiau
- ffeiliau
- tâp mesur
- lefel
- driliau
- newyddion a generaduron
- digar bach
- llif betrol
- sganiwr cyfleustodau

Mae'r dogfennau'n cynnwys:

- manylebau
- lluniadau
- llenyddiaeth gan weithgynhyrchwyr
- asesiadau risg

- datganiadau dull
- safonau priffyrdd
- archebion swyddogol
- Gweithio mewn llefydd uchel 2005
- Codi a Chario 1992
- MEWPs (Platfformau Gwaith Symudol y gellir eu Codi)
- PUWER 1998 (Rheoliad Darparu ar gyfer Defnyddio Cyfarpar Gweithio 1998)
- HASAWA 1974 (Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd)
- COSHH 2002 (Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd 2002)
- Dogfen rheoliadau cymeradwy H, Draenio ar gyfer Dŵr Budur a Dŵr Glaw gan gynnwys Storio a Gwaredu Gwastraff
- Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig (TSRGD) - Pennod 8

1.2 Bydd dysgwyr yn deall sut y dylid defnyddio'r adnoddau a sut y rhoddir gwybod am unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r adnoddau. Bydd dysgwyr yn gwybod ac yn deall pa ddeunyddiau sydd i'w defnyddio mewn lleoliadau penodol, y gweithdrefnau a'r protocolau adrodd i'w dilyn i roi gwybod am unrhyw broblemau, yn ogystal â diffygion neu bryderon ynghylch adnoddau penodol. Bydd dysgwyr hefyd yn gwybod sut mae dewis a defnyddio offer a chyfarpar i'r diben a fwriedir a sut mae cywiro neu roi gwybod am unrhyw ddiffygion.

1.3 Bydd dysgwyr yn deall y gweithdrefnau a ddefnyddir i ddewis y dulliau mwyaf priodol i osod deunyddiau cysylltiedig â draenio, yn unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig, lluniadau, amserlenni a chyfarwyddiadau llafar i fodloni maint/anghenion y contract. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae codi archebion, archebu adnoddau i gyflawni tasg benodol gan ddefnyddio gweithdrefnau sefydliadol.

1.4 Bydd dysgwyr yn gwybod ac yn nodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â gosod deunyddiau cysylltiedig â draenio, cynnal a chadw ac adnewyddu cydrannau deunyddiau yn ogystal â'r dull cywir o weithio sy'n angenrheidiol i osod deunyddiau sy'n ymwneud â draenio.

Mae'r peryglon yn cynnwys:

- Pwysigrwydd gweithio gyda datganiadau dull ac asesiadau risg
- cloddio agored
- offer a chyfarpar symudol
- llithro, baglu a syrthio
- gweithio mewn llefydd uchel
- anafiadau i'r dwylo a'r llygaid
- cael eich taro gan wrthrychau sy'n disgyn

Deilliant 2

2.1 Mae angen i ddysgwyr wybod a deall sut mae defnyddio gwybodaeth ar gyfer arferion, gweithdrefnau a sgiliau gwaith diogel ac iach sy'n gysylltiedig â dull, proses a maes y gwaith. Mae angen i ddysgwyr gynllunio eu gwaith yn effeithlon ar sail y cyfarwyddiadau a roddir a chwblhau'r gwaith yn unol â'r manylbau y cytunwyd arnynt. Mae angen i

ddysgwyr ddeall pwysigrwydd cyfathrebu ymysg aelodau'r tîm yn ystod gweithgareddau yn ogystal ag anghenion galwedigaethau eraill sy'n gweithio ochr yn ochr â nhw. Bydd dysgwyr yn deall y dulliau cywir a ddefnyddir i sefydlu dimensiynau'n gywir ac i sefydlu manylion y gosodiad o luniadau, manylebau a chyfarwyddiadau llafar. Bydd dysgwyr yn deall sut mae adnabod problemau a sut mae rhoi gwybod amdanynt.

2.2 Mae angen i ddysgwyr wybod a deall pwysigrwydd cynnal a chadw offer a chyfarpar a'r gofal angenrheidiol wrth ddefnyddio offer llaw, offer pŵer cludadwy, offer pŵer, peiriannau a chyfarpar ategol. Mae angen i ddysgwyr hefyd ddeall gweithdrefnau fel archwiliadau cychwyn a chau, graddnodi, ac amserlenni cynnal a chadw sydd wedi'u cynllunio. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal a chadw cyfarpar i sicrhau ei fod yn gywir pan y'i defnyddir yn y dyfodol a sut dylid glanhau a chynnal a chadw cyfarpar ar ôl ei ddefnyddio. Dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar, gan gynnwys:

- gwirio cywirdeb
- glanhau cyfarpar

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Gosod deunyddiau gwelyo, gosod a phrofi pibellau (e.e. clai, concrit, metel, neu blastig) ar gyfer draeniau dŵr wyneb, budr a/neu wyneb newydd ar gyfer o leiaf un o'r canlynol:

Ystod: siambrau archwilio (e.e., brics, concrit, metel neu blastig), systemau dŵr (e.e. celloedd, cwlfertau, capasiti uchel, llinol, pyllau cydbwyso, atalwyr, cyfarpar ailgylchu, ffosydd socian, systemau draenio trefol cynaliadwy), systemau dŵr budr (e.e. carthbyllau, tanciau septig, gwelyau cyrs, safleoedd trin)

3.2 Dangos sgiliau mesur, gwirio, marcio allan, torri, gosod, lleoli, ffitio, ymuno, lefelu, plymio, alinio, sicrhau a phrofi

3.3 Can am bibell â deunyddiau penodol

3.4 Ôl-lenwi ffos gan ddefnyddio cyfarwyddiadau gwaith a roddir ar gyfer deunyddiau draenio wedi'u cywasgu a deunydd rhydd

Canlyniad Darparu (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Gall dysgwyr ddangos eu bod yn gallu cynllunio ar gyfer gosod systemau draenio drwy ddilyn yr wybodaeth a'r canllawiau a roddir iddynt drwy ddefnyddio'r dogfennau perthnasol. Gall dysgwyr gynhyrchu datganiad dull a rhaglen waith i gynllunio'n effeithlon ar gyfer y gwaith sydd i'w wneud o fewn yr amser y cytunwyd arno ar gyfer y gwaith.

Bydd dysgwyr yn gallu canfod a dethol gwybodaeth addas o drefn ffynonellau ar gyfer gosod systemau draenio

Dogfennau i gynnwys:

- manylebau
- lluniadau
- llenyddiaeth gan weithgynhyrchwyr
- asesiadau risg
- datganiadau dull
- safonau priffyrdd
- archebion swyddogol

Bydd dysgwyr yn gallu gosod deunyddiau cysylltiedig â draenio yn unol â chyfarwyddiadau neu ddulliau gweithio. Sefydlu un o'r canlynol:

- Siambrau archwilio (brics, concrit, metel neu blastig)

- systemau dŵr (celloedd, cwlffertau, capasiti uchel, llinol, cydbwysu pyllau, atalwyr, offer ailgylchu, socian, systemau draenio trefol cynaliadwy)
- systemau dŵr budr (pyllau dŵr, tanciau septig, gwelyau cyrs, gweithfeydd trin)

Bydd gofyn i ddysgwyr ddilyn rheoliadau'r sector wrth wneud y gwaith hwn.

Dylai'r rheoliadau gynnwys:

- Gweithio mewn llefydd uchel 2005
- Codi a Chario 1992
- MEWPs (Platfformau Gwaith Symudol y gellir eu Codi)
- PUWER 1998 (Rheoliad Darparu ar gyfer Defnyddio Cyfarpar Gweithio 1998)
- HASAWA 1974 (Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974)
- COSHH 2002 (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002)
- Dogfen rheoliadau cymeradwy H, Draenio ar gyfer Dŵr Budur a Dŵr Glaw gan gynnwys Storio a Gwaredu Gwastraff
- Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig (TSRGD) - Pennod 8

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu gosod systemau draenio gan ddefnyddio offer a chyfarpar i fesur, mesur marcio allan, torri, gosod, gosod, ffitio, uno, lefelu, plymio, alinio, sicrhau a phrofi

Bydd dysgwyr yn gallu dod o hyd i gyfarpar diogelu personol addas a'i ddefnyddio wrth osod systemau draenio

PPE i gynnwys:

- esgidiau diogelwch
- het galed
- siacedi llachar
- gogls
- menyg
- masg llwch
- cyfarpar anadlu
- system awyru ecsôst lleol

Bydd dysgwyr yn gallu cael gfael ar yr offer ategol priodol a'u defnyddio.

Offer ategol i gynnwys:

- ysgolion/ysgolion bach
- sgaffaldiau sgaffald/tŵr
- llwyfannau

Bydd y dysgwyr yn gallu nodi a chael gfael ar wybodaeth addas i sicrhau bod offer yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel wrth baratoi a chymysgu deunyddiau cysylltiedig ag adeiladu. Sicrhau y glynir wrth lenyddiaeth cyflenwyr, MEWPs a COSHH. Bydd y dysgwr yn gallu nodi'r arwyddion a'r mathau o rwystrau sydd eu hangen a'u gosod yn y lleoliad cywir wrth baratoi a chymysgu deunyddiau cysylltiedig ag adeiladu, er mwyn cynnal amgylchedd gweithio diogel.

Mae'r mathau o rwystrau yn cynnwys:

- ffens
- waliau o fordiau solet
- dalennau
- netin
- rhwystrau cerddwyr

Mae'r mathau o arwyddion yn cynnwys:

- Gorfodol (rhaid gwisgo menig, masgiau, gogls, siacedi llachar i'w gwisgo rhaid gwisgo hetiau caled, cerddwyr yn unig, canu corn)
- Rhybudd (arwyneb llithrig, fforch godi cyrydol, fforch godi, peiriannau ar waith, cloddio)
- Gwaharddiad (dim dŵr yfed, dim ysmegu, dim mynediad, sgaffaldiau heb eu gorffen, dim cyffwrdd)
- Rhaid i arwyddion traffig (hysbysu am waith, cau lonydd, cyfyngiadau cyflymder, ac arwyddion ar gyfer rheoli hynny gydymffurfio â Rheoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddiadau Cyffredinol (TSRGD) sydd mewn grym adeg y gwaith)

Bydd dysgwyr yn gallu adnabod a defnyddio offer a chyfarpar i osod draeniau. Bydd dysgwyr yn gallu cynnal a chadw'r cyfarpar mewn cyflwr da ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol

Offer i gynnwys:

- llygaid rodiau
- ffitiadau mynediad
- ysgolion
- ysgolion bach
- offer harnais
- trybedd
- gantri a winshis
- rhawiau a cheibiau
- berfa
- llifiau
- ffeiliau
- tâp mesur
- lefel saer
- driliau
- newidyddion a generaduron
- digar bach
- llif betrol
- sganiwr cyfleustodau

Bydd y dysgwyr yn gallu golchi cyfarpar gan ddefnyddio cemegau, cadw offer a chyfarpar yn ddiogel, gan sicrhau bod yr ardal waith yn cael ei chadw'n lân ac yn daclus. Rhoi'r holl wastraff dynodedig yn y cynwysyddion cywir

Gwastraff i gynnwys:

- pren metel
- cerrig
- cemegion a gypswm (peryglus a heb fod yn beryglus)

3.3 Bydd dysgwyr yn gallu amgylchynu pibelli draenio yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddir gan ddefnyddio'r deunyddiau a nodwyd gan ddilyn gofynion iechyd a diogelwch a rheoliadau cymeradwy

Deunyddiau i gynnwys y canlynol:

- tywod
- graean bras
- deunydd smentaidd

3.4 Bydd dysgwyr yn gallu ôl-lenwi ffosydd yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddir gan ddefnyddio'r deunyddiau a nodwyd a chan ddilyn gofynion iechyd a diogelwch a rheoliadau cymeradwy

Deunyddiau ôl-lenwi i gynnwys:

- graean
- deunyddiau gronynnog heb fod yn fwy na 40mm a phridd

Bydd dysgwyr yn sicrhau bod deunyddiau wedi'u hól-lenwi yn rhydd o gerrig mawr, rwbwl adeiladu, deunydd pren a llysiau.

Uned 234: Paratoi a chymysgu deunyddiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 93 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Nod yr uned hon yw rhoi i ddysgwyr y ddealltwriaeth a'r sgiliau ymarferol perthnasol sy'n angenrheidiol i baratoi a chymysgu deunyddiau adeiladu, mewn amgylchedd adeiladu a pheirianeg sifil. Mae hefyd yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, a dewis, paratoi a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Pa wahanol fathau o ddeunyddiau sy'n cael eu defnyddio wrth gymysgu concrit?
- Pa fathau o gyfarpar diogelu personol sydd eu hangen wrth gymysgu deunyddiau?
- Pa wahanol fathau o ddeunyddiau sy'n cael eu defnyddio wrth gymysgu mortar?
- Sawl dull gwahanol sydd o gymysgu deunyddiau?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb y contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau Cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn deall yr amrywiaeth o adnoddau sy'n cael eu defnyddio yn y broses i baratoi a chymysgu deunyddiau cysylltiedig ag adeiladu yn unol â lluniadau, gofynion ac amserlenni. Bydd dysgwyr yn gwybod ac yn gallu deall nodweddion ac addasrwydd deunyddiau wrth ddewis adnoddau i baratoi a chymysgu deunyddiau cysylltiedig ag adeiladu. Bydd ganddynt wybodaeth am gydrannau deunyddiau a byddant yn gallu nodi diffygion sy'n gallu effeithio ar gyfanrwydd y strwythur a'r angen i'w newid a'r rheini sy'n effeithio ar yr estheteg yn unig, eu defnydd a'u cyfyngiadau, dewisiadau amgen cynaliadwy.

Mae'r deunyddiau'n cynnwys:

- agregau
- deunyddiau smentaidd
- plastrau

- resinau
- adlynion
- cyfryngau bondio
- lliwiau
- deunyddiau cotio sy'n dal dŵr
- growtiau a chyfansoddion a gymysgwyd ymlaen llaw

Offer i gynnwys:

- deunydd i amddiffyn lloriau
- bwcedi
- cynwysyddion dŵr
- rhaw a brwsh
- berfâu
- wisg cymysgu
- peiriant cymysgu sment
- newidyddion
- generaduron
- offer pŵer

Dogfennau i gynnwys:

- manylebau
- lluniadau
- llenyddiaeth gan weithgynhyrchwyr
- asesiadau risg
- datganiadau dull
- manylion cyswllt y cyflenwr
- Y broses i ofyn am ragor o wybodaeth
- ymholiadau technegol
- gorchmynion newid
- bil meintiau
- ffurflenni cais ymlaen llaw
- archebion prynu
- nodiadau danfon
- stocrestr
- Gweithio mewn llefydd uchel 2005
- Codi a Chario 1992
- MEWPs (Platfform Gweithio Symudol y gellir ei Godi)
- PUWER 1998 (Reoliad Darparu Offer Gweithio 1998)
- HASAWA 1974 (Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974)
- COSHH 2002 (Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd)

1.3 Bydd dysgwyr yn deall sut y dylid defnyddio'r adnoddau a sut y rhoddir gwybod am unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r adnoddau. Bydd dysgwyr yn gwybod ac yn deall pa ddeunyddiau sydd i'w defnyddio mewn lleoliadau penodol, y gweithdrefnau a'r protocolau adrodd i'w dilyn i roi gwybod am unrhyw broblemau, yn ogystal â diffygion neu bryderon ynghylch adnoddau penodol. Bydd dysgwyr hefyd yn gwybod sut mae dewis a defnyddio offer a chyfarpar i'r diben a fwriedir a sut mae cywiro neu roi gwybod am unrhyw ddiffygion.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall y gweithdrefnau gweithio a ddefnyddir i ddewis y dulliau mwyaf priodol i baratoi a chymysgu deunyddiau cysylltiedig ag adeiladu, yn unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig, lluniadau, amserlenni a chyfarwyddiadau llafar i fodloni maint/anghenion y contract. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae codi archebion, archebu adnoddau i gyflawni tasg benodol gan ddefnyddio gweithdrefnau sefydliadol.

1.5 Bydd dysgwyr yn gwybod am y peryglon sy'n gysylltiedig â pharatoi a chymysgu deunyddiau sy'n ymwneud ag adeiladu, cynnal a chadw ac adnewyddu cydrannau deunyddiau, yn ogystal â'r dull gweithio cywir sydd ei angen i baratoi a chymysgu deunyddiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu.

Mae'r peryglon yn cynnwys:

- pwysigrwydd gweithio yn unol â datganiadau dull ac asesiadau risg
- llithro, baglu a syrthio
- gweithio mewn llefydd uchel
- anafiadau i'r dwylo a'r llygaid
- cael eich taro gan wrthrychau sy'n disgyn

Deilliant 2

2.1 Mae angen i ddysgwyr wybod a deall sut mae defnyddio gwybodaeth ar gyfer arferion, gweithdrefnau a sgiliau gwaith diogel ac iach sy'n ymwneud â dull, proses a maes y gwaith. Mae angen i ddysgwyr gynllunio eu gwaith yn effeithlon ar sail y cyfarwyddiadau a roddir a chwblhau'r gwaith yn unol â'r manylebau y cytunwyd arnynt. Mae angen i ddysgwyr ddeall pwysigrwydd cyfathrebu ymysg aelodau'r tîm yn ystod gweithgareddau yn ogystal ag anghenion galwedigaethau eraill sy'n gweithio ochr yn ochr â nhw. Bydd dysgwyr yn deall y dulliau cywir sy'n cael eu defnyddio i baratoi a chymysgu deunyddiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu er mwyn canfod math a maint y deunyddiau'n gywir a sefydlu'r manylion o luniadau, manylebau a chyfarwyddiadau llafar. Bydd dysgwyr yn deall sut mae adnabod problemau a sut mae rhoi gwybod amdanynt.

2.2 Mae angen i ddysgwyr wybod a deall pwysigrwydd cynnal a chadw offer a chyfarpar a'r gofal i'r gweithiwr sy'n gysylltiedig ag offer llaw ac offer pŵer cludadwy. Mae angen i ddysgwyr hefyd ddeall gweithdrefnau, graddnodi, ac amserlenni cynnal a chadw sydd wedi'u cynllunio. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal a chadw cyfarpar i sicrhau ei fod yn gywir pan y'i defnyddir yn y dyfodol a sut dylid glanhau a chynnal a chadw cyfarpar ar ôl ei ddefnyddio. Dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar, gan gynnwys:

- gwirio cywirdeb
- glanhau cyfarpar

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar i baratoi o leiaf ddau o'r deunyddiau canlynol i'w defnyddio yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir

Ystod: smentaidd, plastrau, resin, adlynon, cyfryngau bondio, lliwiau, gorchudd sy'n dal dŵr, growtiau, cyfansoddion a gymysgwyd ymlaen llaw

3.2 Dangos sgiliau gweithio wrth fesur, troi, cymysgu, corddi a chyfuno

Canlyniad Darparu (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Gall dysgwyr ddangos eu bod yn gallu cynllunio ar gyfer paratoi a chymysgu deunyddiau cysylltiedig ag adeiladu drwy ddilyn yr wybodaeth a'r canllawiau a roddir iddynt drwy ddefnyddio'r dogfennau perthnasol. Gall dysgwyr gynhyrchu datganiad dull a rhaglen waith i gynllunio'n effeithlon ar gyfer y gwaith sydd i'w wneud o fewn yr amser y cytunwyd arno ar gyfer y gwaith.

Bydd dysgwyr yn gallu canfod a dethol gwybodaeth addas o drefn ffynonellau ar gyfer paratoi a chymysgu deunyddiau adeiladu cysylltiedig

Dogfennau i gynnwys:

- lluniadau
- manylebau
- TBM's (Meincnod Dros Dro)
- atodlenni
- datganiadau dull
- asesiadau risg
- gwybodaeth dechnegol gan weithgynhyrchwyr

Bydd dysgwyr yn gallu paratoi a chymysgu deunyddiau cysylltiedig ag adeiladu yn unol â chyfarwyddiadau neu ddulliau gweithio. Sefydlu dau o'r canlynol:

- smentaidd (concridd, mortar, sgrid, concreidd asffalt)
- plastrau (rendr sment, rendr calch, rendr polymer, rendr acrylig, deunyddiau gypswm)
- resin (resin ac agregau epocsi asffalt, arwyneb resin)
- adlynon (marciau thermoplastig ar y ffordd, rhwymwr Polymerau glud budr)
- cyfryngau bondio (cyfryngau bondio epocsi, cyfryngau bondio acrylig, asetad polyfynyl)
- lliwiau (llifynnau a phigmentau organig, llifynnau asid, llifynnau toddyddion)
- gwaith cotio sy'n dal dŵr (pilenni hylifol, tancio, systemau a osodir yn haenau, systemau llew defnyddir hylifau)

- growt (growt sment, growt bentonit, growt cemegol, growt bitwminaidd)
- cyfansoddion wedi eu cymysgu ymlaen llaw (compowndiau caledu concret, mortar cymysg parod, epocsi asffalt)

Bydd gofyn i ddysgwyr ddilyn rheoliadau'r sector wrth wneud y gwaith hwn.

Dylai'r rheoliadau gynnwys:

- Gweithio mewn llefydd uchel 2005
- Codi a Chario 1992
- MEWPs (Platfform Gweithio Symudol y gellir ei Godi)
- PUWER 1998 (Reoliad Darparu Offer Gweithio 1998)
- HASAWA 1974 (Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974)
- COSHH 2002 (Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd)

Bydd dysgwyr yn gallu dod o hyd i gyfarpar diogelu personol addas a'i ddefnyddio wrth baratoi a chymysgu deunyddiau cysylltiedig ag adeiladu

PPE i gynnwys:

- Esgidiau diogelwch
- het galed
- siacedi llachar
- gogls
- menyg
- masg llwch
- cyfarpar anadlu
- system awyru ecsôst lleol

Bydd dysgwyr yn gallu cael gafael ar yr offer ategol priodol a'u defnyddio.

Offer ategol i gynnwys:

- ysgolion/ysgolion bach
- sgaffaldiau sgaffald/tŵr
- llwyfannau

Bydd y dysgwyr yn gallu nodi a chael gafael ar wybodaeth addas i sicrhau bod offer yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel wrth baratoi a chymysgu deunyddiau cysylltiedig ag adeiladu. Sicrhau y glynir wrth lenyddiaeth cyflenwyr, MEWPs a COSHH. Bydd y dysgwr yn gallu nodi'r arwyddion a'r mathau o rwystrau sydd eu hangen a'u gosod yn y lleoliad cywir wrth baratoi a chymysgu deunyddiau cysylltiedig ag adeiladu, er mwyn cynnal amgylchedd gweithio diogel.

Mae'r mathau o rwystrau yn cynnwys:

- ffens
- waliau o fordiau solet
- dalennau
- netin
- rhwystrau cerddwyr

Mae'r mathau o arwyddion yn cynnwys:

- Gorfodol (rhaid gwisgo menig, masgiau, gogls, siacedi llachar i'w gwisgo, rhaid gwisgo hetiau caled, cerddwyr yn unig, canu corn)
- Rhybudd (arwyneb llithrig, cyrydol, fforch godi yn weithredol)
- Gwaharddiad (dim dŵr yfed, dim ysmegu, dim mynediad, sgaffaldiau heb eu gorffen, dim cyffwrdd)

Bydd dysgwyr yn gallu adnabod a defnyddio offer a chyfarpar i baratoi a chymysgu deunyddiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu. Bydd dysgwyr yn gallu cynnal a chadw'r cyfarpar mewn cyflwr da ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol.

Offer i gynnwys:

- deunydd i amddiffyn lloriau
- bwcedi
- cynwysyddion dŵr
- Siefl a brws
- berfâu
- wisg cymysgu
- peiriant cymysgu sment
- newidyddion
- generaduron
- offer pŵer

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu paratoi a chymysgu deunyddiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu gan ddefnyddio offer a chyfarpar i **fesur, troi, cymysgu, corddi a chyfuno**.

Offer troi a chymysgu i gynnwys:

- deunydd i amddiffyn lloriau
- bwcedi
- cynwysyddion dŵr
- siefl a brws
- berfâu
- wisg cymysgu
- peiriant cymysgu sment
- newidyddion
- generaduron
- offer pŵer

Offer mesur i gynnwys:

- bwcedi
- blwch mesur
- clorian
- cynwysyddion mesur

Bydd y dysgwyr yn gallu golchi cyfarpar gan ddefnyddio cemegau, cadw offer a chyfarpar yn ddiogel, gan sicrhau bod yr ardal waith yn cael ei chadw'n lân ac yn daclus. Rhoi'r holl wastraff dynodedig yn y cynwysyddion cywir

Gwastraff i gynnwys:

- pren metel
- cerrig
- cemegion a gypswm (peryglus a heb fod yn beryglus)

Llwybr I: Gosod Llechi To a Theils

Uned 235: Gwybodaeth graidd am doi â llechi a theils

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 50 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth gyffredinol sydd ei hangen ar gyfer y llwybr hwn.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth
- deall arferion gweithio diogel
- deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod
- deall gweithio i derfynau amser

Mae cynnwys yr uned hon wedi cael ei gyflwyno mewn ffordd generig gan ei fod yn gyson drwy lawer o'r unedau sgiliau yn y cymhwyster hwn. Dylid addysgu'r cynnwys, a bydd yn cael ei asesu'n gyffredinol ac yng nghyd-destun yr unedau sgiliau canlynol (lle bo hynny'n briodol);

- Gosod is-haenau, estyll a chydrannau toi
- Gosod teils to un lap o amrywiol drwch
- Gosod to teils plaen
- Gosod gwaith plwm wedi ei ffurfio ymlaen llaw ar doeau
- Gosod llechi to naturiol o faint rheolaidd yn unol â manylion safonol y to
- Tynnu ac adfer gorchuddion to

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Pam mae ymgynefino â safleoedd yn bwysig?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cerdyn gwaith a thaflen amser?
- Pwy yw Cadw a beth maen nhw'n ei wneud?

Deilliant dysgu

1. Deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth

Meini Prawf

- 1.1 Gweithdrefnau'r sefydliad a ddatblygwyd i roi gwybod am wybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas a'u cywiro, a sut y cânt eu rhoi ar waith
- 1.2 Y mathau o wybodaeth, eu ffynhonnell a sut maen nhw'n cael eu dehongli
- 1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad i ddatrys problemau gyda'r wybodaeth a pham ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu dilyn
- 1.4 Pwysigrwydd cadw dogfennau

2. Deall arferion gwaith diogel

Meini Prawf

- 2.1 Lefel y ddealltwriaeth y mae'n rhaid i weithwyr ei chael o wybodaeth ar gyfer deddfwriaeth berthnasol, gyfredol a chanllawiau swyddogol a sut mae'n cael ei chymhwyso
- 2.2 Sut y dylid ymateb i argyfyngau a phwy ddylai ymateb
- 2.3 Gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol
- 2.4 Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny
- 2.5 Pam, pryd a sut y dylid defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch
- 2.6 Sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r deddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol

3. Deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod

Meini Prawf

- 3.1 Sut mae diogelu gwaith rhag difrod a phwrpas diogelu
- 3.2 Pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel a sut y gwneir hynny

4. Deall gweithio i derfynau amser

Meini Prawf

4.1 Sut mae gwaith yn cael ei wneud i fodloni'r rhaglen yn yr amser a drefnwyd a phwysigrwydd terfynau amser

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

- 1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o weithdrefnau sefydliadol a'u nodweddion a'r ffyrdd o'u defnyddio, gan gynnwys cyfleu problemau ar lafar, cadwyn awdurdod, sgysiau anffurfiol, ymgynefino â'r safle.
- 1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion a'r ffyrdd o ddefnyddio lluniadau a chynlluniau, gofynion, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, cyfarwyddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig, a rheoliadau adeiladu, ac yn gwybod sut maent yn cael eu rhoi ar waith.
- 1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n codi o wybodaeth amhriodol – gan gynnwys camglywed cyfarwyddiadau, gwybodaeth anghywir, camddehongli datganiad dull, rhoi gwybodaeth anghywir. Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n codi o adnoddau gan gynnwys deunyddiau anaddas a thywydd garw.
- 1.4 Bydd dysgwyr yn gwybod sut i gadw dogfennau, gan gynnwys: cardiau gwaith, taflenni gwaith, rhestrau deunyddiau/adnoddau a thafleuni amser.

Deilliant 2

- 2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am egwyddorion y darnau canlynol o ddeddfwriaeth; rheoliadau adeiladu; rheoliadau Gweithio ar Uchder (WAH); Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (HASAWA); PUWER; ACOPs; RIDDOR; CDM; COSHH; PPE; LOLER, rheoliadau Codi a Chario; rheoliadau Sŵn yn y Gwaith.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw diben pob deddfwriaeth, sut mae'n cael ei defnyddio mewn diwydiant a chanlyniadau peidio â chydymffurfio. Bydd dysgwyr yn deall rolau awdurdodau lleol o ran cynllunio a Rheoli Adeiladu a chyda strwythurau treftadaeth gan gynnwys ymgynghori â Cadw.

- 2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae ymateb i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol wrth ddelio â thanau, gollyngiadau, anafiadau ac argyfyngau.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o ddiffoddwyr tân a sut a phryd y cânt eu defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o dân. Byddant yn gwybod beth yw eu rôl a'u cyfrifoldeb o ran gwagio, atal (dŵr, CO₂, ewyn, powdr), y triongl tân a phwyntiau ymgynnull.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o hylifau sy'n gallu colli, sut mae eu hatal a sut mae eu nadu rhag gollwng. Byddant yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer pecynnau gollwng, arwyddion a sut i gau'r ardal.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o anafiadau a chyfrifoldebau cyffredin gan gynnwys swyddog cymorth cyntaf, pecyn cymorth cyntaf, adrodd am ddamweiniau yn achos argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol, gan gynnwys atal, gweithdrefnau brys, gwasanaethau brys, gweithdrefnau adrodd, mynediad ac allanfeydd ar gyfer cerbydau argyfwng.

2.3 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, gan gynnwys:

- safle – gan gynnwys ffensys dros dro/bordiau, swyddogion diogelwch, gwyliadwriaeth
- gweithle - gan gynnwys agor a chloi
- cwmni - gan gynnwys llofnodi i mewn, gweithdrefnau awdurdodi ID
- gweithiwr - gan gynnwys diogelwch offer, deunyddiau, cyfarpar a cherbydau, eiddo personol

Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau diogelwch mewn annedd domestig o'u cymharu ag ar y safle.

2.4 Bydd dysgwyr yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni damweiniau ac yn gallu adnabod swyddog cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr hefyd yn deall y gyfraith sy'n ymwneud â nifer y bobl y mae angen eu hyfforddi'n briodol ar gyfer cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr yn deall y rolau a'r cyfrifoldebau mewn gwahanol safleoedd, gan gynnwys mewn cartref domestig.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae adrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gweithio a RIDDOR yn achos digwyddiadau perthnasol. Byddant yn gwybod sut i ddefnyddio'r llyfr cofnodi ar gyfer mân ddamweiniau a sut i gofnodi damweiniau fu bron â digwydd, gan gynnwys y gweithdrefnau adolygu ac ail-werthuso sydd ar waith.

2.5 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis, defnyddio a chynnal a chadw cyfarpar diogelu personol yn gywir, RPE, LEV gan gynnwys gwybodaeth am y canlynol; sbectol ddiogelwch, goggles, het galed, siaced lachar, amddiffynwyr clustiau, esgidiau diogelwch, masgiau llwch (yn cynnwys profi'r masg i sicrhau ei fod yn ffitio'r wyneb), harneisiau diogelwch, menyg diogelwch, menyg addas, matiau cwmpo, canllawiau ar gyfer sgaffaldiau, rhwydi, lloriau ffug, hyfforddiant gwn hoelion y gosod cyntaf, a hyfforddiant gwn hoelion yr ail osod.

2.6 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni deddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol, gan gynnwys: cynllun rheoli gwastraff safle (SWMP), ailgylchu, aildefnyddio, gwastraff ar wahân.

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae diogelu gwaith rhag difrod o weithgareddau gwaith cyffredinol a chrefftau eraill ac amodau'r tywydd (domestig yn ogystal ag ar y safle). Byddant yn deall y defnydd o orchudd dros dro, gan newid trefn y gwaith er mwyn

diogelu gwaith yn well, gofalu am y gwaith a rhoi sylw i fanylion wrth osod, defnyddio cynfasau llwch ac offer diogelu deunyddiau.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae storio deunyddiau'n gywir cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith.

3.2 Bydd dysgwyr yn gwybod pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel ac yn gyfrifol, gan ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol yn unol â chyfrifoldebau amgylcheddol. Byddant yn gwybod am y gwahanol ddulliau gwaredu, gan gynnwys sgiopiau dynodedig, ailgylchu, didoli gwastraff, man casglu gwastraff lleol, biodanwydd.

Deilliant 4

4.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gweithgareddau gwaith, deunyddiau a llafur yn cael eu dyrannu i fodloni'r amserlen ofynnol o fewn y rhaglen a phwysigrwydd cadw at derfynau amser.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o dargedau cynhyrchiant ac amserlenni, sut mae amseroedd yn cael eu hamcangyfrif a'r amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith, gan gynnwys y tywydd, faint o lafur sydd ar gael, effaith ddilynol trin a storio gwael gan achosi difrod i ddeunyddiau, cymal cosb, ffioedd cadw, enw da, a'r goblygiadau i grefftau eraill.

Uned 236: Gosod haen waelodol, estyll a chydrannau toi

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 40 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar a pharatoi a gosod estyll, haenau gwaelodol, estyll croes, is-haenau, systemau awyru bondo, hambyrddau cynnal haenau gwaelodol a bylchau tân ar gyfer gwaith toi newydd a/neu ail-doi.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Pam ei bod yn bwysig awyru gofod yn y toi?
- Ble fyddai to cynnes yn cael ei inswleiddio?
- Beth mae hydreiddiol i anwedd yn ei olygu?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2 Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r nodweddion sy'n gysylltiedig â'r adnoddau ar gyfer gosod haenau gwaelodol, estyll a chhydrannau toi, gan gynnwys ansawdd, defnydd, cynaliadwyedd, cyfyngiadau, diffygion cyffredin, a dulliau trwsio. Adnoddau a chhydrannau i gynnwys;

- haenau gwaelodol sy'n anadlu a rhai aerdynn
- meintiau estyll
- system awyru bondo
- hanbwrdd cynnal bondo

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod pa adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gosod haenau gwaelodol, estyll a chhydrannau toi mewn; ardaloedd cyffredinol, bondoeau, ategweithiau, agoriadau (ffnestri to, ffnestri), ymylon sych a/neu wlyb, ymylon, cribau, ymylon main, a chafnau, ac yn gwybod am weithdrefnau adrodd ar gyfer problemau gyda'r adnoddau gan gynnwys deunyddiau diffygiol, prinder, storio.

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y gweithdrefnau, y rhesymeg, y defnydd a'r dewis o adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gosod haenau gwaelodol, estyll a chydannau toi, a'r cyfarpar sy'n ymwneud â nifer, ansawdd a meintiau cydrannau safonol a/neu arbenigol.

1.4 Bydd dysgwyr yn adnabod peryglon sy'n gysylltiedig â gosod haenau gwaelodol, estyll a chydannau toi, ac yn gwybod beth yw cyfrifoldebau'r gweithiwr o ran:

- damweiniau posibl
- peryglon iechyd wrth weithio yn y gweithle
- gweithio mewn llefydd uchel
- gydag offer a chyfarpar
- â deunyddiau a sylweddau
- gyda symud/storio deunyddiau
- codi a chario a defnyddio cyfarpar codi mecanyddol
- gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am beryglon.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn ymwybodol o arferion, gweithdrefnau a sgiliau gwaith diogel ac iach mewn perthynas â'r dull/maes gwaith a'r deunyddiau a ddefnyddir i wneud y canlynol;

- asesu addasrwydd yr is-strwythur
- canfod a rhoi gwybod am namau gyda rhyngwynebau is-strwythur a tho
- sefydlu pwyntiau sefydlog a phennu'r mesur i osod allan a gosod estyll
- torri haenau gwaelodol, estyll a chydannau toi i'r maint a'r siâp sy'n ofynnol
- gosod haenau gwaelodol, estyll ac estyll croes, clipiau ymyl ac heyrn ymylon main
- gosod a phennu bargod ar gyfer systemau gosod gwlyb a/neu sych
- trwsio haenau gwaelodol ar gyfer ymylon a/neu systemau gosod sych
- gosod haenau gwaelodol o gwmpas agoriadau (fffenestri to, ffenestri) a thyllau
- gosod hambyrddau cynnal haenau gwaelodol a systemau awyru bondoeau
- llunio bylchau tân.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i adnabod pan fydd angen sgiliau a gwybodaeth arbenigol ac adrodd yn unol â hynny. Bydd dysgwyr yn gwybod sut i adnabod gofynion penodol ar gyfer strwythurau o ddiddordeb arbennig, adeiladwaith traddodiadol (cyn 1919) ac arwyddocâd hanesyddol.

2.2 Dylai dysgwyr wybod am yr offer a'r cyfarpar sydd eu hangen i osod haenau gwaelodol, estyll a chydannau toi. Offer i gynnwys;

- Pren mesur/tâp mesur
- Cyllell drimio
- Morthwylion
- Llif
- Offer pŵer neu dorri â llaw (driliau, sgriddreifer).

Dylai dysgwyr wybod/deall sut i ddefnyddio a storio offer a chyfarpar yn ddiogel. Dylai dysgwyr wybod/deall diffygion offer a'r gofynion cynnal a chadw ar gyfer offer a chyfarpar, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

Deilliant dysgu

3 Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau gwaith

Ystod: Gofynion Cyfarpar Diogelu Personol, mesur, gosod allan, marcio allan, lleoli a gosod

3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol i osod deunyddiau a chhydrannau

Ystod: bondo, ymylon, cluniau, cribau, cafnau, cafnau, ategweithiau, agoriadau, treiddiadau, manau cyffredinol, ac arwynebau fertigol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir sy'n ymwneud â'r canlynol: is-haen, estyll, estyll croes, is-haenau, systemau awyru, hambyrddau cynnal haenau gwaelodol, bylchau tân

3.3 Gosod estyll allan i'r pwyntiau datwm a'r mesur

Ystod: Gosod datwm bondo, cyfrifo mesur estyll, marcio'r llinellau perpendicwlar ar gyfer bargod cyfartal

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Dylai dysgwyr allu gweithio'n ddiogel gan ddefnyddio'r holl gyfarpar diogelu personol, mesur, torri haenau gwaelodol, estyll a theils.

3.2 Dylai dysgwyr allu defnyddio offer a chyfarpar ar gyfer gosod teils lap sengl yn ddiogel, gan gynnwys ysgolion a byrddau ymlusgo. Dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn storio offer a chyfarpar yn ddiogel a chynnal a chadw'r offer a'r cyfarpar yn ddiogel yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad. Dylai dysgwyr allu mesur y to, torri, trwsio is-haen, cyfrifo datwm a mesur cyson hyd y ceibrennau ar wahanol bwyntiau er mwyn pennu nifer y cyrsiau yn unol â'r manylebau. Dylai dysgwyr allu gosod teils a chhydrannau lap sengl ar do yn gywir ac yn ddiogel yn unol â'r fanyleb gan ddefnyddio deunyddiau newydd a/neu a adferwyd ar fannau cyffredinol, bondoeau, ategwaith, agoriadau (ffenestri to, ffenestri), bargodau sych a/neu wlyb, cribau, ymylon main a chafnau.

3.3 Dylai dysgwyr allu gosod ystyllen datwm ar gyfer taflunio bondo cywir, cyfrifo datwm a mesur cyson hyd y ceibrennau ar wahanol bwyntiau i bennu nifer y cyrsiau yn unol â'r manylebau, marcio llinellau syth allan i roi bargod cyfartal.

Uned 237: Gosod teils to lap sengl o amrywiol drwch

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 48 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar a gosod teils to lap sengl i fesur amrywiol ar gyfer gwaith newydd a/neu ail-doi.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Beth yw adeiladu cynaliadwy mewn gwaith toi?
- Beth yw rhychwant to?
- Beth yw ategwaith?
- Pam mae angen gwisgo masg wrth dorri teils concret?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Dylai dysgwyr allu nodi'r nodweddion sy'n gysylltiedig â'r adnoddau ar gyfer gosod teils lap sengl, gan gynnwys deunyddiau sy'n cael eu defnyddio gan y gwneuthurwr, profi ansawdd, cyfyngiadau lleiniau, diffygion cyffredin, a dulliau trwsio.

1.2 Dylai dysgwyr allu nodi'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gosod teils lap sengl ar; ardaloedd cyffredinol, bondoeau, ategwaith, agoriadau (ffenestri to, ffenestri), ymylon sych a/neu wlyb, cribau, ymylon main, cafnau, a gwaith plwm cysylltiedig. Bydd dysgwyr yn gwybod am weithdrefnau adrodd ar gyfer problemau gyda'r adnoddau gan gynnwys deunyddiau diffygiol, prinder, storio a diogelwch.

1.3 Dylai dysgwyr allu nodi'r gweithdrefnau, y rhesymeg a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer deunyddiau, cydrannau a chyfarpar ar gyfer gosod teils lap sengl mewn perthynas â niferoedd, ansawdd a meintiau cydrannau safonol a/neu arbenigol, gan gynnwys:

- haenau gwaelodol
- hambyrddau cynnal bondo
- teils lap sengl
- ffitiadau
- gosodiadau
- teils crib a ymylon main
- estyll
- systemau codi a chario
- systemau awyru
- cymysgedd mortar ac ychwanegion ar gyfer gwaith to.

1.4 Dylai dysgwyr allu adnabod peryglon sy'n gysylltiedig â theils lap sengl, cyfrifoldebau gweithiwr am ddamweiniau posibl, peryglon i iechyd wrth weithio yn y gweithle, gweithio mewn llefydd uchel, gydag offer a chyfarpar ac â deunyddiau a sylweddau ac wrth symud/storio deunyddiau a drwy godi a chario a defnyddio cyfarpar codi a gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am beryglon.

Deilliant 2

2.1 Dylai dysgwyr ddeall dulliau gweithio diogel er mwyn bodloni'r fanyleb, a rhoi gwybod am broblemau yn unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig neu lafar:

- Dulliau gweithio'n cael eu dilyn yn unol â'r manylebau gofynnol
- Gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau

2.2 Dylai dysgwyr wybod pa offer a chyfarpar sydd eu hangen ar gyfer gosod teils lap sengl. Dylai dysgwyr ddeall sut mae defnyddio a storio offer a chyfarpar yn ddiogel. Dylai dysgwyr wybod am ddiffygion offer a'r gofynion cynnal a chadw ar gyfer offer a chyfarpar, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

- Offer a chyfarpar a ddefnyddir ar gyfer gosod teils lap sengl
- Diffygion, a gofynion cynnal a chadw ar gyfer gosod teils lap sengl

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau gwaith i fesur,

3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol i osod teils lap sengl i fesur amrywiol a ffitiadau, gosodiadau a chhydrannau cysylltiedig yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir
Ystod: bondoeau, ymylon, ymylon main, cribau, cafneu, ategweithiau, agoriadau, treiddiadau, manau cyffredinol

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Dylai dysgwyr allu gweithio'n ddiogel gan ddefnyddio'r holl gyfarpar diogelu personol, mesur, torri haenau gwaelodol, estyll a theils.

Defnyddio gofynion Cyfarpar Diogelu Personol yn briodol ar gyfer teilsio lap unigol

- het galed, siaced lachar, esgidiau diogelwch, menig gwaith, masg FFP3, teclynnau diogelu'r llygaid

3.2 Dylai dysgwyr allu defnyddio offer a chyfarpar ar gyfer gosod teils lap sengl yn ddiogel, gan gynnwys ysgolion a byrddau ymlusgo. Dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn storio offer a chyfarpar yn ddiogel a chynnal a chadw'r offer a'r cyfarpar yn ddiogel yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

Offer a chyfarpar ar gyfer gosod teils lap sengl:

- morthwylion, llif, cyllell drimio, pren mesur, tapiau mesur, offer pŵer a chyfarpar ategol

Dylai dysgwyr allu mesur y to, torri, trwsio is-haen, cyfrifo datwm a mesur cyson hyd y ceibrennau ar wahanol bwyntiau er mwyn pennu nifer y cyrsiau yn unol â'r manylebau. Dylai dysgwyr allu ffitio a gosod teils a chhydrannau/ffitiau lap sengl ar do yn gywir ac yn ddiogel yn unol â'r fanyleb gan ddefnyddio deunyddiau ar gyfer manau cyffredinol, bondoeau, ategwaith, agoriadau (fffenestri to, ffenestri), bargod sych a/neu wlyb (gan gynnwys haenau gwaelodol), cribau, ymylon main a chafneu.

Gwaith i gynnwys deunyddiau newydd a/neu a adenillwyd ar gyfer toeau gyda'r canlynol:

- manau cyffredinol, bondoeau, ategweithiau, agoriadau (fffenestri to, ffenestri), ymylon sych a/neu wlyb, cribau, ymylon main a chafneu

Uned 238: Gosod to teils plaen

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 62 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar a gosod gorchuddion to teils plaen ar gyfer gwaith newydd a/neu ail-doi.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Ble fyddai to oer yn cael ei inswleiddio?
- Pam mae teils plaen wedi'u cambro yn eu hyd?
- Pa nodwedd a ddefnyddir i hongian teils syml ar estyll?

Deilliant dysgu:

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2 Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Canlyniad 4

1.1 Mae dysgwyr yn gwybod y nodweddion sy'n gysylltiedig â'r adnoddau ar gyfer gosod teils plaen, gan gynnwys deunyddiau sy'n cael eu defnyddio gan y gwneuthurwr, profi ansawdd, cyfyngiadau lleiniau, diffygion cyffredin, a dulliau trwsio.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod pa adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gosod teils syml i wneud y canlynol;

- ardaloedd cyffredinol
- bondoeau a chwrs uchaf
- ategweithiau
- agoriadau (ffnestri to, ffnestri)
- bargod sych a/neu wlyb
- cribau
- ymylon main a chafnau

Bydd dysgwyr yn gwybod am weithdrefnau adrodd ar gyfer problemau gyda'r adnoddau gan gynnwys deunyddiau diffygiol, prinder, storio.

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y gweithdrefnau, y rhesymeg a'r defnydd o adnoddau sydd eu hangen ar gyfer deunyddiau, cydrannau a chyfarpar ar gyfer gosod teils plaen mewn perthynas â niferoedd, ansawdd a meintiau cydrannau safonol a/neu arbenigol, gan gynnwys:

- teils plaen
- ffitiadau
- gosodiadau
- caeadau
- teils crib ac ymylon main
- estyll
- systemau codi a chario
- systemau awyru
- cymysgedd mortar ac ychwanegion ar gyfer gwaith to.

1.4 Bydd dysgwyr yn gwybod am y peryglon sy'n gysylltiedig â theils plaen, cyfrifoldebau'r gweithiwr am ddamweiniau posibl, peryglon i iechyd wrth weithio yn y gweithle, gweithio mewn llefydd uchel, gydag offer a chyfarpar ac â deunyddiau a sylweddau ac wrth symud/storio deunyddiau a chodi a chario a defnyddio cyfarpar codi mecanyddol ar drefn adrodd am beryglon.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod/deall dulliau gweithio diogel er mwyn bodloni'r fanyleb yn unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig neu ar lafar.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod/deall yr offer a'r cyfarpar sydd eu hangen ar gyfer gosod teils plaen. Bydd dysgwyr yn gwybod/deall sut i ddefnyddio a storio offer a chyfarpar yn ddiogel. Bydd dysgwyr yn gwybod/deall diffygion offer a'r gofynion cynnal a chadw ar gyfer offer a chyfarpar, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau gwaith

Ystod: Gofynion Cyfarpar Diogelu Personol, mesur, gosod allan, marcio allan, torri, ffitio, cymysgu, lleoli, sicrhau a gorffen

3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol i osod teils to plaen ar hyd mesurydd amrywiol a ffitiadau, gosodiadau a chhydrannau cysylltiedig yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir

Ystod: deunyddiau newydd a/neu a adenillwyd ar gyfer toeau gyda'r canlynol: mannau cyffredinol, bondoeau a chwrs uchaf, ategweithiau, agoriadau (ffenestri to, ffenestri), bargod sych a/neu wlyb, ymylon, cribau, ymylon main a chafnau, ac arwynebau fertigol

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gallu gweithio'n ddiogel gan ddefnyddio'r holl gyfarpar diogelu personol, mesur, torri haenau gwaelodol, estyll a theils.

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio offer a chyfarpar ar gyfer gosod teils plaen yn ddiogel, gan gynnwys ysgolion a byrddau ymlusgo. Bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn storio offer a chyfarpar yn ddiogel a chynnal a chadw'r offer a'r cyfarpar yn ddiogel yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

Bydd dysgwyr yn gallu mesur y to, torri, trwsio is-haen, cyfrifo datwm a mesur cyson drwy fesur hyd y ceibrennau ar wahanol bwyntiau i bennu nifer y cyrsiau yn unol â'r manylebau. Bydd dysgwyr yn gallu gosod teils a chhydrannau plaen ar do yn gywir ac yn ddiogel yn unol â'r fanyleb gan ddefnyddio deunyddiau newydd a/neu a adferwyd i fannau cyffredinol, bondoeau a chwrs uchaf, ategweithiau, agoriadau (ffenestri to, ffenestri), bargod sych a/neu wlyb (gan gynnwys haenau gwaelodol), cribau, ymylon main a chafnau, ac arwynebau fertigol.

Uned 239: Gosod gwaith plwm ar doeau

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 45 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar a gosod plwm a/neu seliau plwm masnachol wedi'u ffurfio ymlaen llaw i orchuddion to sengl a dwbl gyda simneiau, ategwaith, pibellau gwastraff a/neu fent, cysylltiadau, cafnau, ac agoriadau ar gyfer gwaith newydd a/neu ail-doi.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Pa ddau ddull a ddefnyddir i ffurfio gwaith plwm wrth doi?
- Pam mae plwm yn cael ei ddefnyddio mewn gwaith toi?
- Beth yw pwrpas gorchudd plwm?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Dylai dysgwyr allu nodi'r nodweddion sy'n gysylltiedig â'r adnoddau ar gyfer gosod seliau plwm wedi'u ffurfio ymlaen llaw ar gyfer y tywydd, gan gynnwys deunyddiau a ddefnyddir wrth gynhyrchu, profi ansawdd, cyfyngiadau ar y lleiniau, diffygion cyffredin, a dulliau trwsio.

1.2 Dylai dysgwyr allu nodi'r adnoddau sydd eu hangen i osod gwaith plwm a ffurfiwyd ymlaen llaw ar doeau, ategweithiau, agoriadau (ffenestri to, dormerau, simneiau), ymylon main a chafnau, a dylent wybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer problemau gyda'r adnoddau, gan gynnwys deunyddiau diffygiol, prinder, storio.

1.3 Dylai dysgwyr allu nodi'r gweithdrefnau, y rhesymeg a'r defnydd o adnoddau sydd eu hangen ar gyfer deunyddiau, cydrannau a chyfarpar wrth osod gwaith plwm a ffurfiwyd ymlaen llaw mewn perthynas â niferoedd, ansawdd a meintiau cydrannau safonol a/neu arbenigol, gan gynnwys gorchuddion, cafnau, seliau plwm a chribau.

1.4 Dylai dysgwyr allu adnabod y peryglon sy'n gysylltiedig â gosod gwaith plwm wedi'i ffurfio ymlaen llaw a/neu gydrannau masnachol rhag tywydd ar doeau. Dylent wybod beth yw cyfrifoldebau'r gweithiwr o ran damweiniau posibl a pheryglon i iechyd wrth weithio yn y gweithle;

- gweithio mewn llefydd uchel
- gydag offer a chyfarpar
- â deunyddiau a sylweddau
- gyda symud/storio deunyddiau
- codi a chario a defnyddio cyfarpar codi mecanyddol

Bydd y dysgwr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am beryglon.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y dulliau gweithio diogel er mwyn bodloni'r fanyleb yn unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig neu ar lafar.

2.2 Dylai dysgwyr wybod pa offer a chyfarpar sydd eu hangen i osod gwaith plwm wedi'u ffurfio ymlaen llaw ar doeau. Dylai dysgwyr ddeall sut mae defnyddio a storio offer a chyfarpar yn ddiogel. Dylai dysgwyr wybod am ddiffygion offer a'r gofynion cynnal a chadw ar gyfer offer a chyfarpar, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau gwaith

Ystod: Gofynion Cyfarpar Diogelu Personol, mesur, gosod allan, marcio allan, gradd, tyllu, torri, ffitio, cymysgu, lleoli, sicrhau a gorffen

3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol i osod plwm a/neu seliau plwm masnachol wedi'u ffurfio ymlaen llaw ar gyfer gorchuddion to sengl a dwbl yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir mewn perthynas â'r canlynol: simneiau, ategwaith, pibellau gwastraff a/neu fent, cyfrwyau cyffyrdd, cafnau, agoriadau (fffenestri to, ffenestri)

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Dylai dysgwyr allu gweithio'n ddiogel, gan ddefnyddio'r holl gyfarpar diogelu personol sydd ei angen, gan fesur, gosod allan, marcio, graddio, tyllu, torri, ffitio, cymysgu, lleoli, sicrhau a gorffen.

3.2 Dylai dysgwyr allu defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol yn ddiogel. Dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn storio offer a chyfarpar yn ddiogel a chynnal a chadw'r offer a'r cyfarpar yn ddiogel yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad, gan gynnwys;

- morthwylion
- cylllell drimio
- pethau curo plwm
- siswrn sinc
- offer pŵer a chyfarpar ategol.

Dylai dysgwyr allu gosod plwm a/neu seliau plwm masnachol wedi'u ffurfio ymlaen llaw ar gyfer gorchuddion to sengl a dwbl yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir mewn perthynas â'r canlynol;

- simneiau
- ategweithiau
- pibellau gwastraff a/neu fent
- cyfrwyau cyffyrdd – gwaelod/drip
- cafnau
- agoriadau (fffenestri to, ffenestri)

Uned 240: Gosod llechi to naturiol o faint rheolaidd yn unol â manylion safonol y to

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 83 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar a gosod gorchuddion to llechi naturiol rheolaidd ar estyll a/neu fyrddau ar gyfer gwaith newydd a/neu waith ail-doi.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Pa gymysgedd mortar a ddefnyddir ar gyfer gwaith toi?
- Pa ddulliau a ddefnyddir i drwsio llechi naturiol?
- Pa fath o fetel y dylid ei ddefnyddio ar gyfer hoelen lechi?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Dylai dysgwyr allu nodi'r nodweddion sy'n gysylltiedig â'r adnoddau ar gyfer llechi to naturiol rheolaidd gan gynnwys:

- tarddiad
- proses weithgynhyrchu
- profi ansawdd
- dulliau gosod
- cyfyngiadau goleddf
- diffygion cyffredin
- dulliau trwsio.

1.2 Dylai dysgwyr allu nodi'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gosod llechi to naturiol maint rheolaidd ar; ardaloedd cyffredinol, bondoeau a chwrs uchaf, ategweithiau, agoriadau (ffnestri to, ffnestri), bargod sych a/neu wlyb, cribau, ymylon, cafnau, a

gwaith plwm cysylltiedig. Bydd dysgwyr yn gwybod am weithdrefnau adrodd ar gyfer problemau gyda'r adnoddau gan gynnwys deunyddiau diffygiol, prinder, storio a diogelwch.

1.3 Dylai dysgwyr allu nodi'r gweithdrefnau, y rhesymeg a'r defnydd o adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gosod llechi to naturiol rheolaidd gan gynnwys:

- deunyddiau, cydrannau a chyfarpar mewn perthynas â niferoedd, ansawdd a meintiau cydrannau safonol a/neu arbenigol gan gynnwys:
 - llechi naturiol
 - ffitiadau
 - gosodiadau (hoelion neu fachau)
 - gorchuddion
 - teils crib ac ymylon main
 - estyll
 - systemau codi a chario
 - systemau awyru
 - cymysgedd mortar ac ychwanegion ar gyfer gwaith to.

1.4 Dylai dysgwyr allu adnabod peryglon sy'n gysylltiedig â gosod llechi to naturiol maint rheolaidd, cyfrifoldebau gweithiwr am ddamweiniau posibl, peryglon i iechyd wrth weithio yn y gweithle, gweithio ar uchder, gydag offer a chyfarpar ac â deunyddiau a sylweddau ac wrth symud/storio deunyddiau a drwy godi a chario a defnyddio cyfarpar codi mecanyddol a'r drefn adrodd am beryglon.

Deilliant 2

2.1 Dylai dysgwyr ddeall dulliau gweithio diogel er mwyn bodloni'r fanyleb yn unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig neu ar lafar.

2.2 Dylai dysgwyr wybod am yr offer a'r cyfarpar sydd eu hangen i osod llechi to naturiol rheolaidd eu maint. Dylai dysgwyr wybod sut i ddefnyddio a storio offer a chyfarpar yn ddiogel. Dylai dysgwyr wybod am ddiffygion offer a'r gofynion cynnal a chadw ar gyfer offer a chyfarpar, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau gwaith

Ystod: Gofynion Cyfarpar Diogelu Personol, mesur, gosod allan, marcio allan, graddio, tyllu, torri, ffitio, cymysgu, lleoli, sicrhau a gorffen

3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol i osod llechi to naturiol rheolaidd eu maint ar estyll a/neu fyrddau a ffitiadau cysylltiedig, gosodiadau a chhydrannau yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir, gan ddefnyddio deunyddiau newydd a/neu a adferwyd ar gyfer toeau gyda'r canlynol; mannau cyffredinol, bondoeau a chyrsgiau uchaf, ategwaith, agoriadau (fffenestri to, ffenestri), bargod sych a/neu wlyb, cribau, ymylon main a chafnau

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Dylai dysgwyr allu gweithio'n ddiogel gan ddefnyddio'r holl gyfarpar diogelu personol angenrheidiol, mesur, torri haenau gwaelodol â llaw, gosod estyll, gosod llechi naturiol a theils crib ar y to naturiol maint arferol.

3.2 Dylai dysgwyr allu defnyddio offer a chyfarpar i osod to naturiol maint rheolaidd yn ddiogel. Dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn storio offer a chyfarpar yn ddiogel a chynnal a chadw'r offer a'r cyfarpar yn ddiogel yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

Dylai dysgwyr allu mesur y to, torri, trwsio is-haen, cyfrifo datwm a a mesur cyson hyd y ceibrennau ar wahanol bwyntiau er mwyn pennu nifer y cyrsiau yn unol â'r manylebau. Dylai dysgwyr allu gosod llechi a chhydrannau naturiol maint arferol ar do yn gywir ac yn ddiogel yn unol â'r fanyleb gan ddefnyddio deunyddiau newydd a/neu a adferwyd i fannau cyffredinol, bondoeau ac uwch gwrs, ategwaith, agoriadau (fffenestri to, ffenestri), bargod sych a/neu wlyb, cribau, ymylon main a chafnau.

Uned 241: Tynnu ac adfer gorchuddion to

| | |
|-----------------------------------|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 50 |
|-----------------------------------|----|

Gwybodaeth am yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar a thynnu ac adennill gorchuddion to i'w defnyddio yn y dyfodol, gwaredu deunyddiau anaddas, a pharatoi arwynebau ar gyfer eu hail-doi.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall gweithio yn ôl manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddynt hwy eu hunain fel:

- Ar gyfer beth mae estyll ychwanegol yn cael eu defnyddio?
- Pam nad yw hen waith plwm yn cael ei roi mewn biniau gwastraff cyffredinol?
- Beth sy'n gallu achosi i deils to clai ddirywio?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnyddiau; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau, peryglon i'r gwaith, goresgyn peryglon

2. Deall sut i weithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio, rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Dylai dysgwyr wybod am y nodweddion sy'n gysylltiedig â'r adnoddau ar gyfer tynnu gorchuddion to a'u hadfer. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw diffygion a chyfyngiadau'r gwahanol adnoddau o ran adennill neu ailddefnyddio. Bydd dysgwyr yn deall sut mae gwerthuso addasrwydd cefndiroedd a gwerthuso deunyddiau i'w hailddefnyddio, eu hailgylchu neu eu gwaredu'n briodol gan ddilyn y gweithdrefnau cywir.

1.2 Dylai dysgwyr wybod yr adnoddau sydd eu hangen i dynnu ac adfer amrywiaeth o orchuddion to, gan gynnwys cyfarpar mynediad, offer llaw a phŵer a chyfarpar ategol. Bydd dysgwyr yn gwybod am weithdrefnau adrodd ar gyfer problemau gyda'r adnoddau gan gynnwys deunyddiau diffygiol, prinder, storio a diogelwch.

1.3 Dylai dysgwyr wybod y gweithdrefnau, y rhesymeg a'r defnydd o adnoddau sydd eu hangen i dynnu ac adennill gorchuddion to gan gynnwys deunyddiau, cydrannau a

chyfarpar mewn perthynas â niferoedd, ansawdd a meintiau cydrannau safonol a/neu arbenigol.

1.4 Bydd dysgwyr yn gwybod am y peryglon sy'n gysylltiedig â thynnu ac adfer gorchuddion to, cyfrifoldebau gweithiwr am ddamweiniau posibl, peryglon i iechyd wrth weithio yn y gweithle, gweithio ar uchder, gydag offer a chyfarpar ac â deunyddiau a sylweddau ac wrth stripio, symud/storio deunyddiau a drwy godi a chario a defnyddio cyfarpar codi mecanyddol ar adrodd am beryglon.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y dulliau gweithio diogel i fodloni'r fanyleb yn unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig neu lafar pan fyddant yn cael eu defnyddio i wneud y canlynol:

- gosod byrddau atal dros dro ar bondo
- tynnu gorchuddion to presennol
- clirio'r to o falurion a hoelion mewn ceibrennau a choed eraill ar y to
- adennill teils a llechi naturiol, llechi cerrig a seliau plwm/cydrannau y gellir eu haildefnyddio
- asesu pa mor addas yw'r deunyddiau sydd i'w hadfer
- pennu meintiau llechi imperial a metrig
- stacio/storio deunyddiau wedi eu hadfer i'w haildefnyddio
- paratoi deunyddiau i'w haildefnyddio, gan gynnwys tynnu hoelion, aildyllu ac aildorri

Bydd dysgwyr yn ymwybodol o'r gofynion penodol ar gyfer gwaith toi ar strwythurau o ddiddordeb arbennig fel adeiladau hanesyddol, toeau treftadaeth ac adeiladu traddodiadol (cyn 1919). Bydd dysgwyr yn gwybod sut i adnabod pan fydd angen sgiliau a gwybodaeth arbenigol a sut i adrodd yn unol â hynny.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gofalu am offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol.

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am y contract i wneud y gwaith yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol

Meini Prawf

- 3.1** Dangos sgiliau gweithio i ddefnyddio mynediad diogel i archwilio, symud, adfer, tynnu hoelion, aildyllu, aildorri, glanhau a didoli
- 3.2** Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol i dynnu, adfer a/neu waredu deunyddiau rhag tywydd a chydannau ategol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir, ynghyd ag o leiaf ddau o'r canlynol: llechi naturiol, teils plaen, teils un lap, llechi carreg

Deilliannau cyflawni (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

- 3.1** Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r holl gyfarpar diogelu personol angenrheidiol, defnyddio byrddau ymlusgo, ysgolion ac ysgolion to i gynnal archwiliad o'r to yn ddiogel cyn stripio/tynnu deunyddiau'r to. Bydd dysgwyr yn gallu gweithio mewn ffordd ddiogel i dynnu, adfer, tynnu hoelion, aildyllu, aildorri, glanhau a didoli gorchuddion to.
- 3.2** Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol yn ddiogel. Dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn storio offer a chyfarpar yn ddiogel a chynnal a chadw'r offer a'r cyfarpar yn ddiogel yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad, gan gynnwys;

- morthwylion a chŷn
- cŷn to
- cyllell lechi
- cyllell grefft
- bar
- llif banel/llif
- tynnu malurion – brwsh, siefl, bwcedi
- tynnu deunyddiau – bympar, teclyn codi, olwyn a rhaff.

Bydd y dysgwr yn gallu tynnu, adfer a/neu waredu deunyddiau a chydannau ategol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir. Bydd dysgwyr yn gallu tynnu, adfer a/neu waredu teils crib, gwaith plwm/cydannau, ac o leiaf ddau o'r canlynol;

- llechi naturiol
- teils plaen
- teils lap sengl
- llechi carreg

Llwybr J: Teilsio Waliau a Lloriau

Uned 242: Gwybodaeth graidd am Deilsio Waliau a Lloriau

| | |
|---|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH): | 50 |
|---|----|

Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth gyffredinol sydd ei hangen ar gyfer y grefft hon.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth
- deall arferion gweithio diogel
- deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod
- deall gweithio i derfynau amser

Mae cynnwys yr uned hon wedi cael ei gyflwyno mewn ffordd generig gan ei fod yn gyson drwy lawer o'r unedau sgiliau yn y cymhwyster hwn. Dylid addysgu'r cynnwys, a bydd yn cael ei asesu'n gyffredinol ac yng nghyd-destun yr unedau sgiliau canlynol (lle bo hynny'n briodol):

- Gosod ffyn lefelu tywod a sment
- Paratoi cefndiroedd ar gyfer teilsio
- Teilsio waliau a lloriau

Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Pam mae ymgynefino â safleoedd yn bwysig?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cerdyn gwaith a thaflen amser?
- Pwy yw Cadw a beth maen nhw'n ei wneud?

Deilliant dysgu

1. Deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth

Meini Prawf

- 1.1 Y gweithdrefnau sefydliadol a ddatblygwyd gan y sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am wybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas a'u cywiro, a sut y mae'r rhain yn cael eu defnyddio
- 1.2 Y mathau o wybodaeth, eu ffynhonnell a sut maen nhw'n cael eu dehongli
- 1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad i ddatrys problemau gyda'r wybodaeth a pham ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu dilyn
- 1.4 Pwysigrwydd cadw dogfennau

2. Deall arferion gweithio diogel

Meini Prawf

- 2.1 Lefel y ddealltwriaeth y mae angen i weithredwyr ei chael o wybodaeth am ddeddfwriaeth a chanllawiau swyddogol perthnasol cyfredol a sut mae eu defnyddio
- 2.2 Sut y dylid ymateb i argyfyngau a phwy ddylai ymateb
- 2.3 Gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol
- 2.4 Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud yr adroddiad
- 2.5 Pam, pryd a sut y dylid defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch
- 2.6 Sut mae cydymffurfio ag arferion gweithio sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni deddfwriaeth a chanllawiau swyddogol cyfredol

3. Deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod

Meini Prawf

- 3.1 Sut mae diogelu gwaith rhag difrod a phwrpas diogelu
- 3.2 Pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel a sut y gwneir hynny

4. Deall gweithio i derfynau amser

Meini Prawf

4.1 Sut mae gwaith yn cael ei wneud i fodloni'r rhaglen yn yr amser a drefnwyd a phwysigrwydd terfynau amser

Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o weithdrefnau sefydliadol a'u nodweddion a'u defnyddiau, gan gynnwys cyfleu problemau ar lafar, cadwyn awdurdod, sgysiau blwch offer, cynefino â'r safle.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion a ffyrdd o ddefnyddio lluniadau a chynlluniau, manylebau, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg, hysbysiadau safle ac arwyddion diogelwch, gwybodaeth gwneuthurwyr, cyfarwyddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig, a rheoliadau adeiladu, ac yn gwybod sut maent yn cael eu rhoi ar waith.

1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n codi o wybodaeth amhriodol – gan gynnwys camglywed cyfarwyddiadau, gwybodaeth anghywir, camddehongli datganiad dull, gwybodaeth anghywir yn cael ei rhoi. Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau a'r peryglon posibl sy'n deillio o adnoddau gan gynnwys deunyddiau anaddas, tywydd garw ac amgylchiadau sy'n newid.

1.4 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal dogfennau, gan gynnwys: cardiau tasgau, taflenni gwaith, rhestrau deunyddiau/adnoddau a thafenni amser.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am egwyddorion y darnau canlynol o ddeddfwriaeth; Rheoliadau adeiladu; rheoliadau Gweithio ar Uchder (WAH); Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (HASAWA); PUWER; ACOP; RIDDOR; CDM; COSHH; PPE; LOLER; rheoliadau Codi a Chario; rheoliadau Sŵn yn y Gwaith.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw diben pob deddfwriaeth, sut mae'n cael ei defnyddio mewn diwydiant a chanlyniadau peidio â chydymffurfio. Bydd dysgwyr yn deall rolau awdurdodau lleol o ran cynllunio a Rheoli Adeiladu a chyda strwythurau treftadaeth gan gynnwys ymgynghori â Cadw.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ymateb i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol wrth ymdrin â thanau, gollyngiadau, anafiadau ac argyfyngau.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o gyfarpar diffodd tân a sut a phryd y cânt eu defnyddio ar gyfer gwahanol ddsbarthiadau o dân. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu rôl a'u cyfrifoldeb o ran gwagio, atal (dŵr, CO2, ewyn, powdr), y triogl tân a phwyntiau ymgynnull.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o ollyngiadau, sut mae eu hatal a sut mae eu trwsio. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer pecynnau gollyngiadau, arwyddion a sut mae cau yr ardal.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o anafiadau a chyfrifoldebau cyffredin gan gynnwys swyddog cymorth cyntaf, pecyn cymorth cyntaf ac adrodd am ddamweiniau ar gyfer argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol, gan gynnwys atal, gweithdrefnau brys, gwasanaethau brys, gweithdrefnau adrodd, mynedfeydd ac allanfeydd ar gyfer cerbydau argyfwng.

2.3 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, gan gynnwys;

- safle – gan gynnwys ffensys/palisau dros dro, swyddogion diogelwch, gwylidwriaeth
- gweithle - gan gynnwys agor a chloi
- cwmni – gan gynnwys mewngofnodi, gweithdrefnau awdurdodi ID
- gweithiwr – gan gynnwys diogelwch offer, deunyddiau, cyfarpar a cherbydau, eiddo personol

Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau diogelwch mewn annedd ddomestig o'u cymharu ag ar safle.

2.4 Bydd dysgwyr yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni damweiniau ac yn gallu nodi swyddog cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr hefyd yn deall y gyfraith sy'n ymwneud â nifer y bobl y mae angen eu hyfforddi'n briodol ar gyfer cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr yn deall y rolau a'r cyfrifoldebau mewn gwahanol safleoedd, gan gynnwys mewn annedd ddomestig, gan gynnwys sut mae cymryd cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles. Bydd dysgwyr yn deall sut mae adrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) a RIDDOR ar gyfer digwyddiadau perthnasol. Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ddefnyddio'r llyfr cofnodi ar gyfer mân ddamweiniau a sut i gofnodi damweiniau fu bron â digwydd, gan gynnwys y gweithdrefnau adolygu ac ail-werthuso sydd ar waith.

2.5 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis, defnyddio a chynnal a chadw cyfarpar diogelu personol, RPE, LEV yn gywir, gan gynnwys gwybodaeth am y canlynol: sbectolau effaith uchel, gogls, het galed, siacedi llachar, amddiffynwyr clustiau, esgidiau diogelwch, masgiau llwch (gan gynnwys profion ffitio'r wyneb), harneisiau diogelwch, menig priodol, sachau atal cwmpo, matiau cwmpo, rheiliau a rhwydi diogelu sgaffaldiau, lloriau ffug, hyfforddiant offer torri gwlyb a llifianyddion onglau.

2.6 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol, gan gynnwys; cynllun rheoli gwastraff safle (SWMP), ailgylchu, aildefnyddio a gwastraff wedi'i ddioli.

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae diogelu gwaith rhag difrod o weithgareddau gwaith cyffredinol ac o alwedigaethau a thywydd eraill (domestig yn ogystal ag ar safle). Bydd dysgwyr yn deall y defnydd o orchudd dros dro, gan newid trefn y gwaith er mwyn diogelu'r gwaith yn well, gofalu am y gwaith a rhoi sylw i fanylion wrth osod a defnyddio

taflenni llwch a diogelwyr deunyddiau.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae storio deunyddiau'n gywir cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith.

3.2 Bydd dysgwyr yn gwybod pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel ac yn gyfrifol, gan ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gwneuthurwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol yn unol â chyfrifoldebau amgylcheddol.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol ddulliau gwaredu gan gynnwys sgiplau dynodedig, ailgylchu, didoli gwastraff, man casglu gwastraff lleol, biodanwydd.

Deilliant 4

4.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gweithgareddau gwaith, deunyddiau a llafur yn cael eu dyrannu i fodloni'r amserlen sy'n ofynnol o fewn y rhaglen a phwysigrwydd cadw at derfynau amser.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o dargedau cynhyrchiant ac amserlenni, sut mae amseroedd yn cael eu hamcangyfrif a'r amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith, gan gynnwys y tywydd, faint o lafur ac adnoddau sydd ar gael, effaith ddilynol trin a storio gwael yn achosi difrod i ddeunyddiau, cymalau cosb, ffioedd cadw, enw da a'r goblygiadau ar grefftiau eraill.

Uned 243: Gosod ffyn lefelu tywod a sment

| | |
|---|----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH): | 55 |
|---|----|

Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth a mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, er mwyn mynd i'r afael â dewis, paratoi a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, wrth baratoi is-haenau lloriau wrth osod ffyn sefydlogi llawr.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Beth yw ffyn lefelu?
- Sut ydw i'n cyfrifo cyfaint y ffyn lefelu ar gyfer arwynebedd llawr?
- Pa gyfarpar diogelu personol fydd ei angen arnaf wrth osod ffyn lefelu?
- Pa offer y bydd angen i mi eu defnyddio wrth osod ffyn lefelu lloriau?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion, ansawdd, defnydd, cynaliadwyedd, cyfyngiadau, diffygion a chywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau, rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau; peryglon o ran dulliau gwaith; goresgyn peryglon

2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio; rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn deall priodweddau a phwysigrwydd defnyddio deunyddiau ffyn lefelu lloeriau lled-sych sment a thywod traddodiadol a ffyn lefelu hylifol wedi'u cymysgu ymlaen llaw.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y diffygion cyffredin sy'n gysylltiedig ag adnoddau, gan gynnwys:

- llwch
- cracio
- gwahanu
- colli cryfder (ansawdd y gymysgedd)
- cywasgu annigonol (sincio)
- paratoi a bondio annigonol
- safle anghywir o ran inswleiddio, atgyfnerthu, pilenni a chydannau anhyblyg.

Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor bwysig yw cynaliadwyedd drwy sicrhau ansawdd, defnyddio ffyn lefelu cywir, gwastraffu cyn lleied â phosibl ar ffyn lefelu llawr.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae asesu ansawdd, cyflwr a gwendidau deunyddiau, cydrannau ac arwynebau is-lawr a sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio a heb ddiffygion.

1.2 Bydd dysgwyr yn deall pryd i osod ffyn lefelu lled-sych a systemau ffyn lefelu lloriau hylifol sydd wedi'u cymysgu ymlaen llaw ar loriau presennol a lloriau sydd newydd gael eu gosod. Mae'r is-sylfaen yn cynnwys:

- concrit dros y safle
- bloc a thrawst
- insiwleiddio a gwres dan y llawr.

Bydd dysgwyr yn deall sut a phryd i ddefnyddio gwahanol ddeunyddiau ac ychwanegion, pa mor addas ydynt a phwysigrwydd storio, gan gynnwys:

- deunyddiau: tywod, sment, atgyfnerthiadau, deunydd inswleiddio, ffyn lefelu wedi'u cymysgu ymlaen llaw, pilenni
- sylweddau: selwyr, preimars, cyfryngau bondio
- ychwanegion: ffibrau, cyflymyddion.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae rhoi gwybod am ddiffygion yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

1.3 Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau a phrosesau'r sefydliad ar gyfer dewis a defnyddio deunyddiau, a sut mae dehongli a chael gwybodaeth dechnegol o wahanol ffynonellau:

- lluniadau
- manylebau
- datganiadau dull
- rhestrau
- rhaglenni gwaith
- gwybodaeth y gwneuthurwr
- safonau'r diwydiant.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall peryglon ac yn nodi mesurau rheoli addas sy'n gysylltiedig â'r amserlen waith a'r deunyddiau sy'n gysylltiedig â'r broses o osod ffyn lefelu.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae dilyn datganiadau dull ac asesiadau risg i nodi cyfarpar diogelu personol cywir a chyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn fedrus yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros roi gwybod i'r lefel briodol o awdurdod am ddamweiniau, peryglon a damweiniau fu bron â digwydd yn y gweithle.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y dulliau a'u pwrpas er mwyn:

- paratoi, gosod, mesur, cywasgu a gorffen systemau ffyn lefelu lloriau wedi eu bondio, heb eu bondio, gan ddefnyddio rheiliau lefelu, ffyn lefelu ymyl rhydd
- tywallt a gorffen ffyn lefelu hylifol
- cymysgu'r deunyddiau.

Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros y canlynol:

- cwblhau tasgau gwaith cysylltiedig a bennwyd yn unol â safon ofynnol y diwydiant a'r amserlenni a bennwyd gan raglen waith gynlluniedig
- effeithiau peidio â chwrdd â therfynau amser a gynlluniwyd
- rhoi gwybod am broblemau sydd wedi'u canfod, a chyfathrebu yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal gwiriadau cyn cychwyn ar offer llaw ac offer pŵer i sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio wrth baratoi i gymysgu deunyddiau.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis offer a chyfarpar i wneud gwaith paratoi ar is-sylfaeni, h.y. concrit dros y safle, blociau a thrawstiau, inswleiddio a gwresogi dan y llawr. Bydd y gwaith paratoi'n cynnwys:

- cael gwared ar olion dŵr a llwch
- rheoli sugnedd
- mesur a dogni slyri growt
- gosod adlynion bondio cemegol

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis offer a chyfarpar wrth osod:

- deunydd inswleiddio anhyblyg
- pilenni
- atgyfnerthiadau
- uniadau symud

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis offer a chyfarpar wrth amlinellu mesuriadau datwm i sicrhau cywirdeb a throsglwyddo lefelau a goleddf yn gywir.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio offer llaw ac offer pŵer yn unol â'r dull gweithio, a sut i storio a chynnal a chadw offer yn ystod ac ar ôl eu defnyddio.

Offer a chyfarpar:

- Offer llaw gan gynnwys: tryweli (trywel lloriau, trywel trwyn smwt/bwced), fflôt, lefel saer, lefel laser, lefel optegol a choesyn, tâp mesur/ffon fesur, mesurydd ymyl syth/ blwch, sgwaryn, rhaw
- Offer pŵer: cymysgydd sment, dril di-wifr
- Offer ategol: brwsys, estyll gosod/ rheilenni ffyn lefelu, bwcedi, cymhorthion symud a thrin a gorchuddion gwarchodol

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn effeithlon ac yn unol â'r fanyleb.

Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau gwaith i fesur, marcio allan, glanhau, gosod, cywasgu a gorffen

3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol i:

- paratoi arwynebau, cymysgu a gosod ffyn lefelu llawr yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir mewn perthynas â'r canlynol
 - ffyn lefelu tywod a sment
 - lefelau a/neu goleddfau

Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gallu:

- defnyddio'r dulliau cywir ar gyfer gwirio ymlaen llaw, ar gyfer paratoi is-haenau is-lawr ar gyfer cynhyrchu lloriau gwastad yn ôl y lefelau a'r goleddfau a roddwyd.
- defnyddio cyfryngau bondio, preimars priodol ar gyfer cefndiroedd a chotiau slyri (os oes angen).

Bydd dysgwyr yn gallu gosod allan a gosod deunyddiau ffyn lefelu llawr lled-sych, ffyn lefelu ymylon rhydd, atgyfnerthu a gorffen arwynebau i lefelau a goleddfau o ddatwm i safon ddiwydiannol i naill ai ffyn lefelu llawr wedi'i fondio, ffyn lefelu llawr heb ei fondio neu ffyn lefelu llawr arnofiol.

Bydd dysgwyr yn gallu mesur arwynebedd wynebau a chyfrifo'r meintiau cywir o ddeunyddiau, gan gynnwys lwfans ar gyfer gwastraff.

Bydd dysgwyr yn gallu diogelu mannau cymysgu, ffyn lefelu a'r ardaloedd cyfagos rhag difrod.

Bydd dysgwyr yn gallu gwneud gwaith atgyweirio a chywiro ffyn lefelu llawr diffygiol a rhai sydd wedi methu'n sylweddol gan gynnwys: llwch, cracio, suddo, gwahanu, colli cryfder, cywasgu annigonol, deunyddiau ac ategolion o ansawdd gwael, paratoi a bondio annigonol, a deunydd inswleiddio anhyblyg, atgyfnerthiadau, pilenni a chydannau wedi'u lleoli'n anghywir.

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu dewis, defnyddio a chynnal a chadw offer a chyfarpar yn ddiogel er mwyn gosod, paratoi arwynebau is-lawr, mesur, cymysgu a gosod ffyn lefelu llawr tywod/sment.

- Offer llaw gan gynnwys: tryweli (trywel lloriau, trywel trwyn smwt/bwced), fflôt, lefel saer, lefel laser, lefel optegol a choesyn, tâp mesur/ffon fesur, mesurydd ymyl syth/blwch, sgwaryn, rhaw
- Offer pŵer: cymysgydd sment, dril di-wifr

- Offer ategol: brwsys, estyll gosod/ rheilenni ffyn lefelu, bwcedi, cymhorthion symud a thrin a gorchuddion gwarchodol

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, trafod yn ddiogel, pentyrru a storio adnoddau gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Uned 244: Paratoi cefndiroedd ar gyfer teilsio

| | |
|---|-----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH): | 123 |
|---|-----|

Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth a mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol. Mae'n cynnwys paratoi cefndiroedd bwrdd solet a rhai sydd wedi'u gwneud yn barod i dderbyn teils waliau a lloriau ac ategolion priodol, gan ddewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Beth yw'r gwahanol fathau o gefndiroedd y byddaf yn dod ar eu traws wrth deilsio?
- Sut ydw i'n gwirio pa mor addas yw cefndir?
- Pa ddeunyddiau fydd eu hangen arnaf wrth baratoi cefndir?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnydd; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau; rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau; peryglon o ran dulliau gwaith; goresgyn peryglon

2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio; rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn deall nodweddion, ansawdd a chyfyngiadau adnoddau wrth baratoi cefndiroedd ar gyfer eu teilsio, gan gynnwys:

- byrddau wedi'u creu: pren (cynhyrchion pren) a chynhyrchion perchnogol (heb eu creu o bren) gan gynnwys:
 - OSB (Bwrdd Edeifion Orient)
 - byrddau teilsio (sment wedi'i atgyfnerthu â gwydr, â chraidd ewyn, sment ffibrau, magnesiwm ocsid, wedi'u hinswleiddio)
 - byrddau plastr (lleithder, tân, sain, ffoil, thermol)
- gosodion: sgriwiau, hoelion, bond uniongyrchol, gosodion mecanyddol
- pilenni: datgysylltu a gwahanu, meintiau a thrwch
- tanciau: systemau pilenni tancio (gosod dalen blastig neu hylif), sgrimiau, tapiâu

- ychwanegion: paentiau preimio, cyfryngau bondio, deunyddiau selio, selwyr trwytho, plastigwyr a deunyddiau gwrth-ddŵr
- uniadau symud: pwrpas, lleoliad, dimensiwn
- tywod: mathau o dywod (garw a meddal), amhureddau, profion (prawf silt), mesur
- sment: mathau o sment (Sment Portland Arferol [OPC], caledu'n gyflym), storio ac oes silff
- gleiniau: ongl, stop a symudiad
- cyfansoddion lefelu a llyfnu: amser gweithio ac amser caledu.

Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor bwysig yw cynaliadwyedd wrth baratoi cefndiroedd, sut mae dewis y deunyddiau cywir a lleihau gwastraff; bydd y cefndiroedd yn cynnwys:

- gwaith maen: gwaith brics, gwaith blociau
- concrit
- ffyn lefelu
- gwaith plastr
- byrddau wedi'u cynhyrchu
- arwynebau wedi'u paentio
- pren (llawr).

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod pryd i ddefnyddio adnoddau a pha mor addas ydynt o ran paratoi gwahanol fathau o gefndiroedd.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd cydnawsedd rhwng is-haenau a deunyddiau a gosod adnoddau teilsio'n ddiogel.

1.3 Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau a phrosesau'r sefydliad ar gyfer dewis a defnyddio deunyddiau, a sut mae dehongli a chael gwybodaeth dechnegol o wahanol ffynonellau:

- lluniadau
- manylebau
- datganiadau dull
- rhestrau
- rhaglenni gwaith
- gwybodaeth y gwneuthurwr
- safonau'r diwydiant.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall peryglon a mesurau rheoli addas sy'n gysylltiedig â'r amserlen waith a'r deunyddiau sy'n gysylltiedig â'r broses o baratoi cefndiroedd.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae diogelu'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas rhag difrod yn unol â'r fanyleb a roddwyd, gan gynnwys diogelu rhag difrod o weithgareddau cyffredinol yn y gweithle, galwedigaethau eraill a thywydd garw.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae dilyn datganiadau dull ac asesiadau risg i nodi cyfarpar a dillad diogelu personol cywir a chyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn fedrus yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am y dulliau a'u pwrpas er mwyn:

- gosod allan
 - torri a gosod byrddau a gynhyrchwyd
 - paratoi wal
 - rendro wal
 - gosod systemau tancio
 - paratoi llawr
 - gosod cyfansoddyn lefelu / llyfnu
- ar arwynebau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis offer a chyfarpar wrth amlinellu lefelau i sicrhau cywirdeb a throsglwyddo lefelau'n gywir.

Bydd dysgwyr yn gwybod am wahanol brosesau ar gyfer cymysgu deunyddiau wrth baratoi cefndiroedd.

Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros y canlynol:

- cwblhau tasgau gwaith cysylltiedig a bennwyd yn unol â safon ofynnol y diwydiant a'r amserlenni a bennwyd gan raglen waith gynlluniedig
- effeithiau peidio â chwrdd â therfynau amser a gynlluniwyd
- rhoi gwybod am broblemau sydd wedi'u canfod, a chyfathrebu yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal gwiriadau ymlaen llaw ar offer llaw ac offer pŵer i sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio, ac yn addas i'r diben.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis offer a chyfarpar wrth baratoi gwahanol gefndiroedd:

- gwaith maen: gwaith brics, gwaith blociau
- concrit
- ffyn lefelu
- gwaith plastr
- byrddau wedi'u cynhyrchu
- arwynebau wedi'u paentio
- pren (llawr).

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis offer a chyfarpar wrth roi adnoddau yn eu lle, gan gynnwys:

- byrddau wedi'u cynhyrchu
- atgyfnerthiadau, turniau (metel)
- gleiniau onglog
- gleiniau stopio

- gleiniau symud
- cotiau crafog a chotiau fflotiog
- systemau tancio
- pilenni: datgysylltu, gwahanu
- cyfansoddion sy'n lefelu eu hunain.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio offer a chyfarpar yn unol â'r dull gweithio, a sut mae eu storio a'u cynnal a'u cadw yn ystod, ac ar ôl eu defnyddio.

Offer a chyfarpar:

- Offer llaw: trywel rendro (gan gynnwys trywel fesur/bwced), morthwyl(ion), hawg, crafwr (crib), fflôt, lefel saer, lefel laser, offer tocio, sgridreifars, cyllyll â llafn gudd, tâp/pren mesur, llinell sialc, ymyl syth, sgwaryn ac offer sgorio gyda phen carbid
- Offer pŵer: cymysgydd sment, padl a dril cymysgu, dril diwifr
- Offer ategol: rhaw, rholer a hambwrdd, brwshys, astell, gosodwyr (hoelion/sgriwiau), bwcedi, cymhorthion symud a thrin, a gorchuddion gwarchodol.

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn effeithlon ac yn unol â'r fanyleb

Meini Prawf

3.1 Dangos y sgiliau gwaith o fesur, gosod allan, stripio, torri allan, tynnu, atgyweirio, defnyddio, lleoli, diogelu a gorffen

3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar cysylltiedig wrth baratoi a defnyddio arwynebau yn barod am deils waliau a lloriau ac ategolion priodol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddwyd, gan gynnwys:

- lleoli a gosod cymalau symud
- gosod pilenni

Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r dulliau cywir i baratoi cefndiroedd er mwyn cael:

- byrddau wedi'u cynhyrchu
- rendrad
- pilenni
- systemau tancio
- cyfansoddion sy'n lefelu eu hunain.

Bydd dysgwyr yn gallu cyfrifo meintiau deunyddiau o luniadau gan gynnwys mesuriadau llinol, arwynebedd, cymarebau a chanrannau a chaniatáu ar gyfer gwastraff.

Bydd dysgwyr yn gallu torri, gosod a diogelu byrddau cefn i greu arwyneb gwastad, syth ac anhyblyg.

Bydd dysgwyr yn gallu mesur a chymysgu rendradau â chymysgedd o dywod a sment, gan gadw at y cyfrannau cywir.

Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio dulliau gosod i ddarparu'r gorffeniad a'r allwedd a nodwyd ar gyfer teilsio a chreu arwyneb gwastad, syth ac anhyblyg.

Bydd dysgwyr yn gallu torri, gosod a diogelu byrddau cefn i greu arwyneb gwastad, syth ac anhyblyg.

Bydd dysgwyr yn gallu gosod gwahanol systemau tancio yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Bydd dysgwyr yn gallu paratoi, cymysgu a gosod cyfansawdd lefelu/ llyfnu i greu arwyneb gwastad, syth ac anhyblyg.

Bydd dysgwyr yn gallu diogelu mannau cymysgu, gwaith a baratowyd a'r ardaloedd cyfagos rhag difrod.

Bydd dysgwyr yn gallu gwneud gwaith atgyweirio a chywiro i gefndiroedd diffygiol a rhai sydd wedi methu'n sylweddol gan gynnwys: llwch, cracio, gwahanu, colli cryfder, deunyddiau ac ategolion o ansawdd gwael, paratoi a bondio annigonol, ac atgyfnerthiadau, pilenni a chydrannau wedi'u lleoli'n anghywir.

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu dewis, defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol yn ddiogel wrth baratoi cefndiroedd a lleoli adnoddau fel y nodir yn Neilliant Darparu 2.2.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, trafod yn ddiogel, pentyrru a storio adnoddau gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Uned 245: Teilsio waliau a lloriau

| | |
|---|-----|
| Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH): | 150 |
|---|-----|

Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â gosod teils waliau a lloriau ar arwynebau fertigol, llorweddol ac ar oleddf, dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, a dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Beth yw'r gwahanol fathau o deils a ddefnyddir yn y diwydiant?
- Pam mae angen i mi wisgo sbectol ddiogelwch wrth deilsio?
- Pa fath o wybodaeth dechnegol fydda i'n ei defnyddio?
- Pa offer fydda i'n eu defnyddio i deilsio ystafell wlyb?

Deilliant dysgu

1. Deall y broses o ddewis adnoddau

Meini Prawf

1.1 Nodweddion yr adnoddau

Ystod: nodweddion; ansawdd; defnydd; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

1.2 Defnyddio adnoddau

Ystod: defnyddio'r adnoddau; rhoi gwybod am broblemau

1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

1.4 Peryglon

Ystod: peryglon o ran adnoddau; peryglon o ran dulliau gwaith; goresgyn peryglon

2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract

Meini Prawf

2.1 Dulliau gweithio

Ystod: cwblhau dulliau gweithio; rhoi gwybod am broblemau

2.2 Offer a chyfarpar

Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn deall nodweddion, ansawdd a chyfyngiadau adnoddau, gan gynnwys:

- teils wal a llawr: ceramig, porslen; maint: safonol, mawr
- adlynon: wedi'u cymysgu'n barod, sment, hyblyg, caledu'n gyflym
- growtiau: wedi'u cymysgu'n barod, sment, resin, lliw
- proffiliau teils wal (trimiau): metel, plastig, gwahanol siapiau
- bylchwyr: plastig, pegiau
- pilenni: datgysylltu, gwahanu
- uniadau symud: pwrpas, trimiau arbenigol, lleoliad a maint pwrpas
- ychwanegion: paentiau preimio, cyfryngau bondio, deunyddiau selio, selwyr trwytho
- byrddau wedi'u creu: pren (cynhyrchion pren) a chynhyrchion perchnogol (heb eu creu o bren) gan gynnwys:

- OSB (Bwrdd Edeifion Orient)
- byrddau teilsio (sment wedi'i atgyfnerthu â gwydr, â chraidd ewyn, sment ffibrau, magnesiwm ocsid, wedi'u hinswleiddio)
- byrddau plastr (lleithder, tân, sain, ffoil, thermol)
- tancio: systemau pilenni tancio (gosod dalen blastig neu hylif).

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod pryd i ddefnyddio adnoddau a pha mor addas ydynt o ran teilsio waliau a lloriau.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd cydnawsedd rhwng is-haenau a deunyddiau a gosod adnoddau teilsio'n ddiogel.

1.3 Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau a phrosesau'r sefydliad ar gyfer dewis a defnyddio deunyddiau, a sut mae dehongli a chael gwybodaeth dechnegol o wahanol ffynonellau:

- lluniadau
- manylebau
- datganiadau dull
- rhestrau
- rhaglenni gwaith
- gwybodaeth y gwneuthurwr
- safonau'r diwydiant.

1.4 Bydd dysgwyr yn deall peryglon ac yn nodi mesurau rheoli addas yn gysylltiedig â'r amserlen waith a'r deunyddiau sy'n gysylltiedig â gosod allan, gosod a gorffen arwynebau teils waliau a lloriau.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae diogelu'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas rhag difrod yn unol â'r fanyleb a roddwyd, gan gynnwys diogelu rhag difrod o weithgareddau cyffredinol yn y gweithle, galwedigaethau eraill a thywydd garw.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae dilyn datganiadau dull ac asesiadau risg i nodi cyfarpar / dillad diogelu personol cywir a chyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn fedrus yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros roi gwybod i'r lefel briodol o awdurdod am ddamweiniau, peryglon a damweiniau fu bron â digwydd yn y gweithle.

Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gosod adnoddau allan gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth dechnegol, gan gynnwys canolbwyntiau, lefelau a goleddfau o'r datwm, llinellau canol, patrwm teils a'r dull 3: 4: 5.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y dulliau ar gyfer gosod allan teils wal a llawr, a'u pwrpas.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r dulliau ar gyfer gosod a gorffen teils, a'u pwrpas, gan gynnwys:

- soffitiau (pennau)

- ciliau
- silffoedd ffenestri
- torri o amgylch agorfeydd
- ffurfio tyllau ar gyfer gwasanaethau a lefelau a goleddfau

Bydd dysgwyr yn gwybod am y dulliau o osod systemau gwresogi dan y teils, ceblau trydan a dŵr poeth drwy bibellau.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol ddulliau o osod adnoddau teilsio.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis offer a chyfarpar wrth amlinellu lefelau i sicrhau cywirdeb a throsglwyddo lefelau yn gywir.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol brosesau ar gyfer cymysgu deunyddiau wrth deilsio waliau a lloriau.

Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldeb dros y canlynol:

- cwblhau tasgau gwaith cysylltiedig a bennwyd yn unol â safon ofynnol y diwydiant a'r amserlenni a bennwyd gan raglen waith gynlluniedig
- effeithiau peidio â chwrdd â therfynau amser a gynlluniwyd
- rhoi gwybod am broblemau sydd wedi'u canfod, a chyfathrebu yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal gwiriadau ymlaen llaw ar offer llaw ac offer pŵer i sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio, ac yn addas i'r diben wrth deilsio waliau a lloriau.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio offer a chyfarpar yn unol â'r dull gweithio, a sut mae eu storio a'u cynnal a'u cadw yn ystod, ac ar ôl eu defnyddio.

Offer a chyfarpar:

- Offer llaw: torrwr teils â llaw, trywel teilsio (deintiog, trywel fesur/bwced), olwyn gyllyll torri ar gyfer teils, gwn selio, llif teils, morthwyl(ion), carreg carborwndwm/bloc rhwbio, mynawydau, plocyn meitro, lefel saer, cŷn, ffeiliau, offer trimio, haclifiau, sgridreifar, cylyll â llafr gudd, tâp mesur/pren mesur, llinell sialc, ymyl syth, sgwaryn, gwesgi, fflôt growtio, fflôt sbwng, crafwr, offeryn sgorio gyda phen carbid, teclyn cloi a morthwyl teilsio carbid
- Offer pŵer: torrwr teils trydanol, padl a dril cymysgu, dril di-wifr a thorwyr teils twll craidd, peiriant llifanu onglau symudol
- Offer ategol: sbwng, rholer a hambwrdd, brwshys, estyll sefydlogi/pren mesur, hoelion/sgriwiau, cadachau sgleinio, bwcedi, cymhorthion symud a thrin a gorchuddion gwarchodol.

Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn effeithlon ac yn unol â'r fanyleb

Meini Prawf

3.1 Dangos y sgiliau gwaith i fesur, gosod allan, stripio, torri allan, tynnu, atgyweirio, defnyddio, lleoli, diogelu a gorffen

3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol i:

- cymysgu a defnyddio deunyddiau
- gosod teils ar arwynebau wal fertigol, llorweddol ac ar oleddf yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddwyd ar gyfer:
 - waliau
 - ciliau
 - silffoedd a soffitiau (e.e. drysau a ffenestri)
 - gosod ategolion addas
- gosod teils ar arwynebau wal fertigol, llorweddol ac ar oleddf yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddwyd ar gyfer:
 - lloriau
 - draenio llawr ac allfeydd
 - grisiau a'r wynebau
 - gosod ategolion addas

Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gallu cynnal gwiriadau ymlaen llaw i baratoi'r cefndir ar gyfer cynhyrchu arwynebau gwastad a syth/lefel ac anhyblyg.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis adnoddau addas i deilsio waliau a lloriau.

Bydd dysgwyr yn gallu gosod teils ar wahanol waliau a lloriau gan ddefnyddio cyfarpar mesur a lefelu priodol.

Bydd dysgwyr yn gallu gosod teils ar waliau a lloriau, gan gynnwys rhai: fertigol, llorweddol ac ar oleddf.

Bydd dysgwyr yn gallu gosod teils ar ddyluniadau waliau a lloriau, gan gynnwys: soffitiau (pennau), ciliau, silffoedd, colofnau sydd wedi'u hatodi, torri o gwmpas agorfeydd, ffurfio tyllau ar gyfer gwasanaethau a socedi.

Bydd y dysgwyr yn gallu torri teils yn syth ac yn onglog.

Bydd dysgwyr yn gallu gosod proffiliau teils (trimiau) ac uniadau symud.

Bydd dysgwyr yn gallu growtio (growt sment a resin) a gorffen teils i gwblhau waliau a lloriau i gynnwys soffitiau (pennau), ciliau, silffoedd a selwyr silicôn.

Bydd dysgwyr yn gallu gwneud gwaith atgyweirio a chywiro i gefndiroedd diffygiol a rhai sydd wedi methu'n sylweddol gan gynnwys: llwch, cracio, gwahanu, colli cryfder, deunyddiau ac ategolion o ansawdd gwael, paratoi a bondio annigonol, ac atgyfnerthiadau, pilenni a chydannau wedi'u lleoli'n anghywir.

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu dewis, defnyddio a chynnal a chadw gwahanol fathau o offer llaw, offer pŵer a chyfarpar cysylltiedig i:

- mesur, cymysgu
- gosod/marcio allan
- torri teils
- gosod, lleoli, diogelu teils
- gorffeniad
- man gweithio glân.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, trafod yn ddiogel, pentyrru a storio adnoddau gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis cyfarpar diogelu personol priodol.

Bydd dysgwyr yn gallu diogelu mannau cymysgu, teilsio a'r ardaloedd cyfagos rhag difrod.

Bydd dysgwyr yn gallu cynnal ardal waith lân a gwaredu gwastraff yn unol â chanllawiau amgylcheddol.

Bydd dysgwyr yn gallu rhoi gwybod am ddifrod a diffygion yn unol â pholisi'r sefydliad.